

Adroddiad blynyddol a datganiadau ariannol

2023/24



Swyddogion a chynghorwyr proffesiynol

Cyfarwyddwyr

Gareth Bullock OBE Cadeirydd

Giles Thorley Prif Weithredwr

Roger Jeynes Cyfarwyddwr Anweithredol

Iraj Amiri Cyfarwyddwr Anweithredol

Rhys Jones Cyfarwyddwr Anweithredol

Kate Methuen-Ley Cyfarwyddwr Anweithredol

Robert Lamb Cyfarwyddwr Anweithredol

Iestyn Evans Cyfarwyddwr Anweithredol

Dianne Walker Cyfarwyddwr Anweithredol

David Staziker Prif Swyddog Ariannol

Elizabeth Hitchings Ysgrifennydd y Cwmni

Swyddfa gofrestredig

Uned J, Pentref Busnes Iâl,
Ellice Way,
Wreccsam
LL13 7YL

Bancwyr

Barclays,
6ed Llawr,
5 Sgwâr Callaghan,
Caerdydd
CF10 5BT

Archwilwyr

Forvis Mazars LLP,
Archwilydd Statudol,
30 Old Bailey,
Llundain
EC4M 7AU



Pwrrpas, cenhadaeth a gwerthoedd

Pwrrpas

Gwireddu uchelgeisiau a sbarduno
posibiliadau i bobl, busnesau a
chymunedau yng Nghymru.

Cenhadaeth

Datgloi'r potensial yn
economi Cymru drwy gynyddu
cyflenwad a hygyrchedd cyllid
cynaliadwy ac effeithiol.

Gwerthoedd

- Cydweithio clyfar
- Egni entrepreneuriaidd
- Empathi gwrthrychol
- Cyfrifoldeb ymwybodol

Cynnwys

Pwrpas, cenhadaeth a gwerthoedd	3
Adroddiad Strategol	5
Uchafbwyntiau perfformiad	6
Datganiad y Cadeirydd	8
Adroddiad y Prif Weithredwr	11
Adroddiad y Prif Swyddog Ariannol	15
Gweithio gyda Llywodraeth Cymru	27
Pwy ydym ni a beth rydym ni'n ei wneud	29
Egwyddorion buddsoddi	30
Amcanion a thargedau 2022/27	31
Ein cronfeydd a'n gwasanaethau	33
Adroddiad y Cyfarwyddwr Buddsoddi	34
Cynnydd yn erbyn ein hamcanion strategol 2022/27	38
Craidd: Darparu cyllid dyled ac ecwiti gydag effaith gymdeithasol	38
Ar gynnydd: Hyrwyddo a datblygu dyfodol gwyrdd yng Nghymru	55
Gweithredol: Rhagoriaeth cyflawni, cwsmeriaid yn gyntaf, cynaliadwyedd ariannol	57
Adroddiad am fuddsoddi ag effaith	60
Adran 172 (1)	64
Rheoli Risg	70
Adroddiad Llywodraethu	87
Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol	115
Datganiadau Ariannol	124


Adroddiad strategol




Uchafbwyntiau perfformiad

Mae dangosyddion perfformiad ariannol allweddol (y swm a fuddsoddwyd) a thri dangosydd perfformiad heb fod yn ariannol (nifer y buddsoddiadau, swyddi a gafodd eu creu/diogelu a chyd-fuddsoddiad) y Grŵp dros y tair blynedd diwethaf yn ymddangos yn y siartiau isod:


Cyfanswm buddsoddiad
blynyddol




Swyddi wedi'u creu
neu'u diogelu



Cyd-fuddsoddiad (£m)



Nifer y busnesau



Perfformiad blynyddol

Mae'r prif fetrigau eraill o berfformiad 2023/24 yn cynnwys:

430 491

Nifer y busnesau

Nifer y buddsoddiadau

£254,997

Maint cyfartalog buddsoddiadau




207

Uned tai



281

Nifer y cydweithwyr



25,263

Troedfedd sgwâr o ofod
eiddo masnachol



91

NPS® cwsmer



£37.7m

Cyllid datblygu eiddo



60

NPS® gweithwyr

Datganiad y Cadeirydd

Cyhoeddwyd ein hail strategaeth pum mlynedd yn 2022. Roedd y strategaeth honno'n nodi amcanion strategol clir gyda thargedau gweithredol a oedd yn canolbwyntio ar ddarparu cyllid dyled ac ecwiti gydag effaith gymdeithasol, hyrwyddo a datblygu dyfodol gwyrdd yng Nghymru, a sicrhau rhagoriaeth cyflawni a chynaliadwyedd ariannol gyda'r nod o ddatgloi potensial yn economi Cymru.

Felly rwy'n falch o adrodd ein bod, yn 2023/24, wedi gweld cynnydd da o ran cyflawni'r nodau strategol hynny gyda 430 o fusnesau yng Nghymru yn cael budd o £125.2 miliwn o gyllid dyled ac ecwiti, gan greu neu ddiogelu 4,406 o swyddi. Rydym yn hyderus y gallwn gyflawni ein targedau sylfaenol ar gyfer 2022/27. Unwaith eto, rwy'n diolch i Giles Thorley, ein Prif Weithredwr, a'n tîm rheoli profiadol am eu gwaith caled a'u hymroddiad yn erbyn cefndir lle bu pob un o'r prif economïau yn brwydro i sicrhau twf cyson.

Mae parhau i ehangu a thyfu'r hyn rydym yn ei wneud, a'i wneud yn effeithiol, mewn amgylchedd byd-eang o ansefydlogrwydd geowleidyddol, cyfraddau llog uchel a thwf isel yn brawf o wytnwch ac ymrwymiad yr entrepreneuriaid sydd angen ein cyllid i ddechrau a thyfu eu busnesau. Eu penderfyniad a'u hagwedd gadarnhaol sy'n llywio popeth a wnawn.

Tîm Cymru

Fel buddsoddwr masnachol, rydym yn ymateb i'r galw yn y farchnad i greu effaith gadarnhaol yn economi Cymru. Rydym yn rhan greiddiol o 'Dim Cymru', ac yn helpu i hyrwyddo a datblygu Cymru fel lle deniadol i fyw, astudio, gweithio a buddsoddi. Yn wir, ein cylch gwaith gan Lywodraeth Cymru yw parhau i fod yn hyblyg ac yn ymatebol i anghenion busnes, ymestyn cyfalaf tymor estynedig, llywio cynhwysiant ariannol a chydaddoldeb gymdeithasol. Mae hyblygrwydd ac ymatebolrwydd yn ein galluogi i newid yn ôl

yr angen, yn barod i fanteisio ar gyfleoedd newydd wrth iddynt godi, gan gynnwys arloesedd a pholisïau newydd y llywodraeth.

Rydym yn defnyddio ein safle a'n dylanwad i hyrwyddo newid cadarn a chymesur i ddyfodol gwyrddach drwy hyrwyddo'r economi werdd. Cymeradwyodd y Bwrdd ein strategaeth cynaliadwyedd newydd ym mis Mawrth 2024. Mae'n darparu tryloywder o ran ein hagwedd at gynaliadwyedd, gan sicrhau llesiant cenedlaethau'r dyfodol drwy ymgorffori ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant yn ein penderfyniadau corfforaethol ac ariannol.

Nid ydym yn caniatáu i'r gorau fod yn elyn daioni. Strategaeth realistig a phragmatig ydy hon sy'n rhoi cynaliadwyedd wrth galon ein hamcanion corfforaethol a rheolaeth portffolio buddsoddi sy'n tyfu. Mae hyn nawr yn cynnwys ystod o gronfeydd busnes gwyrdd, gan gynnwys y Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd sy'n cynnig cyfraddau llog gostyngol a chyfalaf tymor estynedig i gefnogi busnesau sy'n ymgymryd â phrosiectau effeithlonrwydd ynni a datgarboneiddio. Y cwmni cyntaf i gael budd o'r gronfa newydd arloesol hon ym mis Mehefin 2023 oedd y cyfanwerthwr nwyddau rhodd Something Different Limited. Mae bellach yn defnyddio benthyciad gwerth £1.2 miliwn gan y cynllun i osod 2,200 o baneli solar newydd ar ei warws 158,000 troedfedd sgwâr yn y Parc Menter ar Upper Fforest Way, Abertawe.

Bodloni'r galw yn y farchnad

Mae ein gallu i ymateb i newid yn amodau'r farchnad drwy addasu cymysgedd a chyfansoddiad cyllid, yn ogystal â dulliau marchnata a datblygu busnes, wedi bod yn ffactor pwysig yn ein perfformiad eleni.

Ein pwrpas, fel cyllidwr bwlch, yw cefnogi cyfleoedd economaidd drwy sicrhau bod cyllid ar gael i fusnesau hyfyw os bydd methiant yn y farchnad. Mae ein prisiau'n deg i adlewyrchu risg ac annog y sector preifat i gydgyllido lle bynnag y bo modd. Gan fod y banciau prif ffrwd, sef prif gyfranogwyr y farchnad yn ein sector mentrau micro-i-ganolig, yn ymddangos fel petaent yn fwyfwy gofalus o ran maint a sector, mae maint y ddêl ar gyfartaledd wedi cynyddu, ac mae bellach bron â chyrraedd £255,000 gyda phortffolio cwsmeriaid sydd wedi tyfu i dros 3,000.

Cyllido ôl-UE

Cafodd ein rhagflaenydd, Cyllid Cymru, ei greu'n wreiddiol yn 2000 fel cyfrwng i ddefnyddio Cyllid Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Llwyddodd i fuddsoddi ac, yn y pen draw, ad-dalu ei offeryn ariannol yr UE cyntaf yn unol â'r amserlen, sef Cronfa JEREMIE Cymru gwerth £157 miliwn.

Dilynodd Cronfa Fusnes Cymru yn 2016, gyda £136 miliwn i ddechrau, ond ar ôl casglu mwy o gyllid yr UE, fe gaeodd ym mis Rhagfyr 2023 gyda buddsoddiad llawn o £216 miliwn. Mae adroddiad annibynnol wedi cadarnhau ei fod wedi cynorthwyo 474 o fusnesau sydd wedi creu 3,583 o swyddi ac wedi diogelu 5,324 o swyddi hyd yma. Denodd gyd-fuddsoddiad sector preifat o £332 miliwn a gafodd effaith economaidd o £548 miliwn ar yr economi yng Nghymru. Aeth dros 70% o gyfanswm y cyllid i fusnesau yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, sef ardaloedd sy'n cael eu cydnabod fel y rhannau mwyaf economaidd ddifreintiedig yng Nghymru.

Roedd y sylfaen hon wedi paratoi'r ffordd ar gyfer y Banc Datblygu fel y mae nawr, sef banc benthyciaid actif a phrofiadol iawn a rheolwr buddsoddi ecwiti gyda gweithredwr proffesiynol a hyfedr. Drwy fwy

o gydweithio gydag adrannau'r llywodraeth dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi ehangu'r ystod o gronfeydd sy'n ein galluogi i weithredu ym mhob sector bron o economi Cymru a chynnig mwyfwy o atebion wedi'u teilwra i fynd i'r afael ag anghenion penodol. Mae enghreifftiau da o hyn yn cynnwys y Gronfa Safleoedd Segur sy'n defnyddio cymysgedd o grantiau a benthyciadau i adfer safleoedd sy'n peri problemau y gellir eu datblygu'n fasnachol ar gyfer tai, ynghyd â'r cynllun arloesol diweddar, sef Cymorth i Aros - Cymru sy'n darparu benthyciadau rhannu ecwiti i helpu teuluoedd sy'n wynebu anawsterau ariannol i aros yn eu cartrefi.

FW Capital yw'r endid sydd wedi'i reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol yn y Grŵp. Fel arbenigwr ym maes cyllid busnesau bach a chanolig ac un o reolwyr cronfeydd rhanbarthol mwyaf y DU, mae FW Capital hefyd yn cynorthwyo busnesau yng Nghymru erbyn hyn, yn ogystal â rhai rhanbarthau yn Lloegr, gydag amrywiaeth o gronfeydd cyfalaf newydd gan gynnwys £30 miliwn ar gyfer Cronfa Fuddsoddi Cymru, £19 miliwn ar gyfer Cronfa Fuddsoddi y De Orllewin, £20 miliwn ar gyfer Cronfa Hyblyg Teesside a £75 miliwn ar gyfer Cronfa Fuddsoddi Northern Powerhouse II. Daw rhywfaint o'r cronfeydd hyn o Fanc Busnes Prydain y mae gennym berthynas gadarn a chynhyrchiol gydag ef. Mae'r gweithgareddau hyn yn cryfhau sylfaen profiad ac arbenigedd y Banc yn ei gyfanrwydd.

Yn gyffredinol, boed yn ficro-fenthyciadau ar gyfer busnesau newydd, buddsoddiad cychwynnol ar gyfer mentrau technoleg risg uchel, gwelliannau i wella'r cynnig twristiaeth yng Nghymru, datblygiadau tai newydd, benthyciadau gwyrdd i leihau ôl-troed carbon busnesau, cyllid ecwiti ar gyfer busnesau twf cyflym neu fenthyciadau model buddsoddi cydfuddiannol ar gyfer buddsoddi mewn isadeiledd, mae'r Banc Datblygu wedi newid ac mae'n parhau i newid mewn ffyrdd cadarnhaol ac arloesol. Mae mwy i'w wneud, a bydd wastad fwy i'w wneud, ond rydym yn cefnogi busnesau a chymunedau ar hyd a lled y wlad.

Ein pobl

Un o'n cryfderau mwyaf yw ein diwylliant cadarnhaol. Rydym yn cael ein harwain gan bwrpas ac yn gweithio'n galed i feithrin sefydliad cynhwysol a gwirioneddol amrywiol sy'n adlewyrchu'r cymunedau a wasanaethwn. Mae ein cymwyseddau yn cyd-fynd â gwerthoedd ein cwmni. Mae ein proses rheoli perfformiad yn sbarduno ein nodau ac yn cefnogi ein cydweithwyr i ffynnu a thyfu wrth iddynt weithio ar amrywiaeth eang o gytundebau sy'n cynnig profiad dwys ac ystyrlon ar draws amrywiaeth o sectorau a meintiau.

Fel unrhyw sefydliad, mae'n rhaid i ni reoli cyfraddau gadael swyddi, ond mae ein dull o ddatblygu a chadw talent yn golygu bod gennym dîm rhagorol sy'n rhannu ymrwymiad gwirioneddol i gyflawni uchelgeisiau ein cyfranddallwyr a chefnogi datblygiad economaidd yng Nghymru.

Ar ben hynny, mae ein Bwrdd yn ymgysylltu'n weithredol â rheolwyr, ac mae pob un ohonynt wedi ymrwymo'n llwyr i sicrhau effaith, mynd i'r afael â heriau a manteisio ar gyfleoedd. Yn wir, roedd thema graidd ein Diwrnod Strategaeth y Bwrdd yn canolbwyntio ar beth arall y gallwn ei wneud, a ble i wella canlyniadau posibl. Mae hyn yn cynnwys cadw llygad gofalus ar y bygythiadau a'r cyfleoedd sy'n dod i'r amlwg yn sgîl arloesiadau fel deallusrwydd artifisial.


Oes newydd

Fe ddaw fy nghyfnod fel Cadeirydd Banc Datblygu Cymru i ben ym mis Medi pan fyddaf yn trosglwyddo'r awenau i Sally Bridgeland.

Rydym wedi dod yn bell ers i ni sefydlu Banc Datblygu Cymru ym mis Hydref 2017.

Roeddwn wedi bod yn Gadeirydd Cyllid Cymru ers dwy flynedd bryd hynny. Fel banc datblygu cyntaf y DU, roeddem yn dîm o tua 140 gydag oddeutu £440 miliwn ar gael i fuddsoddi mewn busnesau yng Nghymru. Rydym wedi tyfu i fod yn rym sylweddol yn economi Cymru, yn sefydliad datblygiad economaidd craidd ac yn ganolfan ragoriaeth ar gyfer buddsoddi a chyllid busnesau bach a chanolig. Heddiw, mae gennym tua 280 aelod o staff ac mae gennym gyllid wedi'u fuddsoddi a chyllid buddsoddadwy o oddeutu £2 biliwn.

Rwy'n falch o bopeth rydym wedi'i gyflawni yn ystod fy nghyfnod fel Cadeirydd, a hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at ein taith hyd yma. Mae gan y Banc Datblygu dîm rheoli hynod dalentog a sefydlog erbyn hyn. Dymunaf bob llwyddiant iddynt wrth wireddu uchelgeisiau a sbarduno posibiliadau i bobl, busnesau a chymunedau yng Nghymru.



Gareth Bullock OBE
Cadeirydd



Adroddiad y Prif Weithredwr

Mewn economi heriol a nodweddir gan ansefydlogrwydd yn y marchnadoedd ariannol, dirwasgiad ar draws y DU, chwyddiant uchel a chyfraddau llog uchel, mae canlyniadau 2023/24 wedi bod yn foddhaol. Yn gyffredinol, rydym wedi gweld ein ffigurau buddsoddi yng Nghymru yn tyfu o £124.2 miliwn yn 2022/23 i £125.2 miliwn yn 2023/24, o gymharu â tharged o £112 miliwn.

Darparu cyllid dyled ac ecwiti gydag effaith gymdeithasol.

Roedd trydydd adroddiad chwarterol Dirnad Economi Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 yn cynnwys sylwadau ar y cyd-destun economaidd lleol a byd-eang a'r amodau sy'n effeithio ar gyflenwad a'r galw am gyllid yng Nghymru. Roedd nifer y cytundebau buddsoddi ecwiti a gyhoeddwyd ledled y DU yn ystod 2023 wedi gostwng 25% o'r flwyddyn flaenorol, ac roedd y cyfanswm a godwyd wedi gostwng tua hanner.

Mae'n ymddangos yn glir bod cyllid cam cynnar iawn yn brin ledled y DU. Mae buddsoddwyr yn wyliadwrus ac mae cronfeydd sefydliadol yn rhoi eu harian mewn marchnadoedd sy'n perfformio'n well, fel yr Unol Daleithiau a'r Undeb Ewropeaidd, sy'n golygu bod marchnad y DU yn tangyflawni i raddau sylweddol o'i gymharu â gweddill y byd. Mae'r tueddiadau macroeconomaidd hyn yn effeithio ar barodrwydd pobl i fuddsoddi am fod maint y wobwr yn llai ac mae'r archwaeth risg yn llai.

Mae'r heriau hyn yn y farchnad wedi cael effaith uniongyrchol ar ein perfformiad o ran cyd-fuddsoddi a buddsoddi ecwiti. Roedd gostyngiad o £10 miliwn yn ein buddsoddiadau ecwiti yn 2023/24 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Gwelsom hefyd ostyngiad yn ein ffigurau cyd-fuddsoddi o £114.5 miliwn i £50.1 miliwn (roedd y flwyddyn flaenorol wedi elwa ar un trafodiad sylweddol a oedd wedi cynhyrchu cyd-fuddsoddiad o £32 miliwn). Er gwaethaf perfformiad eleni, rydym yn

dal ar y trywydd iawn yn erbyn ein hamcan o £100 miliwn o fuddsoddiadau ecwiti erbyn 2027. Ar ben hynny, mae cymhareb y buddsoddiad i gyd-fuddsoddiad dros y ddwy flynedd ddiwethaf ers dechrau ein cynllun corfforaethol ar gyfer 2022/27 yn dal yn agos at ein targed o 1:1, sef 1:09.

Rwy'n falch bod Angylion Buddsoddi Cymru wedi perfformio'n dda gyda chynnydd o 48% ar y lefelau buddsoddi a hwyluswyd o'i gymharu â 2022/23. Roedd nifer y buddsoddiadau angylion unigol wedi codi o 102 yn 2022/23 i 119 yn 2023/24. Mae hyn er gwaethaf gostyngiad sylweddol yn ein sylfaen fuddsoddwyr ar ôl cyflwyno deddfwriaeth newydd ledled y DU sydd wedi arwain at reolau newydd ar gyfer buddsoddwyr 'soffistigedig' Gwerth Net Uchel hunanardystiedig.

Fel buddsoddwr tymor estynedig, rydym yn canolbwyntio ar ddarparu cyllid hygyrch i gefnogi cynaliadwyedd hirdymor y busnesau rydym yn eu hariannu. Mae busnesau newydd cyn-refeniw, fel Awen Oncology, yn rhan bwysig o'n portffolio ecwiti. Fel cwmni deillio o Brifysgol Bangor a Phrifysgol Caerdydd, mae Awen Oncology yn datblygu ystod arloesol o gyffuriau gwrth-ganser sy'n targedu sawl math o ganser. Mae'r cwmni wedi'i leoli yn M-Sparc yng Ngaerwen, Ynys Môn, ac fe'i sefydlwyd yn wreiddiol gyda grant Cancer Research UK. Rydym bellach wedi gwneud buddsoddiad ecwiti chwe ffigur ochr yn ochr â'r cyd-fuddsoddwr Start Codon.

Rydym hefyd wedi gweld llwyddiant o ran crisialu buddsoddiadau mewn sawl busnes buddsoddi hirsefydlog gyda chwe ymadawiad llwyddiannus yn ystod y flwyddyn â gwerth o £4.7 miliwn. Mae'r ymadawiadau hyn i gyd yn enghreifftiau o sut rydym yn gweithredu fel buddsoddwr tymor estynedig ac yn cynhyrchu elw y gellir ei ailgylchu i'r genhedlaeth nesaf o entrepreneuriaid, gan greu ased gwerth am arian hirdymor i Gymru.

Gwaddol Cronfa Fusnes Cymru

Lansiwyd Cronfa Fusnes Cymru yn 2016 gyda maint y gronfa yn £136 miliwn yn y lle cyntaf. Daeth i ben ym mis Rhagfyr 2023 ar ôl buddsoddi £216 miliwn.

Gan ddarparu dyled ac ecwiti, gweithredodd y gronfa yn ystod cyfnod lle gwelwyd sawl sioc economaidd ddiffiniol; pandemig Covid-19, Brexit a'r argyfwng costau byw. Cafodd pob un o'r rhain effaith fawr ar yr economi a'r galw a'r cyflenwad cyllid ar gyfer busnesau bach a chanolig. Sicrhodd ein dull rhagweithiol a threfnus fod y gronfa'n parhau i fod yn berthnasol ac yn hygyrch, gan lenwi bwlch amlwg yn y farchnad lle ystyrir bod y risg o fethiant yn rhy uchel a'r elw yn rhy isel ar gyfer buddsoddiad gan y sector preifat. Mae ein perfformiad buddsoddi cryf yn golygu y bydd Cronfa Fusnes Cymru yn gadael mwy na £104 miliwn a all gyfrannu at fuddsoddiadau yng nghronfeydd y dyfodol. Bydd yr arian hwn ar gael i'w ailgylchu mewn buddsoddiadau yng Nghymru yn y dyfodol.

Twf gwyrdd sy'n canolbwyntio ar bobl

Rydym yn mynd ati'n barhaus i wella ein gwybodaeth, ein sgiliau a'n dealltwriaeth o effeithiau newid yn yr hinsawdd a rôl cyllid wrth ddarparu atebion ariannol arloesol sy'n hybu'r uchelgeisiau ar gyfer dyfodol gwyrdd yng Nghymru.

Mae'r Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd yn mynd o nerth i nerth gyda 18 cytundeb gwerth £3.3 miliwn wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn.

Ac mae'r Cymhelliad Cartrefi Gwyrdd yn cynnig gostyngiad o hyd at 2% ar ffioedd benthyciadau i ddatblygwyr preswyl sy'n bodloni safonau gwyrdd. Rwyf hefyd yn falch o ddweud ein bod wedi cwblhau ein cytundeb cyllido strategol mwyaf erioed mewn syndicet gyda Barclays. Mae'r pecyn cyllido sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd yn galluogi Bluestone Resorts, yn Sir Benfro, i barhau â rhaglen fuddsoddi gynaliadwy fawr sy'n cynnwys datblygu fferm solar pum hectar a fydd yn cynhyrchu 3.2 megawat o drydan adnewyddadwy y flwyddyn, bron i 60% o alw'r gyrchfan.

Mae grwpiau cymunedol, mentrau cymdeithasol, modelau perchnogaeth leol a busnesau bach a chanolig nad ydynt yn gallu cael gafael ar gyllid masnachol yn datblygu prosiectau ynni adnewyddadwy bach diolch i gymorth gan ein Cronfa Ynni Lleol gwerth £12.5 miliwn.

Cynyddu llif cyllid

Fel un o'r buddsoddwyr effaith mwyaf gweithredol yn y DU, un o'n cyfrifoldebau yw meithrin a thyfu'r farchnad ariannol. Rydym yn cydweithio'n agos â'r sector preifat a'r sector cyhoeddus i gynyddu llif arian i Gymru, felly rwy'n falch bod ein busnes rheoli cyllid rheoledig, FW Capital, wedi llwyddo i ennill cyllid Banc Busnes Prydain yng Nghymru, De-orllewin Lloegr a Gogledd Lloegr. Rhy'r rhain gyfanswm o £124 miliwn ac maent yn dangos ein gallu i ennill cyfleoedd cystadleuol a masnachol, buddsoddi effaith, a rheoli cyllid ledled y DU.

Mae Cronfa Fuddsoddi Cymru yn cynnig ystod o opsiynau cyllid masnachol gyda benthyciadau rhwng £25,000 a £2 filiwn a buddsoddiad ecwiti hyd at £5 miliwn. FW Capital sy'n rheoli'r gronfa cyllid dyledion £30 miliwn sy'n darparu benthyciadau rhwng £100,000 a £2 filiwn i helpu busnesau i dyfu.

Mae mwy o gyllid yn golygu mwy o gyfleoedd i fusnesau ddechrau, tyfu ac uwchraddio. Ein tasg yw darparu cyllid o'r ffynhonnell fwyaf priodol o gyllid yn gyflym ac yn effeithlon.



Deall a gwella economi Cymru

Mae cynhyrchiant a thwf swyddi yn yr hirdymor yn parhau i fod yn bryder hollbwysig i Lywodraeth Cymru, a dyna pam y sefydlwyd Dirnad Economi Cymru i greu mewnwleidiad annibynnol, cadarn a dibynadwy i helpu i wella economi Cymru a'i deall yn well.

Fel cydweithrediad ymchwil unigryw rhwng y Banc Datblygu, Ysgol Fusnes Caerdydd, Ysgol Fusnes Bangor, y Ganolfan Ymchwil Menter a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, mae Dirnad Economi Cymru yn olrhain cyflenwad cyllid ledled Cymru a'r galw amdano. Mae ein gwaith yn ategu ac yn cydlynu ymchwil ehangach Llywodraeth Cymru a gweithgarwch effaith economaidd.

Gyda'n gilydd, gwnaethom gyhoeddi pedwar adolygiad chwarterol o ddata economaidd sy'n berthnasol i ddatblygiad busnesau bach a chanolig yng Nghymru yn ystod 2023/24. Cafodd adroddiad ar fusnesau sy'n gwneud llawer o waith ymchwil a datblygu yng Nghymru ei gynhyrchu hefyd, gyda chefnogaeth y Ganolfan Ymchwil Menter, ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2024. Dangosodd fod mwy na 2,400 o fusnesau ymchwil a datblygu uchel a chanolig eu maint yng Nghymru yn gwneud cyfraniad sylweddol i economi Cymru.

Roedd y data yn dangos i ni fod cwmnïau sy'n gwneud llawer o waith ymchwil a datblygu yn cynhyrchu cyfran anghymesur o swyddi a throsiant ond, fel y gwelwn ar draws y DU, mae risgiau economaidd a chostau uchel yn rhwystro arloesi. Dadansoddwyd y cydweithio â phrifysgolion hefyd, gyda'r canlyniadau'n dangos mai dim ond 20% o gwmnïau sy'n gwneud llawer o waith ymchwil a datblygu yng Nghymru sy'n cydweithio â phrifysgolion, o'i gymharu â 35% yn yr Alban. Mae'r dadansoddiad hwn nawr yn cael ei ddefnyddio i lywio strategaethau i'r dyfodol er mwyn sicrhau ein bod yn gallu gwella arloesedd, cynhyrchiant a thwf yn ogystal â mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a phobl sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol yn y gymuned fusnes.

Beth sydd o'n blaenau

Mae ein huchelgais i sbarduno posibilïadau ar gyfer busnesau a chymunedau yng Nghymru yn parhau yn 2024/25 wrth i ni ganolbwyntio ar gyrraedd ein targedau cyflawni ar gyfer 2022/27.

Mae cylch gwaith y Banc Datblygu wedi parhau i dyfu wrth i heriau'r farchnad ddod i'r amlwg ac wrth inni chwilio am atebion. Byddwn yn parhau i fynd i'r afael â'r heriau hyn i gynyddu llif arian yng Nghymru drwy ddatblygu atebion cyllid arloesol, hyrwyddo tegwch a meithrin perthynas â chyd-fuddsoddwyr, hyd eithaf ein gallu a'n hadnoddau. Byddwn yn parhau i weithio'n agos â'r holl bartneriaid strategol a rhanddeiliaid a byddwn yn parhau i gefnogi polisi'r Llywodraeth.

Gyda dros 3,000 o gwsmeriaid, byddwn yn ymateb i her cylch gwaith sy'n tyfu'n barhaus yn ogystal â diwallu anghenion esblygol y cwsmeriaid. Rydym yn sefydliad agored a byddwn bob amser yn mynd i'r afael â heriau, anfodlonrwydd neu gwynion yn deg ac yn onest. Mae ein timau yn gweithio ar lawr gwlad mewn cymunedau ar hyd a lled Cymru ac rydym yn ymfalchïo yn ein hagwedd gyfeillgar, ein gwasanaeth personol a'n gwybodaeth leol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod angen cefnogi hyn y tu ôl i'r llenni gyda phrosesau, systemau a llywodraethu cadarn.

Bydd cyflwyno ein porth cwsmeriaid newydd yn nes ymlaen eleni, fel rhan o'n rhaglen trawsffurfio digidol, yn sicrhau gwerth am arian i'r trethdalwr drwy wneud ein gweithrediadau mor effeithlon â phosibl gydag amseroedd ymateb gwell, a llif gwybodaeth cyflymach i'n cwsmeriaid. Ein nod yw lleihau'r amser cyn gwneud penderfyniad a gwella profiad cyffredinol y cwsmer.



Mae'r ymdrech hon i wella'n barhaus a'r awydd i gefnogi datblygiad economaidd yng Nghymru yn dyst i ymrwymiad ac ymroddiad ein tîm. Rydym wedi bod yn ffodus iawn i gael Gareth Bullock OBE fel Cadeirydd dros y naw mlynedd diwethaf; bu'n llywio ein twf ac yn goruchwyllo'r effaith rydym wedi'i chael yn y cymunedau rhanbarthol a wasanaethwn. Mae Gareth wedi bod yn hynod gefnogol i mi fel Prif Weithredwr a'n tîm gweithredol ehangach. Hoffwn ddiolch iddo am ei arweiniad o'r radd flaenaf a'i gyngor rhagorol ac edrychaf ymlaen at groesawu Sally Bridgeland fel ein Cadeirydd newydd ym mis Medi 2024.

Rwy'n siŵr y bydd profiad Sally yn dod â phersbectif a ffordd newydd o feddwl yn ein hymdrechion i gynnal rhagoriaeth o ran cyflawni a chefnogi cynaliadwyedd hirdymor economi Cymru er budd pobl Cymru.

Mae'n fraind i mi gael gweithio gyda bron i 300 o gydweithwyr sy'n cael eu cymell gan yr effaith uniongyrchol rydym yn gobeithio ei chael ar ein cymunedau. Y tu allan i'n gwaith bob dydd rydym yn ymgysylltu â chymunedau lleol drwy ddiwrnodau gwirfoddoli, rasis rhedeg 24 awr a digwyddiadau elusennol, ac rydym wedi codi dros £72,000 ar gyfer yr elusen a ddewiswyd eleni, sef Pancreatic Cancer UK. Hoffwn ddiolch i bob un ohonynt am eu gwaith diflino a'u hysbryd parhaus.

Giles Thorley
Prif Weithredwr

3 Medi 2024



Adroddiad y Prif Swyddog Ariannol

Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi darlun clir o berfformiad ariannol y Grŵp ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024.

Mae ein datganiadau ariannol wedi dod yn fwyfwy anodd eu deall dros y blynyddoedd diwethaf, nid yn unig oherwydd natur amrywiol ein gweithgareddau, ond hefyd oherwydd y safonau cyfrifyddu cymhleth y mae'n rhaid i ni eu defnyddio.

Yn 2023/24, gwnaethom elw Grŵp ar ôl treth o £38 miliwn o'i gymharu â cholled ar ôl treth o £24 miliwn yn 2022/23. Rydym yn deall bod y prif ffigurau hyn yn wahanol iawn a dyna pam ei bod yn bwysig deall y dulliau y mae'n rhaid i ni eu defnyddio wrth gyflwyno ein datganiadau ariannol. Dylid nodi hefyd fod gan Grŵp Banc Datblygu Cymru ddwy ran wahanol i'r busnes:

- Gweithrediadau
- Cronfeydd ar gyfer Buddsoddi

Mae canlyniadau ochr Gweithrediadau ein busnes yn adlewyrchu cyfrifon busnes gwasanaeth traddodiadol a chyson. I'r gwrthwyneb, mae canlyniadau ein gweithgarwch Cronfeydd ar gyfer Buddsoddi yn llawer llai rhagweladwy a gwelwyd eu bod yn hynod o anwadal eu natur o ganlyniad i'r polisiau cyfrifyddu y mae'n rhaid i ni eu defnyddio. Mae llawer o'r ffactorau sy'n cyfrannu at y driniaeth gyfrifyddu, fel amodau macro-economaidd ac amodau masnachu cyffredinol y tu hwnt i'n rheolaeth. Nid yw asesiad blynyddol o berfformiad ariannol ein gweithgarwch Cronfeydd ar gyfer Buddsoddi yn ffordd effeithiol o asesu perfformiad ein cronfeydd. Dim ond pan fydd cronfa'n cau y gellir gwneud hyn mewn gwirionedd.

Nid yw'r ansefydlogrwydd a achosir gan symudiadau cyfrifo nad ydynt yn arian yn effeithio ar y busnes sylfaenol. Rydym yn parhau i allu buddsoddi dros y blynyddoedd nesaf ar y lefelau y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth Cymru a chyllidwyr eraill. Rydym hefyd ar y trywydd iawn i barhau i ad-dalu ein benthyciadau gan Lywodraeth Cymru yn unol â'r amserlen.

Ein blwyddyn ariannol


Yn 2023/24, fe wnaethom elw Grŵp ar ôl treth o £38.0 miliwn o'i gymharu â cholled ar ôl treth o £24.1 miliwn yn 2022/23. Gellir priodoli'r newid yn ein colled Grŵp yn 2022/23 i elw yn 2023/24 i'r amodau macro-economaidd gwell a'r cyfraddau sylfaenol uchel yn ystod y flwyddyn.

Cafodd y gwahaniaeth hwn ei achosi i raddau helaeth gan ostyngiad o £30.4 miliwn yn y symudiad yng ngwerth ein hecwiti ar bapur. Yr enw ar hyn yw colled gwerth teg ecwiti. Disgynnodd o ostyngiad o £30.5 miliwn yn 2022/23 i ostyngiad o £0.1 miliwn yn 2023/24 sy'n adlewyrchu'r amgylchedd macro-economaidd a fu'n gwella yn ystod y flwyddyn. Gwelsom hefyd ostyngiad o £6.4 miliwn yn swm y llog damcaniaethol y mae'n rhaid inni roi cyfrif amdano ar ein benthyciadau gan Lywodraeth Cymru tra bod y llog banc a dderbyniwyd wedi cynyddu £28.8 miliwn o ganlyniad i gyfraddau adneuo uwch.

Mae'r graff isod yn dangos sut mae'r ffactorau hyn wedi effeithio ar berfformiad ein Grŵp dros y tair blynedd diwethaf. Mae'r amserlen hon wedi'i dewis gan mai 2020/21

oedd yr adeg roedd y Grŵp yn broffidiol ddiwethaf. Mae 2023/24 yn wahanol oherwydd y llog banc sylweddol a enillwyd yn ystod y cyfnod (gweler tudalen 18).

Symudiad yng Nghanlyniadau 2020/21 - 2023/24



*Yr elfennau anwadal yw darpariaethau ar ein llyfr benthyciadau, gwerth ecwiti ar bapur a llog damcaniaethol ar fenthyciadau Llywodraeth Cymru.

Dadansoddiad o weithgareddau'r Grŵp

Fel yr eglurwyd, dau faes craidd gweithgareddau ein Grŵp yw Gweithrediadau a Chronfeydd ar gyfer Buddsoddi. Eglurir y rhain isod:

Gweithrediadau		Cronfeydd ar gyfer Buddsoddi	
Pwrpas			
Darparu gwasanaethau rheoli cyllid i gronfeydd trydydd parti ac i'n cronfeydd ein hunain. Mae'r gwasanaethau a ddarperir yn cwmpasu cylch bywyd ein cynnyrch gan gynnwys buddsoddi, monitro parhaus, casglu ad-daliadau ac ymadael yn y pen draw. Mae'r rhan hon o'r busnes hefyd yn cynnwys y gweithgareddau gweithredol parhaus sydd eu hangen i gefnogi ein gwasanaethau rheoli cyllid fel cyfleusterau, TG, cyllid, cyfathrebu ac adnoddau dynol. Mae'r holl weithgarwch sy'n gysylltiedig ag Angylion Buddsoddi Cymru a Dirnad Economi Cymru hefyd wedi'i gynnwys.		Dal arian ar gyfer buddsoddiadau – mae'r holl drafodion sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'n cynhyrchion ariannol yn mynd drwy ochr gyllid y busnes. Mae gan y Grŵp nifer o gronfeydd sy'n cael eu defnyddio i ddarparu benthyciadau, prynu cyfranddaliadau mewn busnesau yng Nghymru neu i ddarparu ecwiti a rennir i brynwyr cartrefi newydd yng Nghymru. Mae'r cronfeydd hyn yn cael eu rheoli'n bennaf gan y Busnes Gweithrediadau.	
Sut mae pob maes yn cynhyrchu refeniw?			
Mae'r refeniw yn cynnwys y ffioedd a dderbyniwyd ar gyfer rheoli cyllid a gwasanaethau dal cronfeydd. Telir ffioedd o'r fath gan y cronfeydd.		Mae refeniw yn cynnwys ffioedd a godir ar gwsmeriaid, y llog a dderbynnir ar fenthyciadau, derbyniadau pan fydd cyfranddaliadau yn cael eu gwerthu neu fenthyciadau rhannu ecwiti a ad-delir, ac enillion neu golledion ar fuddsoddiadau ecwiti sy'n cael eu hailbrisio ar ddiwedd y flwyddyn i'w gwerth (teg/llyfr) cyfredol.	
Beth yw costau pob maes?			
Mae'r costau'n cynnwys gweithwyr, cyfleusterau a gwasanaethau a brynir i mewn (fel TG).		Mae'r costau'n cynnwys ffioedd a delir am wasanaethau rheoli cyllid, darpariaethau ar gyfer colledion ar fuddsoddiadau a chostau rhedeg cronfeydd fel ffioedd cyfreithiol neu ffioedd archwilio.	
Asesu perfformiad			
Bydd adolygiad blynyddol yn dangos a yw'r rhan hon o'r grŵp yn talu ei gostau gweithredol.		Mae oes pob un o'n cronfeydd yn wahanol, a gall amrywio o bump i ugain mlynedd. Mae proffidoldeb a pherfformiad cronfa yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn ac mae'n dibynnu ar ei chyfnod aeddfedu, yn ogystal â'r amgylchedd macro-economaidd. Mae canlyniadau cronfeydd yn cynnwys ansefydlogrwydd a achosir gan symudiadau o un flwyddyn i'r llall mewn asedau a ddelir ar werth teg sy'n amcangyfrifon a heb eu gwireddu. Nid yw adolygiad blynyddol o safle cyfanredol pob un o'n cronfeydd yn ffordd effeithiol o asesu perfformiad cronfa unigol.	

Perfformiad Grŵp Cyfunol

Mae’r dadansoddiad yn Nhabl A isod yn dangos canlyniadau’r meysydd Gweithrediadau a Chronfeydd ar gyfer Buddsoddi a’r perfformiad Grŵp cyfunol cyffredinol.

Mae elw’r Grŵp o £38.0 miliwn ar ôl treth (2022/23 colled o £24.1 miliwn) ar gyfer 2023/24 yn cynnwys elw o £4.9 miliwn (2022/23 £3.5 miliwn) o’r Gweithrediadau ac elw o £33.1 miliwn (2022/23 colled o £27.6 miliwn) o’r Cronfeydd ar gyfer Buddsoddi. Mae’r elw a’r colledion ar gyfer dwy ran y busnes yn cael eu hegluro’n fanylach yn Nhablau B ac C yn y drefn honno.

Yn y datganiad incwm cyfunol, mae elw’r Grŵp ar ôl treth yn cael ei ddadansoddi rhwng elw o £32.6 miliwn (2022/23 colled o £22.8 miliwn) y gellir ei briodoli i Weinidogion Cymru fel ein cyfranddalwyr ecwiti, ac elw o £5.4 miliwn (2022/23 colled o £1.3 miliwn) y gellir ei briodoli i fuddiannau anllywodraethol. Mae hyn yn cynrychioli cyfran yr elw o faes Cronfeydd ar gyfer Buddsoddi y busnes sy’n ddyledus i Gronfa Bensiwn Clwyd o ganlyniad i’w buddsoddiad ecwiti yng Nghronfa Olyniaeth Rheoli Cymru. Gweler Tabl C a’r nodiadau cysylltiedig am fanylion.

Tabl A: Dadansoddiad lefel uchel o ddatganiad incwm cyfunol 2023/24 a 2022/23


	2023/24			2022/23		
	Gweithrediadau £m	Cronfeydd £m	Grŵp* £m	Gweithrediadau £m	Cronfeydd £m	Grŵp* £m
Incwm	49.0	88.4	94.5	41.4	56.9	62.2
Darpariaethau a ryddhawyd/ (a wnaed)	0	(18.2)	(18.2)	0	(16.8)	(16.8)
Newidiadau mewn gwerth ecwiti ar bapur	0	(0.1)	(0.1)	0	(30.5)	(30.5)
Treuliau eraill	(42.8)	(32.6)	(32.5)	(37.9)	(27.9)	(29.7)
Elw/(colled) cyn llog tybiannol Llywodraeth Cymru	6.2	37.5	43.7	3.5	(18.3)	(14.8)
Llog tybiannol ar fenthyciadau Llywodraeth Cymru	0	(2.9)	(2.9)	0	(9.3)	(9.3)
Elw/(colled) ar ôl llog tybiannol Llywodraeth Cymru	6.2	34.6	40.8	3.5	(27.6)	(24.1)
Trethiant	(1.3)	(1.5)	(2.8)	0	0	0
Elw/(colled) ar ôl treth	4.9	33.1	38.0	3.5	(27.6)	(24.1)

*Mae’r ffigurau Grŵp hyn yn llai na chyfanswm ffigurau meysydd Gweithrediadau a Chronfeydd ar gyfer Buddsoddi y busnes yn sgil dileu trafodion rhyng-grŵp rhwng y ddau. Mae cysoniad llawn sy’n dangos sut mae’r trafodiadau rhwng y ddau wedi cael eu dileu wrth gyfuno a rhwng y ffigurau yn Nhabl A uchod ac yn Nhablau B ac C isod. Mae’r datganiad incwm cyfunol wedi’i gynnwys yn Atodiad A yr adroddiad blynyddol a datganiadau ariannol.

Mae’r effeithiau sylweddol ar y newid o golled yn 2022/23 i elw yn 2023/24 yn gymysgedd o eitemau nad ydynt yn arian parod sy’n cynnwys y symudiad yng ngwerth ein hecwiti ar bapur (gwerth teg ecwiti), llog damcaniaethol ar

fenthyciadau Llywodraeth Cymru ac eitemau arian parod sy’n cynnwys llog banc. Mae’r elw yn 2023/24 yn golygu bod treth gorfforaeth yn ddyledus ar yr elw a wnaed gan y Grŵp ar ôl defnyddio’r holl ryddhadau sydd ar gael.

Mae'r graff isod yn crynhoi sut mae'r golled o £24.1 miliwn yn 2022/23 yn symud i'r elw o £38.0 miliwn eleni:



Gostyngiad mewn colled gwerth teg ecwiti

Y gostyngiad mewn colledion gwerth teg ecwiti o un flwyddyn i'r llall yw £30.4 miliwn a'r gostyngiad ei hun yn 2023/24 yw £0.1 miliwn (2022/23 gostyngiad o £30.5 miliwn). Mae'r gostyngiad sy'n sylweddol llai yn 2023/24 yn dangos gwerth portffolio gweddol sefydlog ar ddiwedd y flwyddyn o'i gymharu â dechrau'r flwyddyn, sy'n adlewyrchu'r amgylchedd macro-economaidd gwell.

Mae penderfynu ar werth ecwiti ar bapur yn gofyn am asesiad goddrychol gyda lefelau barn amrywiol sy'n ystyried hylifedd, tybiaethau prisio a'r risgiau sy'n effeithio ar bob buddsoddiad penodol. Mae'r ansicrwydd macro-economaidd parhaus yn y DU yn dylanwadu ar y symudiad yng ngwerth ein hecwiti ar bapur, gan gynnwys effaith yr argyfwng costau byw ynghyd â'r gwrthdaro yn Wcráin a Gaza, chwyddiant, cost ynni a chyfraddau llog. Mae'r newid mewn gwerth

teg yn gyfuniad o enillion a cholledion wedi'u gwireddu a heb eu gwireddu ar fuddsoddiadau ecwiti y mae'r Grŵp yn eu dal yn uniongyrchol. Cynhyrchwyd elw net wedi'i wireddu o £1.6 miliwn wrth waredu nifer o fuddsoddiadau ecwiti, wedi'i wrthbwysu gan golledion net heb eu gwireddu ar ôl ailbrisiad o £1.7 miliwn.

Adroddir ynghylch gwerth teg y buddsoddiadau ecwiti sy'n cael eu dal yn uniongyrchol gan y Grŵp, sef ein hamcangyfrif gorau i bob pwrpas o beth ddylai gwerth yr ecwiti fod ar ddiwedd y flwyddyn. Cyn i IFRS 9 gael ei fabwysiadu o 2019 ymlaen, roedd newidiadau yng ngwerth teg ecwiti yn cael eu dangos yn y datganiad incwm cynhwysfawr arall ac nid oeddent yn effeithio ar broffidioldeb y Grŵp. Mae IFRS 9 yn golygu ein bod yn gorfod dangos newidiadau yng ngwerth teg buddsoddiadau ecwiti yn y datganiad incwm.

Mae gweithredu'r IFRS o 2019 yn arwain at anwadalrwydd yn y canlyniadau y mae'r Grŵp yn adrodd amdanynt, fel y dangosir yn y ffigurau cymharol uchod, yn dibynnu ar sut mae prisiadau'r asedau ecwiti hyn yn newid. Dilynir proses ffurfiol o brisio ecwiti ddwywaith y flwyddyn sy'n cael ei goruchwyllo gan ein Pwyllgor Prisio. Mae'r dulliau a ddefnyddir i bennu gwerth teg yr ecwiti yn ymddangos yn Nodyn 19 y datganiadau ariannol. Mae hwn yn ffigur hynod o gyfnewidiol yn ein datganiadau ariannol.

Mae'r enghraifft ganlynol yn dangos ein dull cyfalaf tymor estynedig a natur anwadal y prisiadau ecwiti ar y datganiad incwm a achoswyd drwy fabwysiadu IFRS 9. Cwblhawyd buddsoddiad ecwiti a dyled cymysg i mewn i fusnes yng Nghymru rhwng 2015 a 2017 a chafodd ei ddal ar gost tan fis Mawrth 2018. Roedd gwerth teg yr ecwiti wedi codi 8% ym mis Medi 2018 ac yna wedi disgyn 26% ym mis Mawrth 2019 yn sgil cynnydd/gostyngiad mewn enillion yn y drefn honno. O fis Medi 2019 ymlaen, oherwydd rhagor o berfformiad gwael, gostyngwyd y prisiad ecwiti i £dim lle arhosodd nes i brynwr strategol gymryd safbwynt gwahanol a phrynu'r busnes yn 2024 a arweiniodd atom yn gwireddu enillion o bum gwaith ein hecwiti suddedig gwreiddiol.

Gostyngiad mewn llog damcaniaethol ar fenthyciadau Llywodraeth Cymru

Rhoddir benthyciadau i'r Grŵp gan Lywodraeth Cymru ar gyfradd llog o 0%. Mae rheolau cyfrifyddu yn mynnu, er gwaethaf y gyfradd llog o 0%, y dylem o hyd gydnabod tâl llog yn ein cyfrifon, sef yr hyn a ddisgrifiwn fel 'llog damcaniaethol'. Er eglurder, nid yw hyn yn cynrychioli llog sy'n daladwy gan y Grŵp i Lywodraeth Cymru, mae'n addasiad cyfrifyddu yn hytrach na symudiad arian parod.

Y gostyngiad mewn llog damcaniaethol ar Fenthyciadau Llywodraeth Cymru yw £6.4 miliwn. Dyma'r gwahaniaeth rhwng y tâl llog damcaniaethol o £2.9m yn 2023/24 a thâl o £9.3 miliwn yn 2022/23. Trafodir hyn yn fwy manwl yn yr adran 'Sylwadau Pellach' ar dudalen 25. Er gwaethaf effaith gadarnhaol gostyngiad mewn llog damcaniaethol ar ein canlyniadau, mae'r gostyngiad o £6.4 miliwn ar

gyfer 2023/24 yn ganlyniad i ostyngiad bach yn y datodiad llog damcaniaethol blynyddol o £0.2m (2023/24 y llog damcaniaethol yw £6.6 miliwn o'i gymharu â £6.8 miliwn yn 2022/23) gyda'r £6.2 miliwn sy'n weddill yn cael ei achosi'n bennaf gan ostyngiad net mewn addaliadau disgwylid mewn rhai cronfeydd llai.

Mae Tabl A uchod yn dangos elw'r Grŵp ar ôl treth o dan driniaeth gyfrifyddu hanesyddol (h.y., tynnu effaith elw damcaniaethol Llywodraeth Cymru) o £43.7 miliwn (2022/23 colled grŵp o £14.8 miliwn), sy'n fwy nodweddiadol o berfformiad sylfaenol y Grŵp ar gyfer y cyfnod adrodd yn yr amgylchedd macro-economaidd gwell.

Cynnydd yn y llog banc a dderbyniwyd

Mae'r cynnydd o £28.8 miliwn mewn llog banc wedi'i achosi'n bennaf gan gynnydd yng nghyfradd llog cyfartalog yn 2023/24 i 4.1% (2022/23 1.6%). £960 miliwn oedd balans cyfartalog y trysorlys yn ystod 2023/24 (2022/23 £685 miliwn). Derbyniwyd llog hefyd ar ddaliadau arian parod tymor byr llai'r Grŵp.

Cynnal Gweithrediadau

Mae'r rhan hon o'r busnes yn darparu gwasanaethau rheoli cyllid i gronfeydd trydydd parti ac i'n cronfeydd ein hunain. Yn ystod y flwyddyn gwnaethom gyflogi 281 gweithiwr ar gyfartaledd o'i gymharu â 265 yn 2022/23 i fuddsoddi a monitro'r cronfeydd rydym yn eu rheoli a darparu'r gwasanaethau cynnal ar gyfer gweithgareddau buddsoddi'r gronfa.

Maes Gweithrediadau'r busnes yw lle mae costau gweithredu'r Grŵp yn digwydd. Felly, mae ei berfformiad yn fwy sefydlog ac yn haws ei ragweld na'r busnes cronfeydd. Mae gweithgareddau codi arian hefyd yn rhan o'r gweithgareddau cynnal. Er mwyn sicrhau bod cronfeydd ar gael yn barhaus, mae adran Gweithrediadau'r busnes yn parhau i chwilio am gyfleoedd newydd i gefnogi polisïau Llywodraeth Cymru drwy greu cronfeydd newydd ac mae'n chwilio am gyllid o ffynonellau eraill.

Mae proffidioldeb cyffredinol wedi cynyddu o un flwyddyn i'r llall, yn bennaf oherwydd y cynnydd o £7.6 miliwn yn yr incwm rheoli cronfeydd. Cafodd hyn ei sbarduno'n bennaf yn sgil dal i fyny â gwerth £4.6 miliwn

mewn ffioedd ar ddwy gronfa sydd bellach yn gwneud elw sy'n golygu bod modd dechrau talu'r ffioedd hyn. Mae busnes Gweithrediadau proffidiol hirdymor yn cefnogi dyheadau cynaliadwyedd y Grŵp.

Tabl B: Dadansoddiad o ddatganiad incwm gwasanaethau 2023/24 a 2022/23

	23/24	22/23	Sylwadau
	£m	£m	
Incwm rheoli cronfeydd	49.0	41.4	Mae'r cynnydd yn ganlyniad i gyfuniad o ffioedd dal i fyny, cronfeydd newydd dan reolaeth, effaith blwyddyn lawn o gronfeydd newydd a ddaeth dan reolaeth yn ystod 2022/23, ac effaith taliadau ychwanegol a wnaed i'r cronfeydd presennol yn ystod 2023/24. Mae'r cynnydd hwn wedi'i wrthbwysu'n rhannol gan ostyngiad mewn ffioedd mewn perthynas â chronfeydd yn symud i'w cam gwireddu (nad yw'n ymwneud â buddsoddi) a rhoi'r gorau i ffioedd ar gronfeydd sy'n cyrraedd diwedd eu hoes. Roedd cronfeydd dan reolaeth y Grŵp ar gyfartaledd yn 2023/24 a 2022/23, gan gynnwys FW Capital, yn £2.4 biliwn a £2.2 biliwn yn y drefn honno, sef cynnydd o 9%. Roedd incwm ffioedd ar gyfartaledd o'i gymharu â chronfeydd dan reolaeth ar gyfartaledd wedi cynyddu ychydig i 2.0% (2022/23 1.9%).
Cyfanswm refeniw	49.0	41.4	
Costau staff	(20.6)	(18.7)	Mae'r cynnydd yn sgil mwy o staff i gynorthwyo â'r gwaith o gyflawni'r gronfa. Mae nifer y gweithwyr ar gyfartaledd wedi cynyddu o 265 yn 2022/23 i 281 yn 2023/24. Mae'r gost gyfartalog am bob gweithiwr wedi codi ychydig yn fwy na CPI 2023/24 y DU, sef 3.2%, o £70,600 i £73,400 (4%).
Costau eraill	(22.2)	(19.2)	Mae'r cynnydd mewn costau gweithredu yn adlewyrchu cynnydd o tua £1 miliwn mewn costau TG. Gan ddileu'r cynnydd hwn, mae'r cynnydd mewn costau eraill yn unol â'r cynnydd yn y cronfeydd dan reolaeth a CPI blynyddol 2023/24 o 3.2%.
Cyfanswm y costau	(42.8)	(37.9)	
Elw cyn treth	6.2	3.5	

Elw a chynaliadwyedd gweithrediadau
Dylid nodi nad yw'r elw a nodir uchod ar gael i'w ailddosbarthu. Mae eisoes wedi'i glustnodi fel rhan o groniad y Grŵp o gronfeydd arian parod gweithredol a gofyniad i gyfrannu £103 miliwn i Gronfa Buddsoddi Hyblyg Cymru rhwng 2025 a 2030. Defnyddir yr elw hwn ochr yn ochr â'r enillion gwaddol o

Gronfa Fusnes Cymru a chronfeydd eraill yn y modd gwireddu fel cronfa JEREMIE Cymru a Chronfa Busnesau Bach a Chanolig Cymru. Enillion y gronfa waddol hon a'r elw cronnus sydd ar gael o'r busnes Gweithrediadau yw oddeutu £106 miliwn ar 31 Mawrth 2024 (£77 miliwn ar 31 Mawrth 2023).

Perfformiad Gweithrediadau yn erbyn cynllun gweithredol blynyddol

Fel y dangosir yn Nhabl B, cynyddodd yr elw cyn treth a gynhyrchwyd gan y busnesau gwasanaeth £2.7 miliwn (77%) o 2022/23, sef gostyngiad o £1.3 miliwn ar elw 2021/22 o £4.8 miliwn. Rhagwelwyd colled fach o £0.5 miliwn yng nghynllun gweithredol blynyddol 2023/24. Roedd y perfformiad gwell wedi'i achosi'n bennaf gan y ffioedd dal i fyny annisgwyl a godwyd, fel y nodwyd uchod. Rydym yn ceisio codi cyfraddau ffioedd rheoli cronfeydd y farchnad i gynhyrchu digon o incwm i dalu ein costau. Rydym yn gadael unrhyw arian mantoli ym mhob cronfa er mwyn buddsoddi mewn rhagor o fusnesau. Mae'r cronfeydd wrth gefn hyn yn galluogi'r Grŵp i weithredu heb Gymorth Grant gan Lywodraeth Cymru a pharhau i ariannu ei hun, sef un o brif amcanion Banc Datblygu Cymru.

Gallwn ragweld incwm a gwariant maes Gweithrediadau'r busnes gyda sicrwydd rhesymol am y tair blynedd nesaf. Mae'n dangos bod y rhan hon o'r busnes yn parhau i fod mewn sefyllfa elw cronnus. Mae hyn yn golygu ein bod yn gallu gwneud ein datganiad hyfywedd hirdymor dros y tair blynedd nesaf yn Adroddiad y Cyfarwyddwr, ni waeth a yw rhan Cronfeydd ein busnes mewn elw neu golled.

Perfformiad Cronfeydd ar gyfer Buddsoddi

Mae'r Grŵp yn derbyn arian gan fuddsoddwyr gan gynnwys Gweinidogion Cymru, Banc Busnes Prydain a Chronfa Bensiwn Clwyd. Rydym yn buddsoddi'r rhain yn unol â'r canllawiau sydd wedi'u gosod, yn casglu ad-daliadau, ac yna naill ai'n ad-dalu'r buddsoddwr neu'n ail-fuddsoddi'r ad-daliadau mewn cronfeydd newydd neu gronfeydd sy'n bodoli'n barod (gweler yr adran elw a chynaliadwyedd Gweithrediadau uchod). Amlinellir ehangder y cronfeydd rydym yn ei gynnig ar dudalen 33 yr adroddiad strategol. Yn ystod y flwyddyn, derbyniwyd cyllid newydd o £30.4 miliwn gan Lywodraeth Cymru i gefnogi eu blaenoriaethau o'i gymharu â £5.1 miliwn yn 2022/23.

Mae'r perfformiad yn Nhabl C (dros y dudalen) yn adlewyrchu canlyniadau cyfun 16 o gronfeydd buddsoddi y mae'r maes Gweithrediadau'n eu rheoli, a chronfa benthyciadau rhannu ecwiti Cymorth i Brynu – Cymru ('HTB-W').

Mae'r maes Cronfeydd ar gyfer Buddsoddi yn nodi elw ar ôl treth o £33.1 miliwn eleni o'i gymharu â cholled ar ôl treth o £27.6 miliwn yn y flwyddyn flaenorol. Fel y nodwyd yn y crynodeb lefel uchel, y prif ffactorau sy'n sbarduno'r symudiad hwn yw'r cynnydd mewn llog banc a'r gostyngiad mewn colledion ecwiti ar bapur.



Tabl C: Dadansoddiad o ddatganiad incwm cronfeydd 2023/24 a 2022/23

	23/24	22/23	Sylwadau
	£m	£m	
Ffioedd a dderbyniwyd	3.8	5.0	Mae'r ffioedd a dderbyniwyd yn cynnwys ffioedd trefnu a godir ar fenthyciadau yn ogystal â ffioedd cyfreithiol a diwydrwydd dyladwy a adenillwyd. Mae gwerth y ffioedd a godir yn dibynnu ar faint a chymhlethdod y cytundeb. Mae'r gostyngiad o un flwyddyn i'r llall yn adlewyrchu gostyngiad yn y ffioedd a godir ar gwsmeriaid.
Difidendau ac incwm llog	19.2	14.6	Mae incwm llog wedi cynyddu £4.6 miliwn o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, yn bennaf oherwydd y cynnydd yng ngwerth y llyfr benthyciadau busnesau bach a chanolig sylfaenol sydd wedi codi o £277 miliwn i £288 miliwn. Mae gwerth llyfr HTB-W sy'n cynnwys llog hefyd wedi codi o £91 miliwn i £123 miliwn, sydd wedi arwain at gynnydd mewn incwm llog ar lyfr HTB-W o £0.6 miliwn.
Llog tybiannol ar fenthyciadau CWBLS	3.1	4.2	Mae'r balans hwn yn cynrychioli'r llog tybiannol ychwanegol a fyddai wedi cael ei godi pe bai benthyciadau CWBLS wedi cael eu rhoi ar gyfraddau'r farchnad. Gweler y sylwadau ychwanegol isod.
Cyfanswm ffioedd, difidendau ac incwm llog	26.1	23.8	
Rhyddhau grant ERDF	20.0	20.3	Mae cyllid grant ERDF yn ymwneud â Chronfa Fusnes Cymru yn unig, sydd wedi cael £186 miliwn o gyllid ERDF yn ystod ei hoed. Mae'r grant yn cael ei ryddhau fel refeniw i'r datganiad incwm yn unol â'r buddsoddiad a wnaed. Yn adroddiad y llynedd, gwnaethom nodi bod y gostyngiad o un flwyddyn i'r llall bryd hynny wedi deillio o natur ranbarthol wedi'i thargedu yr arian a oedd yn weddill yn y gronfa. Roedd y ffocws rhanbarthol yn parhau i fod ar waith ar gyfer 2023/24, ac yn ychwanegol at hynny, roedd yn rhaid gwario holl gyllid ERDF erbyn 31 Rhagfyr 2023. Bydd y ffigur hwn yn sero ar gyfer 2024/25. Mae rhagor o fanylion yn Nodyn 18.
Rhyddhau incwm grant arall	0.5	0.0	Mae rhyddhau incwm grant arall yn ymwneud â dwy gronfa newydd, sef y Cynllun Benthyciadau i Lesddeiliaid a Chymorth i Aros - Cymru, lle mae costau rheoli cronfeydd yn cael eu talu gan gyllid grant a ddarperir gan Lywodraeth Cymru.
Llog banc a dderbyniwyd	41.8	12.8	Er bod y gyfradd sylfaenol ond wedi codi o 4.25% i 5.25% yn ystod y flwyddyn ariannol, roedd cynnydd sylweddol yn ystod ail hanner 2022/23, gydag effaith y flwyddyn gyfan i'w gweld yn 2023/24. Rydym yn parhau i weithredu Polisi Trysorlys doeth ac yn gwirio risg credyd parti i gontract bob wythnos. Mae'r cyfraddau llog cyfartalog a enillir ar falansau'r trysorlys wedi cynyddu o 1.6% ar gyfartaledd yn 2022/23 i 4.1% ar gyfartaledd yn 2023/24. Mae'r balansau cyfartalog a ddelir gan y trysorlys dros yr un cyfnod wedi cynyddu o £685 miliwn i £960 miliwn. Derbyniwyd llog hefyd ar ddaliadau arian parod tymor byr llai'r Grŵp.
HTB-W Newidiadau gwerth teg:	-	-	-
Enillion wedi'u gwireddu ar ôl gwaredu	7.9	13.6	Mae'r gostyngiad mewn enillion wedi'u gwireddu yn bennaf oherwydd gostyngiad sylweddol mewn adbryniannau o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol gyda nifer yr adbryniannau'n gostwng o 1,283 i 784. Credwn fod cyfraddau llog uchel wedi cael effaith ar lefelau gweithgarwch o ran gwerthu tai a nifer yr aelwydydd sy'n ail-gyllido allan o'r cynllun. Yn ogystal â'r gostyngiad o 39% yn nifer yr adbryniannau, roedd gostyngiad bach hefyd yn yr enillion cyfartalog am bob adbryniant o £10,602 yn 2022/23 i £10,128 yn 2023/24.
Enillion/(colledion) gwerth teg heb eu gwireddu yn ystod y flwyddyn	34.8	-50.6	Gweler y sylwadau isod. Sylwch mai symudiad nad yw'n arian parod yw hwn i adlewyrchu gwerth teg y llyfr ecwiti ar ddiwedd y flwyddyn. Gweler Nodyn 3 am fanylion y dyfarniadau cyfrifyddu a ddefnyddir yn y cyfrifiad.

Tabl C: Dadansoddiad o ddatganiad incwm cronfeydd 2023/24 a 2022/23 - parhad

	23/24	22/23	Sylwadau
	£m	£m	
Cynnydd / gostyngiad yn y swm sy'n ddyledus i'r prif gyfranddaliwr	-42.7	37.0	Dyma swm yr enillion a (cholledion) wedi'u gwiredd a heb eu gwireddu uchod sy'n cael eu (hychwanegu)/tynnu o'r swm sy'n ddyledus i brif gyfranddaliwr y Grŵp.
Newid gwerth teg HTB-W net a gofnodwyd yn y datganiad incwm	0.0	0.0	
Cyfanswm incwm net	88.4	56.9	
Ffioedd rheoli cyllid a dalwyd	-30.8	-26.0	Fel y nodwyd yn yr adran Gweithrediadau uchod, mae'r cynnydd mewn ffioedd rheoli cyllid a dalwyd yn ganlyniad i gyfuniad o ffioedd dal i fyny, cronfeydd newydd dan reolaeth, effaith blwyddyn lawn o gronfeydd newydd a ddaeth dan reolaeth yn ystod 2022/23, ac effaith taliadau ychwanegol a wnaed i'r cronfeydd presennol yn ystod 2023/24.
Costau eraill	-1.8	-1.9	
Costau is-gyfanswm	-32.6	-27.9	
Darpariaethau (a wnaed) / a ryddhawyd	-18.2	-16.8	Gwelwyd cynnydd bach o £1.4 miliwn yn y darpariaethau a wnaed. Mae hyn yn cael ei sbarduno'n bennaf gan gyfraddau colled uwch a ddefnyddir yn y cyfrifiad, yn fwyaf nodedig ar gyfer ein hasedau cam 3. Mae'r ganran darpariaeth effeithiol ar gyfer ein llyfr benthyciadau wedi codi o 15.9% yn 2022/23 i 18.9% yn 2023/24. Mae rhagor o fanylion ar gael yn Nodyn 4 - Risg credyd.
Enillion / (colledion) heb eu gwireddu ar gronfa heb ei chyfuno	0.0	-0.1	Dros y blynyddoedd blaenorol, bu'r canlyniadau a nodwyd o dan y penawdau hyn yn ymwneud â'r symudiad gwerth teg wedi'i wireddu a heb ei wireddu ym muddsoddiad y Grŵp yng Nghronfa Gwyddorau Bywyd Cymru. Fel y nodwyd yn adroddiad blynyddol a chyfrifon 2022/23, fe ddaeth y Gronfa i ddiwedd ei hoes ar ôl deng mlynedd, ac fe ddechreuodd proses ddiddymu. Mae gweddill y buddsoddiadau ecwiti wedi cael eu trosglwyddo'n ôl i Fanc Datblygu Cymru i'w rheoli'n fewnol.
Enillion / colledion gwerth teg eraill	-0.1	-30.4	Gweler y sylwadau yn 'Gostyngiad mewn colled gwerth teg ecwiti' ar dudalen 19.
Llog damcaniaethol ar fenthyciadau Llywodraeth Cymru	-2.9	-9.3	Mae hyn yn cynrychioli'r symudiad o un flwyddyn i'r llall mewn llog damcaniaethol a godir ar fenthyciadau Llywodraeth Cymru. Fel y nodwyd uchod, mae'r gostyngiad o £6.4 miliwn mewn tâl llog damcaniaethol ar gyfer 2023/24 yn ganlyniad i ostyngiad bach yn y datodiad llog damcaniaethol blynyddol o £0.2m (2023/24 y llog damcaniaethol yw £6.6 miliwn o'i gymharu â £6.8 miliwn yn 2022/23) gyda'r £6.2 miliwn sy'n weddill yn cael ei achosi'n bennaf gan ostyngiad net mewn ad-daliadau disgwyledig mewn rhai cronfeydd llai.
Cyfanswm y costau	-53.8	-84.5	-
Elw / (colled) cyn treth	34.6	-27.6	-

Sylwadau pellach

Cymorth i Brynu - Cymru, Cronfa Benthyciad Rhannu Ecwiti ar gyfer prynwyr tai newydd

Gall prisiau tai amrywio a dyna pam y gwelwch yn Nhabl C fod symudiad sylweddol yng ngwerth teg heb ei wireddu yr asedau rhannu ecwiti yn ein llyfr Cymorth i Brynu - Cymru. Mae'r model a ddefnyddiwyd i bennu gwerth teg heb ei wireddu'r llyfr hwn yn sensitif iawn i newidiadau yn y Mynegai Prisiau Tai ('HPI') a'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir yn y cyfrifiad. Mae'r enillion net o £42.7 miliwn heb eu gwireddu a drosglwyddwyd i Weinidogion Cymru yn 2023/24 o'i gymharu â cholled heb ei wireddu o £37 miliwn yn 2022/23 yn deillio'n bennaf o berfformiad HPI gwell na'r disgwyl yn 2023/24 ynghyd â rhagolwg HPI mwy cadarnhaol ar gyfer y tymor byr/canolog. Yn ogystal â'r symudiadau cadarnhaol hyn yn yr HPI, gwelwyd gostyngiad hefyd yn y cyfraddau disgownt a ddefnyddir yn y cyfrifiad. Yn y flwyddyn flaenorol, roedd newidiadau mewn cyfraddau llog wedi cael effaith andwyol ar y gyfradd ddisgownt ac roedd wedi cynyddu o 3.05% yn 2021/22 i 6.22% yn 2022/23. Gan fod cyfraddau llog wedi sefydlogi yn 2023/24, mae'r gyfradd ddisgownt wedi gostwng i 5.41% ar gyfer 2023/24.

Efallai y byddwn yn parhau i weld anwadalrwydd yn y dyfodol o ran enillion a cholledion wrth symud ymlaen oherwydd gall newid bach naill ai yn yr HPI neu'r gyfradd ddisgownt achosi newid sylweddol mewn enillion neu golledion gwerth teg.

Mae'r dyfarniadau cyfrifyddu critigol a ddefnyddiwyd wrth bennu'r enillion/(colledion) gwerth teg heb eu gwireddu ar gael yn Nodyn 3. Mae dadansoddiad ychwanegol yn Nodyn 19.

Buddiannau anllywodraethol

Y buddsoddiad o £10 miliwn i Gronfa Olyniaeth Rheoli Cymru gan Gronfa Bensiwn Clwyd yw'r buddsoddiad ecwiti allanol cyntaf a wnaed i un o Gronfeydd y Grŵp. Mae'r gronfa wedi tynnu £7.9 miliwn i lawr a'i fuddsoddi ac wedi ad-dalu £3.5 miliwn hyd at 31 Mawrth 2024 (2022/23 £7.5 miliwn wedi'i fuddsoddi gyda £2.8 miliwn wedi'i ad-dalu).

Mae'r buddsoddiad gan Gronfa Bensiwn Clwyd yn cyfateb i £10 miliwn o gyllid gan Weinidogion Cymru a £5 miliwn o gyllid gan y Grŵp ei hun. O dan reolau cyfrifyddu, ystyrir bod y gronfa hon yn cael ei rheoli gan y Grŵp ac felly mae'n rhaid ei chynnwys yn natganiadau ariannol y Grŵp. Gan nad yw'r gronfa'n cael ei hariannu'n llawn gan y Grŵp, mae rheolau cyfrifyddu yn mynnu ein bod yn datgelu'r gyfran o'r gronfa sydd i'w phriodoli i'r buddsoddwr allanol ar y fantolen gyfunol o dan y pennawd 'buddiannau anllywodraethol' yn yr adran ecwiti. Yn yr un modd, rydym hefyd yn datgelu'r elw y gellir ei briodoli i'r buddsoddwr allanol ar wahân yn y datganiad incwm cyfunol a'r datganiad cyfunol o incwm cynhwysfawr.

Trin Benthyciadau Cynllun Benthyciadau Busnes Covid-19 Cymru ('CWBS')

Yn ystod 2020/21, buddsoddodd y Banc Datblygu £92 miliwn o fenthyciadau CWBS mewn dros 1,300 o fusnesau yng Nghymru. Rhoddwyd y benthyciadau hyn ar gyfradd llog a oedd yn is na chyfradd llog y farchnad o 2% y flwyddyn. Mae'r cymhorthdal cyfradd llog hwn yn cynrychioli cymorth gwladwriaethol a ddyfarnwyd ar ran Llywodraeth Cymru. Mae asedau benthyciad CWBS yn cael eu cydnabod i ddechrau am werth teg sy'n deillio o roi disgownt ar yr ad-daliadau y cytunwyd arnynt gan ddefnyddio cyfradd llog briodol y farchnad. Arweiniodd hyn at asedau benthyciad cychwynnol o £72 miliwn a thâl datganiad incwm cyfunol o £20 miliwn ar gyfer y grant a roddwyd i bob pwrpas i fusnesau.

Mae'r sefyllfa hon yn cael ei hadlewyrchu yn y driniaeth gyfrifyddu ar gyfer y benthyciad cyfatebol gan Lywodraeth Cymru h.y., mae'r £92 miliwn yn cael ei rannu'n grant o £20 miliwn sy'n cael ei gredydu i'r datganiad incwm cyfunol yn unol ag amseriad y buddsoddiad a £72 miliwn y rhoddir cyfrif amdano yn unol â benthyciadau Llywodraeth Cymru (gweler y dudalen nesaf). Mae costau grant ac incwm grant yn cael eu cydnabod ar yr un pryd, a'u datgelu net yn y datganiad incwm cyfunol.



Yn unol ag IFRS 9, mae incwm llog yn cael ei gydnabod gan ddefnyddio'r gyfradd llog effeithiol sy'n cyfateb i gyfradd llog y farchnad ar lyfr CWBLS. Mae'r llog hwn yn cael ei gredydu i'r datganiad incwm cyfunol (wedi'i gynnwys mewn difidendau ac incwm llog) a'i ddebydu i'r dyledwr a fydd yn adfer balans y dyledwr yn ôl i £92 miliwn erbyn i'r gronfa ddod i ben yn 2026/27. Mae'r gwahaniaeth rhwng cyfradd amcangyfrifedig y farchnad a'r gyfradd llog contractiol o 2% yn arwain at incwm damcaniaethol ychwanegol o £3.1 miliwn (2022/23 £4.2 miliwn).

Trin benthyciadau Llywodraeth Cymru

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu mwy a mwy o gyllid i'r Grŵp drwy fenthyciadau llog o 0%. Hyd at 2020/21 roedd y benthyciadau hyn yn cael eu cydnabod yn unol â'u llif arian – h.y., cydnabod rhwymedigaeth sy'n hafal i'r arian a dderbyniwyd a dim tâl llog drwy'r datganiad incwm. Mae'r dull hwn yn fwy greddfoll ac yn haws i ddarllenwyr y datganiadau ariannol ei ddeall.

Fel y nodwyd yn y crynodeb lefel uchel uchod, mae'r rheolau cyfrifyddu y bu'n rhaid i ni eu defnyddio yn mynnu, er gwaethaf y gyfradd llog o 0%, y dylem barhau i gydnabod tâl yn ein cyfrifon i adlewyrchu beth fyddai'r gyfradd llog pe bai cyfradd briodol wedi'i chodi ers dechrau'r benthyciad. Dyma'r hyn a ddisgrifir gennym fel 'llog damcaniaethol'. Er eglurder, nid yw hyn yn cynrychioli llog sy'n daladwy gan y Grŵp i Lywodraeth Cymru, mae'n addasiad cyfrifyddu yn hytrach na symudiad arian parod.

Mae effaith y newid hwn yn sylweddol ar y datganiad incwm cyfunol a'r fantolen, gan gynyddu'r tâl llog damcaniaethol, a chynyddu ein cronfeydd Ecwiti Cyhoeddus. Nid oes newid yn y llif arian disgwylidig h.y., y gwir log i'w dalu (dim) a'r cyfalaf gwirioneddol i'w ad-dalu (y benthyciad gwreiddiol llai'r diffyg disgwylidig).

Pennir gwerth teg benthyciadau Llywodraeth Cymru drwy roi disgownt ar y llif arian disgwylidig dros gyfnod y benthyciad gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt briodol i roi gwerth presennol y rhwymedigaeth ar yr adeg y rhoddwyd y benthyciad. Gan fod gwerth y

benthyciadau hyn yn uchel a thros gyfnodau amser maith, gall gwerth teg y benthyciad fod yn sylweddol is na'r arian a dderbynnir.

Codir cost am y llog bob blwyddyn yn y datganiad incwm cyfunol. Cyfrifir hyn gan ddefnyddio'r gyfradd ddisgownt gychwynnol ac mae'r rhwymedigaeth yn datod i gyfateb i'r llif arian ar y benthyciad.


Petai'r driniaeth gyfrifyddu flaenorol yn dal i gael ei dilyn, mae Tabl A yn dangos y byddai'r Grŵp yn dangos elw o £43.7 miliwn yn 2023/24, £2.9 miliwn yn uwch na'r elw a adroddwyd cyn treth (2022/23 colled o £14.8 miliwn, £9.3 miliwn yn is na'r swm a adroddwyd).

Yn yr un modd, byddai'r fantolen yn dangos Asedau Net/ Cyfanswm Ecwiti o £180.9 miliwn ar 31 Mawrth 2024, £175.5 miliwn yn is na'r swm a adroddwyd (£134.2 miliwn ar 31 Mawrth 2023, £178.4 miliwn yn is na'r swm a adroddwyd).



David Staziker
Prif Swyddog Ariannol

3 Medi 2024



Gweithio gyda Llywodraeth Cymru

Rebecca Evans AS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet

"Mae Banc Datblygu Cymru yn darparu cyllid hanfodol i helpu busnesau i lwyddo, ar draws sectorau ac ar bob cam o'u datblygiad. Wrth i aelwydydd ac entrepreneuriaid barhau i fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw a'r argyfwng costau gwneud busnes parhaus, alla i ddim pwysleisio digon pa mor werthfawr yw'r cymorth hwn.

Mae adroddiad blynyddol diweddaraf y Banc yn dangos sut mae ei gyfres o gynhyrchion ariannol hyblyg ac arloesol wedi bod o fudd i gannoedd o fusnesau ac wedi'u galluogi i greu a diogelu miloedd o swyddi dros y flwyddyn ddiwethaf – gyda ffocws cryf ar gynaliadwyedd.

Llongyfarchiadau a diolch i bob un ohonoch sydd wedi cyfrannu at y llwyddiant hwn. Rwy'n edrych ymlaen at barhau i weithio gyda'r Banc i ddatgloi rhagor o dwf busnes a chyflawni ein cydweledigaeth ar gyfer economi decach a gwyrddach i Gymru."

3 Medi 2024



Jayne Bryant AS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio

"Rwy'n croesawu'r adroddiad blynyddol diweddaraf gan Fanc Datblygu Cymru sy'n tynnu sylw at y rôl bwysig mae'r Banc yn ei chwarae o ran cyflawni ein gweledigaeth ar gyfer Cymru sy'n gryfach, yn decach ac yn wyrddach.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, buom yn cydweithio'n agos i ymestyn y cymorth sydd ar gael i bobl y mae'r argyfwng costau byw wedi effeithio arnynt drwy ein cynllun Cymorth i Aros. Mae parodrwydd y Banc i ddarparu atebion cadarn yn gyflym yn adlewyrchu'n dda ar hyblygrwydd a phroffesiynoldeb y sefydliad.

Drwy weithio gyda'n gilydd, rydym wedi sicrhau buddsoddiad o fwy na £700m drwy ein cynlluniau Cymorth i Brynu, Cymorth i Aros a Chymorth i Lesddeiliaid."

3 Medi 2024



Gweithio gyda Llywodraeth Cymru



Ken Skates AS

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi,
Trafnidiaeth a Gogledd Cymru

"Yn ystod 2023-24 roedd y Banc Datblygu wedi gwneud bron i 500 o fuddsoddiadau, gan helpu busnesau ar draws ystod eang o sectorau ac ym mhob rhan o Gymru i dyfu a datblygu.

Mae'r Banc wedi datblygu rôl allweddol o ran cefnogi'r canlyniadau datblygu economaidd rydym am eu gweld ym mhob rhan o Gymru. Er enghraifft, mae wedi cefnogi 55 o gytundebau olyniaeth rheoli dros y flwyddyn, gan ddarparu cyllid sy'n hanfodol i gadw busnesau ym mherchnogaeth Cymru, ac mae'n helpu'r broses o drosglwyddo i Sero Net drwy'r Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd. Wrth i mi groesawu llwyddiant y Banc o ran gwneud ei fuddsoddiad mwyaf erioed yng Nghymru, rwyf hefyd yn dathlu'r rôl barhaus a hanfodol mae'n ei chwarae o ran sicrhau bod cyllid ar gael i fusnesau bach a micro. Mae'r buddsoddiadau hynny'n cynnal bywoliaeth, swyddi a bywiogrwydd ein cymunedau ledled Cymru, ac maent yn dystiolaeth bod y Banc yn cyflawni ei orchwyl datblygu economaidd. Ar adeg pan mae cyfleoedd ar gyfer buddsoddiad ecwiti wedi cael eu cyfyngu, mae'n gadarnhaol gweld enillion wrth ymadael yn cynyddu – sy'n adlewyrchu'r twf yng ngwerth y busnesau hynny yng Nghymru.

Mae gwaith caled gan y Banc wedi arwain at flwyddyn arall o ganlyniadau cryf ac rwy'n croesawu'r cynnydd a nodir yn yr adroddiad hwn."

3 Medi 2024



Pwy ydym ni a beth rydym ni'n ei wneud

Mae Banc Datblygu Cymru yn defnyddio cymorth ariannol i sbarduno twf economaidd, arloesedd ac entrepreneuriaeth, ac mae'n aml yn gweithredu yn y bwlch yn y farchnad lle nad yw gweithgareddau hyfyrw yn cael eu cefnogi gan y sector preifat. Rydym yn helpu busnesau, prosiectau a chymunedau uchelgeisiol ac addawol yng Nghymru i gael gafael ar gyllid cynaliadwy i gyflawni eu potensial. Ein rôl ni fel banc datblygu yw gwrthbwysu natur gylchol y marchnadoedd cyfalaf prif ffrwd i ddatblygu'r rheini sy'n dod i'r amlwg neu nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol, ac mae ein dull gweithredu fel benthyciwr neu fuddsoddwr yn gefnogol ar yr un pryd â bod yn fasnachol.

Rydym yn defnyddio Cyfalaf Trafodiadau Ariannol a Chyffredinol ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r cyfyngiadau sy'n cyd-fynd â'r Cyfalaf Trafodiadau Ariannol yn golygu bod y Banc Datblygu yn un o nifer cyfyngedig o gyrff cyhoeddus sy'n gallu defnyddio'r cyllid hwn. Drwy weithredu'n fasnachol, a phrisio yn unol â'r farchnad ehangach, gallwn strwythuro'r cronfeydd o fewn modelau ad-daladwy i fodloni'r amodau a osodwyd gan Drysorlys Ei Fawrhydi gyda'r gallu i ariannu ein gweithrediadau ac ailgylchu neu ad-dalu cyfalaf dros y tymor hwy.

Drwy ein his-gwmni rheoledig, FW Capital, rydym hefyd yn gallu codi arian o'r sector preifat a bidio'n gystadleuol am contractau rheoli cyllid, gan ategu'r ffynonellau cyfalaf presennol gan feithrin cadernid ar gyfer y dyfodol.

Mae hefyd yn bwysig ein bod yn cynnal presenoldeb cryf ym mhob rhanbarth gan alluogi cwsmeriaid a rhanddeiliaid i elwa ar gysylltiadau lleol â phobl sydd wedi'u gwreiddio mewn cymunedau ledled Cymru. Mae'r presenoldeb lleol hwn yn ffactor pwysig o ran datblygu cysylltiadau cryf â rhanddeiliaid ar yr un pryd â chynnal ein dealltwriaeth o ddeinameg economaidd ranbarthol, sydd yr un mor bwysig â'r cyllid a gynigiwn.

Cyllid ar gyfer busnesau micro i ganolig

Mae ein cynhyrchion a'n gwasanaethau craidd yn cynnig parhad o ran mynediad at gyllid ar gyfer busnesau micro i ganolig. Pan fydd ffynonellau eraill yn y farchnad yn lleihau eu gwariant, rydym yn ymgymryd â rôl wrthgylchol ac mae hyn wedi bod yn hanfodol yn yr adferiad economaidd ar ôl pandemig Covid-19. Mae ein graddfa ariannol, ein sgiliau a'n strwythurau cyllido yn hanfodol wrth wneud hyn, gan ein galluogi i fod yn ystwyth ac yn hyblyg yn y ffordd rydym yn ymateb i'r farchnad.

Mae'r bwlch yn y farchnad mewn unrhyw flwyddyn benodol yn cael ei lywio gan yr amodau economaidd cyfredol, sy'n effeithio ar hyder busnesau ac felly'r galw, chwyddiant sy'n dylanwadu ar fetrigau fel creu swyddi neu adeiladu eiddo, ac yn olaf archwaeth risg credyd benthycwyr a buddsoddwyr eraill, sy'n pennu'r cyfalaf sector preifat sydd ar gael ac sy'n effeithio ar gyd-fuddsoddiad.

Rydym yn cynnig ystod eang o opsiynau cyllido, o fenthyciadau micro ar raddfa lai i gyllid prosiectau ar gyfer datblygu eiddo ac ecwiti ar raddfa fwy ar gyfer twf. Mae'r ystod yn sicrhau y gallwn chwarae rhan hanfodol wrth ddiwallu anghenion parhaus busnesau, gan gynnwys mynediad at gyfalaf tymor estynedig. Mae'r cwantwm a'r hyblygrwydd yn ein cynnig cyllid craidd, yn enwedig drwy Gronfa Buddsoddi Hyblyg Cymru, yn ein galluogi i greu pecynnau cyllid wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion unigol cwsmeriaid, gan eu helpu i ddechrau ac uwchraddio.



Cyllid i berchnogion tai

Ochr yn ochr â'n cynhyrchion dyled ac ecwiti craidd ar gyfer busnesau, rydym hefyd yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i reoli nifer o wasanaethau buddsoddi arbenigol, gan gynnwys dros £700 miliwn drwy gynllun Cymorth i Brynu - Cymru a dau gynllun cymorth i berchnogion tai – y Cynllun Cymorth i Lesddeiliaid a'r Cynllun Cymorth i Aros, i gwsmeriaid sy'n wynebu anawsterau o ganlyniad i faterion diogelwch tân neu effeithiau costau byw yn y drefn honno.

Ariannu gwasanaethau gweinyddol

Mae'r Banc Datblygu hefyd yn gallu manteisio ar ehangder y sgiliau a'r profiad sydd ar gael yn y tîm i ddarparu gwasanaethau rheoli portffolio

ar gyfer rhai buddsoddiadau strategol Llywodraeth Cymru yn ogystal â gweithredu fel y cyfranddaliwr ecwiti sector cyhoeddus o fewn cynlluniau isadeiledd Llywodraeth Cymru drwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol.

Gwasanaethau eraill

Mae'r gwasanaethau eraill a ddarperir gan y Banc Datblygu yn gynnwys Dirnad Economi Cymru, ein partneriaeth ymchwil, Angylion Buddsoddi Cymru, ein rhwydwaith angylion busnes a'r Grŵp Cymorth Adferiad, sy'n cynnig mynediad at arbenigedd i fusnesau sy'n wynebu anawsterau a allai gynnwys cymorth ariannol os yw'n briodol.

Egwyddorion buddsoddi

Mae ein hegwyddorion buddsoddi yn ategu sut rydym yn gweithio i gynorthwyo datblygiad economaidd yng Nghymru. Maen nhw wedi'u cynllunio i gyflawni uchelgeisiau ein cyfranddalwyr, gan ystyried capasiti ein gweithrediadau a rheoliadau'r farchnad.

- Rydym yn gweithredu lle mae **methiant yn y farchnad**, gan gefnogi cyfleoedd economaidd drwy sicrhau bod cyllid ar gael i fusnesau hyfyw a thrwy ymateb i anghenion esblygol y farchnad a chwsmeriaid.
- Rydym yn buddsoddi ar **delerau masnachol**, gan brisio'r buddsoddiad yn deg i adlewyrchu'r risg. Mae hyn yn sicrhau nad ydym yn dadleoli'r sector preifat. Mae hefyd yn golygu ein bod yn cynhyrchu elw y gellir ei ailgylchu i gwsmeriaid newydd, gan greu ased gwerth am arian hirdymor i Gymru.
- Gellir gweld eithriad i'r egwyddor hon mewn **sectorau sy'n dod i'r amlwg**, fel **cyllid gwyrdd**, lle rydym wedi nodi bod angen ysgogi newid.
- Rydym yn **fuddsoddwr tymor estynedig**, sy'n darparu cyllid hygrych i gynorthwyo cynaliadwyedd hirdymor y busnesau rydym yn eu cyllido.
- Rydym yn cydweithio'n agos â'r sector preifat a chyhoeddus ac yn **mewnwthio cyd-fuddsoddiad sector preifat** lle bynnag y bo modd er mwyn cynyddu llif arian yng Nghymru.
- Rydym yn buddsoddi er mwyn cael effaith ariannol ac anariannol gadarnhaol yn y cymunedau rhanbarthol a wasanaethwn. Mae ystyriaethau **amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu** wedi'u sefydlu'n gymesur yn ein penderfyniadau buddsoddi.
- Rydym yn fuddsoddwr cyfrifol sy'n darparu **gwasanaethau rheoli buddsoddiadau arbenigol ac annibynnol**. Mae ein tîm profiadol yn ychwanegu gwerth at y busnesau rydym yn gweithio gyda nhw, drwy gydol oes y berthynas.

Amcanion a thargedau 2022/27

Targedau cyflawni llinell sylfaen 2022/27

2,200

Cynorthwyo dros 2,200 o fusnesau

20,000

Dros 20,000 o swyddi wedi cael eu cefnogi


£650m

Buddsoddi dros £650 miliwn yn uniongyrchol i
mewn i gwmnïau yng Nghymru

1,900

Cyllido adeiladu 1,900 o dai newydd

Cyflawni ein haddewid i Gynllun Cymru
Gyfan Llywodraeth Cymru **Gweithio**
gyda'n Gilydd i Gyrraedd Sero Net



1:1

Targedu cyd-fuddsoddiad
ar gronfeydd busnes o 1:1



60

Cynnal
NPS® cwsmer o 60



60

Cynnal
NPS® -Sgôr Hyrwyddwr Net


NPS® -Sgôr Hyrwyddwr Net

Amcanion strategol cyfnod pum mlynedd

Craidd: Darparu cyllid dyled ac ecwiti gydag effaith gymdeithasol	Ar gynnydd: Hyrwyddo a datblygu dyfodol gwyrdd yng Nghymru	Gweithredol: Rhagoriaeth cyflawni, cwsmeriaid yn gyntaf, cynaliadwyedd ariannol
1. Hwyluso diwylliant entrepreneuriaidd yng Nghymru, o fusnesau sylfaenol i fusnesau twf uchel	1. Defnyddio ein safle a’n dylanwad i hyrwyddo newid cadarn a chymesur i ddyfodol gwyrdd ar draws yr ecosystem fusnes yng Nghymru	1. Sicrhau darpariaeth gydweithredol ac ymatebol sy’n diwallu anghenion esblygol y cwsmeriaid
2. Cefnogi cynhwysiant ariannol ar gyfer grwpiau sy’n cael eu tangynrychioli a chreu effaith gadarnhaol yn economi Cymru	2. Datblygu offerynnau ariannol arloesol i hybu’r uchelgeisiau ar gyfer dyfodol gwyrdd yng Nghymru	2. Ymwreiddio cynaliadwyedd ariannol yn yr hirdymor drwy ddefnyddio cyfalaf mewn ffordd arloesol ar gyfer anghenion parhaus y farchnad
3. Gweithio gyda’n cwsmeriaid newydd a phresennol i’w hannog i adnabod a blaenoriaethu cyfleoedd effaith gymdeithasol fel rhan o’u prosesau cynllunio busnes	3. Mynd ati’n barhaus i wella ein gwybodaeth, ein sgiliau a’n dealltwriaeth o effeithiau newid yn yr hinsawdd a rôl cyllid wrth ddarparu atebion	3. Gwneud y defnydd gorau posibl o’n gallu i gefnogi’r gwaith o gyflawni polisi’r llywodraeth drwy ein strwythur a’n harbenigedd

Targedau buddsoddiad llinell sylfaen 2022/27

	22/23	23/24	24/25	25/26	26/27	Cyfanswm
Dyled ac ecwiti	66	66	74	76	79	361
Eiddo	51	59	61	61	59	290
CYFANSWM	117	125	135	137	138	651



Ein cronfeydd a’n gwasanaethau

● Ecwiti a Dyled ● Dyled ● Ecwiti

Cronfa	Hedyn	Technoleg cyfnod cynnar	Dechrau busnes	Twf	Olyniaeth	Eiddo	Ariannu gwasanaethau gweinyddol	Trosiant	Prosiectau ynni untro
Cronfeydd Busnes									
Cronfa Cyd-fuddsoddi Angylion Cymru	£25 - £250k								
Cronfa Buddsoddi Hyblyg Cymru*			£25k - £10m						
Cronfa Olyniaeth Rheoli Cymrud					£500k - £3m				
Cronfa Micro Fenthyciadau Cymru			£1k - £50k						
Cronfa Achub ac Ailstrwythuro Cymru								£50k - £2m	
Cronfa Sbarduno Technoleg Cymru II	£50k - £350k								
Cronfa Buddsoddi Twristiaeth Cymru			£100k - £5m						
Cronfa Ynni Lleol									£50k - £2m
Cronfeydd Datblygu Eiddo									
Cronfa Safleoedd Segur Cymru						£150k - £6m			
Cronfa Eiddo Masnachol Cymru						£250k - £5m			
Cronfa Datblygu Eiddo Cymru II						£150k - £6m			
Cyllid i berchnogion tai									
Cymorth i Brynu - Cymru							£1k - £50k		
Hunanadeiladu Cymru							% o'r gost adeiladu		
Cynllun Cymorth i Lesddeiliaid							yn ôl y gofyn		
Cymorth i Aros							£10k - £150k		
Isadeiledd									
Model Buddsoddi Cydfuddiannol							yn ôl y gofyn		
FW Capital									
Cronfa Eiddo Gogledd Ddwyrain Lloegr						£250k - £2m			
Cronfa Buddsoddi mewn Eiddo Masnachol y Gogledd Ddwyrain						£1m - £7m			
Cronfa Fuddsoddi Northern Powerhouse II			£100k - £2m						
Cronfa Buddsoddi y De Orllewin			£100k - £2m						
Cronfa Hyblyg Teesside				£100k - £3m					
Cronfa Fuddsoddi Cymru			£100k - £2m						

*(yn cynnwys y Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd)

Adroddiad y Cyfarwyddwr Buddsoddi

Mae ein tîm wedi bod yn gweithio'n galed drwy gydol y flwyddyn i ddarparu 491 o fuddsoddiadau gwerth £125.2 miliwn ac i gynhyrchu £50.1 miliwn o gyd-fuddsoddiad sector preifat yn 2023/24. Cafodd 4,406 o swyddi eu creu neu eu diogelu yn erbyn targed o 3,779.

Rydym wedi buddsoddi mewn 430 o fusnesau gwahanol sy'n amrywio o'r busnesau newydd lleiaf i fusnesau sy'n tyfu a'r rheini sy'n ceisio gwireddu gwerth adeg ymadael. Yn wir, mae gennym bellach dros 3,000 o gwsmeriaid a thîm profiadol o 281 ar hyd a lled Cymru, sy'n ffactor yn ein llwyddiant.

Mae dynameg y farchnad yn sicr wedi dylanwadu ar alldro ond nid oes prinder cyfleoedd gan ein bod yn parhau i gefnogi busnesau Cymru drwy fynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg mewn cyllid lle bo angen. Mewn arwydd bod y bwlch yn ehangu, cynyddodd maint ein cytundebau ar gyfartaledd i £254,997 yn 2023/24 ac fe wnaethom gofnodi ein cytundeb cyllido strategol mwyaf erioed ym mis Ionawr 2024 fel rhan o syndicet gyda Barclays ar gyfer Bluestone Resorts.

Creu effaith gadarnhaol

Rydym yn buddsoddi er mwyn cael effaith ariannol ac anariannol gadarnhaol, gan greu gwerth economaidd-gymdeithasol ar gyfer pobl Cymru drwy gefnogi cynaliadwyedd hirdymor y busnesau uchelgeisiol rydym yn eu hariannu.

Mae'n bleser gennyf adrodd bod galw cryf am ein cronfa benthyciadau micro gyda chynnydd ym maint cytundebau ar gyfartaledd i £28,900 a chyfanswm gwerth buddsoddiad o £8.14 miliwn. Mae llawer o fusnesau bach, fel John Henry Flowers yng Nghaerdydd, yn defnyddio'r gronfa i fuddsoddi mewn twf. Roedd benthyciad o £15,000 wedi helpu'r siop flodau poblogaidd hon i symud i adeilad mwy.

Rydym hefyd wedi bod yn brysur yn ariannu olyniaeth busnes gyda dros £22 miliwn o

ddyled ac ecwiti yn mynd i 55 o wahanol gwmnïau er mwyn helpu i ariannu pryniant gan reolwyr. Mae hyn yn cynnwys Dnyaneshwar Gaikwad, 89 oed, a'i wraig Pushpa, 78 oed, sydd wedi ymddeol o'u siop fwyd a chaffi llysieuol Indiaidd poblogaidd yng Nghaerdydd wedi 43 mlynedd ar ôl pryniant gan reolwyr a gafodd ei ariannu'n rhannol gan fenthyciad o £100,000 gan Gronfa Buddsoddi Hyblyg Cymru. Mae Maruti Satpe, cogydd, a'i wraig Sadhana, rheolwr siop, wedi cymryd y busnes drosodd ar ôl gweithio gyda Mr a Mrs Gaikwad dros y deng mlynedd diwethaf. Gwyddom eu bod yn edrych ymlaen at weini bwyd cartref Indiaidd traddodiadol i'w cwsmeriaid yn ogystal â datblygu'r siop fwyd.

Mae ecwiti yn offeryn ariannol pwysig ar bob cam o gylch oes busnes. Dim ond pan fydd busnes yn gwneud yn dda y bydd buddsoddwyr yn gwireddu eu harian, felly gyda chwe achos ymadael yn ystod 2023/24, roeddem yn falch o wneud £4.7 miliwn a fydd nawr yn cael ei ailgylchu a'i ail-fuddsoddi er budd yr economi yng Nghymru.

Roedd y cyd-fuddsoddiad ar gyfer dyled ac ecwiti yn 2023/24 wedi gostwng i 1:0.4 ond nid yw hyn yn syndod o ystyried natur ansicr y farchnad gyllido ehangach. Mae'r archwaeth risg ar ran buddsoddwyr yn lleihau o ganlyniad i amodau economaidd anodd, ond cafodd Angylion Buddsoddi Cymru flwyddyn gref gyda chyfanswm o 119 o fuddsoddiadau gwerth £3.4 miliwn. Darparodd Cronfa Cyd-fuddsoddi Angylion Cymru £1.96 miliwn mewn arian cyfatebol gan roi cymhareb dylanwad sector preifat rhagorol o 1.25.

Roedd ein cefnogaeth i gwmnïau arloesi a thechnoleg cyffrous sy'n sbarduno sector technoleg ffyniannus Cymru yn cynnwys £250,000 o ecwiti o Gronfa Sbarduno Technoleg Cymru II ar gyfer cwmni Tendertec yng Nghaerdydd.

Gwnaethom arwain rownd ariannu gwerth £440,000 ochr yn ochr â'r swyddfa deuluol Puffin Point, angylion busnes ac angylion Theti Club fel cyd-fuddsoddwyr. Ynghyd â buddsoddiad blaenorol gan Metavallon VC a grant gwerth £1.4 miliwn gan Innovate UK a her Designed for Ageing UKRI yn 2022, mae Tendertec yn defnyddio'r arian i helpu i ddatblygu technoleg deallusrwydd artifisial sy'n helpu i gadw'r henoed yn iach, yn annibynnol ac yn ddiogel.

Gan ein bod wedi mynd ati i recriwtio gweithredwyr portffolio a buddsoddi hynod fedrus ychwanegol dros y flwyddyn ddiwethaf mae gennym bellach dîm sydd â gwir gryfder a dyfnder ar lawr gwlad ledled Cymru. Mae'r adnodd ychwanegol hwn yn golygu y gallwn wneud mwy wrth i ni weithio ochr yn ochr â phrifysgolion a chyd-fuddsoddwyr, gan gynnwys angylion busnes a chronfeydd arbenigol, i gefnogi mentrau technoleg cyfnod cynnar, cyn-refeniw. Gyda phortffolio eang, rydym yn cefnogi twf busnes ac yn ychwanegu gwerth go iawn fel rhan o'r ecosystem ehangach.

Sectorau allweddol

Mae twristiaeth yn bwysig iawn yng Nghymru. Mae'n gyfrifol am gyfran sylweddol o economi Cymru ac mae'n cyfrif am 11.3% o'r holl gyflogaeth yng Nghymru. Mae ein Cronfa Buddsoddi Twristiaeth Cymru yn cynnig benthyciadau o hyd at £5 miliwn ar gyfer prosiectau twristiaeth unigryw sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau llywodraeth Cymru ac sy'n dangos ymrwymiad i'r Contract Economaidd.

Gwnaethom fuddsoddi £12.4 miliwn o'r gronfa benodol hon yn 2023/24, gan gynnwys benthyciad saith ffigur ar gyfer Wayfind Escapes i uwchraddio Parc Gwyliau Pennant ger Treffynnon. Mae hyn yn cynnwys adeiladu 55 o gabanau newydd er budd pobl ar eu gwyliau yn ogystal â'r economi leol a chymuned Treffynnon.

Sector arall a welodd dwf yn ystod y flwyddyn oedd iechyd a gofal. Fel rhan o'r economi sylfaenol, mae gwasanaethau iechyd a gofal yn sector y mae pobl yn dibynnu arno i'w cadw'n ddiogel ac yn waraidd. Amcangyfrifir bod yr economi sylfaenol yn cyfrif am bedair o bob deg swydd ac am £1 o bob £3 sy'n cael ei wario, gyda chynnydd yn y galw am ofal o safon gan gynnwys cyfleusterau EMI arbenigol ledled Cymru.

O'r ifanc i'r hen, roedd y buddsoddiadau yn ystod 2023/24 ym maes iechyd a gofal yn cynnwys £950,000 i brynu Cartref Nyrsio Williamston, sef cartref gofal 34 gwely sydd wedi ennill gwobrau ac sydd wedi'i leoli mewn pum erw o erddi a choetiroedd yn Houghton, ger Aberdaugleddau. Yn y cyfamser, defnyddiwyd micro-fenthyciad o £35,000 i ariannu costau dodrefnu Meithrinfa Wibli Wobli yn rhannol, sef y feithrinfa gofal dydd cyfrwng Cymraeg gyntaf yng Nghasnewydd i blant rhwng 2-5 oed.

Fodd bynnag, mae'r sector eiddo yn parhau i ddioddef effeithiau pwysau cadwyn gyflenwi a chostau deunyddiau uwch. Ar draws y marchnadoedd masnachol a domestig, mae datblygwyr wedi bod dan bwysau gyda llai o dir a llafur ar gael, costau adeiladu uwch a newidiadau i reoliadau. Mae fforddiadwyedd prynwyr hefyd wedi parhau i fod yn rhwystr gwirioneddol o ystyried cost uchel benthycia.

Er gwaethaf yr heriau, rhoesom bron i £37.69 miliwn i ddatblygwyr yn ystod y flwyddyn. Mae gennym darged cyflawni sylfaenol i ariannu 1,900 o dai newydd yng Nghymru erbyn 2027.

Mae'r uchafbwyntiau'n cynnwys £4.68 miliwn i helpu busnes teuluol Primesave Homes i gwblhau cam cyntaf datblygiad o 44 o dai newydd yn y Drenewydd, Powys ynghyd â buddsoddiad o £4.1 miliwn i MKR Property Developments i adfywio safle tir llwyd segur ym Merthyr Tudful yn barc busnes deinamig o 24 uned ffatri fodern. Mae'r rhain yn ddatblygiadau sy'n sbarduno cynnydd economaidd ac yn creu swyddi ar yr un pryd â chreu cartrefi preswyl ac adeiladau masnachol modern y mae gwir angen amdanynt.

Cydweithio clyfar

Mae cydweithio clyfar â rhanddeiliaid, partneriaid buddsoddi a chyd-fuddsoddwyr yn helpu i gynyddu cyflenwad a hygyrchedd cyllid cynaliadwy ac effeithiol yng Nghymru.

Rydym yn parhau i weithio'n agos â'n cydweithwyr yn Busnes Cymru, Bargaen Ddinesig, prifysgolion a sbardunwyr busnesau i wella mynediad at gyllid a chael effaith gadarnhaol ar economi Cymru.

Credwn yn gryf po fwyaf o gyllid sydd ar gael, y gorau yw hi i Gymru a dyna pam ei bod yn bwysig bod yr holl gyllidwyr yn cydweithio i ddarparu cymorth a sicrhau proses ddi-dor ar gyfer yr entrepreneuriaid a'r busnesau yng Nghymru sydd angen ein cymorth ar y cyd.

Fel rheolwyr cronfa proffesiynol, gyda thimau profiadol ar lawr gwlad ar hyd a lled Cymru a swyddogaeth cefn swyddfa gref, rydym yn arwain y gwaith o gyflawni rhaglen Fuddsoddi Gwledydd a Rhanbarthau Banc Busnes Prydain. Mae hyn yn helpu i gynyddu'r llif arian i Gymru ochr yn ochr â'r gwaith rydym yn ei wneud i ddenu cyd-fuddsoddwyr i'r farchnad.

FW Capital

Fel un o fuddsoddwyr rhanbarthol mwyaf y DU, mae gan FW Capital hanes cryf o ddarparu cyllid y mae gwir ei angen i fusnesau bach a chanolig ers 2010.

Roedd 2023/24 yn flwyddyn llwyddiannus ar gyfer codi arian, gan gynnwys Cronfa Buddsoddi Hyblyg Teesside. Gyda chefnogaeth Cronfa Bensiwn Teeside, gall y gronfa gwerth £20 miliwn ail-fuddsoddi enillion gyda'r nod o fuddsoddi £68 miliwn. Bydd yn cefnogi datblygiad economaidd yn Hartlepool, Middlesbrough, Redcar a Cleveland a Stockton-on-Tees drwy gymysgedd o gyllid i gefnogi prynu busnes, cyllido eiddo a chyllid bond.

Rydym hefyd yn falch bod Banc Busnes Prydain nawr wedi ein penodi i reoli tair cronfa ar gyfer busnesau bach a chanolig yng Ngogledd a De-orllewin Lloegr yn ogystal â Chymru gyfan.

Ym mis Gorffennaf 2023, lansiodd Banc Busnes Prydain Gronfa Fuddsoddi'r De Orllewin

gwerth £200m gyda'r nod o hybu twf a ffyniant i fusnesau bach ledled De-orllewin Lloegr. Fel un o bedwar rheolwr cronfa, mae FW Capital yn rheoli'r cronfeydd dyled (£100,000 i £2 filiwn) ar gyfer gogledd y rhanbarth.

Cafodd hyn ei ddilyn yn gyflym gan lansiad Cronfa Fuddsoddi Cymru newydd ym mis Tachwedd 2023. Mae'n cynnwys amrywiaeth o opsiynau cyllid gyda benthyciadau o £25,000 i £2 filiwn a buddsoddiadau ecwiti hyd at £5 miliwn i helpu busnesau bach a chanolig i ddechrau, uwchraddio neu aros ar y blaen. Gyda chyfrifoldeb dros fenthyciadau mwy o £100,000 i £2 filiwn, mae FW Capital yn un o dri rheolwr cronfa a benodwyd i reoli'r gronfa. Gwnaethom gwblhau tri chytundeb gwerth £730,000 yn 2023/24, gan gynnwys benthyciad o £500,000 ar gyfer Palmers Scaffolding yng Nglannau Dyfrdwy.

Yna ym mis Mawrth 2024 lansiwyd Cronfa Fuddsoddi Northern Powerhouse II newydd gwerth £660 miliwn gan Fanc Busnes Prydain. Mae'r gronfa'n cwmpasu Gogledd Lloegr ac yn adeiladu ar ein llwyddiant i ddarparu £173 miliwn o fenthyciadau i fusnesau bach a chanolig yng Ngogledd Lloegr drwy'r Gronfa Fuddsoddi Northern Powerhouse gyntaf. Rydym yn un o naw rheolwr cronfa.

Mae ein gallu i ennill y cyfleoedd rheoli cyllid cystadleuol hyn yn dyst i'n hagwedd broffesiynol, ein presenoldeb ar lawr gwlad a'n gallu i ddefnyddio cyfalaf yn unol â thargedau enillion. Rwy'n hoffi meddwl am FW Capital fel allforyn llwyddiannus o Gymru; defnyddio ein gwybodaeth a'n harbenigedd i greu gwerth ychwanegol i bobl a busnesau Cymru.



Ein blaenoriaethau yn y dyfodol

Yn gyffredinol, rwy'n falch o'n perfformiad yn 2023/24 ond, fel bob amser, mae lle i wneud mwy.

Blaenoriaeth ar gyfer 2024/25 fydd ymestyn darpariaeth cyfalaf tymor estynedig mewn ymateb i alw'r farchnad. Byddwn yn parhau i helpu busnesau i ledaenu cost benthyca ac yn annog mwy o bobl i ystyried ecwiti fel ffordd o gyflawni uchelgeisiau twf.


Rydym hefyd yn paratoi ar gyfer lansio ein porth rheoli cwsmeriaid newydd. Gobeithiwn y bydd y buddsoddiad hwn mewn trawsffurfio digidol yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i'n heffeithlonrwydd a phrofiad y cwsmer, gydag amseroedd darparu cyllid gwell a phenderfyniadau cyflymach.

Rwy'n edrych ymlaen at y dyfodol gydag optimistiaeth. Rydym wedi ein gwreiddio yn y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu a byddwn yn parhau i gynnig y cyfleoedd gorau i bobl dyfu a datblygu. Gyda'n gilydd, rydym yn ei gwneud hi'n haws i fusnesau sicrhau'r cyllid sydd ei angen arnynt i ddechrau, cryfhau a thyfu.



Mike Owen
Cyfarwyddwr Buddsoddi'r Grŵp

3 Medi 2024



Cynnydd yn erbyn ein hamcanion strategol 2022/27

Craidd: Darparu cyllid dyled ac ecwiti gydag effaith gymdeithasol

Rydym yn gwneud buddsoddi'n hygyrch i gynifer o fusnesau â phosibl ledled Cymru ac yn parhau i chwarae ein rhan i gydbwysu economïau tri rhanbarth economaidd Llywodraeth Cymru.

Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i osod targedau rhagolygon ar draws cyfnodau pum mlynedd ar gyfer pob cynllun corfforaethol. Mae'r targedau'n seiliedig ar broffiliau buddsoddi'r arian i'w fuddsoddi yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae cyfanswm y targedau ar gyfer y Banc Datblygu ar gyfer cyfnod y cynllun corfforaethol 2022/27 ar dudalen 31.

Y prif darged sy'n cyflawni ein rôl yw'r prif swm buddsoddi. Caiff hyn ei gefnogi gan dargedau canlyniad economaidd cysylltiedig wedi'u gosod yn erbyn y gymysgedd o gynhyrchion sydd wedi'u proffilio yn ystod y cyfnod, fel cyd-fuddsoddi, y swyddi sydd wedi'u creu a'u diogelu, y tai a adeiladwyd a throedfedd sgwâr yr eiddo masnachol.

Dylid ystyried y data yr adroddir amdano ym mhob un o'n hadroddiadau blynyddol yng nghyd-destun y cynnydd cyffredinol tuag at gyflawni'r cynllun corfforaethol pum mlynedd. Mae tri ffactor yn dylanwadu ar y data sy'n cael ei adrodd mewn blwyddyn unigol. Yn gyntaf, gweithgarwch y Banc Datblygu o ran hyrwyddo'r cyllid sydd ar gael, ynghyd â'r cymysgedd o gynnyrch penodol a gynigir i'r farchnad. Yn ail, yr amodau economaidd cyfredol sy'n effeithio ar hyder busnesau neu chwyddiant sy'n dylanwadu ar fetrigau, fel creu swyddi neu fesurau eiddo. Yn olaf, archwaeth risg credyd benthycwyr a buddsoddwyr eraill sy'n pennu cystadleuaeth yn y farchnad ac yn dylanwadu ar gyd-fuddsoddiad.

Mae'r ansicrwydd economaidd o ganlyniad i reoleiddio newidiol ar ôl Brexit, adferiad ar ôl Covid a'r argyfwng costau byw mwy diweddar, wedi creu marchnad anwadal sydd wedi herio'r ffordd rydym yn gweithio. Yn y pen draw, mae ein rôl i ddarparu hylifedd yn bwysicach nag erioed mewn amgylchedd heriol, yn enwedig pan fydd benthycwyr a buddsoddwyr traddodiadol yn newid eu parodrwydd i dderbyn risg. O ystyried y cyfrifoldeb pennaf hwn, ein prif amcan yw dod o hyd i ateb sy'n fasnachol foddhaol i'n cwsmeriaid.

Unwaith eto, yn 2023/24, gwelwyd y flwyddyn orau erioed o ran buddsoddi, sef £125.2 miliwn. Gostyngodd nifer y buddsoddiadau fymryn o 516 yn 2022/23 i 491, tra bod maint buddsoddiadau ar gyfartaledd ar draws yr holl gronfeydd wedi cynyddu o £240,000 i £255,000, tuedd sydd wedi parhau dros y tair blynedd diwethaf gan adlewyrchu chwyddiant cynyddol a pharhaus y DU.



Cronfa Fusnes Cymru

Un o amcanion allweddol 2023/24 oedd cwblhau buddsoddiad llawn Cronfa Fusnes Cymru a gefnogir gan ERDF, gan roi blaenoriaeth i Orllewin Cymru a'r Cymoedd, er mwyn sicrhau bod busnesau mewn ardaloedd economaidd ddifreintiedig yn cael budd o'r holl arian sydd ar gael. Lansiwyd y gronfa yn 2016 gyda swm cychwynnol o £136 miliwn; cynyddodd y gronfa'n sylweddol yn ystod ei hoes i £216 miliwn mewn ymateb i newidiadau yn y farchnad a thystiolaeth o alw cryf.

Cafodd adolygiad terfynol y gronfa ei gynnal gan Hatch a'i gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2023¹. Rhoddodd yr adolygiad ystyriaeth i ddata monitro a pherfformiad, adborth gan randdeiliaid a gwerthusiad effaith wrthffeithiol i ddarparu asesiad o effaith economaidd net a gwerth am arian y gronfa.

Llwyddodd y gronfa i sbarduno twf economaidd ar draws pob rhan o Gymru yn ogystal â helpu i roi hwb i broffil Cymru fel lle y gall busnesau sicrhau buddsoddiad. Cafodd £332 miliwn o gyd-fuddsoddiad y sector preifat ei ddefnyddio ar gyfer effaith economaidd gwerth £548 miliwn, gan greu 3,583 o swyddi a diogelu 5,324 mewn 474 o fusnesau.

Canfu'r gwerthusiad effaith wrthffeithiol:

- Bu modd olrhain perfformiad 293 o fuddiolwyr drwy eu paru â grŵp rheoli o fusnesau na gynorthwyir sydd â nodweddion tebyg. Mae'r gefnogaeth a roddwyd iddynt yn cyfateb i gyfanswm o £139.2m o fuddsoddiad uniongyrchol. Mae'r busnesau hyn wedi gweld twf cyflogaeth cryf yn ystod y blynyddoedd a oedd yn dilyn buddsoddiad gan Gronfa Fusnes Cymru. Mae 2,515 o swyddi ychwanegol ar draws y busnesau a gynorthwyir, sy'n cyfateb i 8.6 swydd i bob busnes.
- Mae'r dadansoddiad yn dangos bod tua 58% o'r twf cyflogaeth yn ychwanegol. Hynny yw, er y byddai tua 40% o'r swyddi o bosibl wedi cael eu creu beth bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r twf i'w briodoli i dderbyn y cyllid. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd ychwanegol o 1,466 o swyddi, sef 5.0 swydd ar gyfartaledd i bob busnes.

Mae'r holl amcangyfrifon ar ychwanegedd cyflogaeth yn arwyddocaol yn ystadegol.

- Cynyddodd trosiant gwirioneddol buddiolwyr (h.y. wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant) gyfanswm o £319.9 miliwn yn y blynyddoedd ar ôl cael cymorth, sy'n adlewyrchu cynnydd o £1.09 miliwn ar gyfartaledd mewn trosiant gwirioneddol i bob busnes. Mae'r buddiolwyr yn perfformio'n well na'r grwpiau cymharu, o ran twf mewn gwerthiant, sy'n dangos bod rhan o'r cynnydd i'w briodoli i'r arian a gafwyd.
- Roedd tua 60% o'r cynnydd mewn trosiant yn ychwanegol. Mae hyn yn cyfateb i gyfanswm trosiant ychwanegol o £190.7 miliwn, oddeutu £650,800 am bob busnes a gynorthwyir. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod y gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol i'w ganfod am dair blynedd yn unig ar ôl cael cymorth.
- Mae'r buddiolwyr a gafodd ecwiti yn hytrach na benthyciadau yn dangos effaith uwch ar dwf cyflogaeth yn y blynyddoedd yn dilyn y cymorth. Fodd bynnag, ni welwyd unrhyw effaith ychwanegol ar drosiant gwirioneddol ar gyfer y grŵp hwn am dair blynedd ar ôl cael cymorth. Efallai fod hyn yn adlewyrchu'r gyfran fawr o fuddsoddiad ecwiti sy'n cael ei wneud mewn cwmnïau cyfnod cynnar, cyn-refeniw. Mae hyn yn wahanol i'r busnesau sy'n cael arian benthyciad, sy'n gweld effaith gadarnhaol ar gyflogaeth a throsiant yn y blynyddoedd ar ôl cael cymorth, er bod yr effeithiau hyn yn fwy cymedrol.
- Aseswyd yr effaith ar gyfer dau ranbarth Cymru ar wahân. Ni welwyd unrhyw dystiolaeth o wahaniaeth sylweddol wrth gymharu'r effaith ar Ddwyrain Cymru o'i gymharu â buddiolwyr Gorllewin Cymru a'r Cymoedd.

Mae amod ynghlwm wrth y grant ERDF o fewn y gronfa sy'n nodi y bydd unrhyw enillion yn cael eu defnyddio at yr un pwrpas. Felly, bydd gwaddol y gronfa hon yn darparu cyllid i fwy o fusnesau bach a chanolig yng Nghymru yn y dyfodol, gan helpu i leihau'r angen am gyllid cyhoeddus newydd mewn cronfeydd yn y dyfodol.


¹ Gwerthusiad terfynol Cronfa Fusnes Cymru, Rhagfyr 2023, Hatch

Buddsoddi ar draws Cymru

Gogledd Cymru	
Poblogaeth BBaCh (%) 2023	24%
Nifer y buddsoddiadau (%) 2023/24	20.16%
Nifer y buddsoddiadau (%) 2022/24	19.76%
Gwerth y buddsoddiad (%) 2023/24	22.56%
Gwerth y buddsoddiad (%) 2022/24	23.66%

Canolbarth a Gogledd Cymru	
Poblogaeth BBaCh (%) 2023	33%
Nifer y buddsoddiadau (%) 2023/24	31.36%
Nifer y buddsoddiadau (%) 2022/24	31.08%
Gwerth y buddsoddiad (%) 2023/24	43.89%
Gwerth y buddsoddiad (%) 2022/24	38.46%

De-ddwyrain Cymru	
Poblogaeth BBaCh (%) 2023	43%
Nifer y buddsoddiadau (%) 2023/24	48.47%
Nifer y buddsoddiadau (%) 2022/24	49.16%
Gwerth y buddsoddiad (%) 2023/24	33.55%
Gwerth y buddsoddiad (%) 2022/24	37.88%




Dyma ddata o'r flwyddyn ariannol ddiwethaf a data ar gyfer cyfnod cynllun corfforaethol 2022/27.
* Ffynhonnell: <https://stats.wales.gov.wales/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/Businesses/Business-Structure/Headline-Data/enterprises-by-sizeband-and-area-year>

Cynorthwyo busnesau
ar bob cam o'u taith



Mae'r cronfeydd rydym yn eu rheoli yn cynorthwyo busnesau ar bob cam, megis cychwynnol sy'n seiliedig ar ecwiti ar gyfer busnesau technoleg cyfnod cynnar cyn-refeniw, cefnogi busnesau newydd a busnesau sy'n tyfu, a chynorthwyo trafodion olyniaeth busnes i helpu cwmnïau sefydledig i symud i arweinyddiaeth newydd.



Gwerth y buddsoddiad yn ôl cam y busnes



Nifer y buddsoddiadau yn ôl cam y busnes



John Henry Flowers



Rhanbarth: Caerdydd

Cyllid: benthyciad o £15,000

Angen busnes:

Symud i eiddo mwy



Mae busnes yn mynd o nerth i nerth i John Henry Flowers ar ôl i'r gwerthwr blodau poblogaidd ddefnyddio micro-fenthyciad gwerth £15,000 i helpu i ariannu symud i eiddo mwy yng Nghaerdydd.

Awen Oncology

Rhanbarth: Ynys Môn

Cyllid: Buddsoddiad ecwiti chwe ffigur

Angen busnes:
Datblygu cynnyrch



Mae Awen Oncology, a sefydlwyd yn wreiddiol gyda grant Cancer Research UK, yn datblygu ystod arloesol o gyffuriau gwrth-ganser sy'n targedu sawl math o ganser.

Mae'r cwmni hwn sy'n deillio o'r Brifysgol, ac sydd wedi'i leoli yn M-Sparc, wedi cael buddsoddiad ecwiti chwe ffigur gan Gronfa Buddsoddi Hyblyg Cymru a buddsoddiad chwe ffigur arall gan Start Codon, sef adeiladwr menter gwyddorau bywyd arbenigol. Mae Awen Oncology hefyd yn cael cefnogaeth ariannol gan Cancer Research UK, Innovate UK a rhaglen gyfalaf SMART Llywodraeth Cymru. Ar ben hynny, mae'r cwmni wedi cael ei ddewis ar gyfer datblygiad pellach drwy Innovate UK Business Growth, sef rhaglen uwchraddio ar gyfer busnesau arloesol sy'n sbarduno datblygiad economaidd.

Busnes newydd a chyfnod cynnar

Gostyngodd cyllid ar gyfer busnesau cyfnod cynnar a busnesau newydd ychydig o un flwyddyn i'r llall, o £14.3 miliwn i £14.131 miliwn. Ar draws cynllun corfforaethol 2022/27, mae'r buddsoddiad yn y cam busnes hwn yn cyfateb i £28.6 miliwn mewn 237 o gwmnïau.

O fewn y cyfanswm blynyddol, cynyddodd y cymorth ar gyfer busnesau newydd o £3.4 miliwn i £5.3 miliwn tra bod buddsoddiadau ecwiti mewn busnesau technoleg cychwynnol a chyfnod cynnar wedi gostwng o £11.1 miliwn i £8.8 miliwn. Mae'r gostyngiad hwn yn adlewyrchu gostyngiad cyffredinol yn y cytundebau ecwiti a gyhoeddwyd ledled y DU yn ystod 2023, a oedd wedi disgyn 25% o'r flwyddyn flaenorol, (o 2,917 yn 2022 i 2,179 yn 2023), gyda'r cyfanswm a godwyd wedi gostwng tua hanner (o £20.6 biliwn yn 2022 i £12 biliwn yn 2023)².

Nododd Traciwr Ecwiti Busnesau Bach Banc Busnes Prydain³ bwysigrwydd cronfeydd a gefnogir gan y llywodraeth i wrthbwysu'r gostyngiad hwn o ystyried y gwytnwch yn y ffigurau yr adroddir amdanynt ar gyfer Cymru a bod cronfeydd a gefnogir gan y llywodraeth yn cyfranogi mewn dros hanner (53%) o drafodion.

Tyfu busnes

Mae cyllid ar gyfer tyfu busnesau yn parhau i fod y maes lle mae'r galw mwyaf ac mae gwerth trafodion cyfalaf twf wedi cynyddu dros £11 miliwn, o £39.8 miliwn yn 2022/23 i £51.1 miliwn yn 2023/24. Rydym yn parhau i gynnig y cyllid dyled ac ecwiti cywir ar yr adeg iawn, gan hybu twf cynaliadwy i fusnesau uchelgeisiol. Dros dymor y cynllun corfforaethol presennol, mae 624 o fusnesau wedi cael budd o dros £90.9 miliwn mewn cyfalaf twf.

²Adroddiad Chwarterol Dirnad Economi Cymru Mai 2024 (developmentbank.wales)

³Traciwr Ecwiti Busnesau Bach 2024 | Banc Busnes Prydain (british-business-bank.co.uk)



Astudiaeth Achos

Cyrchfan Parc Cenedlaethol Bluestone

Rhanbarth: Sir Benfro

Cyllid: Benthyciad syndicet gyda Barclays

Angen busnes:

Twf a chynaliadwyedd busnes



Ym mis Ionawr 2024, gwnaethom gwblhau ein cytundeb cyllido strategol mwyaf erioed gyda chyfleuster syndicet cyntaf o'i fath gyda Barclays i Gyrchfan Bluestone.

Mae cyfanswm y cyfleuster benthycia yn galluogi Bluestone i barhau â rhaglen fuddsoddi gynaliadwy fawr sy'n cynnwys y gwaith sy'n mynd ymlaen i ddatblygu Cyrchfan Parc Cenedlaethol Bluestone a datblygu fferm solar 5 hectar a fydd yn cynhyrchu 3.2 megawatt o drydan y flwyddyn. Mae Bluestone yn

gyrchfan gwyliau 500 erw sydd â'i wreiddiau a'i ethos mewn bod yn fusnes cynaliadwy.

Dywedodd Simon Vittle, Cyfarwyddwr Corfforaethau Mawr Barclays:

"Mae ein partneriaeth â'r Banc Datblygu yn adlewyrchu ein hagwedd at gyllid cynaliadwy, gan ddarparu'r cyfalaf sydd ei angen i drawsnewid yr economïau rydym yn eu gwasanaethu."



Costcutter



Rhanbarth: Trefyclo, Powys

Cyllid: benthyciad o £100,000

Angen busnes:

Twf y busnes a buddsoddiad
mewn effeithlonrwydd ynni



Mae Costcutter Trefyclo yn cynnig amrywiaeth ehangach o nwyddau ffres ac wedi'u hoeri i gwsmeriaid ac yn lleihau'r defnydd o ynni diolch i unedau arddangos ac oeri newydd sy'n defnyddio ynni'n effeithlon.

Olyniaeth busnes

Mae olyniaeth yn parhau i fod yn faes polisi blaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ac i'r Banc Datblygu, gan gadw busnes ym mherchnogaeth Cymru. Gall perchnogaeth gan y gweithwyr gymryd sawl ffurf a'r prif fath o drafodyn a gefnogir gan y Banc Datblygu o hyd yw Pryniant gan Reolwyr. Cefnogwyd cyfanswm o 55 o gytundebau olyniaeth, gyda chyllid olyniaeth o £22 miliwn, cynnydd o 44 cwmni ac £20 miliwn yn y flwyddyn flaenorol. Yn ystod y 2 flynedd diwethaf, mae 99 busnes wedi cael dros £42.6 miliwn o gyllid olyniaeth.

Daeth £1.7 miliwn o gyllid o Gronfa Olyniaeth Rheoli Cymru gwerth £25 miliwn, sydd wedi'i theilwra'n benodol i gefnogi timau rheoli presennol gyda chyllid ecwiti i ddod yn berchnogion drwy bryniant. Mae ecwiti yn opsiwn deniadol i gefnogi busnesau gyda hanes masnachol blaenorol cryf ac mae'n cynnig llwybr cyllido sydd hefyd yn cryfhau'r fantolen, gan alluogi busnesau i dyfu o dan arweinyddiaeth newydd. Darparwyd cyllid hefyd ar gyfer trafodion olyniaeth drwy Gronfa Fusnes Cymru, Cronfa Micro Fenthyciadau Cymru, a Chronfa Buddsoddi Hyblyg Cymru.



RIVA

Rhanbarth: Wrecsam

Cyllid: Ecwiti saith ffigur a buddsoddiad dyled

Angen busnes:
Rheoli olyniaeth



Gwireddodd y Rheolwr Gweithrediadau, Joe Quinlan, ei uchelgais o gymryd yr awenau gan sylfaenydd Riva UK, sef Rita Bird a'i mab Carl gyda phecyn buddsoddi ecwiti a dyled saith ffigur gan Gronfa Olyniaeth Rheoli Cymru.

Sefydlwyd y cwmni tecstilau ym 1993 gan Rita, ac mae'n cyflogi dros 50 o bobl ac yn cyflenwi tecstilau unigryw i amrywiaeth o gwmnïau o'r radd flaenaf yn y sector modurol, y sector gwasanaethau brys, y sector awyrofod a'r sector diwydiannol.

Dywedodd Joe Quinlan: "Rwy'n hynod ddiolchgar i Fanc Datblygu Cymru am eu cefnogaeth i sicrhau bod y rheolwyr yn gallu prynu'r cwmni. Roedd eu dealltwriaeth a'u harbenigedd yn hanfodol er mwyn i mi a'r tîm allu gwireddu ein huchelgais. Doeddwn i erioed wedi bod drwy drafodiad fel hyn o'r blaen felly rwy'n ddiolchgar am eu mewnbwn a'r cymorth a gefais gan Chris Thomas yn SME Finance Partners, a fu wrth fy ochr bob cam o'r ffordd."

Cyllid ecwiti a chyfalaf tymor estynedig

Mae mynediad at gyllid ecwiti a chyfalaf tymor estynedig yn hanfodol er mwyn cefnogi busnesau technoleg arloesol, cam cynnar, neu er mwyn cefnogi strategaethau twf cwmnïau uchelgeisiol, ac mae'n allweddol ar gyfer sbarduno twf economaidd. Mae'r galw am ecwiti yng Nghymru wedi cynyddu ond mae'n dal yn gymharol fach, gydag ymchwil yn y DU gan Fanc Busnes Prydain yn dangos bod gan Gymru 2.5% o gyfanswm y trafodiadau yn y DU yn 2023⁴. Er bod gwerth buddsoddiad ecwiti wedi lleihau mewn busnesau bach a chanolig yn y DU yn ystod y flwyddyn, roedd Cymru yn un o ddim ond dau ranbarth yn y DU i ddangos cadernid, gyda lefelau buddsoddi cyffredinol yn gostwng llai nag mewn rhanbarthau eraill yn y DU. Roedd cronfeydd a gefnogir gan y llywodraeth wedi cyfranogi mewn dros hanner o'r rhain sy'n awgrymu bod y cronfeydd hyn yn darparu gwydnwch pwysig i economi Cymru.

Rydym yn monitro buddsoddiad ecwiti ar gyfartaledd treigl tair blynedd i helpu i roi cyfrif am anwadalarwydd y galw am ecwiti o un flwyddyn i'r llall. £12.2 miliwn yn 2023/24, £22.9 miliwn yn 2022/23 a £11.6 miliwn yn 2021/22. Yn ystod tymor presennol y llywodraeth, bu cynnydd o tua 12% yn yr ecwiti a ddefnyddir (ar gyfartaledd treigl tair blynedd), sef £15.5 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd ar hyn o bryd.

Mae buddsoddiadau ecwiti yn cael eu rheoli gan dimau arbenigol yn y Banc Datblygu. Mae tîm sbarduno technoleg pwrpasol, gyda gwybodaeth arbenigol, yn cefnogi busnesau yn ystod eu cyfnod cynnar tuag at fasnacheiddio ac ymlaen i dyfu. Gall ein tîm buddsoddiadau newydd strwythuro cymysgedd o ddyled ac ecwiti ar gyfer busnesau mwy sefydledig fel bod cwmnïau'n elwa o'r pecyn buddsoddi sydd fwyaf addas i'w hanghenion. Mae'r tîm datblygu portffolio yn rheoli'r berthynas â'r portffolio ecwiti datblygu ac yn canolbwyntio ar gefnogi taith twf y busnesau hyn hyd at ymadael.

Angylion Buddsoddi Cymru

Angylion Buddsoddi Cymru yw'r rhwydwaith angylion mwyaf yng Nghymru, sy'n cysylltu buddsoddwyr profiadol â busnesau yng Nghymru sy'n chwilio am fuddsoddiad preifat. Cofnododd y rhwydwaith record o £3.4 miliwn ar draws 28 o brosiectau ac 17 o syndicadau buddsoddi. Roedd hyn yn cynnwys 129 o fuddsoddiadau unigol, gyda Chronfa Cyd-fuddsoddi Angylion Cymru yn buddsoddi £1.96 miliwn; dyma gronfa sy'n buddsoddi ochr yn ochr â syndicadau angylion, gan annog mwy o'r gweithgarwch hwn ar sail oddefol. Mae'r gronfa'n cefnogi symudiad y rhwydwaith, yn unol â thueddiadau'r farchnad, tuag at 'syndicet' yn hytrach na buddsoddiad gan angel unigol sy'n cael ei ddylanwadu gan awydd i gydweithio ar dechnoleg a rhannu risg ariannol mewn cyfnod economaidd anodd.

Ochr yn ochr â'r gweithgarwch buddsoddi craidd, mae'r rhwydwaith wedi bod yn gweithio i amrywio ffynonellau cyfleoedd llif cytundebau a'r sylfaen fuddsoddwyr. Cwblhaodd Angylesau Cymru ei fuddsoddiad cyntaf yn ystod y flwyddyn ac roedd nifer y menywod yn y sylfaen fuddsoddwyr wedi cynyddu i 18%.

⁴Traciwr Ecwiti Busnesau Bach 2024 | Banc Busnes Prydain (british-business-bank.co.uk)

IE Hub

Rhanbarth: Caerdydd

Cyllid: £1 miliwn o fuddsoddiad angylion

Angen busnes: Symud i Gaerdydd a chyflymu twf



Symudodd IE Hub, yr hyb incwm a gwariant a ddefnyddir gan ddarparwyr gwasanaethau ariannol, cwmnïau cyfleustodau a defnyddwyr, i Gaerdydd yn dilyn rownd codi arian £1 miliwn a arweiniwyd gan syndicet o angylion busnes ac Angylion Buddsoddi Cymru.

Mae IE Hub yn adnodd ar-lein rhad ac am ddim sy'n galluogi defnyddwyr i lenwi ffurflenni incwm a gwariant mewn ffordd hwylus a di-straen. Mae'r buddsoddiad £1 miliwn yn cael ei ddefnyddio fel cyfalaf gweithio i gyflymu twf gyda buddsoddiad pellach mewn technoleg, gweithrediadau a marchnata. Disgwylir y bydd hyd at bedair swydd newydd yn cael eu creu.

Dywedodd Dylan Jones, Prif Weithredwr IE Hub: "Mae gan ein buddsoddwyr empathi llwyr â'n gorchwyl i gefnogi'r rheini sydd mewn dyled ac maen nhw'n awyddus i fod yn rhan o ateb unigryw i fynd i'r afael â'r broblem gynyddol o reoli dyledion."

Datblygu eiddo

Drwy ein cronfeydd eiddo wedi'u targedu, rydym yn cefnogi datblygwyr bach a chanolig i adeiladu cartrefi, swyddfeydd, mannau diwydiannol a datblygiadau defnydd cymysg newydd. Roedd yr amodau ar gyfer datblygwyr eiddo preswyl a masnachol busnesau bach a chanolig yn heriol yn 2023/24 gyda chyfuniad o'r cyfraddau morgais uchaf mewn 15 mlynedd yn arafu'r farchnad. Mae datblygwyr yn parhau i weld pwysau'r gadwyn gyflenwi a'r farchnad lafur yn codi costau datblygu ynghyd â lleihad yn y tir sydd ar gael.

Gostyngodd cyfanswm y buddsoddiad i £37.8 miliwn o £50.3 miliwn yn y flwyddyn flaenorol sef cyfanswm o £88.19 miliwn yn ystod y cynllun corfforaethol hwn. Cafodd 24 o ddatblygwyr gefnogaeth ar draws 27 o ddatblygiadau. Cafodd 227 o gartrefi eu hadeiladu gydag 20 ohonynt yn rhai fforddiadwy; a chafodd 25,263 troedfedd sgwâr o ofod masnachol ei gefnogi.

Bydd benthyciadau drwy fuddsoddiad Cymhelliad Cartrefi Gwyrdd eleni yn darparu 99 o'r cartrefi uchod, gyda chwech ohonynt yn rhai fforddiadwy, gan gynnwys:

- 46 â Thystysgrif Perfformiad Ynni gradd A;
- 2 PassivHaus;
- 96 strwythur heb fod yn goncrid;
- 56 â system wresogi sy'n defnyddio'r aer fel ffynhonnell.



MKR

Rhanbarth: Merthyr Tudful

Cyllid: benthyciad o £1.5 miliwn

Angen busnes:
Datblygiad eiddo masnachol



Mae MKR Property Developments Ltd yn adfywio safle tir llwyd segur ger Merthyr Tudful gyda chymorth buddsoddiad gwerth £4.1 miliwn gan Lywodraeth Cymru a Banc Datblygu Cymru.

Mae Parc Busnes Paisley wedi'i leoli ar hen safle'r ICI yn Ystad Ddiwydiannol Pant. Bydd yn barc busnes o 14 o unedau ffatri modern a fydd yn darparu lle i fusnesau bach a chanolig lleol. Mae'r buddsoddiad o £4.1 miliwn yn cynnwys Grant Datblygu Eiddo Llywodraeth Cymru gwerth £2.6 miliwn ynghyd â benthyciad o £1.5 miliwn gan Gronfa Eiddo Masnachol Cymru.



Dywedodd Rob Price yn MKR: "Rydym yn falch iawn o fod yn gweithio gyda Banc Datblygu Cymru i adfywio'r rhan hon o'n tirwedd drefol a darparu lle newydd gwyh i fusnesau lleol ffynnu."

Primesave Homes

Rhanbarth: Y Drenewydd, Powys

Cyllid: benthyciad o £4.68 miliwn

Angen busnes:
Datblygiad eiddo preswyl



Mae dau fuddsoddiad gwerth cyfanswm o £4.68 miliwn o'r Gronfa Safleoedd Segur wedi galluogi datblygu 44 o gartrefi teuluol newydd yn Oaks Meadow ger y Drenewydd gan ddatblygwyr lleol, Primesave Homes.



Mallows Beauty

Rhanbarth: Pont-y-clun,
Rhondda Cynon Taf

Cyllid: Dyled ac ecwiti

Angen busnes:
Datblygu cynnyrch a thwf allforio



Mae pecyn cyllido chwe ffigur gyda chymysgedd o ddyled ac ecwiti o Gronfa Buddsoddi Hyblyg Cymru yn helpu i ariannu datblygiad cynnyrch a thwf allforio ar gyfer brand harddwch figan Malloes Beauty.

Wedi'i leoli ym Mhont-y-clun, sefydlwyd y busnes twf cyflym yn 2020, gyda River Island, Oliver Bonas ac Urban Outfitters yn stocio i gynnyrch i ddechrau, cyn i'r brand symud ymlaen i stocio yn Superdrug a Beauty Bay yn ddiweddarach.

Dywedodd y Cyfarwyddwr, Laura Malloes: "Bydd y buddsoddiad hwn yn ein helpu i gyflawni ein llawn botensial – mae hefyd yn golygu nad ydym yn rhedeg allan o stoc yn barhaus mwyach. Mae'r Banc Datblygu wedi bod yn gefnogwr brwd i'r brand, felly nhw oedd ein pwynt cyswllt cyntaf wrth gynllunio ein pennod twf nesaf."



TO MAKE
YOU GLOW.
INSIDE & OUT

I AM
HAPPY

BEA
UTY

FOLLOW
ME

@malloesbeauty

Cefnogi entrepreneuriaid ifanc

Mae ein hymchwil gyda chwsmeriaid wedi ein helpu i ddeall sut y gallwn gefnogi entrepreneuriaid ifanc yn well wrth ddechrau eu busnesau eu hunain.

O'r sgysiau hyn, nodwyd amrywiaeth o rwystrau posibl, gan gynnwys:

- y canfyddiad y gallai cyllidwyr fod yn amharod i gefnogi entrepreneuriaid ifanc
- diffyg mynediad at gyfalaf neu sicrwydd
- diffyg profiad i ategu cynllun busnes a gwerthu'r cynnig i gyllidwyr
- a diffyg modelau rôl a mentoriaid

Gwnaethom newidiadau i'n dulliau marchnata, datblygu busnes a'n sancsiynau i annog mwy o ymgysylltiad gan entrepreneuriaid ifanc uchelgeisiol. Yn ystod y flwyddyn, cefnogwyd 84 cyfarwyddwr 30 oed ac iau o 69 busnes gyda £12.4 miliwn o gyllid.

Cefnogi ein cwsmeriaid

Gyda phortffolio cwsmeriaid sydd wedi tyfu i dros 3,000 o fusnesau gweithredol, mae'r ffordd rydym yn gweithio gyda chwsmeriaid ac yn eu cefnogi i greu gwerth yn rhan gynyddol bwysig o'r hyn rydym yn ei gynnig.



Mae datblygu cysylltiadau parhaol a chryf gyda'r busnesau rydym yn buddsoddi ynddynt yn rhan allweddol o'r ffordd rydym yn gweithio. Yn 2023/24, aeth 44% o'r buddsoddiad a ddarparwyd i gwsmeriaid presennol y Banc

Datblygu gan ddangos ein hymrwymiad i gefnogi ein cwsmeriaid yn y tymor hir.

Rydym yn neilltuo swyddog penodol i bob cwsmer, a'r swyddog hwnnw fydd yn gyfrifol am reoli'r berthynas, monitro perfformiad ariannol y busnes, a chwblhau buddsoddiadau dilynol. Yn achos benthyciadau mwy ac ar gyfer pob buddsoddiad ecwiti, mae ein tîm o weithredwyr portffolio yn meithrin perthynas gref â byrddau cwmnïau ac unrhyw fuddsoddwyr eraill, yn annog llywodraethu da, ac yn cefnogi'r tîm i gyflawni eu cynlluniau twf.

Mae adborth a barn cwsmeriaid yn sail i'n strategaeth, ac rydym yn defnyddio ein sgôr hyrwyddwr net fel ein dangosydd perfformiad allweddol ar gyfer boddhad cwsmeriaid. Daw'r sgôr o gwestiwn ynghylch a fyddai cwsmer yn ein hargymell i eraill sy'n olrhain eiriolaeth. Cyflawnodd y Banc Datblygu sgôr meincnod blwyddyn gyntaf o 74 yn 2021/22 o gyfradd ymateb i'r arolwg o 29%. Ar gyfer 2022/23, sicrhodd sgôr o 88 o gyfradd ymateb o 35%, a chafodd sgôr o 90.8 yn 2023/24 o gyfradd ymateb o 55%. Rhoddwyd yr arolygon ar ôl cwblhau trafodyn i gwsmeriaid portffolio ac mae'r adborth a gafwyd yn llywio gwelliannau i daith y cwsmer yn uniongyrchol. Mae crewyr Sgoriau Hyrwyddwr Net, Bain & Company, yn awgrymu bod sgôr dros 0 yn dda, dros 20 yn ffafriol, dros 50 yn rhagorol a dros 80 o safon fyd-eang.

Ein Sgoriau Hyrwyddwr Net





FW Capital

FW Capital yw cangen rheoli cyllid awdurdodedig FCA Grŵp Banc Datblygu Cymru. Mae wedi bod yn weithredol ers 2009 ac mae ganddo enw da am ennill a chyflawni contractau rheoli cyllid masnachol cystadleuol. Hwn hefyd yw'r cyfrwng ar gyfer buddsoddiad Cronfa Bensiwn Clwyd yng Nghronfa Olyniaeth Rheoli Cymru.

Codi arian

Mae'r cwmni wedi llwyddo i godi llawer o arian yn ystod y flwyddyn, gan wneud cynnig ac ennill tair cronfa gan Fanc Busnes Prydain drwy ei raglen gwledydd a rhanbarthau.

Ym mis Gorffennaf, lansiodd Banc Busnes Prydain Gronfa Fuddsoddi'r De Orllewin gwerth £200 miliwn gyda FW Capital yn gyfrifol am reoli'r gronfa cyllid i ariannu dyledion gwerth £19 miliwn. Gallwn nawr gynnig rhwng £100,000 a £2 filiwn i helpu busnesau â'u cynlluniau twf yn y De Orllewin gyda ffocws penodol ar Fryste, Swydd Gaerloyw, Gogledd a Gogledd-ddwyrain Gwlad yr Haf a Wiltshire.

Roeddem hefyd yn llwyddiannus wrth gynnig am ran o Gronfa Fuddsoddi Cymru, cronfa gwerth £130 miliwn a lansiwyd ym mis Tachwedd. Penodwyd FW Capital yn rheolwr ar gyfer y gronfa ddyledion £30 miliwn a all fenthycu rhwng £100,000 a £2 filiwn i dyfu busnesau ledled Cymru, gan ategu ein cyfalaf presennol ar gyfer busnesau bach a chanolog.

Erbyn hyn rydym hefyd yn rheoli cronfa Fuddsoddi Northern Powerhouse II - Cyllid i Ariannu Dyledion, sy'n werth £75 miliwn; mae'n rhan o Gronfa Fuddsoddi Northern Powerhouse II sy'n werth £660 miliwn a lansiwyd ym mis Mawrth, yr un mis ag y gwnaethom ddathlu'r garreg filltir o effaith £400 miliwn ar fusnesau'r Gogledd, gan greu bron i 5,000 o swyddi o Gronfa Northern Powerhouse gyntaf.

Perfformiad

Yn Lloegr, defnyddiodd FW Capital £43 miliwn, cynnydd o £5 miliwn o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Denodd y buddsoddiad £39 miliwn arall o gyd-fuddsoddiad i gael effaith economaidd gwerth £82 miliwn ar 107 o fusnesau.

Greencroft Homes

Rhanbarth: Morpeth,
Northumberland

Cyllid: Benthyciad chwe ffigur

Angen busnes:
Datblygiad tai preswyl

Mae Greencroft Homes yn datblygu cartref eco unigryw ym mhentref gwledig Hartburn ger Morpeth ar ôl cael buddsoddiad chwe ffigur gan Gronfa Eiddo Gogledd Ddwyrain Lloegr (NEPF).



Astudiaeth Achos

Lankem

Rhanbarth: Manceinion Fwyaf

Cyllid: Benthyciad chwe ffigur

Angen busnes: Datblygu cynnyrch a thwf busnes



Mae Lankem, gweithgynhyrchwr arbenigol o Fanceinion Fwyaf, yn datblygu amrywiaeth o wlychwyr seiliedig ar ddeunydd biolegol y genhedlaeth nesaf gyda buddsoddiad chwe ffigur gan NPIF – Cyllid i Ariannu Dyledion FW Capital.

Mae Lankem yn fusnes sy'n tyfu'n gyflym yn Dukinfield sy'n cyflenwi cynhyrchion gwlychu diwydiannol fel araenau, polymeru emwlsiwn, agrogemegau, tecstilau, olewau glanhau diwydiannol ac ireidiau. Mae'r cynhyrchion BioLoop newydd yn cynnwys cydrannau sy'n dod o ffynonellau adnewyddadwy.

Dyweddodd Sean Hodgkinson, y Cyfarwyddwr yn Lankem:

"Cynnyrch wedi'i wneud o blanhigion ydyw sydd â manteision enfawr i'r blaned. Mae hefyd yn ysgafn iawn felly gellir ei ddefnyddio mewn gofal personol a chosmeteg. Mae'r cyllid gan FW Capital yn cefnogi datblygiad BioLoop a'n lansiad i'r farchnad."



Gwasanaethau Eiddo

Mae Banc Datblygu Cymru yn rheoli nifer o gynlluniau cymorth ariannol i berchnogion tai ar ran Llywodraeth Cymru.

Cymorth i Brynu - Cymru

Yn dilyn ei lansiad gwreiddiol gan Lywodraeth Cymru yn 2014, mae cynllun Cymorth i Brynu – Cymru bellach yn ei drydydd cam, ac mae'n helpu i brynu cartrefi gyda gwerth marchnadol o hyd at £300,000 a gofyniad am Dystysgrif Perfformiad Ynni lefel B o leiaf, drwy adeiladwr cofrestredig Cymorth i Brynu – Cymru.

Mae cynllun Cymorth i Brynu – Cymru yn sicrhau bod cartrefi newydd ar gael i bawb sydd am brynu tŷ, nid dim ond y rhai sy'n prynu am y tro cyntaf, ond a allai fod yn cael eu cyfyngu i wneud hynny. Mae cymorth o hyd at uchafswm o 20% o'r pris prynu ar gael i brynwyr drwy fenthyciad rhannu ecwiti a ariennir gan Gymorth i Brynu – Cymru, ac mae'n ofynnol i brynwyr ddarparu blaendal o 5% o'r pris prynu.

Ers i'r cynllun ddechrau yn 2014, mae 14,189 o eiddo wedi cael eu prynu o dan y cynllun. Bu 6,336 o adbryniannau. Cafodd £25.9 miliwn ei fenthycy yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf mewn 526 o achosion. Oherwydd yr hinsawdd ariannol bresennol a'r cyfraddau llog uwch, mae nifer y ceisiadau ar gyfer y cynllun wedi lleihau. Mae hyn wedi effeithio ar allu cwsmeriaid i ail-forgeisio a chodi arian i ad-dalu eu benthyciad rhannu ecwiti. Wrth i'r farchnad ddechrau sefydlogi, rydym yn disgwyl gweld cynnydd yn nifer y ceisiadau a chyfraddau adbrynu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ymchwil i anghenion pobl sy'n prynu tai yn y dyfodol, a'r rôl y gall Cymorth i Brynu - Cymru ei chwarae i ddiwallu'r anghenion hynny. Bydd canlyniadau'r ymchwil, y bwriedir iddynt fod ar gael yn ystod yr haf 2024, yn sail i gynlluniau'r dyfodol i helpu pobl sy'n dymuno prynu cartref.

Ein blaenoriaeth o hyd yw cefnogi ein cwsmeriaid mwyaf agored i niwed drwy'r hinsawdd ariannol heriol, gan ystyried Dyletswydd Defnyddwyr newydd yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, i weithredu a sicrhau canlyniadau da i gwsmeriaid adwerthu.

Cynllun Cymorth i Lesddeiliaid

Mae'r Cynllun Cymorth i Lesddeiliaid yn helpu ymgeiswyr sydd mewn caledi ariannol sylweddol oherwydd materion diogelwch tân sy'n effeithio ar eu heiddo, neu sy'n wynebu hynny. Mae'r cynllun yn cynnig cyngor ac atebion i lesddeiliaid mewn perthynas â'u pryderon ariannol presennol. Mewn rhai achosion, gallai hyn gynnwys prynu'r eiddo lesddaliadol. Os nad yw'r ymgeisydd mewn caledi ariannol, efallai y bydd y cynllun yn dal i allu helpu drwy gynnig modd o gael cymorth arall.

Cymorth i Aros - Cymru

Lansiwyd Cymorth i Aros - Cymru ym mis Tachwedd 2023. Mae'n wasanaeth newydd sydd wedi'i anelu at berchnogion tai sydd mewn trafferthion ariannol, neu sy'n wynebu anawsterau ariannol, i dalu eu morgais. Nod y benthyciad ecwiti yw lleihau taliadau morgais misol presennol i lefel fforddiadwy. Bydd hyn yn caniatáu i berchnogion tai barhau i fyw yn eu cartrefi a bod yn berchen arnynt. Bydd hefyd yn rhoi amser iddynt ddatrys eu problemau ariannol sylfaenol, a allai leihau'r risg o adfeddiannu a digartrefedd.



Ar gynnydd: Hyrwyddo a datblygu dyfodol gwyrdd yng Nghymru

Rydym yn gweithio i hyrwyddo a datblygu dyfodol gwyrdd yng Nghymru drwy ddefnyddio cyllid wedi'i dargedu a chefnogi ein cwsmeriaid i fynd i'r afael â datgarboneiddio.

Rydym yn cydnabod y rôl hanfodol sydd gennym i'w chwarae o ran cefnogi economi gryfach a gwyrddach wrth i ni symud ymlaen â datgarboneiddio. Mae maint yr her ac anghenion amrywiol ein cwsmeriaid yn golygu bod angen i ni gael agwedd ystyriol i sicrhau bod ein hadnoddau, ein capasiti a'n cyfalaf yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Ein haddewid:

Mae'r Banc Datblygu wedi ymrwymo'n llwyr i fynd i'r afael â'r argyfwng newid hinsawdd a bydd yn parhau i ddatblygu ffyrdd o weithio a fydd yn cael effaith uniongyrchol yn seiliedig ar y canlynol:

1. Parhau i gyflawni cynllun lleihau carbon sy'n mynd i'r afael â'n gweithrediadau ein hunain gyda'r uchelgais i gyrraedd sero net*.
2. Defnyddio ein huned ymchwil Dirnad Economi Cymru i archwilio argymhellion polisi a chynnyrch a all lywio'r broses o drawsnewid i economi carbon isel.
3. Cefnogi'r busnesau rydym yn gweithio gyda nhw i wella a lleihau'r effaith amgylcheddol, gan gynnwys drwy gyfeirio at gynghorwyr cynaliadwyedd Busnes Cymru.

*cyd-fynd â thargedau Llywodraeth Cymru ar gyfer Sero Net erbyn 2030.

Strategaeth cynaliadwyedd

Yn y pen draw, credwn mai'r busnesau a fydd yn fwyaf llwyddiannus yw'r rhai sy'n mabwysiadu agwedd holistaidd tuag at eu heffeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol ac yn buddsoddi mewn atebion i gynnal

eu cystadleurwydd a'u cydnherthedd mewn marchnadoedd domestig a rhyngwladol.

Yn yr un modd, mae ystyriaethau cynaliadwyedd wrth galon adeiladu'r cartrefi, y gweithleoedd a'r isadeiledd sy'n barod at y dyfodol, gan sicrhau cydnherthedd ariannol a llesiant hirdymor ein cwsmeriaid a'r cymunedau a wasanaethwn.

Cymeradwyodd y bwrdd ein strategaeth cynaliadwyedd ym mis Mawrth 2023; mae'n nodi pedair colofn thematig ar gyfer y ffordd rydym yn edrych ar gynaliadwyedd.

1. Buddsoddiad

Fel buddsoddwr cyfrifol, rydym yn ymgorffori ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu yn ein proses awdurdodi buddsoddiadau gyda'r amcan o nodi'r risgiau a chyfleoedd sy'n perthyn i fuddsoddiad.

Gwelsom alw mawr gan fusnesau a oedd yn awyddus i gael mynediad at y Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd a'r Cymhelliad Cartrefi Gwyrdd. Darparwyd £3.3 miliwn o fenthyciadau i 15 o fusnesau dan y Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd ac adeiladwyd 99 o gartrefi dan y Cymhelliad Cartrefi Gwyrdd a ddarparodd fesurau fel:

- 46 o gartrefi wedi'u hadeiladu i Dystysgrif Perfformiad Ynni A;
- 2 gartref wedi sicrhau statws PassivHaus;
- 96 wedi'u hadeiladu gyda strwythurau heb fod yn goncrid;
- 56 o gartrefi wedi cael gosod system wresogi sy'n defnyddio'r aer fel ffynhonnell.

2. Creu gwerth

Mae creu gwerth yn ganolog i'r ffordd rydym yn gweithio gyda busnesau ar ôl iddynt ddod yn gwsmeriaid portffolio, gan gefnogi trawsnewid i arferion mwy cynaliadwy sy'n adeiladu busnesau cryfach a gwell ac yn creu cyflogaeth sydd, yn ei dro, yn cryfhau'r economi.

3. Datblygu cynnyrch

Fel banc datblygu, ein rôl yw mynd i'r afael â bylchau yn y farchnad neu ddatblygu marchnadoedd newydd neu rai nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol. Mae ein cynnyrch cyllid gwyrdd yn un ffordd y gall sefydliadau sy'n eiddo i'r llywodraeth rannu'r risg wrth ddatblygu cynnyrch ariannol newydd.

Buom yn gweithio gyda Nesta i gynhyrchu adroddiad ar y cyfle ôl-osod⁵. Daeth yr adroddiad i'r casgliad y byddai 55% o bobl yn ymgymryd â gwaith uwchraddio cartrefi gwyrdd yn ystod y tair blynedd nesaf pe baent yn cael rhywfaint o gymorth ariannol. Datblygwyd y cynnig ôl-osod yn achos busnes, a rhagwelir prosiect peilot ar gyfer 2024/25.

4. Gweithrediadau

Rydym wedi ymrwymo i gyrraedd y safonau rydym yn eu gosod i'n cwsmeriaid a sicrhau ein bod ninnau hefyd yn sbarduno'r newid i arferion cynaliadwy drwy ein gweithrediadau yn ogystal â'n buddsoddiadau.

Yn 2023, daeth y Banc Datblygu yn llofnodwr i ddwy safon ryngwladol mewn cyllid cynaliadwy.

Gyda 7,000 o lofnodwyr corfforaethol mewn 135 o wledydd, mae Egwyddorion ar gyfer Buddsoddiadau Cyfrifol, a gefnogir gan y Cenhedloedd Unedig, yn cael ei gydnabod fel y prif rwydwaith byd-eang ar gyfer buddsoddwyr sydd wedi ymrwymo i integreiddio ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant yn eu harferion a'u polisiau. Mae'r llofnodwyr yn cynnwys buddsoddwyr sefydliadol, fel cronfeydd pensiwn, darparwyr yswiriant, cronfeydd cyfoeth sofran a chronfeydd gwaddol.

Mae'r egwyddorion a bennir gan yr Egwyddorion ar gyfer Buddsoddiadau Cyfrifol yn cyd-fynd ag ymrwymiad y Banc Datblygu i ymgorffori ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant mewn prosesau buddsoddi, dadansoddi a gwneud penderfyniadau. Ym mis Medi 2023, gwnaethom gwblhau ein ffurflen Egwyddorion ar gyfer Buddsoddiadau Cyfrifol gyntaf cyn ein datgeliad cyhoeddus cyntaf yn 2025.

Mae'r Bartneriaeth ar gyfer Materion Ariannol Cyfrifo Carbon (PCAF) yn bartneriaeth sy'n cael ei harwain gan y diwydiant i hwyluso tryloywder ac atebolrwydd y diwydiant ariannol i Gytundeb Paris. Mae PCAF yn bartneriaeth fyd-eang o sefydliadau ariannol sy'n gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu a gweithredu dull wedi'i gysoni o asesu a datgelu'r allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â'u benthyciadau a'u buddsoddiadau. Bydd angen cyflwyno ein ffurflen PCAF gyntaf yn 2024.

⁵All the things I could do: financing green home upgrades | Nesta

Gweithredol: Rhagoriaeth cyflawni, cwsmeriaid yn gyntaf, cynaliadwyedd ariannol

Wrth i gyllidebau'r llywodraeth fynd yn fwy tynn ac wrth i anghenion busnes fynd yn fwy cymhleth, mae'n rhaid i ni ystyried ffyrdd newydd o sicrhau'r effaith fwyaf bosibl.

Mae hyn yn cynnwys defnyddio ein hendid sy'n cael ei reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, FW Capital, i weithio gyda chronfa ehangach o fuddsoddwyr i gynyddu llif arian yn economi Cymru.

Ymchwil

Dirnad Economi Cymru

Mae Dirnad Economi Cymru yn coladu ac yn dadansoddi data ar farchnad cyllid Cymru, gan gyfoethogi'r ddealltwriaeth o economi Cymru.

Gan ddod ag ystadegau economaidd ac ymchwil i fusnesau bach a chanolig at ei gilydd, mae'r gwasanaeth yn gydweithrediad ymchwil unigryw rhwng Banc Datblygu Cymru, Ysgol Fusnes Caerdydd, Ysgol Fusnes Bangor, y Ganolfan Ymchwil Menter, a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae ei ymchwil yn rhoi cipolwg ar y cyflenwad o gyllid yn y farchnad, a'r galw amdano, o fewn y cydestun economaidd ehangach yng Nghymru.

Mae Ysgol Fusnes Caerdydd yn arwain y gwaith o gynhyrchu'r adroddiadau chwarterol a blynyddol ar economi Cymru, busnesau bach a chanolig yng Nghymru, a mynediad at gyllid.

Mae Ysgol Fusnes Caerdydd, Ysgol Fusnes Bangor a'r Ganolfan Ymchwil Menter yn arwain ar gynhyrchu adroddiadau arbennig i fynd i'r afael â chwestiynau ymchwil penodol ac amserol. Pwrpas yr adroddiadau hyn yw ychwanegu dealltwriaeth newydd o faterion yn economi Cymru, darparu argymhellion polisi a sefydlu sylfaen dystiolaeth ar gyfer ymchwil pellach. Mae'r allbynnau ymchwil yn defnyddio data gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, StatsCymru, Banc Datblygu Cymru a ffynonellau data eraill.

Mae cynrychiolwyr o'r pum sefydliad yn ogystal â Llywodraeth Cymru yn ffurfio grŵp llywio Dirnad Economi Cymru sy'n llywio'r agenda ymchwil, yn gosod cwmpasau ar gyfer prosiectau, ac yn adolygu ac yn cymeradwyo allbynnau ymchwil i'w cyhoeddi.


Adroddiadau a gyhoeddwyd yn 2023/24

- Adroddiad chwarterol, Mai 2023
- Adroddiad blynyddol, Medi 2023
- Adroddiad chwarterol, Tachwedd 2023
- Adroddiad chwarterol, Chwefror 2024
- Busnesau sy'n gwneud llawer o waith ymchwil a datblygu yng Nghymru, Mawrth 2024
- Adroddiad arbennig:


Cynhaliodd y Ganolfan Ymchwil Menter, sef prif ganolfan ragoriaeth y DU ar gyfer ymchwil i dwf, arloesedd a chynhyrchiant busnesau bach a chanolig, adolygiad o Arolwg Arloesedd y DU, wedi'i ddilyn gan gyfres o gyfweiliadau manwl gyda chwmnïau sy'n gweithredu mewn sectorau sy'n gwneud llawer o waith ymchwil a datblygu yng Nghymru. Hwn oedd cyhoeddiad cyntaf y Ganolfan Ymchwil Menter mewn partneriaeth â Dirnad Economi Cymru, a dadansoddodd grŵp o gwmnïau sydd, drwy eu buddsoddiadau mewn ymchwil a datblygu, yn dangos ymrwymiad cryf i arloesi a chreu gwerth yn y dyfodol.

Canlyniadau'r adroddiad

Mae cwmnïau sy'n gwneud llawer o waith ymchwil a datblygu yng Nghymru yn cydweithio llai â phrifysgolion.



Mae cyfraniadau trosiant cwmnïau sy'n gwneud llawer o waith ymchwil a datblygu yng Nghymru yn cymharu'n dda â rhanbarthau'r DU.



Risgiau economaidd a chostau uchel yw'r prif ffactorau sy'n rhwystro arloesi yng Nghymru.

36% **35%**
Cost uchel Risgiau economaidd

Roedd cost uchel yn rhwystri i 36% o gwmnïau, a dim ond 21% a ddywedodd fod cost cyllid yn rhwystri, o'i gymharu â 28% yn yr Alban



Mae gweithgarwch arloesi mewn cwmnïau sy'n gwneud llawer o waith ymchwil a datblygu yng Nghymru yn wahanol i'r DU

36%

Dim ond 25% o gwmnïau sy'n gwneud llawer o waith ymchwil a datblygu yng Nghymru sy'n arloeswyr prosesau, o'i gymharu â 30% yn y DU.

Adroddiadau chwarterol


Parhaodd Ysgol Fusnes Caerdydd i gynhyrchu adroddiadau chwarterol ar gyfer Dirnad Economi Cymru drwy gydol 2023/24, gan adolygu data economaidd sy'n berthnasol i ddatblygiad busnesau bach a chanolig yng Nghymru, a dadansoddi gweithgareddau buddsoddi Banc Datblygu Cymru. Eleni, defnyddiwyd cynnwys yr adroddiadau chwarterol hyn i ddarparu sesiynau briffio rheolaidd i Aelodau'r Senedd a'u staff mewn

partneriaeth â Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru.

Mae prif ganfyddiadau'r adroddiadau chwarterol drwy gydol y flwyddyn yn cynnwys:

Roedd benthyciadau UK Finance i fusnesau bach a chanolig o fewn codau post y DU yn dangos gostyngiad parhaus mewn benthyciadau i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru yn ystod hanner cyntaf 2023, gyda'r swm benthycia cyffredinol yn gostwng o £4.56 biliwn yn 2022 H1 i £4.11 biliwn yn 2023 H1.

Benthycia i Fusnesau Bach a Chanolig, Ardal Cod Post Cymru (£m)



Roedd gwerth y nwyddau a gafodd eu hallforio o Gymru wedi gostwng 5.2% i £19.4bn yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2023 (o'i gymharu â gostyngiad o 1.7% yn Lloegr, 8.3% yn yr Alban, a chynnydd o 16.6% yng Ngogledd Iwerddon).

Trawsffurfio digidol

Parhaodd ein rhaglen trawsffurfio digidol sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid drwy gydol 2023/24.

Ein nod yw sbarduno arbedion effeithlonrwydd yn y broses asesu ceisiadau a lleihau amseroedd ymateb i'n cwsmeriaid.

Roedd y prosiectau a gafodd eu cwblhau a'u cychwyn yn ystod y flwyddyn yn cynnwys	
System gweinyddu benthyciadau	Mae cam olaf y prosiect hwn bellach yn fyw ac yn gwbl weithredol. Mae'r system hon yn cefnogi'r gwaith o reoli ein llyfr dyledion ac mae wedi symleiddio amrywiaeth o brosesau gweithredol sy'n hanfodol i fusnes, gan gynnwys casglu debyd uniongyrchol a phrosesu newidiadau i amserlenni ad-dalu benthyciadau.
Taith y cwsmer	Mae'r gweithgarwch datblygu wedi dod i ben i raddau helaeth a bydd yn darparu porth cwsmeriaid newydd sy'n cynnig gwell swyddogaeth. Disgwylir i'r prosiect hwn fod yn fyw yn 2024/25.
Cymorth i Brynu - Cymru system gweinyddu benthyciadau	Mae'r cam caffael wedi dod i ben ac mae bellach wedi symud ymlaen i'r cam datblygu.
System rheoli perfformiad	Cafodd system newydd ei chaffael a'i rhoi ar waith yn llwyddiannus yn ystod y flwyddyn.
Strategaeth ddata	Daeth Cam 1 i ben gan gynnwys map a dosbarthiad data i fodloni gofynion ardystio Lefel 2 IASME.

Swyddfa rheoli newid

O dan y prif amcanion busnes a phrosiectau blaenoriaeth, mae pob un o'n timau yn gyfrifol am sicrhau gwelliant parhaus a llywodraethu da. Mae effeithlonrwydd busnes, o newidiadau i systemau a phrosesau, rheolaethau, a datblygu cyfleoedd newydd yn cael ei harneisio drwy ein swyddfa rheoli newid. Cyfrifoldeb y swyddogaeth hon yw annog arloesedd a rhoi newid cadarnhaol ar waith yn y ffordd fwyaf effeithiol, gan sicrhau'r elw mwyaf posibl ar fuddsoddiad. Mae'r grŵp bellach wedi'i wreiddio fel swyddogaeth hanfodol gyda goruchwyliaeth a llywodraethiant ar y rhaglen o fentrau newid busnes strategol.

Recriwtio a chadw

Mae recriwtio a chadw yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r tîm rheoli. Er mwyn gwireddu ein huchelgeisiau a chyflawni ein pwrpas, rydym wedi bod yn gweithio i gynnal diwylliant ac amgylchedd lle gall ein cydweithwyr ffynnu a dysgu. Mae gwella ein dull gweithredu a dangos ein hymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wedi bod yn nod tymor hir yn y gweithgareddau cyfathrebu a recriwtio. O ganlyniad, fe ddaeth 14% o'n gweithwyr newydd o grwpiau ethnig lleiafrifol yn 2023/24 sy'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 6%. Yn arolwg cyflogwyr Chwarae Teg, enillodd y Banc Datblygu wobwr Aur am recriwtio. Bydd yr arolwg Lleoedd Gwych i Weithio yn disodli safon Chwarae Teg yn 2024/25.

Adroddiad am fuddsoddi ag effaith

Mesur llwyddiant

Rydym yn gofyn i'n cwsmeriaid rannu gwybodaeth a all ein helpu i ddeall ein heffaith economaidd-gymdeithasol yng Nghymru. Bob blwyddyn, rydym yn cymryd sampl o'r wybodaeth hon i fesur a gwerthuso'r effaith drwy fetrigau sefydledig. Mae'r metrigau a ddefnyddir yn cyd-fynd â Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru.

Nid yw'r metrigau hyn yn ddangosyddion perfformiad allweddol o'n gweithgarwch, ac mae'r farchnad, proffiliau buddsoddi cronfa unigol a pha mor hir mae busnes adrodd wedi bod yn gwsmer oll yn dylanwadu'n helaeth ar yr adroddiadau mewn unrhyw flwyddyn benodol. Fodd bynnag, rydym yn defnyddio'r data i lywio polisiau buddsoddi a chynlluniau gweithredu; gan hyrwyddo arferion gorau ac ychwanegu gwerth lle bynnag y bo modd.

Trosolwg o'r sampl

Mae ein hadroddiad effaith yn cynnwys y data diweddaraf a adroddwyd gan sampl o'n busnesau portffolio a buddsoddiadau newydd yn 2023/24. Roedd hyn wedi cael ei rannu'n dair carfan.

- Y sampl lawn o 1,182 o fusnesau sy'n darparu data dilys fel buddsoddiad newydd neu sydd wedi dychwelyd ffurflenni effaith buddsoddiad fel cwmni portffolio yn 2023/24. Mae'r garfan hon yn cael ei defnyddio i gyfrifo metrigau sy'n seiliedig ar weithgareddau ynghylch allforio, arloesi a digideiddio.
- Is-sampl o 646 o gwmnïau portffolio sydd wedi darparu digon o ddata i gyfrifo'r swyddi cyflog canolrif i uchel sy'n cael eu creu a'r cynnydd mewn cynhyrchiant. Defnyddir y garfan hon i gyfrifo metrigau sy'n seiliedig ar dwf - mae hynny'n gofyn i'r busnes adrodd data dilys dros sawl blwyddyn.
- Y drydedd garfan yw sampl o 423 o fuddsoddiadau newydd sydd wedi darparu data Amrywiaeth ac Ethnigrwydd ynghylch eu perchnogion/cyfarwyddwyr/rhanddeiliaid yn 2023/24.

Daw'r data yn yr adroddiad o gymysgedd o gwsmeriaid ar draws amrywiaeth o feintiau, sectorau a rhanbarthau, gan gynnwys y rheini sy'n adrodd am y tro cyntaf a busnesau sydd wedi bod yn ein portffolio ers nifer o flynyddoedd.

Mae ein methodoleg a'n diffiniadau ar gyfer metrigau effaith yn cael eu datgelu yn adran [perfformiad ac effaith](#) ein gwefan.

Dyfodol llewyrchus

Drwy ddarparu cyllid i farchnadoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu’n ddigonol, rydym yn helpu busnesau i greu cyfleoedd cyflogaeth, gan alluogi pobl i gael gafael ar gyfleoedd cyflogaeth a chyfoeth a gynhyrchir gan fusnesau yn y cymunedau y maent wedi’u lleoli ynddynt. Yn 2023/24:

- Roedd 76% o’r swyddi a gafodd eu creu mewn busnesau gyda chynnydd net mewn lefelau cyflogaeth mewn swyddi cyflog canolrifol i uchel (yn seiliedig ar yr is-sampl o 646 o gwmnïau portffolio).
- Roedd cyfran y swyddi cyflog canolrifol i uchel a gafodd eu creu wedi cynyddu i dros 90% ar gyfer buddsoddiadau ecwiti. I’r rheini a gafodd gymorth i ddechrau busnes, adroddwyd bod 63% o’r swyddi a gafodd eu creu yn rhai cyflog canolig i uchel.
- Roedd busnesau yn yr is-sampl (646 o fusnesau) hefyd yn allforio yn 2023/24. Adroddodd allforwyr yn yr is-sampl fod 93% o’r swyddi a gafodd eu creu yn y bandiau cyflog canolrifol i uchel gydag arloeswyr a’r rheini sy’n digideiddio eu busnes yn adrodd 79% a 78% yn y drefn honno.

Mae hyn yn parhau â’r duedd mewn adroddiadau effaith blaenorol ond mae’n amrywio bob blwyddyn wrth i’r mathau o fusnesau a’r blaenoriaethau twf yn y sampl newid yn annibynnol ar ein perfformiad buddsoddi.

- Ar gyfer adroddiad effaith 2023/24, rydym wedi newid y fethodoleg ar gyfer cyfrifo cynnydd mewn cynhyrchiant ar yr is-sampl o 646 o gwmnïau portffolio.

Roedd y fethodoleg flaenorol yn adrodd am y newid canrannol cyfartalog cymedrig mewn trosiant fesul FTE. Wrth i faint samplau a chyfansoddiad newid, gall allanolynnau ystadegol effeithio fwyfwy ar y cyfartaledd cymedrig a adroddwyd o dan y fethodoleg flaenorol.

O dan y fethodoleg newydd, mae cyfanswm y trosiant a adroddwyd gan y sampl wedi’i rannu â chyfanswm y FTE i roi trosiant diweddaraf fesul FTE. Mae hyn yn cael ei gymharu â’r trosiant blaenorol fesul FTE i roi cynnydd canrannol ar gyfer y sampl yn hytrach na chyfartaledd fesul busnes. Er mwyn gwella cywirdeb y metrig hwn, mae busnesau sy’n adrodd ynghylch sero FTE neu Drosiant yn cael eu tynnu o’r sampl.

Mae tabl isod sy’n dangos sut mae’r fethodoleg newydd hon yn cael ei defnyddio o’i gymharu â chanlyniadau 2022/23.

Blwyddyn	Dull blaenorol (maint y sampl)	Dull newydd (maint y sampl)
2023/24	47% (848)	10% (646)
2022/23	48% (792)	16% (549)

- O dan y fethodoleg cynhyrchiant newydd, mae ein his-sampl (646 o fusnesau) wedi gweld cynnydd o 10% mewn cynhyrchiant.
- O dan y fethodoleg cynhyrchiant newydd, adroddodd y busnesau a gafodd ecwiti gynnydd o 15% gyda’r rheini a oedd yn dechrau busnes yn adrodd ynghylch cynnydd o 37%.
- Busnesau yng Ngogledd Cymru sydd wedi adrodd am y cynnydd cynhyrchiant uchaf, sef 31%, o’i gymharu â 2% ymysg y rhai yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru.
- Roedd nifer o fusnesau yn yr is-sampl (646 o fusnesau) hefyd yn allforio yn 2023/24. Gwelodd allforwyr yn yr is-sampl gynnydd o 15% mewn cynhyrchiant.
- Mae’r Trosiant fesul FTE ar ei uchaf ymysg busnesau canolig eu maint, sef £127,000, ond dim ond cynnydd o 2% mewn cynhyrchiant a adroddwyd ganddynt. O’i gymharu, adroddodd busnesau micro Drosiant fesul FTE o £90,000 a chynnydd o 14% mewn cynhyrchiant.
- Roedd 10% o’r sampl llawn (1,182 o fusnesau) yn allforwyr gyda hyn yn cynyddu ychydig i 11% ar gyfer busnesau portffolio. Adroddodd y busnesau hyn dros £85.3m o allforion yn 2023/24, sy’n cyfrif am bron i 27% o’u trosiant. Mae Monitor Cyllid busnesau bach a chanolig BVA-BDRC a data diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn awgrymu bod rhwng 8% a 14% o fusnesau bach yng Nghymru yn ymwneud â gweithgarwch allforio.

Trosolwg GVA

Mae effeithiau cymdeithasol ein buddsoddiadau yn sbarduno posibiliadau i bobl a busnesau mewn cymunedau ledled Cymru. Er bod pob buddsoddiad yn cael effaith gymdeithasol uniongyrchol drwy'r swyddi maen nhw'n eu creu neu'n eu diogelu, mae hefyd yn cael effaith economaidd ychwanegol. Cefnogi busnesau i greu'r effaith economaidd ychwanegol hon yw sut rydym yn datgloi potensial yn economi Cymru.

Er mwyn cofnodi'r effeithiau hyn, rydym bellach yn monitro cyfraniad Gwerth Ychwanegol Gros sy'n seiliedig ar swyddi yn economi Cymru drwy'r gyflogaeth rydym yn ei chreu a'i diogelu.

Yn ystod 2023/24, rydym wedi bod yn gweithio i fireinio'r fethodoleg GVA net sy'n seiliedig ar swyddi ymhellach i gofnodi effaith ein buddsoddiadau'n llawnach, gan gynnwys ein buddsoddiad mewn eiddo. Mae hyn yn adeiladu ar y ffigur GVA sy'n seiliedig ar swyddi a gyhoeddwyd yn flaenorol drwy Adroddiad Blynyddol Dirnad Economi Cymru, a oedd yn edrych ar weithgarwch dyled ac ecwiti yn unig.

Mae'r fethodoleg newydd yn cofnodi ein heffaith ar gyflogaeth fesul sector yn economi Cymru yn ystod y flwyddyn ac yn cymhwyso tri ffactor disgownt ar wahân i'r niferoedd cyflogaeth gros fel bod y ffigur a nodir yn rhoi ystyriaeth glir i'n hychwanegedd, heb orddatgan yn yr allbwn. Mae'r fethodoleg newydd ar gyfer y GVA net sy'n seiliedig ar swyddi yn cael ei datgelu ar ein gwefan: <https://developmentbank.wales/about-us/performance-and-impact>

Effaith GVA 2023/24

Yn 2023/24, mae'r 4,406 o swyddi wedi'u creu a'u diogelu gan Fanc Datblygu Cymru wedi cyfrannu GVA net gwerth £214.9 miliwn i economi Cymru.

Y sector Gweithgynhyrchu oedd un o'r derbynwyr mwyaf o fuddsoddiad yn 2023/24 gyda £16.5 miliwn wedi'i fuddsoddi ar draws 68 o fuddsoddiadau, gan greu a diogelu 695 o swyddi. Roedd hyn wedi creu gwerth £40.7m o GVA net sy'n seiliedig ar swyddi. Un buddsoddiad o'r fath yn y sector hwn oedd cefnogi Vantastec, sef prif arbenigwr trosiadau, cerbydau oergell a cherbydau â'r tymheredd wedi'i reoli yn y DU, i ddod yn eiddo i weithwyr.

Wrth i'r Banc Datblygu gynyddu'r buddsoddiad mewn busnesau i sicrhau effaith amgylcheddol gadarnhaol, byddwn yn monitro'r GVA net sy'n seiliedig ar swyddi a gynhyrchir gan fusnesau sy'n darparu gwasanaethau ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni. Roedd busnesau yn y sector 'cyflenwi trydan, nwy, stêm ac aerdymheru', er enghraifft, wedi cael £997,000, gan greu a diogelu 34 o swyddi yn 2023/24. Roedd hyn wedi cynhyrchu gwerth £6.5 miliwn o GVA net sy'n seiliedig ar swyddi.

Arloesi a thechnoleg

Mae buddsoddi mewn busnesau sy'n arloesi yn creu cyfleoedd cyflogaeth sgil uchel sydd ar flaen y gad ym maes technoleg. Mae cefnogi busnesau mwy traddodiadol i fabwysiadu technolegau newydd yn eu gwneud yn fwy cystadleuol a chynhyrchiol – gan ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon ac yn fwy cymesur. Yn 2023/24:

- Roedd 23% o'r 1,182 o fusnesau yn y sampl lawn yn arloesi yn eu busnes. Cododd hyn i 25% ar gyfer y buddsoddiadau newydd a wnaed yn 2023/24 a 33% ar gyfer yr holl fuddsoddiadau ecwiti. Mae gweithgarwch arloesi yn cynnwys dechrau mathau newydd o weithgarwch ymchwil a datblygu cydweithredol, cofrestru patentau ac arloesi yn y farchnad.
- Roedd busnesau yn yr is-sampl (646 o fusnesau) a oedd yn disgrifio eu hunain fel arloeswyr yn 2023/24, wedi gweld cynnydd uwch mewn cynhyrchiant na'u cymheiriaid nad oeddent yn arloesi, sef 14%. Roedd y busnesau hyn hefyd wedi adrodd bod 79% o'r swyddi a gafodd eu creu ganddynt yn y bandiau cyflog canolig i uchel.

- Mae adroddiad 2024 Dirnad Economi Cymru ar fusnesau sy'n gwneud llawer o waith ymchwil a datblygu yng Nghymru yn dangos bod cwmnïau gweithgynhyrchu yn tueddu i lusgo ar ôl cwmnïau'r DU o ran gwelliannau arloesi a phrosiectau ymchwil a datblygu cydweithredol, ond adroddodd tua 40% o'r rhai yn y sector gweithgynhyrchu am weithgareddau o'r fath yn 2023/24.
 - Roedd 34% o'r 1,182 o fusnesau yn y sampl lawn yn mabwysiadu technolegau digidol, ac roedd hynny'n codi i 46% ar gyfer buddsoddiadau newydd ac i 64% ar gyfer buddsoddiadau ecwiti. Mae digideiddio yn cynnwys gweithredu CRM, cyfrifyddu ar y we neu feddalwedd dylunio gyda chymorth cyfrifiadur, cyfrifiadura cwmwl, dysgu peirianyddol e-fasnach a phrosesau deallusrwydd artiffisial.
 - Mae ymchwil yn awgrymu bod pandemig Covid-19 wedi cyflymu digideiddio ar gyfer llawer o fusnesau bach, er bod pwysau ariannol bellach yn rhwystr rhag buddsoddi.
 - Roedd busnesau yn yr is-sampl (646 o fusnesau) a oedd wedi digideiddio eu busnesau yn 2023/24 wedi gweld cynnydd uwch mewn cynhyrchiant na'u cymheiriaid oedd heb ddigideiddio, sef 22%. Roedd y busnesau hyn hefyd wedi adrodd bod 78% o'r swyddi a gafodd eu creu yn y bandiau cyflog canolig i uchel.
- Cymuned a lle**
- Mae buddsoddi mewn busnesau sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth yn y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu yn helpu i wneud ein cymdeithas yn fwy cyfartal, cynhwysol a chydlynol. Mae buddsoddi mewn gwelliannau yn y mannau lle mae pobl yn gweithio ac yn byw yn hybu iechyd a lles.
- Roedd 10% o berchnogion/ cyfarwyddwyr/ rhanddeiliaid yn y busnesau a oedd yn derbyn buddsoddiad newydd (423 o fusnesau) ac yn darparu data ethnigrwydd yn unigolion ethnig leiafrifol, ac roedd hynny'n codi i 13% ar gyfer busnesau micro. Cynyddodd nifer yr unigolion ethnig leiafrifol yn ein sampl i 88 o'i gymharu â 70 y llynedd. Roedd cyfran y busnesau a gefnogwyd gyda pherchnogion/ cyfarwyddwyr/ rhanddeiliaid ethnig leiafrifol ychydig dros 11%, sydd o fewn yr ystod o 6% a adroddwyd yn y data diweddaraf gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, a'r 24% a adroddwyd o fewn data Monitor Cyllid busnesau bach a chanolig 2023 BVA- BDRC ar gyfer busnesau bach yng Nghymru.
 - Roedd 8% o berchnogion/cyfarwyddwyr/ rhanddeiliaid yn y busnesau a oedd yn derbyn buddsoddiad newydd a oedd wedi darparu data ystod oedran, o dan 25. Mae hyn yn gynydd o'r tair blynedd flaenorol lle nad aeth hyn yn uwch na 4%. Wrth adolygu gweithgarwch yn 2023/24, buddsoddwyd dros £12.4m mewn 69 o gwmnïau gyda Chyfarwyddwyr o dan 30 oed. Mae Monitor Cyllid busnesau bach a chanolig BVA-BDRC yn awgrymu mai dim ond 1% o fusnesau yng Nghymru oedd yn cael eu harwain gan entrepreneuriaid ifanc yn 2023.
 - Roedd 41% o berchnogion/ cyfarwyddwyr/ rhanddeiliaid yn y busnesau a oedd yn derbyn buddsoddiad newydd a oedd wedi darparu data rhywedd yn fenywod, sy'n gynydd o 32% a welwyd dros y tair blynedd diwethaf. Roedd gan dros 49% o fusnesau a gafodd fuddsoddiad newydd yn 2023/24 berchnogion/cyfarwyddwyr/ rhanddeiliaid benywaidd sydd o fewn yr ystod o 28% a nodwyd o fewn data Monitor Cyllid busnesau bach a chanolig 2023 BVA-BDRC a'r 74% a adroddwyd yn y data diweddaraf gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer busnesau bach sydd wedi'u lleoli yng Nghymru.
 - Roedd gan bron i 60% o fusnesau yng Ngogledd Cymru, a 62% o fusnesau gyda rhwng 10 a 49 o weithwyr, berchnogion/ cyfarwyddwyr/rhanddeiliad benywaidd.
 - Yn 2023/24, gwnaethom baru'r is-sampl o fusnesau (646) â Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ar lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Is. Roedd 73% o'r swyddi a gafodd eu creu gan gwmnïau yn y degradd uchaf ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn y swyddi cyflog canolrif i uchel. Gwelodd y busnesau hyn hefyd gynydd o 26% mewn cynhyrchiant i drosiant fesul FTE o £97,000.

Adran 172 (1)

Mae A172 (1) o Ddeddf Cwmnïau 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i gyfarwyddwr y cwmni weithredu mewn ffordd y mae ef neu hi yn ystyried, yn ddidwyll, yw'r fwyaf tebygol o hyrwyddo llwyddiant y cwmni er budd ei randdeiliaid.

Wrth wneud hynny, mae A172 (1) yn ei gwneud yn ofynnol i gyfarwyddwr ystyried, ymysg materion eraill, y canlynol:

- canlyniadau tebygol unrhyw benderfyniadau yn y tymor hir
- buddiannau gweithwyr y cwmni
- yr angen i feithrin cysylltiadau busnes y cwmni gyda chyflenwyr, cwsmeriaid ac eraill
- effaith gweithrediadau'r cwmni ar y gymuned ac ar yr amgylchedd
- pa mor ddymunol yw i'r cwmni gynnal enw da am safonau uchel o ran ymddygiad busnes a'r
- angen i weithredu'n deg rhwng aelodau'r cwmni

Wrth gyflawni ei ddyletswyddau A172 (1), mae'r Bwrdd yn rhoi sylw i'r ffactorau a nodir uchod. Mae'r Bwrdd hefyd yn ystyried ffactorau eraill y mae'n ystyried sy'n berthnasol i'r penderfyniadau y mae'n eu gwneud. Mae'r Bwrdd yn cydnabod na fydd pob penderfyniad mae'n ei wneud o reidrwydd yn arwain at ganlyniad cadarnhaol i holl randdeiliaid y Grŵp. Drwy ystyried pwrpas, gorchwyl a gwerthoedd y Grŵp, ynghyd â'i flaenoriaethau strategol a chael proses ar waith ar gyfer gwneud penderfyniadau, mae'r Bwrdd, fodd bynnag, yn ceisio sicrhau bod ei benderfyniadau'n gyson.

Mae'r Bwrdd yn dirprwyo awdurdod am redeg y busnes o ddydd i ddydd i'r Prif Swyddog Gweithredol, ac i'r uwch reolwyr i osod, cymeradwyo a goruchwyllo'r gwaith o weithredu strategaeth a pholisïau cysylltiedig y Grŵp. Mae'r Bwrdd, gan weithredu ar ei gyfrif ei hun a thrwy ei bwyllgorau, yn adolygu materion sy'n ymwneud â pherfformiad ariannol a gweithredol; strategaeth fusnes;

prif risgiau; materion sy'n ymwneud â rhanddeiliaid; cydymffurfiaeth; a materion cyfreithiol a rheoleiddiol, yn ystod y flwyddyn ariannol. Cefnogir hyn drwy ystyried adroddiadau a chyflwyniadau a ddarperir yng nghyfarfodydd y Bwrdd ac adolygu agweddau ar strategaeth y Grŵp yn rheolaidd.

Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid y Grŵp yn hanfodol i'r ffordd mae'r Grŵp yn rhedeg ei fusnes ac mae'n ystyriaeth bwysig i'r Cyfarwyddwyr wrth wneud penderfyniadau perthnasol.

Cynllun corfforaethol 2022/27

Mae ein cynllun corfforaethol ar gyfer 2022/27 yn nodi sut byddwn yn cyflawni ein gorchwyl i ddatglo'i'r potensial yn economi Cymru drwy gynyddu cyflenwad a hygyrchedd cyllid cynaliadwy ac effeithiol. Mae'n amlinellu ein hamcanion strategol 5 mlynedd fel darparu cyllid dyled ac ecwiti gydag effaith gymdeithasol; hyrwyddo a datblygu dyfodol gwyrdd yng Nghymru; a rhagoriaeth o ran cyflawni, cwsmeriaid yn gyntaf, cynaliadwyedd ariannol.

Ym mis Rhagfyr 2023, cynhaliodd ein Bwrdd a'n tîm Gweithredol sesiwn strategaeth dau ddiwrnod i adolygu cynnydd yn erbyn ein hymrwymiaid ac i ystyried cyfleoedd y dyfodol i sicrhau'r effaith orau bosibl a chefnogi blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg ar gyfer datblygiad economaidd yng Nghymru. Roedd y meysydd allweddol a drafodwyd yn cynnwys manteision cyflwyno deallusrwydd artiffisial o fewn ein gweithrediadau busnes, adolygu metrigau effeithlonrwydd ar draws y busnes ac archwilio meysydd cynnyrch newydd gan gynnwys cymorth ac isadeiledd deillio.

Fel buddsoddwr effaith gyda ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant wrth wraidd ein darpariaeth, rôl y Banc Datblygu yw trosi polisi llywodraeth Cymru yn atebion ariannu ymarferol. Rydym yn hyderus y byddwn yn parhau i gyflawni'n llwyddiannus yn erbyn targedau ein cynllun corfforaethol wrth i ni barhau i ganolbwyntio'n gadarn ar gyflawniad cydweithredol, hirdymor ac arbenigol i sbarduno uchelgeisiau ledled Cymru.

Cyfleoedd y dyfodol

Mae'r mentrau a gafodd eu datblygu yn ystod 2023/24 yn cynnwys:

- Lansio'r cynllun Cymorth i Aros, gwasanaeth mae'r Banc Datblygu yn ei weinyddu ar ran Llywodraeth Cymru i gefnogi perchnogion tai yng Nghymru sydd mewn perygl o golli eu cartrefi oherwydd cynnydd mewn cyfraddau llog ac effeithiau costau byw.
- Datblygu ein Cronfa Achub ac Ailstrwythuro'n llwyddiannus o dan y Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau.
- Dechrau ein rôl fel Partner Innovate UK gyda grant gwerth £1.3m ar gael i fusnesau Cymru ochr yn ochr â'n buddsoddiad.
- Cwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i ddiweddarau a oedd wedi arwain at gynllun gweithredu o welliannau cyflawni i sicrhau mynediad cyfartal at gyllid ar draws ein holl weithrediadau.
- Datblygu ein strategaeth cynaliadwyedd corfforaethol i'w chyhoeddi yn ystod 24/25 sy'n amlinellu ein hymrwymiad a'n hagwedd at effaith amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant gadarn.
- Parhau i gyflwyno ein strategaeth ecwiti bwrpasol i gefnogi addysg a'r nifer sy'n manteisio ar fuddsoddiad ecwiti yng Nghymru.

Mae ein strategaeth gorfforaethol yn nodi ein cynlluniau ar gyfer 2022/27. Mae cyfleoedd y dyfodol yn cynnwys:

- Treialu cynnig i berchnogion tai yng Nghymru ddatgarboneiddio a gwella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi gyda golwg ar sefydlu strwythur mwy parhaol sy'n cefnogi uchelgeisiau Sero Net Llywodraeth Cymru.
- Gweithio gydag endidau sy'n dod i'r amlwg fel Ynni Cymru a Trydan Gwyrdd Cymru, yn ogystal â datblygwyr yn y sector preifat, i sefydlu lle gall y Banc Datblygu chwarae rôl gefnogol i brosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr yng Nghymru.
- Sicrhau cyllid i'r dyfodol ar gyfer ein cynnyrch craidd i fusnesau Cymru, gan gynnwys Cronfa Micro ddilynol a Chronfa Cyd-fuddsoddi Angylion Cymru.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Mae gan y Grŵp nifer o grwpiau rhanddeiliaid y mae'n ymgysylltu'n weithredol â nhw. Mae gwrandio ar, deall ac ymgysylltu â'r grwpiau rhanddeiliaid hyn yn rôl bwysig i'r Bwrdd wrth bennu strategaeth a gwneud penderfyniadau. Mae'r Grŵp yn cydnabod ei rwymedigaethau a'i ofynion i fod yn fusnes gwasanaethau ariannol sy'n cael ei reoli'n dda, sy'n cydymffurfio â rheoliadau ac yn sicrhau canlyniadau da i gwsmeriaid.

Mae gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid wedi bod yn werth craidd sy'n dal wrth galon ein brand newydd a'n cynllun corfforaethol ar gyfer 2022/27.

Mae ein gwerthoedd yn pwysleisio sut rydym yn gweithio gydag eraill ac maent wedi cael eu hadlewyrchu yn ein fframwaith cymwyseddau newydd:

- Cydweithio clyfar
- Egni entrepreneuriaidd
- Empathi gwrthrychol
- Cyfrifoldeb ymwybodol.

Digwyddiadau a nawdd

Rydym wedi parhau i fuddsoddi yn ein rhaglen allgymorth, gan gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o ddigwyddiadau i randdeiliaid a gweithgareddau noddi sy'n cyd-fynd â'n nodau strategol cyffredinol. Ymhlith y rhain, fe wnaeth y Banc Datblygu noddi Gwobr Entrepreneur yn Womenspire 2023, sy'n dangos ein cefnogaeth i fenywod sy'n entrepreneuriaid. Rydym hefyd wedi parhau i gyfrannu at Banel Cyngori Cefnogi Merched Entrepreneuriaidd drwy roi camau gweithredu o'r Canllaw Arfer Da ar waith. Ni oedd prif noddwr trydydd digwyddiad Gwobrau Merched Mewn Busnes Llais Cymru a gynhaliwyd yn 'Yr Egin' S4C yn 2023.

Ymhlith y digwyddiadau eraill i randdeiliaid a gefnogwyd oedd Sefydliad y Cyfarwyddwyr, Ffederasiwn Busnesau Bach, FinTech Cymru, Gwobrau Twristiaeth Gogledd Cymru, 4theRegion, Menter yr Ifanc, Wythnos Dechnoleg Cymru, a chinio blynyddol ICAEW. Mae aelodau'r Bwrdd yn mynd i ddigwyddiadau strategol i ymgysylltu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid.



Ein cwsmeriaid

Fel buddsoddwr cyfrifol, rydym yn mesur ein heffaith gyda mecanweithiau sy'n cyd-fynd â Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Galwad i Weithredu Llywodraeth Cymru.

Gan gydbwyso enillion ariannol ag effaith gymdeithasol, rydym wedi datblygu pedair thema effaith a gymeradwywyd gan y Bwrdd:

- dyfodol llewyrchus;
- cymuned a lle;
- dyfodol cynaliadwy;
- arloesi a thechnoleg.

Trafodir y rhain yn fwy manwl yn ein datganiad Effaith ar dudalennau 60-63.

Rydym yn parhau i fuddsoddi yn ein rhaglen trawsfurfio digidol gyda'r nod o wella gwerth a gwneud yn siŵr ein bod yn parhau i ddiwallu anghenion newidiol ein cwsmeriaid.

Sgôr Hyrwyddwr Net yw ein mesur safonol o fodlonrwydd cwsmeriaid erbyn hyn. Mae canlyniadau arolygon 2023/24 ar gyfer ein buddsoddiadau yng Nghymru a FW Capital yn olrhain adborth cwsmeriaid ar yr holl fenthyciadau micro, dyledion mwy, ecwiti, mentrau technoleg a chytundebau eiddo yng Nghymru, ynghyd â'r holl gytundebau sy'n cael eu cwblhau gan FW Capital.

Mae'r sgôr gyfun hon o 91 yn gosod ein lefelau gwasanaeth yn y chwarterl uchaf. Mae'r adborth nawr yn cael ei ddefnyddio i wella profiad cwsmeriaid ymhellach a darparu meincnod ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd.


Ein hamgylchedd

Rydym wedi cyflwyno ein strategaeth cynaliadwyedd corfforaethol (2024/27) sy'n amlinellu rhaglen waith i ddatblygu ein harferion buddsoddi cyfrifol ar draws ein portffolio ac adeiladu ar ein trosglwyddiad i weithrediadau corfforaethol mwy cynaliadwy. Er mwyn hwyluso ein strategaeth cynaliadwyedd, rydym wedi ffurfioli trefniadau llywodraethu ar draws y Banc. Kate Methuen-Ley yw'r Cyfarwyddwr Anweithredol arweiniol dros faterion cynaliadwyedd, ac mae hi'n gweithredu fel cyswllt rhwng y Bwrdd a'r Pwyllgor Cynaliadwyedd sydd newydd ei sefydlu,

sy'n cael ei gadeirio gan Beverley Downes, y Cyfarwyddwr Cyfathrebu, i oruchwylio buddsoddiadau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant a chynaliadwyedd corfforaethol. Mae Dr Matthew Kelly wedi cael ei gyflogi fel y rheolwr cynaliadwyedd i ddarparu cymorth a chynghor arbenigol i uwch arweinwyr a gweithrediadau busnes.

Ym mis Mawrth, cymeradwyodd y Bwrdd y Strategaeth Cynaliadwyedd a sawl argymhelliad ar gyfer cynllun gweithredol 2024/25.

- Lleoli'r Banc Datblygu ar flaen y gad o ran buddsoddwyr effaith yn y DU – bod ymhlith y cyntaf i fabwysiadu Gofynion Datgelu Cynaliadwyedd yr FCA, gyda'r nod o fynd i'r afael â Gwyrddgalchu yn y sector ariannol, gan sicrhau bod ein cronfeydd effaith a'n cynlluniau yn bodloni'r gofynion hyn.
- Cynnal adolygiad o'n harferion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant ar draws ein portffolio o fuddsoddiadau, gan ddarparu sicrwydd ansawdd a nodi cyfleoedd datblygu busnes i hyrwyddo buddsoddiad effaith yng Nghymru.
- Cefnogi uchelgais ein cwsmeriaid i sbarduno creu gwerth cynaliadwy – nodi cwmnïau portffolio gwirfoddol i dreialu cynlluniau pontio busnesau bach a chanolig ar gyfer Sero Net.
- Sicrhau ein bod yn datblygu strategaeth buddsoddi Sero Net sy'n cyflawni dros flaenoriaethau Cymru – cefnogi cynllunio adrannol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyllideb Garbon 3 (2026-30).
- Hyrwyddo ein hadroddiadau cynaliadwyedd corfforaethol – darparu datganiad Gofynion Adrodd Symlach ar Ynni a Charbon (SECR) a datblygu ein methodolegau ar gyfer yr Egwyddorion ar gyfer Buddsoddiadau Cyfrifol a datgeliadau'r Bartneriaeth ar gyfer Materion Ariannol Cyfrifo Carbon.
- Rhoi cynlluniau ailgylchu gwastraff ar wahân ar waith ar draws ein hystâd.



Ein cymunedau

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i'r chwe philer allweddol o fusnes cyfrifol: sicrhau effaith nid yn unig i gwsmeriaid a rhanddeiliaid, ond hefyd i gyflenwyr a chydweithwyr, yn ogystal â chefnogi'r amgylchedd a'n cymuned.

Mae ein cyllid yn cefnogi datblygiad economaidd yn uniongyrchol yn y rhanbarthau rydym yn gweithredu ynddynt, gan greu a diogelu swyddi ac ysgogi cadwyni cyflenwi lleol.

Mae ein Bwrdd yn cael diweddariadau rheolaidd ar weithgareddau codi arian a chymunedol y Grŵp drwy'r adroddiad rheoli gweithredol misol. Mae'n cymeradwyo pob gweithgaredd ac yn mynychu digwyddiadau strategol allweddol.

Rhwng mis Mawrth 2023 ac Ebrill 2024, rydym yn falch o fod wedi codi £72,000 ar gyfer ein helusen y flwyddyn, Pancreatic Cancer UK, er cof am ein ffrind a chydweithiwr annwyl, Elaine Yarwood. Dyma'r cyfanswm uchaf a godwyd gan ein cydweithwyr dros gyfnod o 12 mis. Gwnaethom gyflawni hyn drwy amrywiaeth o fentrau codi arian, gan gynnwys:

- tîm o gydweithwyr yn cymryd rhan yn Endure24, ras gyfnewid 24 awr, lle'r oeddent yn teithio 505 milltir, sef tua 25.25 milltir y pen ar gyfartaledd;
- tîm o gydweithwyr yn cwblhau Wheel Walk y Preston Guild, sef 21 milltir mewn diwrnod;
- cydweithiwr yn cwblhau Taith Gerdded Arfordirol Fife, sef 91 milltir;
- tîm o gydweithwyr yn cymryd rhan yn hanner marathon Caerdydd;
- gwnaethom gynnal dawnisiau elusennol yng Nghaerdydd, Manceinion a Newcastle;
- gwnaethom gynnal diwrnod golff elusennol a chwis elusennol;
- gwnaethom gynnal loteri 50/50 i weithwyr bob mis.

Am y ddegfed flwyddyn yn olynol, rhoddodd cydweithwyr anrhegion Nadolig i 115 o blant drwy elusennau'r NSPCC a Barnardo's.

Yn ogystal â chodi arian i elusennau, bu ein timau'n gwirfoddoli yn ein cymunedau lleol. Yn ystod 2023/24, roedd hyn yn

cynnwys tîm a wirfoddolodd i wella'r ardd a'r gofod y tu allan i Ganolfan Maggie's ym Manceinion, elusen sy'n darparu gwybodaeth a chymorth canser am ddim.

Ein cyflenwyr

Rydym yn falch o'r cysylltiadau cryf a buddiol sydd gennym â'n cyflenwyr.

Rydym yn glynu wrth y Cod Talu'n Brydlon, ac yng Nghymru rydym wedi llwyddo i ddefnyddio porth caffael Gwerthwchi Gymru Llywodraeth Cymru drwy gydol y flwyddyn i ddod o hyd i gyflenwyr. Rydym hefyd wedi cael gafael ar gontractau fframwaith y llywodraeth i gefnogi ein twf a'n rhaglen trawsffurfio digidol barhaus.

Roedd y Bwrdd yn cael diweddariadau rheolaidd ar brif weithgareddau caffael y Grŵp drwy'r adroddiad rheoli gweithredol misol a diweddariadau polisi gan y Pwyllgor Archwilio a Risg.

Ein rhanddeiliad

Ein hunig rhanddeiliad yw Llywodraeth Cymru. Rydym yn gweithio'n agos gyda chynrychiolwyr etholedig ac uwch swyddogion i gyflawni dyheadau a blaenoriaethau polisi fel y nodir yn ein llythyr cylch gwaith Tymor y Llywodraeth. Mae Llywodraeth Cymru yn mynychu cyfarfodydd Bwrdd Banc Datblygu Cymru fel sylwedydd.

Fel yr endid yr 'ymddiriedir' ynddo y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddefnyddio i roi arian ar gyfer buddsoddi ac elw, rydym yn cydymffurfio â'r safonau, y canllawiau a'r egwyddorion llywodraethu sy'n berthnasol i sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus sy'n cael eu cyllido gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r Cadeirydd a'r Prif Swyddog Gweithredol yn cwrdd o bryd i'w gilydd gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru a'i swyddogion, ac mae'r berthynas yn cael ei rheoli gan Dîm Partneriaeth Llywodraeth Cymru.

Cynhelir sesiynau craffu blynyddol drwy wahoddiad gan Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd. Yn 2023/24, penderfynodd y pwyllgor gynnal ymchwiliad i'r Banc Datblygu yn lle craffu blynyddol o dan y cylch gorchwyl canlynol.

- Perfformiad cyffredinol Banc Datblygu Cymru ers ei sefydlu yn 2017, gan gynnwys meysydd o lwyddiant yn ogystal ag unrhyw feysydd o danberfformiad.
- I ba raddau y mae'r Banc Datblygu wedi cyflawni'r amcanion penodol a nodir yn y ddogfen Banc Datblygu Cymru – ased strategol ar gyfer Cymru fwy ffyniannus, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2017 ac yn y 'Llythyr cylch gwaith Tymor y Llywodraeth' ar gyfer y Banc Datblygu a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2021.
- Edrych ar enghreifftiau o arfer gorau byd-eang, a deall sut mae Banc Datblygu Cymru yn cymharu â banciau datblygu eraill o faint tebyg – o ran maint y cyllid, y mathau o gymorth a ddarperir ac effaith y cymorth, ac ati.

Mae'r ymchwiliad hwn wedi dod i ben ac mae'r Pwyllgor wedi cyhoeddi ei adroddiad. Mae'r Banc Datblygu yn ystyried ei argymhellion.

Ein cydweithwyr

Mae gan y Banc Datblygu ddiwylliant ac amgylchedd lle gall ein cydweithwyr ddatblygu, ffynnu a dysgu. Rydym yn cynnig gweithio'n hyblyg sy'n helpu gyda'r cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith i'n cydweithwyr, ond mae hefyd yn cael ei adlewyrchu ym mherfformiad cadarnhaol y busnes. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi datblygu ein swyddfeydd yn Wrecsam, Caerdydd a Llanelli i gefnogi ein hymrwymiad i fodel gweithio'n hyblyg ac annog mwy o gydweithio ac arloesi. Rhoddir ystyriaeth bellach i fuddsoddi yn ein swyddfeydd eraill dros y flwyddyn nesaf.

Mae'r Bwrdd yn ymgysylltu â chydweithwyr, ac yn gwahodd aelodau o'r tîm i gyflwyno i'r Bwrdd ar bynciau strategol a mynychu digwyddiadau rhwydweithio. Roedd gennym 11 o brif berfformwyr a gafodd ginio gyda'r Cadeirydd i ddathlu eu llwyddiannau. Ochr yn ochr â hyn, mae llawer o Aelodau'r Bwrdd hefyd yn ymwneud â'r Pwyllgor Buddsoddi sy'n cynnwys gweithio'n agos gyda chydweithwyr o bob rhan o'r busnes.

Rydym yn annog ac yn cefnogi cydweithwyr i ddatblygu eu gyrfa gyda 43% o'n hymgyrchoedd recriwtio yn cael eu llenwi gan ymgeiswyr mewnol yn ystod 2023/24. Rhoddwyd llwybr datblygu gyrfa strwythuredig



Tiger Yard

ar waith ar gyfer cydweithwyr, sydd wedi arwain at saith dyrchafiad yn ystod y flwyddyn. Mae'n sbardun i ddenu a chadw'r bobl iawn i sicrhau twf y sefydliad i'r dyfodol.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Mae polisïau'r Grŵp wedi'u dylunio i ddarparu cyfle cyfartal i bob gweithiwr, ni waeth beth yw ei oed; anabledd; rhywedd; ailbennu rhywedd; statws priodasol a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred, neu absenoldeb crefydd neu gred; cyfeiriadedd rhywiol neu ymlyniad undeb lafur. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon, roedd 7.5% o'n cydweithwyr yn dod o leiafrifoedd ethnig o'i gymharu â 7% yn 2022/23. Rydym yn gweithio gyda phob cydweithiwr, gan gynnwys y rheini ag anableddau (4%) ac yn addasu arferion gwaith lle bo angen i gefnogi cynhyrchiant ac ymgysylltiad.

Rydym yn mynd ati'n frwd i annog cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Rydym wedi ymrwmo i egwyddorion cyfle cyfartal, ac rydym yn ymdrechu i greu gweithlu sy'n wirioneddol gynrychioladol o bob rhan o gymdeithas a'n cwsmeriaid, ac i bob cydweithiwr deimlo ei fod yn cael ei barchu a'i fod yn gallu rhoi o'i orau. Yn anad dim, rydym yn cefnogi cydweithwyr ag anableddau drwy sicrhau'r canlynol:

- Nid yw unrhyw ymgeisydd am swydd na chydweithiwr yn cael triniaeth lai ffafriol nac yn cael ei roi dan anfantais am resymau nad ydynt yn gysylltiedig â'i allu i wneud y gwaith.
- Mae'n rhaid i bob rheolwr sy'n recriwtio wyllo ein fideo ynghylch pwysigrwydd amrywiaeth i sicrhau ei fod yn deall pwysigrwydd croesawu a chefnogi amrywiaeth a chynhwysiant.
- Mae pob hysbyseb recriwtio yn cynnwys datganiad ein bod yn gyflogwr cyfle cyfartal. Rydym hefyd yn sicrhau bod modd addasu pob cwrs hyfforddi yn ôl yr angen i alluogi cydweithwyr ag anableddau i fynychu.
- Rydym yn cefnogi ac yn parhau i fonitro ein cynnydd o ran cyflawni cydraddoldeb mewn cyfleoedd datblygu gyrfa.
- Rydym yn gwahodd cydweithwyr i drafod eu hanableddau gyda ni er mwyn i ni allu eu cefnogi a gwneud addasiadau rhesymol lle bo hynny'n briodol.
- Cynigir asesiadau DSE i gydweithwyr yn rheolaidd i sicrhau bod iechyd a diogelwch pob un o'n cydweithwyr yn cael ei ddiogelu. Gellir darparu cyfarpar penodol o ganlyniad i hyn.
- Rydym yn gofyn am gyngor lechyd Galwedigaethol lle bo'n briodol ac yn cynnwys y cydweithiwr yn y trafodaethau hynny.
- Lle bynnag y bo modd, mae ceisiadau rhesymol i weithio'n hyblyg yn cael eu diwallu yn unol â'r polisi gweithio'n hyblyg.
- Rydym yn cynnal hyfforddiant cydraddoldeb a chynhwysiant rheolaidd drwy Clever Nelly, ein llwyfan dysgu parhaus.

Rydym hefyd yn falch o weithio mewn partneriaeth â Great Place to Work®, lle mae cydweithwyr yn cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn arolwg blynyddol sy'n gofyn am adborth ar agweddau pwysig ym mhrofiad y gweithiwr, fel perthnasoedd mewnol, cyflogau a buddion, hyfforddiant a chyfathrebu. Yn ystod y flwyddyn, lansiodd y Grŵp gyfres newydd o gymwyseddau i gyd-fynd â gwerthoedd y Grŵp. Mae'r rhain yn ffurfio rhan o'r broses rheoli perfformiad newydd. Darparwyd hyfforddiant cynhwysfawr

i bob cydweithiwr, gan sicrhau bod ymddygiad yn cyd-fynd ag amcanion y Grŵp. Mae ein hyfforddiant yn cael ei gynnal ar-lein ac wyneb yn wyneb yn unol â'n polisi gweithio'n hybrid. Gwnaethom gynnal 1,358 diwrnod o hyfforddiant yn ystod 2023/24 sy'n cyfateb i bum diwrnod o hyfforddiant ar gyfartaledd i bob cydweithiwr. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau dull wedi'i gynllunio i ddarparu amgylchedd iach a hapus yn y gweithle. Mae hyn yn cefnogi cydweithwyr i gynnal a gwella eu hiechyd a'u lles personol yn y gwaith ac mae'n cynnwys ymwybyddiaeth ariannol, iechyd meddwl ac iechyd corfforol. Cynhaliwyd y mentrau llesiant canlynol yn ystod y flwyddyn:

- sesiynau cyfathrebu wythnosol i bob cydweithiwr;
- gweithio hybrid;
- seminarau rheolaidd yn rhoi sylw i bob agwedd ar lesiant;
- adolygu ein buddion i weithwyr a darparu pecyn gwell;
- sesiynau ymwybyddiaeth o'r menopos i reolwyr llinell a'r holl gydweithwyr a'r cymorth sydd ar gael;
- cynllun beicio i'r gwaith;
- mentrau ymgysylltu â gweithwyr;
- rhoddwyd 180 + o bigiadau fflw i gydweithwyr;
- roedd 10 swyddog cymorth cyntaf iechyd meddwl ar gael i gefnogi cydweithwyr a chynnal sesiynau llesiant rheolaidd i bob cydweithiwr;
- roedd 64 cydweithiwr wedi cymryd rhan yn y sesiynau 'torri'r garw', cyfle gwych i weithwyr newydd ddod i adnabod eu cydweithwyr;
- digwyddiadau iechyd meddwl 'cerdded a siarad';
- cynhaliwyd 100 o archwiliadau iechyd.



G Thorley
Prif Weithredwr

3 Medi 2024

Rheoli risg



Rheoli risg


Rydym yn cydnabod bod rheoli risgiau allweddol yn effeithiol yn hanfodol er mwyn cyflawni ein hamcanion a sicrhau twf cynaliadwy. Mae angen nodi, deall a mynd i'r afael yn briodol â'r risgiau allweddol hyn er mwyn diogelu ein cwsmeriaid, ein rhanddeiliaid a'r amgylchedd.


Mae ein fframwaith rheoli risg wedi'i ddylunio i gyd-fynd â maint, graddfa a chymhlethdod y Grŵp ac mae'n diffinio dull cyffredin o reoli risg. Mae'r Polisi Rheoli Risg a Sicrwydd yn nodi ein dull o lywodraethu, rheoli risg a gweithgarwch sicrwydd gan ddefnyddio'r model 'tair llinell amddiffyn', a gydnabyddir fel un o safonau'r diwydiant ar gyfer arferion rheoli risg cadarn. Mae'r Fframwaith Rheoli Risg, gan gynnwys prif risgiau'r Grŵp, yn cael ei adolygu a'i gymeradwyo gan y Bwrdd bob blwyddyn ac, os oes angen, yn amlach i sicrhau bod risgiau sy'n esblygu yn cael eu cofnodi'n effeithiol ac yn effeithlon.

Mae gennym bolisiau a gweithdrefnau ar draws y Grŵp sydd wedi'u dylunio i hwyluso cydymffurfiaid â chyfreithiau a rheoliadau perthnasol, gan gynnwys Cyfundrefn Uwch Reolwyr ac Ardystio'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol, twyll a throseddau ariannol, llwgrwobrwyo a llygredd, chwythu'r chwiban, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae'r polisiau a'r gweithdrefnau hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau y glynir wrth ofynion rheoliadol sy'n newid ac i ymgorffori newidiadau yn yr amgylchedd busnes.

Egwyddorion allweddol y model rheoli risg, fel y dangosir yn y diagram ar y dudalen nesaf, yw:

1. Mae gan y Bwrdd atebolrwydd a chyfrifoldeb cyffredinol dros reoli risg yn y Banc.
2. Mae'r Bwrdd yn dirprwyo rolau a chyfrifoldebau rheoli risg penodol i'r Pwyllgor Archwilio a Risg, y Prif Swyddog Gweithredol a'r Prif Swyddog Risg.
3. Mae'r Prif Swyddog Gweithredol a'r Prif Swyddog Risg yn cael eu cefnogi i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn drwy adroddiadau uniongyrchol gan yr uwch dîm rheoli, gyda'r olaf o'r rhain hefyd yn cael ei gefnogi gan y swyddogaeth Risg a Chydymffurfiaeth wrth gyflawni ei chyfrifoldebau.





Mae ein fframwaith rheoli risg yn cefnogi'r gwaith o nodi, asesu, monitro a lliniaru risgiau y mae'r Grŵp yn debygol o'u hwynebu.

Fframwaith Rheoli Risg:

- Mae'n dangos cysylltiad clir â strategaeth gyffredinol a chynllun busnes y Banc Datblygu.
- Mae'n eiddo i'r Prif Swyddog Risg ac yn cael ei gymeradwyo gan Fwrdd y Banc Datblygu. Mae unrhyw newidiadau i'r Fframwaith Rheoli Risg yn cael eu hargymhell gan y Pwyllgor Archwilio a Risg er mwyn i'r Bwrdd eu cymeradwyo.
- Mae'n amlinellu gweledigaeth ac amcanion rheoli risg, a'r dull ar gyfer datblygu gallu'r Grŵp i reoli risg.

Rolau a chyfrifoldebau

Rôl y Bwrdd

Mae gan y Bwrdd atebolrwydd a chyfrifoldeb cyffredinol dros reoli risg yn y Grŵp ac mae'n cefnogi'r gwaith o roi fframwaith o reolaethau effeithiol ar waith sy'n golygu bod modd asesu a rheoli risg. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cefnogi'r Bwrdd.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau bod cymysgedd priodol o arbenigedd, gwybodaeth am y busnes, profiad ariannol, gwybodaeth dechnegol, a safbwyntiau allanol ar y Bwrdd ac o fewn y Grŵp ehangach.

Mae gosod y 'naws o'r cychwyn cyntaf' yn rhan hanfodol o rôl y Bwrdd i annog diwylliant risg cadarnhaol. Mae'r Bwrdd a'r uwch reolwyr yn gweithredu, ac yn disgwyl i gydweithwyr weithredu, yn agored ac yn onest ac uwchgyfeirio unrhyw achos o ddiffyg cydymffurfio â pholisi a gweithdrefn a welir.

Yn olaf, mae'r Bwrdd yn cymeradwyo goddefiadau risg y Grŵp er mwyn nodi a diffinio'r mathau a'r lefelau o risgiau y mae'n fodlon eu derbyn wrth gyflawni ein hamcanion strategol ac i sicrhau bod fframwaith priodol ar gael ar gyfer gwneud penderfyniadau.

Rôl rheolwyr a chydweithwyr

Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn gyfrifol am roi Polisi Rheoli Risg a Sicrwydd y Banc Datblygu ar waith ac am dynnu sylw'r Bwrdd at ymddangosiad prif risgiau, ac unrhyw newid arwyddocaol o ran eu tebygolrwydd neu eu heffaith.

Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn cymryd cyfrifoldeb dros wreiddio arferion rheoli risg effeithiol ar draws y Grŵp ac mae hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod goblygiadau ariannol ac anariannol risgiau ar ein perfformiad yn cael eu cydnabod mewn ffordd ddarbodus ac amserol.

Yn ogystal â chyfrifoldebau penodol yr Uwch Dîm Rheoli, mae'r holl gydweithwyr yn gyfrifol am nodi, rheoli a lliniaru risgiau yn eu meysydd busnes.


Diwylliant risg

Mae diwylliant risg cadarnhaol yn cynorthwyo'r Grŵp i gyflawni ei bwrpas a'i amcanion ar lefel risg sy'n dderbyniol. Adlewyrchir ein diwylliant mewn ymddygiad a arddangosir gan y Bwrdd a chydweithwyr o ran ymwybyddiaeth o risg, cymryd risg a rheoli risg.

Mae'r model 'tair llinell amddiffyn' (gweler y fframwaith sicrwydd ar dudalen 85 ac 86 am esboniad ynghylch y model) yn allweddol i sicrhau bod dulliau rheoli risg yn cael eu gwreiddio ar draws y Grŵp, yn yr un modd â'r 'naws o'r cychwyn cyntaf' mewn perthynas â chanllawiau a chymorth gan y Bwrdd a'r Uwch Dîm Rheoli.

Mae atebolrwydd personol hefyd yn rhan bwysig o'n diwylliant risg. Anogir cydweithwyr i gymryd perchnogaeth o'r gwaith o adnabod a rheoli risgiau o fewn eu meysydd busnes eu hunain. Mae canllawiau a chymorth ar gael i alluogi cydweithwyr i roi gwybod am ddigwyddiadau risg a rhai a fu 'bron â digwydd.'

Yn olaf, mae timau'r llinell amddiffyn gyntaf ac ail yn gweithio gyda'i gilydd i reoli proffil risg y Banc Datblygu. Wrth wneud hynny, nod yr ail linell amddiffyn yw cynnal annibyniaeth weithredol o'r llinell gyntaf drwy gyhoeddi canllawiau clir ynghylch rheoli risg, dirprwyo'r cyfrifoldeb cyffredinol dros ddylunio a gweithredu rheolaeth i'r llinell amddiffyn gyntaf, a chefnogi a herio'u prosesau gwneud penderfyniadau.



Prif risgiau

Mae'r prif risgiau o ran cyflawni amcanion strategol y Banc Datblygu yn cael eu diffinio gan y Bwrdd ac maent wedi'u nodi isod.

Mae'r Grŵp yn rheoli'r prif risgiau sy'n gysylltiedig â'i weithgareddau drwy amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys:

- Asesiad Bwrdd blynyddol o'n prif risgiau.
- Defnyddio fframwaith rheoli risg sydd wedi'i lunio i nodi a rheoli risg o fewn goddefiannau risg, fel y'u diffinnir gan y Bwrdd.

- Defnyddio rheolaethau lliniaru i leihau tebygolrwydd ac effaith risgiau.
- Rhaglen gynefino gynhwysfawr ar gyfer gweithwyr newydd a hyfforddiant gorfodol i gydweithwyr mewn meysydd risg allweddol.
- Argaeledd canllawiau i gydweithwyr drwy gyfres gynhwysfawr o bolisiau sydd ar gael ar fewnrwyd y Banc Datblygu.
- Sganio'r gorwel i nodi newidiadau rheoleiddio, deddfwriaethol a chyfrifyddu sydd ar y gweill ac unrhyw risgiau sy'n dod i'r amlwg.

Mae gan y Grŵp bedair sgôr risg, sef 'bach iawn, isel, cymedrol ac uchel'. Caiff risgiau eu hasesu gan ddefnyddio dull matrices risg safonol sy'n nodi'r tebygolrwydd y bydd risg yn digwydd a'i heffaith ymddangosiadol ar y Grŵp. Bydd lleoliad y risg ar y matrices hwnnw yn pennu ei sgôr.

Methiant i gyflawni cynllun corfforaethol y Banc Datblygu ac ymrwymïadau i'n rhanddeiliad	
Prif categori risg	Strategol
Rhesymeg	Sgôr cyn rheoli
Mae'r Banc yn parhau i dyfu yn erbyn cefndir o newid yn nîsgwyliadau'r farchnad, a'r hinsawdd macro-economaidd a gwleidyddol ehangach, sy'n cyflwyno heriau o ran parhau i gyflawni targedau heriol.	Uchel
Camau lliniaru	Sgôr ar ôl rheoli
Mae cyflawni achos busnes y Grŵp yn dibynnu ar fodel llywodraethu cadarn gydag amcanion sydd wedi'u diffinio'n glir, wedi'u hategu gan gyfres gynhwysfawr o wybodaeth reoli. Mae aelodau'r Bwrdd a'n cyfranddaliwr yn cael diweddariadau rheolaidd ar berfformiad mewn perthynas â busnes craidd a gwaith prosiect. Rydym yn gweithio'n agos â Thîm Partneriaeth Llywodraeth Cymru, adrannau eraill Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill ar gyflawni'r cynllun presennol a mentrau cronfa newydd.	Isel
Newid mewn Risg	
Heb newid Mae ein model llywodraethu cadarn a goruchwyliaeth y bwrdd ar gyflawni cynllun corfforaethol y Grŵp yn parhau. Mae cynnydd tuag at gyflawni amcanion sydd wedi'u diffinio'n glir yn cael ei fonitro'n agos, ac mae'r prif risgiau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd.	



Methiant i sicrhau bod cyllid yn parhau i fod ar gael neu ddarpariaeth yn y gyllideb o ran math neu ddigonolrwydd	
Prif gategori risg	Cyllid
Rhesymeg	Sgôr cyn rheoli
Mae parhad hirdymor y Banc Datblygu, i raddau helaeth, yn dibynnu ar barodrwydd parhaus Llywodraeth Cymru i ddarparu cyllid i fuddsoddi. Mae cymhlethdod a heriau rheoli'r gyllideb sy'n deillio o ailddosbarthu ONS y Banc yn effeithio ymhellach arno, sy'n golygu bod angen ymgysylltu'n agosach â chydweithwyr yn y Timau Partneriaeth a Chyllid yn Llywodraeth Cymru.	Uchel
Camau lliniaru	Sgôr ar ôl rheoli
Rydym yn defnyddio ein profiad ein hunain a phrofiad ein cwsmeriaid i ganfod bylchau yn narpariaeth cyllid y sector preifat ac rydym yn gweithio'n agos â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynigion arloesol i fynd i'r afael â methiant yn y farchnad, fel yn y Cynllun Cymorth i Aros a lansiwyd yn ddiweddar. Mae dangos tystiolaeth o lwyddiant parhaus allbynnau'r gronfa yn allweddol i'n hygyrddedd fel sianel gyflawni lwyddiannus ar gyfer mentrau cymorth busnes Llywodraeth Cymru a busnes rheoli cronfeydd proffesiynol. Yn unol â hynny, rydym yn cadw golwg manwl ar berfformiad y gronfa a chyflawniad y dangosyddion perfformiad allweddol sy'n gysylltiedig â hynny.	Cymedrol
Newid mewn Risg	
Heb newid Rydym yn parhau i weithio'n agos â Llywodraeth Cymru i sicrhau bod cynlluniau'r gronfa yn mynd i'r afael ag anghenion y farchnad. Mae perfformiad y Grŵp yn unol â chyllidebau y cytunwyd arnynt yn parhau i gael ei reoli yn unol â'r disgwyliadau a rennir â Llywodraeth Cymru, neu'n rhagori ar y disgwyliadau hynny.	



Methiant i gydymffurfio â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol	
Prif categori risg	Cydymffurfio
Rhesymeg	Sgôr cyn rheoli
Mae'r Banc Datblygu yn parhau i weithredu mewn amgylchedd cyfreithiol a rheoleiddiol cymhleth sy'n esblygu, ac mae'n pontio'r sectorau cyhoeddus a phreifat. Mae'r dirwedd reoleiddiol ganlyniadol hon yn golygu bod y Banc yn wynebu risg uwch o achosion o beidio â chydymffurfio.	Uchel
Camau lliniaru	Sgôr ar ôl rheoli
Mae gennym gyfres gynhwysfawr o bolisiâu a gweithdrefnau manwl i gyfarwyddo llywodraethiant, a gefnogir gan amrywiaeth eang o hyfforddiant gorfodol i bob cydweithiwr. Mae ein diwydrwydd dyladwy cadarn o ran cynefino cwsmeriaid yn cael ei gynnal drwy gydol y berthynas â chwsmeriaid ac mae gennym weithdrefnau clir ar gyfer rhoi gwybod am weithgarwch amheus. Mae'r Tîm Cydymffurfiaeth yn ymgymryd â gweithgarwch samplu ffeiliau, ac adroddir ynghylch y canlyniadau i'r uwch reolwyr. Mae ein harchwilwyr mewnol annibynnol yn darparu sicrwydd ynghylch dyluniad ac effeithiolrwydd gweithredu'r rheolaethau mewnol ar draws y Grŵp, gan adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Maent wedi cyflawni'r cynllun archwilio mewnol ac wedi adolygu fframwaith rheoli risg y Grŵp, gan ddod i'r casgliad bod gan y Grŵp fframwaith digonol ac effeithiol ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol ar yr un pryd â nodi gwelliannau i sicrhau bod y fframwaith yn parhau i fod yn ddigonol ac yn effeithiol.	Isel
Newid mewn Risg	
Wedi cynyddu Mae maint a chyflymder y newid rheoleiddiol yn parhau i fod yn uchel, gyda nifer o'r rheoliadau hyn yn cael mwy o effaith ar weithgareddau'r Grŵp. Mae ein dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y cwsmer yn cyd-fynd â'r Ddyletswydd newydd i Ddefnyddwyr a'r angen i sicrhau canlyniadau da i gwsmeriaid. Mae trefniadau ar waith i sicrhau bod y Grŵp yn barod ar gyfer newid rheoleiddiol, megis mewn perthynas â'r Rheoliadau Caffael newydd.	




Methiant i ddeall neu addasu i anghenion ein cwsmeriaid, a’r risg o ganlyniadau gwael a niwed i gwsmeriaid	
Prif categori risg	Ymddygiad
Rhesymeg	Sgôr cyn rheoli
Mae cwsmeriaid wrth galon ein model busnes, ac maent yn hanfodol i’n strategaeth fel cyllidwr bwlch. Gallai methiant i ddeall ac addasu i’w hanghenion arwain at ganlyniadau gwael neu niwed i gwsmeriaid, sy’n debygol o dynnu sylw rheoleiddwyr a bygwth gweithrediad hirdymor y Banc.	Uchel
Camau lliniaru	Sgôr ar ôl rheoli
Mae’r Banc Datblygu yn gweithredu’n glir ac yn effeithiol i gynnal safonau llym yr ymddygiad proffesiynol y mae’n ei ddisgwyl gan ei gydweithwyr. Caiff hyn ei alluogi drwy: – Ymgysylltu’n rhagweithiol â’n rhanddeiliaid a’n marchnadoedd targed drwy amrywiaeth o sianeli. – Monitro boddhad cwsmeriaid drwy arolygon ac adborth. – Monitro cwynion, gan gynnwys dadansoddiad o wraidd y broblem a themâu sy’n codi dro ar ôl tro. – Cyfres gynhwysfawr o adnoddau hyfforddi staff, gan gynnwys adnabod cwsmeriaid agored i niwed ac ymateb i’w hanghenion yn briodol.	Cymedrol
Newid mewn Risg	
Heb newid Nid ydym yn ystyried bod y risg hon wedi cynyddu. Mae’r grŵp yn parhau i fonitro tueddiadau cwsmeriaid a’r hinsawdd facro-economaidd er mwyn teilwra cynnyrch sy’n bodloni galw sy’n esblygu.	



Methiant i fodloni amcanion y gronfa o ran perfformiad	
Prif categori risg	Mandad buddsoddi
Rhesymeg	Sgôr cyn rheoli
Mae amgylchedd economaidd heriol y DU yn her sylweddol i'n cwsmeriaid, ac mae'n cynyddu'r risg o ddiffygdalu benthyciadau ac enillion is ar fuddsoddiadau, a fydd wedyn yn cael effaith niweidiol ar berfformiad y gronfa.	Uchel
Camau lliniaru	Sgôr ar ôl rheoli
Rydym yn parhau i asesu effaith yr amgylchedd cymdeithasol-wleidyddol ac economaidd ar ein portffolios benthyca ac ecwiti, ac yn adolygu datblygiadau fesul achos fel rhan o'n gweithgarwch monitro portffolio. Bydd hyn yn llywio perfformiad cyffredinol yn erbyn targedau'r gronfa, sy'n cael eu hadolygu a'u hail-fodelu fel y bo'n briodol. Rydym yn deall bod argaeledd cyllid gan y Banc Datblygu yn bwysicach nag erioed yn ystod y cyfnod ansicr hwn. Yn unol â hynny, rydym yn parhau i godi ymwybyddiaeth o argaeledd cyllid i fusnesau yng Nghymru. Rydym wedi cryfhau ein Tîm Risg Portffolio arbenigol i ddarparu ar gyfer mwy o fusnesau sy'n wynebu straen neu drallod oherwydd yr hinsawdd economaidd heriol. Mae'r Tîm Risg Portffolio yn gweithio'n agos â busnesau i ddarparu pecynnau cymorth wedi'i deilwra, fel ymrwrthod, lle bynnag y bo modd.	Isel
Newid mewn Risg	
Wedi cynyddu Er bod disgwyl i gyfradd chwyddiant flynyddol y DU barhau i ostwng yn 2024, mae effaith cynnydd mewn prisiau dros y ddwy flynedd ddiwethaf oherwydd galw byd-eang cryf ar ôl y pandemig, amhariadau cysylltiedig y gadwyn gyflenwi a phrisiau ynni uwch¹ bellach yn bodoli yn yr economi.	


¹Rising cost of living in the UK - Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin (parliament.uk)



Methiant i optimeiddio cadernid gweithredol, llywodraethu data ac effeithiolrwydd wrth reoli newid	
Prif categori risg	Gweithredol
Rhesymeg	Sgôr cyn rheoli
Mae cadernid gweithredol yn parhau i fod yn risg allweddol i gwmnïau ar draws y diwydiant gwasanaethau ariannol. Mae’n parhau i fod yn ganolog i ffocws yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, hefyd. Wrth i’r Banc Datblygu barhau i dyfu a newid, gyda phrosesau, pobl a thechnoleg newydd, mae pwysigrwydd llywodraethu data cadarn yn cynyddu.	Uchel
Camau lliniaru	Sgôr ar ôl rheoli
Mae diogelwch a chadernid wedi’u gwreiddio yn sgil y defnydd cynyddol o wasanaethau Cwmwl ar gyfer ein hystâd a’n cymwysiadau TG. Ar ben hynny, mae cynlluniau Parhad Busnes ar waith, ac rydym yn cynnal ymarferion senario digwyddiadau. Mae’r Swyddfa Rheoli Prosiectau yn gweithio i oruchwylio a llywodraethu newid strategol. Mae’r Swyddfa Rheoli Newid yn goruchwylio ac yn herio’r agenda newid. Mae polisiâu a gweithdrefnau cynhwysfawr ar gael i bob cydweithiwr ar ein mewnrwyd. Mae ein tîm Cydymffurfiaeth yn cynnal adolygiadau rheolaidd o ffeiliau i sicrhau dull gweithredu cyson. Rhennir y canlyniadau gydag uwch reolwyr ac mae gan staff dargedau ansawdd wedi’u gwreiddio yn eu hamcanion perfformiad blynyddol.	Cymedrol
Newid mewn Risg	
Wedi cynyddu Gyda mwy o gysylltiad â bygythiadau sy’n gysylltiedig â seiber, fel meddalwedd wystlo a thwyll sy’n cael ei alluogi gan seiber, bydd angen i sefydliadau yn y sector ariannol wella eu fframwaith cadernid gweithredol yn barhaus. Rydym yn parhau i weithio i wella ein hymagwedd at gadernid gweithredol a gwella rheolaethau llywodraethu data er mwyn gallu gwrthsefyll tarfu yn y maes hwn.	



Rheoli newid diwylliannol a methu â recriwtio a chadw cydweithwyr sydd â'r sgiliau a'r profiad priodol	
Prif categori risg	Gweithredol
Rhesymeg	Sgôr cyn rheoli
Pobl yw'r allwedd i'n llwyddiant. Rhaid i'r Banc barhau i fod yn hyblyg i arferion cyflogaeth newidiol os yw am ddenu, recriwtio, datblygu a chadw staff sydd â'r sgiliau, profiad a gwerthoedd priodol i gyflawni yn erbyn amcanion y Banc. Mae hyn yn tanlinellu pam ei bod yn hanfodol i'r Banc Datblygu ddarparu cynnig deniadol i'n cydweithwyr.	Uchel
Camau lliniaru	Sgôr ar ôl rheoli
Mae'r Grŵp yn defnyddio proses gwerthuso perfformiad i sicrhau bod perfformiad cryf yn cael ei gydnabod a bod cydweithwyr yn cael eu cymell a'u bod yn gymwys yn eu rolau. Mae cyflogau'n cael eu meincnodi yn erbyn safonau'r farchnad ac mae lefelau trosiant staff yn cael eu monitro gan uwch reolwyr ac adroddir amdanynt i'r Bwrdd ddwywaith y flwyddyn. Mae'r Grŵp yn annog datblygiad staff, ac mae amrywiaeth o opsiynau hyfforddi ar gael. Mae'r gwaith yn amrywiol, yn heriol ac yn werth chweil. Mae cynllun olyniaeth ar waith ar gyfer swyddi uwch.	Isel
Newid mewn Risg	
Heb newid Mae'r Banc yn parhau i gefnogi amgylchedd gweithio hybrid gyda ffocws allweddol ar lesiant cydweithwyr a manteision ategol i sicrhau bod cydweithwyr medrus iawn yn cael eu recriwtio a'u cadw.	




Bod yn agored i seiberdroseddu, torri diogelwch data a’r risg o gadernid TG gwael	
Prif categori risg	Gweithredol
Rhesymeg	Sgôr cyn rheoli
Mae’r dirwedd bygythiad seiber yn parhau i esblygu drwy aflonyddwch gwleidyddol parhaus, ymosodiadau seiber cynyddol (oherwydd mwy o ddibyniaeth ar dechnoleg) a’r manteision ariannol sydd ar gael i actorion seiberfygythiadau. Mae’r risg hon yn ymestyn ymhellach na dim ond atal ymosodiad seiber, i gadernid systemau TG yn fwy cyffredinol.	Uchel
Camau lliniaru	Sgôr ar ôl rheoli
Mae ein hystâd TG yn cael ei diogelu gan amrywiaeth o fesurau gan gynnwys llwyfan seiberddiogelwch rheoledig sy’n flaenllaw yn y diwydiant ac sy’n darparu dulliau rheoli bregusrwydd awtomataidd, cwmwl a muriau cadarn lleol, amgryptio data, sawl haen o warchodaeth rhag firsau, hidlo cynnwys y rhyngwrwd a chopïau wrth gefn. Mae cymorth TG yn cael ei roi ar gontract allanol i amrywiaeth o gyflenwyr trydydd parti arbenigol, ac mae pob un ohonynt yn rhwym wrth Gytundebau Lefel Gwasanaeth y gellir eu gorfodi drwy gontract. Caiff profion treiddio eu cynnal unwaith y flwyddyn neu ar unrhyw adeg o newid sylweddol. Gofynnir am gyngor arbenigol gan drydydd parti lle bo hynny’n briodol. Caiff gweithdrefnau TG eu nodi yn ein Polisi Diogelwch Gwybodaeth. Mae hyfforddiant diogelwch ar-lein ac ymwybyddiaeth seiber yn cael ei ddarparu’n barhaus ac mae’n orfodol ar draws y Grŵp. Mae gennym hefyd achrediad llywodraethu Cyber Essentials Plus ac ardystiad IASME.	Cymedrol
Newid mewn Risg	
Wedi cynyddu Mae’r cynnydd mewn Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol yn gwaethygu natur gynyddol ac esblygol bygythiadau seiber². Mae’r grŵp o’r farn bod hyn yn her sylweddol, ac mae’n parhau i wella ei alluoedd TG yn unol â hynny.	

²Banking & Capital Markets (pwc.co.uk)




Methiant i reoli cyfraniad, a risg cysylltiedig, darparwyr trydydd parti o ran cyflawni cynllun Strategol y Banc Datblygu yn llwyddiannus	
Prif categori risg	Rhyngwyneb
Rhesymeg	Sgôr cyn rheoli
Mae hyn yn dal i fod yn risg oherwydd y ddibyniaeth ar ddarparwyr gwasanaethau a reolir, a chyflenwyr trydydd parti, ac yn enwedig oherwydd presenoldeb nifer o gyflenwyr allanol risg ‘Uchel’ yn y gofod TG.	Uchel
Camau lliniaru	Sgôr ar ôl rheoli
Mae gan y Grŵp staff Gwasanaethau TG a Chaffael arbenigol mewnol, ac mae ganddynt fynediad at gyngor cyfreithiol arbenigol ac ymgynghoriaeth yn ôl yr angen. Mae polisïau a gweithdrefnau mewnol yn cael eu hadolygu a’u diweddarau’n rheolaidd i sicrhau bod gofynion rheoleiddio’n cael eu bodloni. Rydym yn ymgymryd â diwydrwydd dyladwy ar ddarparwyr trydydd parti newydd a phresennol. Mae timau prosiect yn cael eu creu wrth ymgymryd â gwaith caffael mawr, gan sicrhau bod mewnbyn yr holl gydweithwyr perthnasol yn cael ei gynrychioli a bod ystyriaeth fanwl yn cael ei rhoi i’r risgiau sy’n berthnasol i ddarparu’r nwyddau/ gwasanaethau dan sylw. Yn ei dro, mae’r dull hwn yn cefnogi’r gwaith o reoli perfformiad darparwyr trydydd parti yn effeithiol drwy negodi telerau contract addas ar y dechrau a (drwy nodi metrigau perfformiad allweddol, gosod cytundebau lefel gwasanaeth, a chyfarfodydd adolygu rheolaidd) drwy gydol cyfnod y contract.	Isel
Newid mewn Risg	
Heb newid Rydym wedi ymrwymo o hyd i sicrhau bod diwydrwydd dyladwy cadarn a dulliau monitro perfformiad addas yn cael eu cynnal ar drydydd parti’r ar y dechrau ac yn ystod cyfnod y berthynas contractiol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i’n cyflenwyr risg uchel, lle mae tanberfformio’n peri mwy o risg o darfu ar weithrediadau busnes ac enw da’r Banc Datblygu.	



Methiant i ddangos ein hymrwymiad i agweddau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu ein gweithgareddau a’r effaith andwyol bosibl ar enw da	
Prif categori risg	Enw da
Rhesymeg	Sgôr cyn rheoli
Mae datblygu a dangos cymwyseddau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu fel rhan o ‘fusnes fel arfer’ yn flaenoriaeth i lawer o fusnesau, gan gynnwys y Banc Datblygu. Nid yn unig y mae ymrwymiad i agweddau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu y peth iawn i’w wneud, mae’n gymhwysedd allweddol pan ddaw i ennill contractau rheoli cronfeydd newydd.	Uchel
Camau lliniaru	Sgôr ar ôl rheoli
Rydym wedi ymrwymo i reoli ein gweithgareddau a’n gweithrediadau busnes mewn ffordd gynaliadwy. Mae’r Grŵp yn fusnes cyfrifol ac yn fuddsoddwr effaith ac mae wedi bod yn gatalydd ar gyfer creu neu ddiogelu miloedd o swyddi a dros £500 miliwn o gyd-fuddsoddiad. Rydym yn cydnabod bod ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu’n mynd y tu hwnt i’n mesurau effaith sefydledig ac mae’r ystyriaethau hynny’n cael eu hymgorffori mewn polisiau, gweithdrefnau a Dangosyddion Risg Allweddol. Mae trefniadau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu ac agweddau perfformiad y cynigwyr yn cael eu hystyried wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau ac wrth werthuso cyfleoedd cyllido newydd.	Isel
Newid mewn Risg	
Heb newid Mae ffocws rheoleiddiol ym maes risg amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu yn parhau i dynhau yn benodol i wyrddgalchu, datgeliadau a labeli cynaliadwyedd, a’r dirwedd lywodraethu a diwylliannol³. Mae’r grŵp yn parhau i ymgorffori risgiau ac ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu yn ei strategaeth a’i fframwaith cynaliadwyedd, ynghyd â’r fframwaith rheoli risg cyffredinol. Rydym yn adolygu sut rydym yn mesur allbynnau ein gweithgarwch i sicrhau bod ein heffaith yn cael ei chofnodi a’i hadlewyrchu’n llawn.	

³Banking & Capital Markets (pwc.co.uk)



Risgiau sy'n dod i'r amlwg

Ochr yn ochr â'n prif risgiau, rydym yn ystyried meysydd allweddol o risgiau sy'n dod i'r amlwg ac sy'n esblygu ac sydd â'r potensial i effeithio ar ein gallu i gyflawni yn erbyn ein blaenoriaethau a'n hamcanion.

Risg sy'n dod i'r amlwg	Prif Risgiau Cysylltiedig	Rhesymeg a mesurau lliniaru
Amgylchedd macro-economaidd	- Methiant i gyflawni Cynllun Corfforaethol y Grŵp ac ymrwymïadau i'n rhanddeiliad. - Methiant i sicrhau bod cyllid yn parhau i fod ar gael neu ddarpariaeth yn y gyllideb o ran math neu ddigonolrwydd. - Methiant i fodloni amcanion y gronfa o ran perfformiad.	Mae chwyddiant wedi gostwng i lefel sydd o fewn targed Banc Lloegr o 2%. Er bod busnesau a defnyddwyr yn parhau i wynebu gwaddol y prisiau uchel i ddefnyddwyr, a chyfraddau llog cynyddol, disgwylir i 2024 fod yn flwyddyn fwy optimistaidd i'r DU.⁴ Mae'r effeithiau gweddilliol hyn yn parhau i gael effaith ganlyniadol ar bortffolio benthyciadau a buddsoddiadau'r Banc ar ffurf darparu ar gyfer dyledion drwg a gwerth teg buddsoddiadau ecwiti. Bydd unrhyw newidiadau i'r hinsawdd economaidd sy'n deillio o'r etholiad cyffredinol diweddar yn dechrau cael eu gweld dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf. Mae'r risg hon yn cael ei lliniaru gan ein dull rhagweithiol o reoli portffolio a'n parodrwydd i fabwysiadu safbwynt pragmatig ac amyneddgar gyda'n cwsmeriaid, er enghraifft drwy ymrwrthod mewn perthynas ag ad-daliadau benthyciadau lle bo hynny'n briodol.
Effaith newid yn yr hinsawdd	- Methiant i ddeall neu addasu i anghenion ein cwsmeriaid, a'r risg o ganlyniadau gwael a niwed i gwsmeriaid. - Methiant i ddangos ein hymrwymiad i agweddau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu ein gweithgareddau a'r effaith andwyol bosibl ar enw da.	Mae'r risgiau ffisegol sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd ar ffurf digwyddiadau sy'n gysylltiedig â'r tywydd, er enghraifft, yn parhau i fod yn fygythiad i fusnesau, yn yr un modd â datblygiad technoleg sy'n tarfu wrth i'r DU symud i economi carbon isel. Mae'r Banc yn parhau i fonitro newidiadau rheoleiddiol amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu ac mae'r gwaith i wreiddio risg newid yn yr hinsawdd yn ei fframwaith rheoli risg yn barhaus, boed hynny fel ystyriaeth allweddol pan gyflwynir ceisiadau newydd am gyllid neu fel rhan o'n hagwedd ragweithiol tuag at reoli portffolio. Mae arwyddocâd cynyddol cyfrifoldeb y Banc tuag at effaith newid yn yr hinsawdd wedi'i adlewyrchu yn y prif risg amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu diweddaraf sydd bellach yn tynnu sylw at ymrwymiad cynyddol y banciau i'r maes hwn.
Newid amgylchedd rheoleiddiol	- Methiant i gydymffurfio â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol. - Methiant i ddeall neu addasu i anghenion ein cwsmeriaid, a'r risg o ganlyniadau gwael a niwed i gwsmeriaid.	Mae'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol yn parhau i esblygu'r dirwedd reoleiddiol. Mae hyn yn cynnwys cyfres o ddiwygiadau rheoleiddio sydd â'r nod o gefnogi twf sector ariannol y DU, gan gyd-fynd yn well â marchnadoedd y DU, gan ganolbwyntio'n benodol ar Ddyletswydd Defnyddwyr, Cadernid Gweithredol, Twyll Ariannol, Diwygiadau Caffael Cyhoeddus a Chynaliadwyedd.⁵ Rydym yn parhau i gryfhau ein hymrwymïadau i sicrhau bod y Ddyletswydd Defnyddwyr yn cael ei gwreiddio'n effeithiol, gan dynhau rheolaethau i wella gallu'r Grŵp i ganfod ac atal troseddau ariannol, a monitro newidiadau rheoleiddiol eraill drwy ein gwaith sganio'r gorwel fel y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag agweddau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu, y Ddeddf Credyd Defnyddwyr a'r Ddeddf Cadernid Gweithredol Digidol.
Mwy o dwyll a throseddau ariannol	- Methiant i gydymffurfio â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol. - Bod yn agored i seiberdroseddu, torri diogelwch data a'r risg o gadarnid TG gwael.	Mae twyll a throseddau ariannol yn parhau i beri risg i fusnesau a defnyddwyr ledled y DU, gyda chyfanswm gwerth y twyll a gofnodwyd yn y DU yn cynyddu i £2.3 biliwn yn 2023, sef cynnydd o 104% o ffigurau 2022.⁶ Mae'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol yn nodi bod cyfradd twf twyll buddsoddi wedi gostwng 40% erbyn diwedd 2023 a bod y rheoleidiwr yn parhau i gyflwyno mesurau ategol i leihau effaith twyll ar economi'r DU ac i annog cwmnïau i wneud mwy i fynd i'r afael â thwyll.⁷ Rydym yn parhau i fonitro'r dirwedd ddeddfwriaethol a rheoleiddiol sy'n datblygu yn y maes hwn (yn enwedig y Ddeddf Troseddau Economaidd a Thyrlwyder Corfforaethol a newidiadau i'r drefn oruchwylio atal gwyngalchu arian) yn ogystal ag asesu ein risgiau adrannol a'n rheolaethau ein hunain yn erbyn twyll ac allbwn sy'n gysylltiedig â throseddau ariannol gan reoleiddwyr a chyrrff y diwydiant.
Defnydd cynyddol o ddeallusrwydd artifisial	- Methiant i optimeiddio cadernid gweithredol, llywodraethu data ac effeithiolrwydd wrth reoli newid. - Bod yn agored i seiberdroseddu, torri diogelwch data a'r risg o gadarnid TG gwael.	Disgwylir i ddeallusrwydd artifisial gyfrannu hyd at £12.3 triliwn i'r economi fydeang yn 2030. Er gwaethaf manteision amlwg y dechnoleg hon, daw defnyddio a gweithredu atebion deallusrwydd artifisial â risg mewn meysydd fel y gyfraith a chydymffurfiaeth, seiber a chadernid gweithredol, a diogelu data a diogelwch.⁸ Mae'r Banc yn parhau i fabwysiadu safbwynt ffurfiol llywodraeth Cymru ar ddefnyddio Deallusrwydd Artifisial Cynhyrchiol, gan gynnwys ChatGPT, wrth i ni barhau i archwilio cymwysiadau posibl offer deallusrwydd artifisial ar gyfer defnydd mewnol. Mae gweithgor mewnol yn canolbwyntio ar ddeall tuddiadau polisi cyhoeddus allweddol a thueddiadau rheoleiddiol a chysoni prosesau cydymffurfio a rheolaethau digolledu'r Grŵp i fynd i'r afael â'r risgiau unigryw sy'n gysylltiedig â thwf deallusrwydd artifisial.

⁴The Good, the Bad, and the Optimistic: PwC UK economic predictions for 2024

⁵Banking & Capital Markets (pwc.co.uk)

⁶UK fraud makes massive leap to £2.3bn | ICAEW

⁷Reducing and preventing financial crime | FCA

⁸Banking & Capital Markets (pwc.co.uk)

Fframwaith sicrwydd

Ceir sicrwydd yn y Banc Datblygu drwy ddefnyddio'r model 'tair llinell amddiffyn', a Chynllun Sicrwydd ar y Cyd cysylltiedig:

Llinell amddiffyn gyntaf (1LOD)

Mae'r llinell amddiffyn gyntaf yn cynnwys timau gweithredol ar draws y Grŵp, a cheir sicrwydd gyda chymorth polisiâu a gweithdrefnau a ddiffinnir gan unedau busnes unigol. Ategir y rhain gan arsylwadau rheolaidd gan berchnogion risg, gan sicrhau bod cynnwys polisiâu a gweithdrefnau'n parhau i fod yn gyfredol a'u bod yn mynd i'r afael â'r risgiau dan sylw.

Mae cofrestrau risg yn cael eu cynnal drwy'r Grŵp, ac maent yn cofnodi risgiau a rheolaethau cyfredol a rhai sy'n dod i'r amlwg, gyda pherchnogion yn cael eu neilltuo i bob un. Mae hyn yn sbarduno perchnogaeth ac atebolrwydd, ac yn rhoi sicrwydd bod risgiau'n cael eu rheoli'n briodol.

Mae cynhyrchu adroddiadau a gwybodaeth rheoli rheolaidd, gweithgarwch sicrhau ansawdd, a chwblhau hyfforddiant rheolaidd gan yr holl staff yn sail i waith y 1LOD, ac yn cefnogi gweithrediad effeithiol yr amgylchedd rheoli ac ymateb amserol i risgiau sy'n dod i'r amlwg.

Ail linell amddiffyn (2LOD)

Mae'r ail linell amddiffyn yn darparu sicrwydd drwy ei oruchwyliaeth o weithgareddau 1LOD, sef drwy gynnal a hwyluso'r gwaith o gwblhau cofrestrau risg adrannol; cynnal gweithgareddau sicrhau ansawdd ychwanegol ac annibynnol; cwblhau asesiadau risg; a darparu arbenigedd pwnc mewn meysydd fel troseddau ariannol, diogelu data a chaffael.

Mae gweithgarwch sicrhau ansawdd yn y 2LOD yn cael ei ddefnyddio ar sail risg ac mae'n monitro cydymffurfiaid gweithgarwch sy'n gysylltiedig â buddsoddi â pholisiâu a gweithdrefnau sefydledig. Mae canfyddiadau manwl yn cael eu hadrodd i'r 1LOD bob mis, ac mae diffyg cydymffurfio yn destun dadansoddiad o wraidd y broblem a wneir ar y cyd â'r 1LOD.

Mae asesiadau risg 2LOD yn cael eu diweddarau ar sail canlyniadau sicrhau ansawdd ac mewn ymateb i risgiau sy'n dod i'r amlwg a datblygiadau rheoleiddiol a deddfwriaethol. Mae'r 2LOD yn gyfrifol am archwiliadau dwfn a phrofion rheolaethau, gan roi sicrwydd bod

risgiau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg yn cael eu cofnodi ac yr ymatebir yn ddigonol iddynt, gan gau a dilysu camau archwilio mewnol i sicrhau bod y canfyddiadau'n cael sylw digonol.

Mae is-fyrddau'r Banc Datblygu a FW Capital hefyd yn herio ac yn goruchwyllo materion busnes yn eu priod feysydd.

Trydedd linell amddiffyn (3LOD)

Cynhelir sicrwydd annibynnol o'n fframwaith rheoli risg yn y drydedd linell amddiffyn gan archwilwyr mewnol annibynnol.

Ar ddechrau pob blwyddyn ariannol, mae'r archwilwyr mewnol yn adnewyddu eu hasesiad risg ac yn cwrdd ag uwch reolwyr i ddatblygu cwmipas gwaith sy'n cynnig adolygu'r meysydd busnes ac amseriad a hyd pob adolygiad.

Cyflwynir y cynllun archwilio mewnol i'r Pwyllgor Archwilio a Risg i'w adolygu a'i gymeradwyo.

Mae argymhellion unigol, sy'n deillio o aseiniadau archwilio mewnol, yn cael eu graddio fel rhai cynghorol, isel, canolig neu uchel, yn dibynnu ar y risg dybiedig, ei thebygrwydd a'i heffaith.


Yn dibynnu ar nifer a sgôr yr argymhellion unigol, mae pob aseiniad archwilio mewnol yn cael sgôr gyffredinol o; sicrwydd isel, sicrwydd rhannol, sicrwydd rhesymol neu sicrwydd sylweddol.

Mae'r rheolwyr yn darparu ymatebion i argymhellion a dyddiad ar gyfer cwblhau'r gwaith angenrheidiol.

Mae sicrwydd yn y 3LOD hefyd yn deillio o adolygiad dilynol blynyddol o'r argymhellion sy'n deillio o adroddiadau archwilio mewnol blaenorol, i nodi cynnydd tuag at weithredu'r argymhellion. Adroddir ynghylch y rhain i'r ARC yn rheolaidd.


Mae ein harchwilwyr allanol yn herio'n gadarn y penderfyniadau allweddol a wneir wrth baratoi'r datganiadau ariannol ac yn adolygu'r systemau rheolaeth fewnol a rheoli risg at ddibenion y datganiadau ariannol.

Gwneir argymhellion i fynd i'r afael â meysydd sy'n peri pryder i'r ARC ac eir ar drywydd y rhain mewn archwiliadau dilynol.



Neil Maguinness

Neil Maguinness
Prif Swyddog Risg
3 Medi 2024



Llywodraethu



Llywodraeth

Rydym wedi ymrwymo i lywodraethu corfforaethol cadarn, sy'n hyrwyddo buddiannau ein rhanddeiliaid, yn cryfhau atebolrwydd ac yn hwyluso perfformiad sefydliadol.

Yn yr adran hon o'r adroddiad blynyddol, rydym yn egluro sut mae'r fframwaith llywodraethu a rheoli risg yn cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion y Grŵp.

Rydym yn datgelu sut mae'r Banc Datblygu yn cael ei reoli er budd ei gyfranddaliwr a rhanddeiliaid eraill, rôl a chyfansoddiad y Bwrdd a'i Bwyllgorau amrywiol a'r risgiau y mae'r Grŵp yn eu hwynebu a sut maent yn cael eu rheoli.

Mae'r prosesau llywodraethu hyn hefyd yn sicrhau bod adroddiad blynyddol a datganiadau ariannol y Banc Datblygu, o'u cymryd gyda'i gilydd, yn deg, yn gytbwys, yn ddealladwy, ac yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar randdeiliaid i asesu model busnes, strategaeth a pherfformiad y Grŵp.

Mae'r adran hon yn cynnwys neu'n cyfeirio at yr adroddiadau a'r datganiadau canlynol:

Adroddiad/Datganiad	Pwrpas
Adroddiad y Cyfarwyddwyr	Proffiliau Aelodau'r bwrdd a'u profiad yn ogystal â'r datgeliadau perfformiad statudol amrywiol sy'n ofynnol dan Ddeddf Cwmnïau S417 2006. Mae hefyd yn rhestru cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr wrth baratoi'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol.
Datganiad llywodraethu corfforaethol	Datgelu fframwaith llywodraethu'r Grŵp, rôl a chyfrifoldeb y Bwrdd Cyfarwyddwyr ynghyd ag adroddiadau blynyddol tri Phwyllgor y Bwrdd: Enwebiadau, Archwilio a Risg a Thaliadau, mae hefyd yn cofnodi presenoldeb y Bwrdd/Pwyllgor a gwybodaeth weithredol arall.
Rheoli risg a rheolaeth fewnol <i>(Datganiad wedi'i gynnwys yn yr adroddiad strategol)</i>	Mae'r adran hon yn rhoi manylion y risgiau y mae'r Banc Datblygu yn eu hwynebu a sut maent yn cael eu lliniaru. Mae'n disgrifio rolau'r Bwrdd, y rheolwyr a'r staff, y fframwaith rheoli risg, diwylliant a goddefgarwch risg, y prif risgiau, a'r fframwaith sicrwydd risg.



Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Mae'r Cyfarwyddwyr yn cyflwyno eu hadroddiad blynyddol ynghyd â'r datganiadau ariannol archwiliedig ac adroddiad yr Archwilydd Annibynnol ar gyfer Banc Datblygu Cymru ccc am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024.

Mae'r wybodaeth ganlynol sydd ei hangen gan Ddeddf Cwmnïau 2006 ar gael yn adrannau canlynol yr adroddiad blynyddol;

- Mae manylion amcanion y Grŵp a datblygiadau yn y dyfodol i'w gweld ar dudalennau 31-32 a 55-59 yr adroddiad strategol yn y drefn honno.
- Mae datgeliadau rheoli risg y Grŵp i'w gweld yn yr adroddiad strategol ar dudalennau 71-86.
- Mae gwybodaeth am y defnydd o offerynnau ariannol gan y Grŵp yn cael ei darparu yn Nodyn 19 y datganiadau ariannol;
- Mae strwythur cyfalaf y Grŵp yn cael ei drafod yn Nodyn 20 y datganiadau ariannol.
- Mae prif weithgareddau'r Grŵp yn cael eu cyflawni yng Nghymru a gogledd ddwyrain Lloegr, gogledd orllewin Lloegr a de orllewin Lloegr.

Digwyddiadau pwysig ôl-fantolen

Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau pwysig wedi effeithio ar y Grŵp ers diwedd y flwyddyn ariannol.

Difidendau

Nid yw'r Cyfarwyddwyr yn argymhell talu difidend (2023: £dim).

Ein bwrdd

Mae gan ein Bwrdd ran hollbwysig i'w chwarae o ran sicrhau ein bod yn cyflawni ein strategaeth a'r amcanion strategol sydd i'w gweld yn llythyr cylch gwaith Llywodraeth Cymru.

Yn ystod y flwyddyn, bu'r unigolion canlynol yn gwasanaethu fel cyfarwyddwyr. Ni chafodd unrhyw gyfarwyddwyr newydd eu penodi yn ystod y flwyddyn, ac ymddiswyddodd Carol Bell fel Cyfarwyddwr Anweithredol y Bwrdd ar 30 Medi 2023. Mae'r rheolau ar gyfer penodi a diswyddo cyfarwyddwyr i'w gweld yn y datganiad llywodraethu corfforaethol ar dudalennau 103-104.

Deckrite



Enw	Swydd	Dyddiad y penodiad cychwynnol	Dyddiad dod i ben y penodiad cychwynnol	Dyddiad dod i rym yr ailbenodiad	Dyddiad dod i ben yr ailbenodiad
Gareth Bullock	Cadeirydd	Medi 2015	Medi 2018	Medi 2021	Medi 2024
Giles Thorley	Prif Weithredwr	Ebrill 2016	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
Iraj Amiri	Cyfarwyddwr Anweithredol	Medi 2016	Awst 2019	Medi 2022	Awst 2025
Rhys Jones	Cyfarwyddwr Anweithredol	Mawrth 2020	Chwefror 2023	Mawrth 2023	Chwefror 2026
Roger Jeynes	Cyfarwyddwr Anweithredol	Hydref 2016	Hydref 2019	Tachwedd 2022	Hydref 2025
David Staziker	Prif Swyddog Cyllid	Ebrill 2018	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
Robert Lamb	Cyfarwyddwr Anweithredol	Ebrill 2021	Ebrill 2024	Ebrill 2024	Ebrill 2027
Kate Methuen-Ley	Cyfarwyddwr Anweithredol	Ebrill 2021	Ebrill 2024	Ebrill 2024	Ebrill 2027
Dianne Walker	Cyfarwyddwr Anweithredol	Mawrth 2022	Mawrth 2025	Amherthnasol	Amherthnasol
Iestyn Evans	Cyfarwyddwr Anweithredol	Mawrth 2022	Mawrth 2025	Amherthnasol	Amherthnasol

* Ymddiswyddodd Carol Bell fel cyfarwyddwr ar 30 Medi 2023 ar ôl gwasanaethu am gyfnod o 9 mlynedd.



Ein Cyfarwyddwyr

Gareth Bullock OBE

Cadeirydd

Gareth yw Cadeirydd Bwrdd Banc Datblygu Cymru ac mae ganddo dros 45 mlynedd o brofiad yn y diwydiant gwasanaethau ariannol.

Fe wnaeth ymddeol yn 2010 o Fwrdd Standard Chartered plc lle bu'n gyfrifol am Affrica, y Dwyrain Canol, Ewrop a'r Americas yn ogystal â chadeirio Rheoli Risg ac Asedau Arbennig. Mae ganddo hefyd brofiad sylweddol o fyrdau diwydiannol a manwerthu yn y DU a Tsieina.

Mae wedi dal nifer o swyddi bwrdd gydag Inter alia, Informa PLC, Tesco PLC, Tesco Personal Financial Group Ltd, Spirax-Sarco Engineering PLC, Fleming Family and Partners Ltd, British Bankers's Association a Global Market Group Ltd (Tsieina). Roedd hefyd yn Ymddiriedolwr y British Council rhwng 2012 a 2018.

Mae gan Gareth brofiad ymarferol a rhyngwladol eang, ar ôl bod yn Bennaeth Bancio Corfforaethol yn Hong Kong, Prif Swyddog Gweithredol Affrica, Prif Swyddog Gwybodaeth y Grŵp a Phennaeth Strategaeth.



Giles Thorley

Prif Weithredwr

Cyn ymuno â Banc Datblygu Cymru, roedd Giles yn bartner mewn cwmni ecwiti preifat TDR Capital LLP a oedd yn canolbwyntio ar weithgareddau dod â chytundebau i fodolaeth. Cyn hyn, treuliodd naw mlynedd gyda Punch Taverns plc – y flwyddyn gyntaf fel cadeirydd, ac yna fel prif weithredwr yn dilyn IPO y busnes.

Mae wedi dal swyddi cyfarwyddwr anweithredol gydag Esporta, Ducati SpA, Tragus Holdings, TUI Travel plc, Incorpro Ltd a Matthew Clark Wholesale Ltd. Ar hyn o bryd, mae Giles yn Gadeirydd ZipWorld plc. Mae hefyd yn gweithredu fel buddsoddwr ymgynghorol/angel buddsoddi ar nifer o fusnesau newydd; ac mae'n ymddiriedolwr o Brosiect Hwyllo Rona ers tro byd.

Mae gan Giles radd yn y gyfraith ym Mhrifysgol Llundain a chymhwysodd fel bargyfreithiwr yn 1990. Mae'n aelod o Gyngor y Bar yng Nghymru a Lloegr.

Roger Jeynes

Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Buddsoddi

Roger yw uwch gyfarwyddwr annibynnol Banc Datblygu Cymru, mae'n gyd-gadeirydd ei Bwyllgor Buddsoddi ac mae'n gwasanaethu ar y Pwyllgorau Archwilio a Risg, Taliadau ac Enwebiadau.

Ar hyn o bryd mae hefyd yn gwasanaethu ar fyrddau Downing Three VCT plc a Charborough Capital Limited ac mae'n ymddiriedolwr elusen Sefydliad Lloyd Reason.

Roedd gyrfa gynnar Roger yn cynnwys nifer o uwch swyddi technegol, marchnata a rheoli cyffredinol yn IBM, EMC a Pyramid Technology yn y DU, yr Eidal ac UDA. Rhwng 1997 a 2006, ef oedd prif swyddog gweithredu Interregnum plc, banc masnachu technoleg. Yn y swydd hon bu'n rheoli'r gwaith o ddefnyddio cyfalaf buddsoddi sylweddol mewn amrywiaeth eang o gwmnïau cam cynnar a chwmnïau ar restr AIM, a bu'n gwasanaethu ar fyrddau mwy na dwsin o gwmnïau buddsoddi a nifer o ymddiriedolaethau cyfalaf menter.

Graddiodd mewn mathemateg ym Mhrifysgol Sheffield ac mae'n gymrawd o'r RSA.

Mae gan Roger dystysgrif rheoli buddsoddiadau gan IIMR, ac roedd yn Athro Ymarfer Rheoli ym Mhrifysgol Anglia Ruskin rhwng 2008 a 2017.



Iraj Amiri

Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg

Mae Iraj yn gyfarwyddwr anweithredol gyda Banc Datblygu Cymru.

Mae gan Iraj dros 20 mlynedd o brofiad ym maes archwilio a sicrwydd, ac mae'n arwain Pwyllgor Archwilio a Risg Banc Datblygu Cymru.

Mae Iraj yn arloeswr ym maes llywodraethu a sicrwydd, gan gyfuno gwybodaeth fanwl ac awdurdodol am y pwnc gyda'i ddefnydd ymarferol. Mae'n arbenigwr ac yn awdurdod byd-eang cydnabyddedig ar archwilio a sicrwydd mewnol.

Am flynyddoedd lawer, bu'n siarad yn rheolaidd mewn cynadleddau archwilio mewnol ar draws y byd.

Drwy gydol ei yrfa, mae wedi gweithio'n agos gyda sefydliadau bancio a chwmnïau buddsoddi mawr ym Mhrydain ac Ewrop. Treuliodd dros ddegawd yn arwain adran archwilio mewnol y cwmni FTSE 100 Schroders plc.

Roedd Iraj hefyd yn bennaeth tîm archwilio mewnol y Wellcome TUST - yn goruchwyllo'r gwaith o reoli dros £18bn mewn buddsoddiadau. Fel cymrawd o ICAEW, datblygodd y llinell gwasanaeth risg menter ar gyfer Deloitte, lle'r oedd yn uwch bartner, gan fynd â'r uned o'i dechreuadau cynnar i dîm o dros 600 o weithwyr. Mae gan Iraj brofiad helaeth o weithio ar lefel bwrdd ac fel ymddiriedolwr.

Mae'n gyn-ymddiriedolwr gyda'r Ymddiriedolaeth Cynilion Cyflogaeth Cenedlaethol, ac yn gyfarwyddwr anweithredol gydag Aon UK Limited a Coventry Building Society. Mae'n aelod o Bwyllgor Risg ac yn cadeirio Pwyllgor Archwilio'r ddau gwmni.



Rhys Jones

Cyfarwyddwr Anweithredol

Mae Rhys yn gyfarwyddwr anweithredol annibynnol gyda Banc Datblygu Cymru, ac ymunodd â'r bwrdd ym mis Mawrth 2020.

Mae'n Gyfarwyddwr Masnachol Grŵp Sportscape Group (Rhiant SportPursuit a PrivateSportShop), manwerthwr ar-lein i aelodau'n unig sy'n canolbwyntio ar chwaraeon gyda 26 miliwn o aelodau ar draws Ewrop.

Yn siaradwr Cymraeg iaith gyntaf, mae gan Rhys radd Meistr dosbarth 1af mewn Peirianeg o Brifysgol Rhydychen.

Cyn dechrau SportPursuit yn 2011, bu Rhys yn gweithio gydag OC&C Strategy Consultants a gyda'r buddsoddwr ecwiti twf o'r Unol Daleithiau, Summit Partners.



Kate Methuen-Ley

Cyfarwyddwr Anweithredol

Mae Kate yn gyfarwyddwr anweithredol gyda Banc Datblygu Cymru.

Magwyd Kate yn Rhisga a chafodd BA(Anrh) o Brifysgol Abertawe mewn Ffrangeg a Sbaeneg. Mae ganddi hefyd MSc mewn Marchnata Strategol o Brifysgol Caerdydd.

Mae Kate yn entrepreneur, yn gynghorydd ac yn ymgynghorydd rheoli busnes profiadol. Mae hi'n defnyddio ei sgiliau i gefnogi, mentora ac ychwanegu gwerth at fusnesau drwy gydol eu teithiau cychwyn a datblygu. Mae Kate yn gweithio gydag arweinwyr i ganolbwyntio timau ar strategaeth, strwythur, proses, diwylliant a mwy – gan eu galluogi i adeiladu'r sylfeini sydd eu hangen arnynt i dyfu.

Ar ôl gyrfa farchnata lwyddiannus dros 15 mlynedd, mewn corfforaethau adnabyddus a busnesau rhanbarthol ar draws amrywiaeth o sectorau, cyfunodd Kate ei phrofiad a'i chariad at her drwy sefydlu'r bartneriaeth fenter ar y cyd ar gyfer y gwerthwr stryd fawr o Ddenmarc, Flying Tiger Copenhagen – gan gyflwyno'r brand poblogaidd i'r DU gyda siopau yng Nghymru a Bryste. Ar ôl pum mlynedd, ar ôl lansio wyth cangen wahanol a gyda throsiant o dros £5 miliwn, a dros 120 o aelodau'r tîm – fe wnaeth hi a'i phartner busnes adael y cwmni'n llwyddiannus yn 2018.

Mae gan Kate brofiad hefyd fel aelod o fyrddau cynghori, a phrofiad Cyfarwyddwyr Anweithredol yn y sector mentrau cymdeithasol a'r sector masnachol.

Mae'n rheoli Rhaglen Clwstwr Allforio Llywodraeth Cymru ar gyfer Busnesau Technoleg.



Rob Lamb

Cyfarwyddwr Anweithredol

Mae Rob yn gyfarwyddwr anweithredol annibynnol gyda Banc Datblygu Cymru ac mae'n aelod o'i Bwyllgor Buddsoddi.

Mae Rob yn entrepreneur digidol ac yn uwch arweinydd profiadol yn y diwydiant buddsoddi byd-eang, gydag arbenigedd amlwg mewn datblygu busnes a gwneud penderfyniadau buddsoddi tymor hir.

Mae Rob yn gyd-sylfaenydd Hedgehog, llwyfan technoleg sy'n ei gwneud yn hawdd i unigolion fuddsoddi mewn asedau go iawn, fel eiddo tirol masnachol ac ynni adnewyddadwy.

Cyn bod yn entrepreneur, treuliodd Rob 10 mlynedd gyda Partners Group, un o reolwyr asedau mwyaf y byd yn canolbwyntio ar fuddsoddiadau mewn marchnadoedd preifat. Yn ystod ei gyfnod gyda'r cwmni, bu Rob yn gweithio yn Llundain, Zurich, San Francisco a Dubai.

Yn siaradwr Cymraeg iaith gyntaf, fe wnaeth Rob hefyd raddio o Brifysgol Caerdydd.



Iestyn Evans

Cyfarwyddwr Anweithredol

Mae Iestyn yn gyfarwyddwr anweithredol gyda Banc Datblygu Cymru.

Arweiniodd ar newidiadau mawr a gwelliannau perfformiad yn ystod ei gyfnod fel Pennaeth Newid Cyllid a Phennaeth Cyllid Grŵp Bancio Lloyds yn ystod y 2010au cynnar.

Mae gan Iestyn hanes cryf o weithio gyda grwpiau ariannol byd-eang ochr yn ochr â phrif swyddogion gweithredol a phobl eraill i feithrin perfformiad mewn busnesau, gyda'i grebwyll cryf a'i ffocws ar wella.

Mae gan Iestyn dros ddau ddegawd o brofiad ym myd cyllid a bancio.

Cafodd ei eni yn Nhalgarth, Powys, a'i fagu yng nghymoedd de Cymru. Astudiodd Hanes ym Mhrifysgol Aberystwyth cyn dechrau ei yrfa gyda Deloitte yn y 90au hwyr.

Mae wedi dal swyddi uchel gyda chyflogwyr sy'n cynnwys LBG, Virgin Money, Omni Partners, Amicus PLC, Monument a Monmouthshire Building Society yn ogystal ag amrywiaeth o swyddi ar lefel prif fwrdd, gan gynnwys prif swyddog cyllid, prif swyddog gweithredu a swyddi cyfarwyddwr gweithredol.

Y tu allan i'w swyddi ar fyrddau, mae Iestyn yn gwirfoddoli ei amser a'i arbenigedd i helpu i godi arian ar gyfer elusennau sy'n cefnogi pobl awtistig.



Dianne Walker FCA

Cyfarwyddwr Anweithredol

Mae Dianne yn gyfarwyddwr anweithredol annibynnol gyda Banc Datblygu Cymru, yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Pwyllgor Enwebiadau.

Wedi'i geni a'i magu yng ngogledd Cymru, mae gan Dianne dros 30 mlynedd o brofiad mewn rolau cynghori ar gyllid a byrddau.

Mae Dianne yn Gymrawd Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr, ar ôl treulio dros ddegawd yn ymarfer fel rhan o'r uwch dîm rheoli yn PricewaterhouseCoopers, gan ddarparu gwasanaethau proffesiynol i bortffolio eang o gleientiaid o fri. Ar hyn o bryd, mae Dianne yn cyfuno portffolio o swyddi anweithredol prif fwrdd, ac mae'n Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn Inspired plc, Cadeirydd Pwyllgor Taliadau Victorian Plumbing PLC ac Uwch Gyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol a Chadeirydd Pwyllgor Archwilio a Risg Scott Bader Group.

Mae Dianne yn Gadeirydd anweithredol yn J&L Elevator Components Ltd, busnes sy'n eiddo i weithwyr yn Llanelli, gogledd Cymru. Tan yn ddiweddar, bu hefyd yn aelod anweithredol o Gydbwyllgor Archwilio Heddlu Gogledd Cymru.

Mae gan Dianne radd anrhydedd ddeuol dosbarth cyntaf mewn Economeg, Cyfrifeg a Rheolaeth Ariannol o Brifysgol Sheffield. Yn ddiweddar, dyfarnwyd Gwobr Cyfarwyddwr Anweithredol y Flwyddyn y Sunday Times iddi ac mae hefyd yn cyfrannu'n rheolaidd at drafodaethau panel ar faterion llywodraethu'r Bwrdd.



David Staziker

Prif Swyddog Cyllid

Mae David hefyd yn aelod o'n Pwyllgor Buddsoddi ac yn allanol mae'n Gyfarwyddwr Anweithredol Grŵp Pobl ac yn Gadeirydd eu Pwyllgor Buddsoddi.

David sy'n arwain tîm cyllid mewnol Banc Datblygu Cymru. Ymunodd â'r cwmni yn 2002 a daliodd nifer o swyddi rheoli yn ochr buddsoddiadau'r busnes cyn cael ei benodi'n Brif Swyddog Cyllid yn 2018.

Cyn y Banc Datblygu, bu David yn gweithio yn PricewaterhouseCoopers a Gambit Corporate Finance. Mae gan David radd a PhD mewn mathemateg gymhwysol, mae'n gymrawd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr ac mae ganddo hefyd eu cymhwyster cyllid corfforaethol.



Cyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr

Dylid darllen y canlynol ochr yn ochr a chyfrifoldebau'r archwilydd sydd i'w gweld yn eu hadroddiad ar dudalen 115-123. Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol yn unol â deddfau a rheoliadau perthnasol.

Mae'r gyfraith cwmnïau yn mynnu bod y Cyfarwyddwyr yn paratoi datganiadau ariannol Grŵp a Rhiant-gwmni ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

O dan y gyfraith honno, mae'n rhaid i'r Cyfarwyddwyr baratoi datganiadau ariannol y Grŵp yn unol â Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU, yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 a'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol fel y maent yn cael eu cyhoeddi gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol.

Mae'r Cyfarwyddwyr hefyd wedi dewis paratoi datganiad ariannol y Rhiant-gwmni yn unol â Safon Adrodd Ariannol 101 Fframwaith Datgelu Gostyngol.

O dan y gyfraith cwmnïau, ni chaiff y Cyfarwyddwyr gymeradwyo'r datganiadau ariannol oni bai eu bod yn fodlon bod y datganiadau'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Grŵp a'r Cwmni, ac o elw neu golled y Grŵp ar gyfer y flwyddyn honno.

Wrth baratoi datganiadau ariannol y Grŵp, mae'n rhaid i'r Cyfarwyddwyr wneud y canlynol:

- Dewis a defnyddio polisïau cyfrifyddu yn gywir a'u rhoi ar waith mewn ffordd gyson;
- Cyflwyno gwybodaeth, gan gynnwys polisïau cyfrifyddu, mewn ffordd sy'n darparu gwybodaeth berthnasol, ddibynadwy, y gellir ei chymharu a'i deall;
- Darparu datgeliadau ychwanegol pan nad yw cydymffurfiad â'r gofynion penodol yn IFRS yn ddigon i alluogi defnyddwyr i ddeall effaith trafodion penodol, digwyddiadau ac amodau eraill ar sefyllfa ariannol a pherfformiad ariannol y Grŵp; ac
- Asesu gallu'r Grŵp i barhau fel busnes hyfyw.

Wrth baratoi datganiadau ariannol y Rhiant-gwmni, mae'n rhaid i'r Cyfarwyddwyr wneud y canlynol:

- Dewis polisïau cyfrifyddu addas, a'u rhoi ar waith mewn ffordd gyson;
- Gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon cyfrifyddu sy'n rhesymol ac yn ddarbodus;
- Datgan a yw Safon Adrodd Ariannol 101 Fframwaith Datgelu Gostyngol wedi cael ei ddilyn, yn amodol ar ddatgelu ac esbonio unrhyw wyriadau o bwys yn y datganiadau ariannol; a
- Paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai nad yw'n briodol tybio y bydd y Cwmni'n parhau i fasnachu.

Cyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr mewn perthynas â chofnodion cyfrifyddu a rheolaeth fewnol

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n ddigon i ddangos ac egluro trafodion y Grŵp a datgelu sefyllfa ariannol y Grŵp a'r Cwmni yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg, ac i'w galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006.

Maen nhw hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r Grŵp a'r Cwmni, ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

Y Cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am gynnal a chadw'r wybodaeth ariannol a'r wybodaeth gorfforaethol sydd ar wefanau'r Grŵp, ac am gywirdeb y wybodaeth honno. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n gysylltiedig â pharatoi a dosbarthu'r datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Mae pob un o'r Cyfarwyddwyr, y mae eu henwau wedi'u rhestru ar dudalen 2 yr adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol, yn cadarnhau, hyd eithaf eu gwybodaeth:

- Bod y datganiadau ariannol, sydd wedi cael eu paratoi yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol, yn rhoi darlun cywir a theg o asedau, rhwymedigaethau, sefyllfa ariannol ac elw'r Grŵp a'r Cwmni;
- Mae'r adroddiad strategol yn yr adroddiad blynyddol yn cynnwys adolygiad teg o ddatblygiad a pherfformiad y busnes a sefyllfa'r Grŵp, ynghyd â disgrifiad o'r ansicrwydd a'r prif risgiau mae'n eu hwynebu; a
- Mae'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol, gyda'i gilydd, yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen er mwyn i gyfranddalwyr y Cwmni asesu sefyllfa, perfformiad, model busnes a strategaeth y Grŵp a'r Cwmni.



Y Clinig Ffrwythlondeb

Busnes hyfyw

Mae gan y Cyfarwyddwyr ddisgwyliad rhesymol fod gan y Cwmni a'r Grŵp ddigon o adnoddau i barhau i fodoli'n weithredol am y dyfodol rhagweladwy. Mae'r Cyfarwyddwyr wedi asesu busnes hyfyw, gan ystyried y perfformiad presennol a rhagolygon y Grŵp. Roedd hyn yn ystyried sefyllfaoedd negyddol yn effeithio ar incwm a chostau

yn deillio o ansicrwydd macroeconomaidd parhaus, ac yn benodol effaith yr argyfwng costau byw a'r gwrthdaro yn Wcráin a Gaza ar leihau chwyddiant byd-eang a phrisiau ynni (ond sydd dal yn uchel), a chyfraddau llog (uchel) gwastad gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar gael hyd at ddyddiad cyhoeddi'r datganiadau ariannol hyn.

Fel rhan o'r asesiad hwn dylai'r bwrdd ystyried y canlynol:

- Hylifedd y gwahanol gronfeydd y mae'r Grŵp yn eu rheoli i gefnogi cwsmeriaid presennol a newydd drwy gyfnod o straen hir;
- Cyllid arall sydd ar gael i fusnesau yng Nghymru, gogledd ddwyrain Lloegr, gogledd orllewin Lloegr a de orllewin Lloegr drwy'r sectorau cyhoeddus a phreifat;
- Trafodaethau cyllido parhaus gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer cronfeydd ar gyfer y dyfodol;
- Rhagweld modelau ariannol ar gyfer y gwahanol gronfeydd y mae'r Grŵp yn eu rheoli a gofynion ad-dalu cyllidwyr y Grŵp;
- Y gwarged a'r cronfeydd wrth gefn cronedig ar gyfer ei fusnes gweithrediadau;
- Cadernid gweithredol swyddogaethau hanfodol y Grŵp, gan gynnwys ei systemau TG a'r gallu i'r busnes weithredu fel arfer ar sail gweithio hybrid;
- Asesiad o sylfaen cyflenwyr y Grŵp, gan ystyried unrhyw bwyntiau methiant unigol a chanolbwyntio ar gyflenwyr sy'n wynebu straen ariannol. Roedd hyn yn cynnwys ystyried cynlluniau wrth gefn pe bai cyflenwyr yn cael eu hystyried mewn perygl;
- Effaith sefydlogrwydd marchnadoedd ariannol byd-eang ar ddaliadau arian parod y Grŵp yn dilyn digwyddiadau ym mis Mawrth 2023;
- Yr amgylchedd rheoleiddiol a chyfreithiol ac unrhyw risgiau ymddygiad posibl a allai godi.

O ganlyniad i'r asesiad hwn, mae'r Cyfarwyddwyr yn credu ei bod yn briodol mabwysiadu sail busnes hyfyw cyfrifyddu wrth baratoi'r Cwmni a'r datganiadau ariannol.

Datganiad hyfywedd tymor hir

Gweinidogion Cymru sy'n berchen ar Fanc Datblygu Cymru ccc ac mae ei barhad fel endid yn y pen draw yn ôl disgrisiwn Llywodraeth Cymru sydd mewn grym. Mae'r Bwrdd yn tybio bod gan y Grŵp gefnogaeth Llywodraeth Cymru ac y bydd y trefniadau cyllido, sy'n cynrychioli 100% o gyllid ad-daladwy'r Grŵp, yn aros yn eu lle.

Mae'r Cyfarwyddwyr wedi seilio eu hasesiad o hyfywedd ar gynllun corfforaethol tymor hir y Grŵp, sy'n cael ei ddiweddarau a'i gymeradwyo'n flynyddol gan y Bwrdd. I fod yn fusnes hyfyw, dylai fod lefel uchel o hyder bod modd rheoli risgiau o ran solfedd a hylifedd yn effeithiol, sy'n golygu bod yn rhaid i'r Grŵp ariannu ei fantolen yn llwyddiannus a dal digon o gyfalaf a hylifedd dros gyfnod cyfan ei ddatganiad hyfywedd.

Cyfnod o dair blynedd yw'r cyfnod hyfywedd mwyaf priodol gan mai dyma'r cyfnod hiraf y mae'r Bwrdd yn credu y gall ffurfio barn resymol am yr amgylchedd gwleidyddol a macroeconomaidd tebygol a'r ffactorau allweddol cysylltiedig sy'n sbarduno perfformiad busnes ac sy'n cyd-fynd ag arferion y farchnad.

Mae hylifedd a sefyllfaoedd cyfalaf y Grŵp yn cael eu trafod yn Nodiadau 19 a 20 yn y drefn honno.

Mae'r Grŵp yn cynhyrchu cynllun corfforaethol pum mlynedd sy'n cynnwys rhagolwg ariannol pum mlynedd ar gyfer y busnes Gweithrediadau. Nid yw'r rhagolwg hwn yn cynnwys unrhyw dybiaethau cronfa newydd ac felly mae'r blynyddoedd allanol yn llai sicr ac felly mae'r Grŵp yn defnyddio tair blynedd yn ei ddatganiad hyfywedd tymor hir. Mae'r rhagolwg hwn yn cael ei ddiweddarau'n flynyddol ac mae'n seiliedig ar incwm a threuliau ar gyfer cronfeydd presennol yn unig. Cynhaliwyd yr un broses asesu fel y nodwyd uchod ar gyfer busnes hyfyw, ond ar gyfer y cyfnod hyfywedd tymor hir tair blynedd hirach. Roedd hyn yn ystyried sefyllfaoedd negyddol yn effeithio ar incwm a chostau yn deillio o ansicrwydd macroeconomaidd parhaus, ac yn benodol effaith yr argyfwng costau byw ynghyd â'r gwrthdaro yn Wcráin a Gaza ar leihau



Hunanadeiladu Pentyrch

chwyddiant byd-eang a phrisiau ynni (ond sydd dal yn uchel), a chyfraddau llog (uchel) gwastad. Roedd yr ystyriaethau allweddol a wnaed ar gyfer hyfywedd tymor hir y Grŵp yn ymwneud â'r tebygolrwydd y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu cronfeydd buddsoddi, y risg o golli cronfeydd buddsoddi presennol a chronfeydd sy'n cael eu dal yn y trysorlys yn ogystal â heriau gweithredol gweithio hyblyg.

O ganlyniad i'r asesiad hwn, mae'r Cyfarwyddwyr yn fodlon bod gan y Grŵp ddigon o hylifedd i barhau i wneud buddsoddiadau am o leiaf dair blynedd a bod ei fusnes Gweithrediadau yn parhau i fod mewn gwargagedd cronol drwy gydol y cyfnod hwn.

Ar sail y senarios hyn, mae gan y Cyfarwyddwyr ddisgwyliad rhesymol y bydd y Grŵp yn parhau i weithredu ac yn cyflawni ei rwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus dros y cyfnod o dair blynedd sydd dan ystyriaeth.

Gofynion Adrodd Symlach ar Ynni a Charbon

Dyma’r ail flwyddyn i ni lunio adroddiad symlach ar ynni a charbon allyriadau nwyon tŷ gwydr ein gweithrediadau busnes. Mae’r canlynol yn amlinellu asesiad o’n hallyriadau ynni a thrafnidiaeth gan dynnu sylw at gynnydd o 8% yng nghyfanswm yr allyriadau rydym wedi’u cofnodi ar gyfer trafndiaeth a thrydan o’n blwyddyn gwaelodlin yn 2022/23.

Mae’r cynnydd hwn yn 2023/24 yn ganlyniad yn bennaf i gynnydd mewn teithio ar gyfer busnes mewn ceir. Mae’r cynnydd hwn adlewyrchu twf yn y busnes a staff yn dychwelyd i deithio yn dilyn y pandemig COVID-19.

Trosolwg

Blwyddyn gwaelodlin	2022/23
Crynodeb o’r ffin	Yr holl gyfleusterau dan reolaeth weithredol yn y DU
Ffynhonnell ddata ffactor allyriadau	Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru (2023) ¹
Methodoleg asesu	Protocol Nwyon Tŷ Gwydr ²
Cymhareb dwyster	Allyriadau fesul gweithiwr amser llawn

Methodoleg

Yn unol â’r dyletswyddau Adrodd Symlach ar Ynni a Charbon, mae’r adroddiad hwn yn amlinellu cyfanswm allyriadau blynyddol Banc Datblygu Cymru gan ddilyn methodoleg Protocol Nwy Tŷ Gwydr a defnyddio ffactorau allyriadau Adran Diogelwch Ynni a Sero Net Llywodraeth y DU. Mae cyfanswm yr allyriadau rydym wedi’u cofnodi yn cynnwys allyriadau trafndiaeth busnes ac allyriadau trydan ar draws ein holl gyfleusterau a gweithrediadau.

Mae ein hallyriadau trafndiaeth yn ymwneud â defnyddio tanwydd ar gyfer

teithiau busnes mewn car ac nid cymudo na theithio busnes ar gludwyr ar wahân.

Mae Banc Datblygu Cymru yn prynu trydan gan ein landlordiaid ar draws ein 13 swyddfa ac felly nid yw’n defnyddio unrhyw nwy yn uniongyrchol, gan fod y boeleri ar gyfer yr adeiladau y mae gennym swyddfeydd ynddynt yn eiddo i landlordiaid ac yn cael eu rheoli ganddynt. Felly, nid ydym yn cynnwys nwy yn ein hallyriadau ynni ac dim ond allyriadau trydan.

Metrigau

Metrig	BA 2022/23	BA 2023/24
Trafnidiaeth KW/h	195,504 KW/h	222,973 KW/h (+14%)
Trydan KW/h	340,982 KW/h	335,445 KW/h (-2%)
Cyfanswm Defnydd Ynni KW/h Trafnidiaeth a Thrydan	536,485 KW/h	558,418 KW/h (+4%)
Trafnidiaeth CO ₂ e (tunnelli)	61.02 (tunnelli)	70.67 (tunnelli) (+16%)
Trydan CO ₂ e (tunnelli)	89.18 (tunnelli)	92.2 (tunnelli) (+3%)
Cyfanswm CO ₂ e (tunnelli) Trafnidiaeth a Thrydan	150.2 tCO ₂ e (tunnelli)	162.87 (+8%)
Cymhareb Dwyster: tCO ₂ e fesul gweithiwr amser llawn	0.55 tCO ₂ e (tunnelli)	0.61tCO ₂ e (+11%)

¹<https://www.llyw.cymru/y-gwasanaeth-ynni-ar-gyfer-grwpiaur-sector-cyhoeddus-grwpiau-cymunedol>

²<https://ghgprotocol.org/>

Camau gweithredu effeithlonrwydd ynni

Yn unol â'n hymrwymadau fel buddsoddwr cyfrifol a'n cefnogaeth i'r newid i economi Sero Net, rydym yn parhau i roi mesurau effeithlonrwydd ynni ar waith ar draws ein gweithrediadau yn ogystal â'n gwastraff a'n dŵr.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24 rydym wedi canolbwyntio ar adolygu cwmpas ac ansawdd ein gwaith casglu data allyriadau ar draws ein gweithrediadau. Mae'r adolygiad hwn wedi cyfrannu at ein strategaeth cynaliadwyedd corfforaethol (2024-27) sy'n amlinellu ymrwymadau i wella ein gwaith adrodd cwmpas 3 ac adnewyddu ein llwybr datgarboneiddio corfforaethol, gan gynnwys gweithredu polisi caffael cynaliadwy a chasglu gwastraff busnes ar wahân.

**Diwygiadau ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23**

Oherwydd newid yn y fethodoleg, mae'r ffigurau gwaelodlin ar gyfer milltiroedd trafniadaeth wedi cael eu diwygio yn yr adroddiad hwn. Dyma'r diwygiadau ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23, sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn:

- Gostyngiad yn y KWh trafniadaeth o 358,436KWh i 195,504KWh.
- Gostyngiad yng nghyfanswm y KWh o 700,418 i 536,485KWh.
- Cynnydd yn yr allyriadau trafniadaeth o 53.62 i 61.02 tCO₂e.
- Cynnydd yng nghyfanswm yr allyriadau o 142.8 i 150.2 tCO₂ee.
- Cynnydd yn y gymhareb dwyster o 142.8 i 150.2 tCO₂e.

Cyfrifoldeb corfforaethol a chymdeithasol

Mae manylion polisïau, gweithgareddau a nodau'r Grŵp yn y maes hwn ar gael yn ein datganiad S172 (1) ar dudalennau 64-69.

Rhoddion gwleidyddol

Ni wnaeth y Grŵp unrhyw roddion gwleidyddol yn ystod 2024 (2023: £dim).

Rhoddion a lletygarwch

Ni wnaeth y Grŵp unrhyw roddion. Roedd gwerth cronus rhoddion a lletygarwch a dderbyniwyd gan staff yn llai nag £20,000 yn ystod 2024 (2023 llai nag £20,000).

Taliadau diswyddo

Y taliadau diswyddo cronnus a wnaed yn ystod y flwyddyn gan y Grŵp oedd £Dim (2023 £Dim).

Colledion ar fenthyciadau/colledion ar ddatgelu gwaredu ecwiti

Llwyddodd y Grŵp i ddileu benthyciadau o £5,068,995 yn ystod y flwyddyn (2023 £39,682,380). Sylwch fod ffigur 2023 yn cynnwys dilead interim o £27,074,726 ar fuddsoddiad £50 miliwn y Grŵp yng Nghronfa Gwyddorau Bywyd Cymru.

Taliadau cyfarwyddwyr

Mae manylion taliadau'r Cyfarwyddwyr wedi'u datgelu yn Nodyn 7 y datganiadau ariannol.

Indemniadau cyfarwyddwyr

Mae'r Cwmni wedi gwneud darpariaethau indemniad trydydd parti cymwys er budd holl gyfarwyddwyr y Cwmni a'i is-gwmnïau. Roedd y rhain mewn grym yn ystod y flwyddyn ariannol ac roeddent yn dal mewn grym ar ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol.

Datganiad datgelu gwybodaeth i'r archwilydd


Cyn belled ag y mae pob Cyfarwyddwr yn gwybod ar ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad hwn, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol, sef gwybodaeth sydd ei hangen ar yr archwilydd mewn cysylltiad â pharatoi'r adroddiad hwn, nad yw'r archwilydd yn ymwybodol ohoni. Mae'r holl Gyfarwyddwyr wedi cymryd pob cam y dylent fod wedi'u cymryd yn rhinwedd eu rôl fel Cyfarwyddwyr, i sicrhau eu bod yn gwybod am unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod yr archwiliwr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Archwilwyr

Yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 26 Medi 2023, cafodd penderfyniad ei basio i benodi Mazars yn archwilydd ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 25 Medi 2024, bydd penderfyniad yn cael ei gynnegi i ailbenodi Mazars yn archwilydd.

Cymeradwywyd gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr a'i lofnodi ar ran y Bwrdd

Elizabeth Hitchings
Ysgrifennydd y Cwmni
3 Medi 2024



Datganiad llywodraethu corfforaethol

Mae cyfansoddiad Banc Datblygu Cymru ccc yn cynnwys ei Erthyglau Cymdeithasu a Dogfen Fframwaith rhwng Banc Datblygu Cymru ccc a Gweinidogion Cymru.

Er nad ydym wedi mabwysiadu gofynion Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU 2018 ('y Cod') yn ffurfiol, mae'r Cyfarwyddwyr yn cydnabod pwysigrwydd llywodraethu corfforaethol cadarn. Pob blwyddyn

ariannol, mae adroddiad manwl yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd gan y Prif Swyddog Risg yn ymwneud â graddau cydymffurfiaid Banc Datblygu Cymru ccc â'r Cod.

Nododd yr adolygiad o'r flwyddyn gyfredol fod y Grŵp yn parhau i gydymffurfio â'r rhan fwyaf o ofynion y Cod sy'n berthnasol i endidau mawr a/neu restredig, ac eithrio:

- Ymgysylltiad y Bwrdd â'r gweithlu - Darpariaeth 5 y Cod.
- Nid yw adroddiad blynyddol y Pwyllgor Enwebiadau yn darparu lefel y manylder sy'n cael ei ragnodi gan Ddarpariaeth 23 y Cod, er enghraifft o ran cydbwysedd rhywedd yr Uwch Dîm Rheoli a'u his-weithwyr uniongyrchol.
- Nid yw adroddiad blynyddol y Pwyllgor Taliadau yn darparu lefel y manylder sy'n cael ei ragnodi gan Ddarpariaeth 41 y Cod, er enghraifft o ran tryloywder y polisi tâl a bylchau cyflog.

Yn ystod y flwyddyn ariannol, mae'r Grŵp wedi gwneud cynnydd tuag at fwy o gydymffurfiaeth yn y meysydd canlynol:

- Darpariaeth 2i – Asesu a monitro diwylliant
 - Cyflwyno galwadau newydd ddwywaith y flwyddyn i'r Uwch Dîm Rheoli i gyflwyno cydweithwyr newydd i aelodau'r Uwch Dîm Rheoli a'u meysydd cyfrifoldeb;
 - Comisiynu arolwg 'Lleoedd Gwych i Weithio' i gasglu barn cydweithwyr am ddiwylliant y gweithle.
- Darpariaeth 5i – deall barn rhanddeiliaid allweddol.



Bu ymgysylltu ehangach â rhanddeiliaid yn unol ag ymchwiliad y Senedd i'r Banc Datblygu ac mae rhai camau gweithredu eisoes wedi cael eu rhoi ar waith mewn ymateb i'r adborth a gafwyd.

Mae'r Grŵp yn disgwyl gwneud rhagor o gynnydd yn erbyn y gofynion hyn yn ystod 2024/25.

I Fanc Datblygu Cymru, mae llywodraethu corfforaethol da yn golygu sicrhau bod y Grŵp yn cyd-fynd ag amcanion ei gyfranddaliwr a bod gweithredu'r strategaeth a fabwysiadwyd yn sicrhau bod y Grŵp yn gynaliadwy ac yn gallu ailfuddsoddi'r enillion o'i gronfeydd a fydd, ochr yn ochr â chronfeydd a buddsoddwyr newydd eraill, yn galluogi'r Grŵp i barhau i fuddsoddi yn y tymor hir.

Mae'r Cadeirydd yn gyfrifol am arwain y Bwrdd a'i drafodaethau ac am annog trafodaethau a heriau agored. Mae'r Prif Weithredwr yn arwain yr Uwch Dîm Rheoli wrth redeg y busnes o ddydd i ddydd a rhoi'r strategaeth ar waith.

Fel sefydliad sy'n cael ei ariannu gan gyllid cyhoeddus, mae'n rhaid i'r Banc gydymffurfio â'r egwyddorion sydd i'w gweld yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru: [llyw.cymru/rheoli-arian-cyhoeddus-cymru](#).

Y Prif Weithredwr yw'r Swyddog Cyfrifyddu. Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu yn cynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a chysondeb y cyllid cyhoeddus.

Yr Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol yw Roger Jeynes, a benodwyd i'r rôl o 18 Tachwedd 2022, yn dilyn ymddeoliad yr Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol blaenorol y Cyfarwyddwr Anweithredol Huw Morgan.

Cyfrifoldebau'r Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol yw gweithio'n agos gyda'r Cadeirydd, gweithredu fel cyfryngwr ar gyfer Cyfarwyddwyr eraill yn ôl yr angen i gwrdd â chyfarwyddwyr anweithredol eraill i adolygu perfformiad y Cadeirydd.

Penodi a diswyddo Cyfarwyddwyr y Cwmni

Mae'r Ddogfen Fframwaith yn nodi bod yn rhaid rhoi gwybod i Gyfarwyddwr Cyffredinol adran noddi'r Grŵp, sef Grŵp yr Economi, y Trysorlys a Thrafnidiaeth ar hyn o bryd, am benodiad y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr ac aelodau eraill y Bwrdd.

Mae pob penodiad i'r Bwrdd, Pwyllgorau'r Bwrdd a'r Pwyllgorau Gwaith yn seiliedig ar amrywiaeth y cyfraniad, y profiad a'r sgiliau gofynnol, beth bynnag fo'u rhywedd, eu hil neu unrhyw feini prawf eraill.

Ailethol cyfarwyddwr

Cymeradwyodd y Pwyllgor Enwebiadau ailbenodi Kate Methuen-Ley a Rob Lamb am ail dymor o dair blynedd o 6 Ebrill 2024 ymlaen yn unol â gofynion yr Erthyglau Cymdeithasu.

Gwybodaeth am y bwrdd

Mae'r holl Gyfarwyddwyr yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau llywodraethu corfforaethol, newidiadau deddfwriaethol a rheoleiddiol, a gwybodaeth dechnegol berthnasol am y diwydiant. Mae'r Bwrdd yn cael yr wybodaeth briodol yn brydlon i'w alluogi i gyflawni ei ddyletswyddau ac mae unrhyw wybodaeth bellach ar gael yn rhwydd i'r holl Gyfarwyddwyr. Mae'r Bwrdd yn derbyn gwybodaeth a phapurau'r bwrdd yn electronig er mwyn gwella effeithlonrwydd, cyfrinachedd a chynaliadwyedd.

Pwyllgorau'r Bwrdd

Mae'r Bwrdd wedi sefydlu tri Phwyllgor Bwrdd i sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn modd cadarn ac effeithiol o fewn strwythur y Grŵp, yn enwedig y Pwyllgorau Archwilio a Risg, Taliadau ac Enwebiadau. Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo cylch gorchwyl ar gyfer pob Pwyllgor.



Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg

Pwrpas a chyfrifoldebau'r Pwyllgor

Y Pwyllgor Archwilio a Risg sydd â'r prif gyfrifoldeb dros sicrhau uniondeb datganiadau ariannol y Grŵp ac effeithiolrwydd ei fframwaith rheoli risg a'i reolaethau mewnol.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am reoli'r prosesau archwilio mewnol ac allanol a pholisïau gonestrwydd a chwythu'r chwiban y Grŵp. Cadeirydd y Pwyllgor yw'r pwynt cyswllt os yw'r pryder chwythu'r chwiban yn ymwneud â'r Uwch Dîm Rheoli.

Mae'r Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad blynyddol i Bwyllgor Llywodraethu Corfforaethol Llywodraeth Cymru ar ei waith ac yn cadarnhau digonolrwydd y trefniadau archwilio a'r sicrwydd sy'n cael ei roi gan y prif swyddog gweithredol mewn perthynas â llywodraethu, rheoli risg a rheolaethau.

Cyfarfodydd, sgiliau a chyfansoddiad yr aelodaeth

Mae ein Pwyllgor Archwilio a Risg yn cynnwys pedwar cyfarwyddwr anweithredol:

- Iraj Amiri (Cadeirydd)
- Roger Jeynes
- Dianne Walker
- Iestyn Evans

Fe wnaeth y Pwyllgor Archwilio a Risg gyfarfod pedair gwaith yn ystod 23/24. Mae Prif Weithredwr, Prif Swyddog Cyllid a Phrif Swyddog Risg Banc Datblygu Cymru ccc, ynghyd â'r archwilwyr mewnol ac allanol, ac arsylwr o Lywodraeth Cymru yn bresennol.

Mae gan yr archwilwyr mewnol ac allanol fynediad uniongyrchol at Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg ac maent yn cwrdd â'r Pwyllgor heb i'r rheolwyr fod yn bresennol o leiaf unwaith y flwyddyn.

Dylan's Den



Mae prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau’r Pwyllgor Archwilio a Risg i’w gweld isod:

Adroddiad/ Datganiad	Pwrpas
Adroddiadau ariannol	1. Monitro uniondeb y datganiadau ariannol ac adolygu polisiau cyfrifyddu hanfodol. 2. Cymeradwyo perthnasedd arfaethedig. 3. Asesu a herio, lle bo angen, y dyfarniadau a’r amcangyfrifon cyfrifyddu gan reolwyr wrth baratoi’r datganiadau ariannol. 4. Ystyried a herio’r asesiad o fusnes hyfyw a hyfywedd tymor hir a baratowyd gan y rheolwyr. 5. Adolygu a monitro unrhyw addasiadau sylweddol sy’n deillio o’r archwiliad allanol. 6. Adolygu’r adroddiad blynyddol a’r datganiadau ariannol ac adroddiadau ariannol eraill. 7. Cynghori’r Bwrdd ynghylch a yw’r adroddiad blynyddol a’r datganiadau ariannol, gyda’i gilydd, yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.
Archwilio allanol	1. Goruchwyllo’r berthynas â’r archwilydd allanol, gan gynnwys tâl, telerau cyflogi ac ystyried eu heffeithiolrwydd, adolygiadau asesu ansawdd allanol, annibyniaeth a gwrthrychedd. 2. Cytuno ar y polisi ar gyfer darparu gwasanaethau sydd ddim yn ymwneud ag archwilio. Herio a chytuno ar y cynllun archwilio allanol. 3. Gwneud argymhellion i’r Bwrdd ynglŷn ag ailbenodi a diswyddo’r archwilydd allanol. 4. Adolygu canfyddiadau archwiliadau ac ystyried ymatebion y rheolwyr i unrhyw ganfyddiadau neu argymhellion.
Rheolaethau mewnol a risg	1. Goruchwyllo trefniadau’r rheolwyr ar gyfer sicrhau digonolrwydd ac effeithiolrwydd rheolaethau mewnol, adrodd ar reolaeth ariannol a rheoli risg a dull y rheolwyr o fynd i’r afael â gwendidau rheoli. 2. Adolygu a chymeradwyo’r rheolaeth fewnol, rheoli risg a datganiadau sicrwydd eraill yn yr adroddiad blynyddol.
Uniondeb gan gynnwys chwythu’r chwiban	1. Adolygu’r trefniadau chwythu’r chwiban a derbyn adroddiadau ar achosion o chwythu’r chwiban. 2. Adolygu’r gofrestr rhoddion a lletygarwch a’r trefniadau cysylltiedig. 3. Adolygu’r gweithdrefnau ar gyfer canfod ac atal twyll, gan gynnwys y Cynllun Ymateb i Dwyll. 4. Monitro’r prosesau ar gyfer cydymffurfio â chyfreithiau, rheoliadau a chodau ymarfer moesegol.
Archwilio Mewnol	1. Cymeradwyo dethol a phenodi archwilwyr mewnol. 2. Cymeradwyo’r cynllun gwaith blynyddol a derbyn adroddiadau ar feysydd gwaith unigol. 3. Monitro ymateb y rheolwyr i ganfyddiadau ac argymhellion. 4. Monitro effeithiolrwydd y swyddogaeth archwilio mewnol. 5. Monitro perfformiad y gronfa yn erbyn archwaeth risg y gronfa o bryd i’w gilydd, gan gynnwys archwaeth risg credyd.
Llywodraeth Cymru	1. Mae arsylwr o Lywodraeth Cymru yn mynychu pob cyfarfod ac yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am bob agwedd ar waith y Pwyllgor. 2. Mae adroddiad blynyddol yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Llywodraethu Corfforaethol Llywodraeth Cymru yn nodi manylion gwaith y Pwyllgor ac yn rhoi sicrwydd ynglŷn â pha mor ddigonol yw’r trefniadau archwilio a hefyd ar y sicrwydd a roddwyd gan y prif swyddog gweithredol a’r uwch dîm rheoli mewn perthynas â threfniadau llywodraethu a rheoli.

Problemau sylweddol o ran adrodd ar ddatganiadau ariannol

Un o gyfrifoldebau allweddol y Pwyllgor yw sicrhau bod datganiadau ariannol y Grŵp a chynnwys yr adroddiad blynyddol yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy. Mae'r Pwyllgor yn herio'r rhagdybiaethau a'r amcangyfrifon a wnaed gan y rheolwyr wrth baratoi'r datganiadau ariannol. Isod, mae crynodeb o'r materion pwysig a ystyriwyd gan y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn ariannol hon.

Mae'r rhan fwyaf o'r materion hyn yn codi dro ar ôl tro ac felly mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn eu hystyried yn barhaus, gydag effaith bosibl datblygiadau economaidd a gwleidyddol mawr yn ffactor arall i'w ystyried ar gyfer pob mater ar y canlyniadau a adroddwyd.

Prisiad o bortffolio benthyciadau rhannu ecwiti Cymorth i Brynu - Cymru

Ystyriodd a heriodd y Pwyllgor y rhagdybiaethau allweddol a ddefnyddiwyd gan y rheolwyr wrth gyfrifo gwerth teg Cymorth i Brynu – portffolio benthyciadau Cymru. Roedd hyn yn cynnwys rhagdybiaethau tueddiadau mynegai prisiau tai yn y dyfodol, y cyfnod dal a'r ffactor disgownt a ddefnyddiwyd yn dilyn effaith lleihau chwyddiant byd-eang a phrisiau ynni (ond sydd dal yn uchel), a chyfraddau llog (uchel) gwastad sy'n deillio o'r rhyfel yn Wcráin a'r Argyfwng Costau Byw ar y rhagdybiaethau hyn. Ystyriwyd sensitifrwydd cyfrifiad y prisiad i ragdybiaethau allweddol, gan gynnwys effaith senarios economaidd amgen sy'n edrych tua'r dyfodol. Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod y gwerth teg yn briodol. Mae'r datgeliadau mewn perthynas â'r prisiad Cymorth i Brynu - Cymru i'w gweld yn Nodiadau 3, 13 ac 19 y datganiadau ariannol.

Darpariaethau ar gyfer amhariad ar y llyfr benthyciadau (darpariaeth colli credyd ddisgwyliedig) o dan IFRS 9

Ystyriodd a heriodd y Pwyllgor y fethodoleg ddarparu a ddefnyddiwyd gan y rheolwyr

gan gynnwys y canlyniadau o golledion benthyciadau ystadegol i gefnogi'r ddarpariaeth amhariad ac roedd yn fodlon bod y dulliau amcangyfrif yn briodol.

Ystyriodd a heriodd y Pwyllgor y ddarpariaeth amhariadau sydd wedi'i chydabod yn y datganiadau ariannol a'r sail ar gyfer cyfrifo colledion credyd disgwyliedig o dan IFRS 9. Roedd hyn yn cynnwys y rhagdybiaethau gweithredu, y dull ar gyfer pennu cynnydd sylweddol mewn risg credyd a'r defnydd o benderfyniadau rheoli sy'n ymwneud â darpariaethau penodol. Fe wnaeth y Pwyllgor hefyd adolygu pa mor briodol oedd data'r farchnad sy'n edrych tua'r dyfodol ac sy'n cael ei ddefnyddio i gyfrifo tebygolrwydd diffygdlu yn ogystal â thueddiadau hanesyddol sy'n cael eu defnyddio i gyfrifo pa mor agored yw i ddifygdalu a'r golled o ganlyniad i ddifygdalu. Ystyriwyd sensitifrwydd cyfrifiad y ddarpariaeth i amryw o ragdybiaethau allweddol, gan gynnwys effaith senarios economaidd amgen sy'n edrych tua'r dyfodol.

Roedd y Pwyllgor yn fodlon ar ddigonolrwydd y ddarpariaethau a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol a bod y rhagdybiaethau a'r penderfyniadau a wnaed gan y Rheolwyr yn briodol. Mae'r datgeliadau sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth amhariad i'w gweld yn Nodiadau 2, 4 ac 14 y datganiadau ariannol.

Prisio buddsoddiadau ecwiti

Mae IFRS 9 yn mynnu bod yr holl fuddsoddiadau ecwiti yn cael eu dal ar werth teg yn unol ag IFRS 13. Ystyriodd a heriodd y Pwyllgor sut roedd y rheolwyr wedi defnyddio'r Canllawiau diweddaraf ar Ecwiti Preifat Rhyngwladol a Chyfalfaf Menter (Rhagfyr 2022) ac roedd yn fodlon eu bod wedi cael eu defnyddio'n briodol. Mae'r datgeliadau sy'n ymwneud â'r addasiad gwerth teg i'w gweld yn Nodiadau 13 ac 19 y datganiadau ariannol.

Cafodd y Pwyllgor y sicrwydd priodol gan y Pwyllgor Prisio a Chadeirydd y Pwyllgor Buddsoddi bod dosbarthu a phrisio buddsoddiadau yn briodol.

Cydnabod refeniw

Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod cydnabod refeniw mewn perthynas â gwireddu ecwiti yn briodol ac yn cael ei gefnogi gan ddogfennau angenrheidiol.

Benthyciadau llog sero y cant Llywodraeth Cymru

Mae £847 miliwn (2023 £847 miliwn) o gyllid a dderbyniwyd gan y Grŵp gan Lywodraeth Cymru i fuddsoddi mewn busnesau yng Nghymru wedi bod ar ffurf benthyciadau llog sero y cant gyda tharged ad-dalu o rhwng 32% a 100% o'r benthyciad gwreiddiol a dderbyniwyd.

Yn hanesyddol, mae'r benthyciadau hyn wedi cael eu cydnabod ar werth y trafodiad cychwynnol heb unrhyw dâl llog yn cael ei gofnodi drwy'r datganiad incwm. Fodd bynnag, yn ystod blwyddyn ariannol 21, wrth ystyried y driniaeth gyfrifyddu sydd ei hangen ar gyfer benthyciadau CWBLS (gweler isod), nodwyd bod angen newid y fethodoleg gyfrifyddu sy'n cael ei defnyddio gyda benthyciadau Llywodraeth Cymru i sicrhau cydymffurfiaid â'r rheolau cyfrifyddu.

Mae'r Polisi Cyfrifyddu cysylltiedig ar gael yn Nodyn 2.

Ystyriodd a heriodd y Pwyllgor y penderfyniadau allweddol a wnaed gan y rheolwyr wrth bennu'r driniaeth gyfrifyddu gywir a'r rhagdybiaethau wrth gyfrifo'r taliadau gwerth teg a llog tybiannol cychwynnol, a oedd yn cynnwys adolygu cyfraddau marchnad hanesyddol a chyfredol ar gyfer benthyciadau o'r fath a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU. Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod y driniaeth gyfrifyddu a fabwysiadwyd yn unol â'r driniaeth gyfrifyddu ofynnol. Nododd y Pwyllgor ei bod yn bwysig bod y sawl sy'n darllen y datganiadau ariannol yn deall effaith y newid o'r driniaeth flaenorol i'r driniaeth bresennol ar y datganiad incwm cyfunol a'r fantolen ac mae'r dadansoddiad hwn yn cael ei gyflwyno yn adroddiad y Prif Swyddog Cyllid ar dudalen 15.

Busnes hyfyw

Ystyriodd y Pwyllgor Archwilio a Risg ymateb y Rheolwyr i'r asesiad o allu'r Grŵp i barhau fel busnes hyfyw, a chasgliadau'r asesiad hwnnw.

Mae'r cyfnod asesu busnes hyfyw yn cynnwys y cyfnod hyd at 30 Medi 2025, 12 mis ar ôl llofnodi'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024. Fe wnaeth yr asesiad ystyried sefyllfa gyfalaf bresennol y Grŵp a'r gofynion hylifedd ar gyfer y cyfnod asesu busnes hyfyw, gan gynnwys ystyried effaith ansicrwydd macroeconomaidd parhaus, ac yn benodol effaith yr argyfwng costau byw a'r gwrthdaro yn Wcráin a Gaza ar leihau chwyddiant byd-eang a phrisiau ynni (ond sydd dal yn uchel), a chyfraddau llog (uchel) gwastad. Mae'r ystyriaethau manwl a wnaed gan y Bwrdd wrth iddo gyrraedd ei asesiad o fusnes hyfyw i'w gweld ar dudalen 98 yn adroddiad y Cyfarwyddwyr.

Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod digon o gronfeydd buddsoddi ar gael i fodloni'r galw am fuddsoddiad hyd at 30 Medi 2025, nad oedd unrhyw broblemau o ran perfformiad gydag unrhyw un o gontractau rheoli cronfeydd y Grŵp a bod y Grŵp yn dal ar y trywydd iawn i ad-dalu ei fenthyciadau gan Lywodraeth Cymru yn unol â'r amserlen.

Roedd y Pwyllgor hefyd yn fodlon y byddai digon o warged cronol yn cael ei gynhyrchu gan y busnes Gweithrediadau a'r cyfalaf gweithio cysylltiedig i dalu am yr holl dreuliau gweithredu hyd at 30 Medi 2025. Argymhellodd y Pwyllgor Archwilio a Risg fod y Bwrdd yn cefnogi'r casgliad ei bod yn dal yn briodol paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw.



Rheoleidd-dra

Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod rheolaethau priodol ar waith i sicrhau bod gwariant y Grŵp yn cydymffurfio â gofynion y Cytundeb Fframwaith sydd wedi'i osod gan Weinidogion Cymru.

Rheolau cyllid Ewropeaidd

Mae'r ail gronfa ddi-ailgylchu fwyaf sy'n cael ei rhedeg gan y Grŵp yn cael ei hariannu'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop ac mae ganddi feini prawf penodol ar gyfer cymhwysedd buddsoddiadau. Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd gan y rheolwyr bod yr holl fuddsoddiadau a wnaed yn bodloni'r meini prawf. Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod rheolaethau priodol ar waith i sicrhau bod arian yn cael ei fuddsoddi mewn busnesau cymwys.

Perfformiad y Pwyllgor Archwilio a Risg

Mae perfformiad y Pwyllgor Archwilio a Risg yn cael ei asesu'n flynyddol drwy gyfrwng holiadur sy'n cael ei anfon at yr holl Gyfarwyddwyr ac uwch reolwyr.

Mae'r canlyniadau'n cael eu hadolygu a, lle bo angen, mae cynllun gweithredu yn cael ei drefnu i roi sylw i unrhyw faterion a godwyd. Daeth yr asesiad i'r casgliad bod y Pwyllgor wedi bod yn effeithiol yn ystod y flwyddyn.

Godfrey Group



Adolygiad o'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol

Fe wnaeth y Pwyllgor Archwilio a Risg gyfarfod ar 25 Mehefin 2024 i gynnal adolygiad manwl o ddrafft o'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol, cyn i'r drafft terfynol gael ei gyflwyno i'r Bwrdd ar 26 Mehefin 2024. Yn dilyn y trafodaethau hyn, dywedodd y Pwyllgor wrth y Bwrdd fod yr adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol, ar y cyfan, yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ond nododd fod rhywfaint o waith archwilio heb ei gwblhau o hyd. Cytunodd y Bwrdd i ddirprwyo i is-bwyllgor a oedd yn cynnwys Cadeirydd y Bwrdd, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg, y Prif Swyddog Gweithredol a'r Prif Swyddog Cyllid gymeradwyaeth derfynol i'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol ar yr amod nad oedd unrhyw newidiadau sylweddol i'r drafft a ddosbarthwyd i'r Bwrdd. Fe wnaeth yr is-bwyllgor hwn gyfarfod wedyn ar 28 Awst 2024 a chymeradwyo fersiwn derfynol yr adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol ar ran y Bwrdd.



Jaga Brothers Transport

Archwilio Allanol

Mae gan yr archwilydd allanol a'r Grŵp fesurau diogelu i sicrhau annibyniaeth a gwrthrychedd yr archwiliad allanol. Mae gan y Grŵp bolisi i sicrhau bod y gwasanaethau sydd ddim yn ymwneud ag archwilio sy'n cael eu darparu gan yr archwilwyr allanol yn briodol. Mae'r polisi'n nodi natur y gwaith y gall yr archwilydd allanol ei wneud gydag unrhyw aseiniadau gyda ffioedd sy'n uwch na therfyn diffiniedig yn gofyn am gymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Pwyllgor Archwilio a Risg.

Mae'r cyfanswm a dalwyd i'r archwilydd allanol yn 2024 yn ymddangos yn Nodyn 6 y datganiadau ariannol.

Mae aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn heb i'r rheolwyr fod yn bresennol, gyda'r archwilydd allanol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cynnal asesiad ffurfiol o berfformiad yr archwilwyr allanol bob blwyddyn. Yn 2024 ni chodwyd unrhyw broblemau sylweddol ac ystyriwyd bod eu perfformiad yn foddhaol.

Mae gan y Grŵp bolisi o dendro'r archwiliad allanol bob pum mlynedd gyda'r ymarfer diweddaraf yn cael ei gynnal ym mlwyddyn ariannol 2022. Penodwyd Mazars yn archwilydd allanol y Grŵp ar gyfer y flwyddyn ganlynol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Medi 2022.

Archwilio Mewnol


Yn dilyn ymarfer caffael llwyddiannus yn 2022, RSM yw archwilydd mewnol y Grŵp.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn adolygu'r cynllun Archwilio Mewnol ac yn sicrhau bod gan yr archwilwyr fynediad priodol at wybodaeth i'w galluogi i gyflawni eu gweithgareddau archwilio'n effeithiol, ac yn unol â'r safonau proffesiynol perthnasol. Mae'r holl ganfyddiadau'n cael eu hadolygu'n brydlon ac mae ymateb y rheolwyr i'r canfyddiadau a'r argymhellion yn cael eu monitro'n rheolaidd. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cyfarfod yn breifat o leiaf unwaith y flwyddyn gyda'r archwilwyr mewnol heb i'r rheolwyr fod yn bresennol i drafod eu cylch gwaith ac unrhyw faterion sy'n codi o'r adolygiadau archwilio mewnol a gafodd eu cynnal.

Yn ei adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Archwilio a Risg dyddiedig 25 Mehefin 2024, roedd barn ein Harchwilydd Mewnol ynglŷn â'n trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheoli yn datgan:

"Mae gan y sefydliad fframwaith digonol ac effeithiol ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol. Fodd bynnag, mae ein gwaith wedi nodi gwelliannau pellach i'r fframwaith rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn ddigonol ac yn effeithiol."

Cymeradwywyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg



Iraj Amiri
Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg

3 Medi 2024



Adroddiad y Pwyllgor Taliadau

Mae ein Pwyllgor Taliadau yn mabwysiadu dull teg a chyfrifol o wobrwyo ein cydweithwyr, gan sicrhau bod y cysylltiad rhwng cyflog a pherfformiad yn annog yr ymddygiadau cywir, gan ein galluogi i ddenu a chadw'r bobl iawn.

Rydym yn ymdrechu i fod yn agored a cynhwysol ac rydym yn croesawu amrywiaeth, er mwyn creu diwylliant lle mae cydweithwyr yn teimlo eu bod yn ddiogel ac yn cael eu parchu. Ein huchelgais yw cael gweithlu sy'n wirioneddol gynrychioladol o'r bobl yn ein rhanbarthau.

Rydym yn cydnabod bod llawer mwy i'w wneud na dim ond cyflog, a dyna pam ein bod yn cynnig amgylchedd gwaith ac amrywiaeth gynhwysfawr o fuddion sydd â'r nod o ddarparu lle gwerth chweil a phleserus i weithio, datblygu a thyfu.

Aelodaeth a phresenoldeb y Pwyllgor

Mae Pwyllgor Taliadau'r Grŵp yn cynnwys tri chyfarwyddwr anweithredol:

Cadeirydd y Pwyllgor: Rhys Jones

Aelodau: Kate Methuen-Ley,
Roger Jaynes a Rhys Jones

Penodir y Pwyllgor gan Gadeirydd y Bwrdd ac mae'n rhaid iddo gynnwys o leiaf ddau gyfarwyddwr anweithredol. Mae ein Cadeirydd, Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Strategaeth, Pobl a Datblygu yn bresennol fel arfer ac eithrio pan fydd eu tâl eu hunain yn cael ei drafod.

Rhoddir adborth i'r Bwrdd yn dilyn pob cyfarfod o'r Pwyllgor Taliadau.

Pwrpas a chyfrifoldebau'r Pwyllgor Mae'r prif gyfrifoldebau yn cynnwys:

- Ffurio a chymeradwyo'r strategaeth a'r polisi ar gyfer tâl Cyfarwyddwyr y Grŵp, y tîm Rheoli Gweithredol a'r staff yn unol â'r Ddogfen Fframwaith.
- Sicrhau bod aelodau'r tîm Rheoli Gweithredol yn cael cymhellion priodol i annog gwell perfformiad ac yn cael eu gwobrwyo am gyfraniadau unigol at lwyddiant y mudiad.
- Cymeradwyo strwythur y cynllun cymhelliant blynyddol ac unrhyw daliadau o dan y cynllun hwn.
- Goruchwylio'r cynlluniau pensiwn sy'n cael eu cynnig gan y sefydliad.
- Goruchwylio newidiadau mawr i strwythurau buddion gweithwyr.

Rydym yn eiddo i weinidogion Cymru fel is-gwmni sy'n eiddo llawn iddynt, sy'n gweithredu yn y sector gwasanaethau ariannol, rydym yn cydnabod bod ein cydweithwyr yn hanfodol i'n gweithrediadau a heb eu gwybodaeth a'u harbenigedd, ni allm gyflawni ein hamcanion yn llwyddiannus.

Recriwtio

Ein nod yw bod yn gyflogwr o ddewis ac rydym wedi ymrwymo i ddatblygu ein cydweithwyr ac ymgorffori cynhwysiant yn y gweithle, gan sicrhau gweithlu cyfartal, gan feithrin diwylliant sy'n hyrwyddo parch, amrywiaeth a pherfformiad. Er mwyn cwrdd â'r cynnydd yn y llwyth gwaith, rydym wedi recriwtio 43 o staff newydd ac wedi ymgymryd â 32 o symudiadau a dyrchafiadau mewnol. Gyda'r amser cyfartalog ar gyfer ymgyrch recriwtio lwyddiannus i gael gweithiwr newydd yn 3.4 mis.

Cyflog a buddiannau

Rydym yn gweithredu yn unol â'n protocol cyflog 5 mlynedd a lofnodwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae hwn ar waith rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2027.

Mae'n bwysig ein bod yn cynnal dadansoddiad manwl o'n Bwlch Cyflog Rhywedd, er mwyn adolygu'n strategol yr hyn rydym yn ei wneud i helpu i'w gau. Mae'n dangos ein hymrwymiad i sicrhau cydraddoldeb rhywedd a chefnogi ein gwerthoedd. Bydd y fersiwn gyfredol o'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan.

Mae ein cyflogau a'n buddion yn cael eu meincnodi'n barhaus gyda chymheiriau yn y sector preifat. Mae'r adolygiad hwn yn cael ei gynnal gan Mercer ac mae'n sicrhau bod cyflogau a buddion ar draws y Grŵp yn dryloyw ac yn deg ac yn adlewyrchu'r diwydiant rydym yn gweithredu ynddo.

Fel rhan o'n hymrwymiad i gyflog teg, rydym yn adolygu ein band cyflog isaf bob blwyddyn. Yr isafswm cyflog cyfwerth ag amser llawn presennol yw £23,380 a bydd yn cael ei adolygu bob mis Gorffennaf fel rhan o'n proses adolygu cyflogau a bydd yn symud yn unol â'n cynnydd mewn costau byw. 5.38 oedd cymhareb canolrif ein prif swyddog gweithredol ym mis Gorffennaf 2023, ac mae'n cael ei fonitro'n flynyddol.

Hyfforddiant

Rydym eisiau i'n cydweithwyr gyflawni eu gwir botensial ac un rhan bwysig o'n cynnig yw ymrwymiad i ddatblygu sgiliau a gyrfaedd pawb sy'n gweithio gyda ni. Mae gennym amgylchedd dysgu parhaus.

Rydym yn darparu hyfforddiant mewn nifer o ffyrdd gan gynnwys hyfforddiant yn y swydd, wyneb yn wyneb, ar-lein, hyfforddi a

mentora, cyrsiau addysg bellach ac addysg uwch a thrwy ddiweddariadau dyddiol. Ar gyfartaledd mae ein cydweithwyr yn derbyn 5 diwrnod o hyfforddiant bob blwyddyn. Cyfanswm cost yr hyfforddiant am y flwyddyn oedd £381,976 (dim ond £112,183 oedd yr hyfforddiant allanol).

Mae ein llwybr gyrfa wedi parhau i gefnogi cynnydd ein cydweithwyr gyda 7 o gydweithwyr yn cael eu dyrchafu yn ystod y flwyddyn.

Llesiant

Mae cefnogi llesiant corfforol a meddyliol ein cydweithwyr yn hanfodol er mwyn iddynt deimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u bod yn cyflawni eu llawn botensial. Fel cyflogwr, rydym yn creu ac yn hyrwyddo amgylchedd yn y gweithle sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo gweithgareddau, ymddygiadau llesiant, iechyd corfforol, meddyliol a chymdeithasol cadarnhaol ar gyfer pob cydweithiwr gyda rhaglen llesiant uwch. Mae gennym hefyd swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl pwrpasol yn y Grŵp sy'n trefnu digwyddiadau drwy gydol y flwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn hon, roedd cydweithwyr yn absennol oherwydd salwch am 3.8 diwrnod. Byddwn yn parhau i fonitro absenoldeb oherwydd salwch yn ofalus i sicrhau ein bod yn cefnogi ein cydweithwyr ym mhob agwedd ar eu llesiant.

Datblygu'r busnes

Mae'r strategaeth Pobl yn cael ei hadolygu i gyd-fynd â'n gwerthoedd, gan ein galluogi i helpu i recriwtio a chadw talent a nodi ein gwerthoedd a'n cynnig i'n cydweithwyr.

Mae 2023/24 yn parhau â'r thema o ddigideiddio, gan helpu i wella profiad cydweithwyr a lleihau'r baich gweinyddol.

Rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda Chwarae Teg i gefnogi cydraddoldeb rhywedd. Mae'r cynllun hwn bellach wedi cau, rydym bellach mewn partneriaeth â 'Great Places to Work' ar gyfer ein harolwg blynyddol.



Cymeradwywyd gan:

Rhys Jones
Cadeirydd y Pwyllgor Taliadau
3 Medi 2024

Adroddiad y Pwyllgor Enwebiadau

Gareth Bullock sy'n cadeirio'r Pwyllgor Enwebiadau. Mae'r manylion presenoldeb i'w gweld ar y dudalen ganlynol:

Pwrpas y Pwyllgor Enwebiadau yw ystyried cynllunio olyniaeth, adolygu anghenion arweinyddiaeth y sefydliad a nodi ac enwebu aelodau'r Bwrdd.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24, fe wnaeth y Pwyllgor drafod ac ystyried cynllunio olyniaeth ar gyfer aelodau'r uwch dîm arwain, penodi Odgers Berndston ar gyfer recriwtio'r Cadeirydd a dewis panel cyfweld ar gyfer recriwtio'r Cadeirydd. Fe wnaeth y Pwyllgor hefyd ail-benodi dau gyfarwyddwr anweithredol presennol, ystyried yr angen posibl am gyfarwyddwyr anweithredol newydd, ac adolygu aelodaeth Pwyllgorau'r Bwrdd a Chylch Gorchwyl y Pwyllgor.

Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i sicrhau amrywiaeth ei aelodau. Mae dyletswyddau'r Pwyllgor Enwebiadau yn cynnwys adolygu strwythur, maint a chyfansoddiad (gan gynnwys amrywiaeth) y Bwrdd yn rheolaidd a gwneud argymhellion i'r Bwrdd mewn perthynas ag unrhyw newidiadau.

Cyn i unrhyw benodiad gael ei wneud gan y Bwrdd, mae'r Pwyllgor Enwebiadau yn gwerthuso'r cydbwysedd o sgiliau, gwybodaeth, profiad ac amrywiaeth ar y Bwrdd.

Cymeradwywyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Enwebiadau

G. Bullock

Gareth Bullock OBE
Cadeirydd y Pwyllgor Enwebiadau
3 Medi 2024



The Pudding Compartment

Pwyllgorau eraill

Mae gan y Banc nifer o Bwyllgorau Gwaith gan gynnwys Pwyllgor Buddsoddi, Pwyllgor Risg a Phwyllgor Prisio.

Mae'r Bwrdd, Pwyllgorau'r Bwrdd a'r Pwyllgorau Gwaith wedi cael eu strwythuro i ddarparu trefn lywodraethu gadarn. Mae gan Bwyllgorau'r Bwrdd a'r Pwyllgorau Gwaith Gylch Gorchwyl sy'n nodi'r gwahanol

ddyletswyddau a chyfrifoldebau.

Presenoldeb y Bwrdd a'r Pwyllgor

Mae'r tabl isod yn nodi presenoldeb y Cyfarwyddwyr ers 1 Ebrill 2023 a oedd yn bresennol ym mhob Bwrdd a Phwyllgor.

Enw	Cyfarfodydd y bwrdd	Pwyllgor Archwilio a Risg	Pwyllgor Taliadau	Pwyllgor Enwebiadau
Gareth Bullock	5/5	Amherthnasol	Amherthnasol	2/3
Giles Thorley	5/5	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
Iraj Amiri	5/5	4/4	Amherthnasol	3/3
Carol Bell	3/3*	Amherthnasol	Amherthnasol	1/1*
Roger Jeynes	5/5	4/4	2/2	3/3
Rhys Jones	4/5	Amherthnasol	2/2	3/3
David Staziker	4/5	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
Robert Lamb	5/5	Amherthnasol	Amherthnasol	3/3
Kate Methuen-Ley	5/5	Amherthnasol	2/2	3/3
Dianne Walker	5/5	4/4	Amherthnasol	3/3
Iestyn Evans	5/5	4/4	Amherthnasol	2/3

* Ymddeolodd Carol Bell fel Cyfarwyddwr ar 30 Medi 2023.

Gwrthdaro rhwng buddiannau

Mae gan bob Cyfarwyddwr ddyletswydd dan Ddeddf Cwmnïau 2006 i osgoi sefyllfa lle mae ganddo, neu lle gall fod ganddo, fuddiant uniongyrchol neu anuniongyrchol sy'n gwrthdaro, neu a allai wrthdaro â buddiannau'r Cwmni. Mae'r Bwrdd yn credu bod buddiannau allanol yn gallu bod o fudd i'r Weithrediaeth ac mae wedi awdurdodi buddiannau allanol y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Cyllid fel y maent yn cael eu rhestru yn eu bywgraffiadau yn adroddiad y Cyfarwyddwyr.

Gwerthuso'r Bwrdd

Yn unol â gofynion cod Llywodraethu Corfforaethol y DU, mae'r Bwrdd yn cynnal adolygiad o effeithiolrwydd ei berfformiad a pherfformiad ei Bwyllgorau a'i Gyfarwyddwyr bob blwyddyn ac mae'r gwerthusiad yn cael ei hwyluso'n allanol

bob trydedd flwyddyn, rhywbeth a gafodd ei wneud ddiwethaf gan PwC yn 2022.

Cynhaliwyd adolygiad eleni yn fewnol gan Roger Jeynes, Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol y Grŵp. Daeth i'r casgliad canlynol

"Mae perfformiad y Bwrdd, ei Bwyllgorau a phob un o'r Cyfarwyddwyr yn parhau i fod yn effeithiol. Fe wnaeth y gwerthusiad nodi nifer o gryfderau yn ogystal â meysydd i'w datblygu gan gynnwys cynyddu amrywiaeth y bwrdd, cynllunio olyniaeth anweithredol a her reoli briodol. Bydd y meysydd canlynol yn cael eu blaenoriaethu fel rhan o'r broses werthuso'r bwrdd yn ystod y flwyddyn nesaf."

Bydd y meysydd hyn yn cael eu blaenoriaethu fel rhan o broses werthuso barhaus y Bwrdd yn ystod y flwyddyn i ddod.





Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol



Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i aelodau Gwmni Cyhoeddus Cyfyngedig Banc Datblygu Cymru

Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Cwmni Cyhoeddus Cyfyngedig Banc Datblygu Cymru (y 'Rhiant-gwmni') a'i is-gwmnïau (y 'Grŵp') ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 sy'n cynnwys y Datganiad Incwm Cyfunol, y Datganiad Cyfunol o Incwm Cynhwysfawr, y Datganiad Cyfunol o Newidiadau mewn Ecwiti, y Fantolen Gyfunol, y Datganiad Llif Arian Cyfunol, Mantolen y Rhiant-gwmni, Datganiad y Rhiant-gwmni o Newidiadau mewn Ecwiti, a nodiadau i'r datganiadau ariannol, gan gynnwys gwybodaeth arwyddocaol o bolisiâu cyfrifyddu.

Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol ac o ran datganiadau ariannol y Grŵp, safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU, ac o ran datganiadau ariannol y Rhiant-gwmni, Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys y 'Fframwaith Datgelu Gostyngol', Safon Adrodd Ariannol (FRS) 101 (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig) fel y'u cymhwysir yn unol â darpariaethau Deddf Cwmnïau 2006.

Yn ein barn ni:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Grŵp a'r Rhiant-gwmni ar 31 Mawrth 2024 ac o elw'r Grŵp am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- mae datganiadau ariannol y Grŵp wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU, ac mae datganiadau ariannol y Rhiant-gwmni wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â'r Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig fel y'u cymhwysir yn unol â darpariaethau Deddf Cwmnïau 2006; ac
- mae datganiadau ariannol y Grŵp a'r Rhiant-gwmni wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

Sail y farn

Rydym wedi cynnal ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) ('ISAs (y DU)') a'r gyfraith berthnasol. Caiff ein cyfrifoldebau o dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran "Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol" yn ein hadroddiad. Rydym yn annibynnol ar y Grŵp a'r Rhiant-gwmni yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Rydym yn credu bod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn un ddigonol a phriodol er mwyn rhoi sail i'n barn.

Casgliadau ynglŷn â busnes hyfyw

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rydym wedi dod i'r casgliad bod defnydd y cyfarwyddwyr o sail cyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Mae ein gweithdrefnau archwilio i werthuso asesiad y cyfarwyddwyr o allu'r Grŵp a'r Rhiant-gwmni i barhau i fabwysiadu'r sail cyfrifyddu busnes hyfyw wedi cynnwys y canlynol, ond heb ei gyfyngu i hyn:

- Cynnal asesiad cychwynnol yng nghanu cynllunio'r archwiliad i nodi digwyddiadau neu amodau a allai fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Grŵp a'r Rhiant-gwmni i barhau fel busnes hyfyw;
- Cael dealltwriaeth o'r rheolaethau perthnasol sy'n ymwneud ag asesiad busnes hyfyw gan y cyfarwyddwyr;
- Gwneud ymholiadau i'r cyfarwyddwyr er mwyn deall y cyfnod asesu a ystyriwyd ganddynt, y tybiaethau a ystyriwyd ganddynt, a goblygiadau'r rheini wrth asesu perfformiad ariannol y Grŵp a'r Rhiant-gwmni yn y dyfodol;
- Gwerthuso asesiad busnes hyfyw y cyfarwyddwyr o'r Grŵp a'r Rhiant-gwmni a herio priodoldeb y tybiaethau allweddol a ddefnyddir gan y cyfarwyddwyr yn eu rhagolygon llif arian, drwy adolygu tystiolaeth ategol ac anghyson mewn perthynas â'r tybiaethau allweddol hyn a'r camau lliniaru a roddwyd ar waith i ymateb i'r sefyllfa economaidd bresennol, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i, lefelau chwyddiant a chyfraddau llog;
- Profi cywirdeb ac ymarferoldeb y model a ddefnyddiwyd i baratoi rhagolygon y cyfarwyddwyr;
- Asesu cywirdeb hanesyddol rhagolygon a baratowyd gan y cyfarwyddwyr;
- Darllen gohebiaeth reoleiddiol, adolygu cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Risg a Bwrdd y Cyfarwyddwyr, holi'r rheolwyr ac ystyried digwyddiadau ar ôl y fantolen i nodi digwyddiadau o amodau a allai effeithio ar allu'r Grŵp a'r Rhiant-gwmni i barhau fel busnes hyfyw;

- Ystyried cysondeb y rhagolygon llif arian gyda meysydd eraill o'r datganiadau ariannol a'n harchwiliad; a
- Gwerthuso pa mor briodol yw'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ymwneud â busnes gweithredol.

Ar sail y gwaith rydym wedi'i wneud, nid ydym wedi gweld dim ansicrwydd o bwys yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, ar eu pen eu hunain neu gyda'i gilydd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Grŵp a'r Rhiant-gwmni i barhau i fod yn fusnes hyfyw am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Mae ein cyfrifoldebau ni a chyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr mewn perthynas â busnes hyfyw yn cael eu disgrifio yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Materion archwilio allweddol


Materion archwilio allweddol yw'r materion hynny a oedd, yn ein barn broffesiynol ni, yn fwyaf arwyddocaol yn ein harchwiliad o ddatganiadau ariannol y cyfnod presennol ac yn cynnwys y risgiau mwyaf a aseswyd o gamddatganiad o bwys (boed hynny oherwydd twyll ai peidio), gan gynnwys y rhai a gafodd yr effaith fwyaf ar y strategaeth archwilio gyffredinol; sut dyrannwyd adnoddau yn yr archwiliad; a chyfarwyddo ymdrechion y tîm ymgysylltu. Rhoddwyd sylw i'r materion hyn yng nghyd-destun ein harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn eu cyfarwydd, ac wrth lunio ein barn arnynt, ac nid ydym yn rhoi barn ar wahân ar y materion hyn.

Isod, rydym yn crynhoi'r materion archwilio allweddol wrth lunio ein barn uchod, ynghyd â throsolwg o'r prif weithdrefnau archwilio a gyflawnwyd i fynd i'r afael â phob mater a'n harsylwadau allweddol sy'n deillio o'r gweithdrefnau hynny.

Cafodd y materion hyn, ynghyd â'n canfyddiadau, eu cyfleu i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu drwy ein Hadroddiad Cwblhau Archwiliad.

Materion archwilio allweddol	Sut mae ein cwmpas wedi mynd i'r afael â'r materion hyn
Nodi a chwblhau benthyciadau a blaensymiau Cam 3 i gwsmeriaid, a phrisio'r amhariad cysylltiedig Grŵp: Lwfans ar gyfer amhariad (Benthyciadau cam 3): £35.6m (2023: £34.4m) Benthyciadau a blaensymiau i gwsmeriaid am gost wedi'i hamorteiddio (Cam 3): £70.7m (2023: £66.8m) Cyfeiriwch at Nodyn 2: Polisiâu Cyfrifyddu, Nodyn 4: Risg Credyd a Nodyn 14: Asedau Ariannol Eraill yn y datganiadau ariannol. Mae risg credyd yn faes sydd, yn ei hanfod, yn feirniadol oherwydd y defnydd o dybiaethau goddrychol a lefel uchel o amcangyfrif. Mae'r ddarpariaeth amhariad sy'n ymwneud â phortffolio benthyciadau'r Grŵp yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyfarwyddwyr wneud penderfyniadau ynghylch gallu cwsmeriaid y Grŵp i ad-dalu benthyciadau yn y dyfodol. Mae nodi a chwblhau benthyciadau cam 3 ac asesu'r ddarpariaeth ar gyfer amlygiadau o'r fath wedi cael eu nodi fel Mater Archwilio Allweddol. Mae'r rheolwyr yn nodi benthyciadau cam 3 drwy feini prawf sy'n ymwneud â dyddiau hwyr a bod yn annhebygol o dalu. Defnyddir dyfarniad wrth asesu meini prawf ar gyfer bod yn annhebygol o dalu. Gwneir asesiadau o amhariadau unigol ar gyfer benthyciadau a ddosbarthwyd fel Cam 3. Defnyddir dyfarniad i asesu gwerth ac amseriad llifoedd arian adferadwy. Mae'r rheolwyr yn gwneud darpariaeth o 100% neu 50% ar bob benthyciad cam 3 yn dilyn yr asesiad hwn. Mae lefel y risg wedi parhau i fod yn gyson â'r flwyddyn flaenorol.	Nodi a chwblhau benthyciadau cam 3 Mae ein gweithdrefnau archwilio yn cynnwys y canlynol, ond nid ydynt wedi'u cyfyngu iddynt: – Cawsom ddealltwriaeth o'r prosesau allweddol sy'n gysylltiedig â'r lwfans ar gyfer amhariad gan gynnwys rheolaethau allweddol ar gyfer prosesau, unrhyw reolaethau sy'n ymwneud â TG a chyflawni adolygiad o'r dechrau i'r diwedd o'r broses busnes allweddol; – Fe wnaethom werthuso dyluniad a gweithrediad rheolaethau allweddol dros y meini prawf llwyfannu a dyraniadau ardrethi mewnol, adolygiadau blynyddol, a dyddiau monitro hwyr. Fe wnaethom fabwysiadu dull archwilio cwbl gadarn; – Fe wnaethom asesu gallu'r rheolwyr i adnabod sbardunau amhariad yn amserol a phenderfynu a fydd yr amlygiad yn cael ei ad-dalu fel y bwriadwyd yn wreiddiol; – Aethom ati'n feirniadol i asesu'r fethodoleg ar gyfer pennu'r meini prawf diffygddalu yn unol â gofynion IFRS 9; ac – Er mwyn asesu cyflawnder portffolio benthyciad cam 3, fe wnaethom adolygu sampl o amlygiadau cam 1 a cham 2 yn erbyn meini prawf diffygddalu er mwyn penderfynu ar ddull gweithredu priodol ac asesu pa mor briodol yw dychwelyd i statws nad yw'n un diffygddalu drwy adolygu benthyciadau cam 3 a oedd yn dangos gwelliant mewn risg credyd. Y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd i bennu'r ddarpariaeth amhariad cam 3 Mae ein gweithdrefnau archwilio yn cynnwys y canlynol, ond nid ydynt wedi'u cyfyngu iddynt: – Fe wnaethom werthuso dyluniad a gweithrediad rheolaethau allweddol dros ddarpariaeth amhariad cam 3; – Fe wnaethom herio rhesymoldeb y tybiaethau a ddefnyddiwyd gan y rheolwyr i gefnogi'r defnydd o ddarpariaeth 50% neu 100% ar amlygiadau cam 3. Roedd hyn hefyd yn cynnwys asesu canlyniadau adennill y benthyciadau cysylltiedig; – Fe wnaethom gynnal asesiad annibynnol ar sampl o fenthyciadau cam 3 i asesu pa mor hawdd yw adennill y ddarpariaeth a pha mor rhesymol yw'r ddarpariaeth; – Fe wnaethom asesu prisiad a bodolaeth yr eitemau cyfochrog a ddefnyddiwyd yn y model amhariad ar sampl o amlygiadau cam 3; – Fe wnaethom gynnal gweithdrefnau wrth gefn ar y ddarpariaeth amhariad a meincnodi perthnasol o'r mewnbynnau allweddol a ddefnyddiwyd yn y model amhariad i asesu priodoldeb y lwfans ar gyfer amhariad ar fenthyciadau cam 3; ac – Fe wnaethom wirio cyflawnder a chywirdeb y datgeliadau cysylltiedig yn y datganiadau ariannol. Ein harsylwadau Daethom i'r casgliad bod nodi benthyciadau cam 3 ac asesiad ECL o amlygiadau cam 3 yn gyson â gofynion IFRS 9, ac fe wnaethom benderfynu bod y lwfans ar gyfer amhariad ar fenthyciadau cam 3 ar 31 Mawrth 2024 yn rhesymol.

Materion archwilio allweddol	Sut mae ein cwmpas wedi mynd i'r afael â'r materion hyn
Prisio Portffolio Cymorth i Brynu Cymru Grŵp: £355.5m (2023: £325.1m) Cyfeiriwch at Nodyn 2: Polisiâu Cyfrifyddu, Nodyn 3: Dyfarniadau Cyfrifyddu Critigol a Ffynonellau Allweddol o Ansicrwydd Amcangyfrif, a Nodyn 13: Asedau Ariannol am Werth Teg yn y datganiadau ariannol. Mae benthyciadau rhannu ecwiti Portffolio Cymorth i Brynu Cymru yn cael eu dal ar werth teg o dan ddarpariaethau dosbarthu a mesur IFRS 13 ac IFRS 9. Mae'r cyfarwyddwyr yn defnyddio barn sylweddol wrth bennu gwerth teg y portffolio, gan adeiladu model i ymgorffori'r mewnbynnau amrywiol sylfaenol sy'n bresennol yn y prisiau, sy'n destun cryn ansicrwydd o ran amcangyfrif. Rydym yn cydnabod bod prisiad portffolio Cymorth i Brynu Cymru yn sensitif i newidiadau yn y twf a ragwelir yn y Mynegai Prisiau Tai ('HPI'), y gyfradd ddisgownt a ddefnyddiwyd a phroffil ad-dalu'r benthyciadau a ragwelir, gan nodi nad oes modd arsylwi rhai ohonynt yn y farchnad. Mae mewnbynnau allweddol eraill hefyd yn cynnwys disgownt gwerthu gorfodol a mynegai pris manwerthu. Mae'r mewnbwn hwn yn destun cryn ansicrwydd o ran amcangyfrif ac mae'n rhaid i gyfarwyddwyr wneud penderfyniadau. Mae lefel y risg wedi parhau i fod yn gyson â'r flwyddyn flaenorol.	Mae ein gweithdrefnau archwilio yn cynnwys y canlynol, ond nid ydynt wedi'u cyfyngu iddynt: – Cawsom ddealltwriaeth o'r prosesau allweddol sy'n gysylltiedig â phortffolio Cymorth i Brynu Cymru gan gynnwys rheolaethau allweddol ar gyfer prosesau, unrhyw reolaethau sy'n ymwneud â TG a chyflawni adolygiad o'r dechrau i'r diwedd o'r broses busnes allweddol; – Fe wnaethom asesu dyluniad a gweithrediad y rheolaethau allweddol a nodwyd. Fe wnaethom fabwysiadu dull archwilio cwbl sylweddol; – Fe wnaethom adolygu'r fethodoleg prisio i asesu cydymffurfiaeth â gofynion IFRS 13 ac IFRS 9; – Fe wnaethom ymgysylltu ag arbenigwyr prisio i adolygu a herio'r tybiaethau a'r mewnbynnau sy'n allweddol i'r model. Roedd y rhain yn cynnwys y proffil ad-dalu a ragwelwyd, y gyfradd ddisgownt, disgownt gwerthu gorfodol, y mynegai prisiau manwerthu a'r Mynegai Prisiau Tai; – Aethom ati i feincnodi'n annibynnol y tybiaethau a ragwelwyd a'r tybiaethau o ran cyfraddau disgownt a ddefnyddiwyd yn erbyn tybiaethau cymharol perthnasol a ddefnyddiwyd yn y diwydiant a ffynonellau trydydd parti eraill sydd ar gael; – Fe wnaethom gyflawni gweithdrefnau sylweddol annibynnol ar brisio buddsoddiadau ar sail sampl, a chytuno ar ddata ategol perthnasol lle bo hynny'n bosibl; – Fe wnaethom gynnal ôl-broffion ar y gyfradd diffygddalu i asesu cywirdeb y cyfraddau diffygddalu sydd wedi'u cynnwys yn y model; ac – Fe wnaethom wirio cyflawnder a chywirdeb y datgeliadau cysylltiedig yn y datganiadau ariannol. Ein harsylwadau Daethom i'r casgliad bod methodoleg y rheolwyr a'r tybiaethau allweddol a ddefnyddiwyd i benderfynu ar werth teg Portffolio Cymorth i Brynu Cymru yn rhesymol ac yn unol â gofynion IFRS 13 ac IFRS 9. Ystyrir bod y gwerthoedd a bennwyd ar 31 Mawrth 2024 yn briodol.



Ein defnydd o berthnasedd, a throsolwg o gwmpas ein harchwiliad

Roedd ein harchwiliad wedi’i ddylanwadu gan ein defnydd o berthnasedd. Rydym yn gosod trothwyon meintiol penodol ar gyfer perthnasedd. Roedd y rhain, ynghyd ag ystyriaethau ansoddol, yn ein helpu i benderfynu ar gwmpas a natur ein harchwiliad,

amseriad a graddau ein gweithdrefnau archwilio ar eitemau llinell datganiadau ariannol unigol a datgeliadau, ac i werthuso effaith camddatganiadau, yn unigol ac ar y datganiadau ariannol yn gyffredinol. Ar sail ein barn broffesiynol, roeddem wedi pennu perthnasedd y datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd fel a ganlyn:

Perthnasedd grŵp	
Perthnasedd cyffredinol	£18.4m (2023: £17.4m)
Sut wnaethom ni benderfynu	1% o’r asedau llawn (2023: 1% o’r asedau llawn)
Rhesymeg dros ddefnyddio’r meincnod	Gwaith craidd y Grŵp yw buddsoddi mewn gwahanol Fusnesau Bach a Chanolig a benthyciadau personol ledled Cymru, drwy Gyfryngau at Ddibenion Arbennig. Mae’r Grŵp yn endid yr ymddiriedir ynddo, a thrwyddo mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cronfeydd ar gyfer buddsoddi ac elw yn unol ag amcanion polisi’r Llywodraeth sy’n gwneud cyfanswm asedau yn faes ffocws ar gyfer defnyddwyr allweddol y datganiadau ariannol, sef Llywodraeth Cymru a’r busnesau buddsoddi.
Perthnasedd perfformiad	Mae perthnasedd perfformiad yn debygol o leihau i lefel briodol o isel y tebygolrwydd fod cyfanswm y camddatganiadau heb eu cywiro a heb eu canfod yn y datganiadau ariannol yn fwy na’r hyn sy’n berthnasol ar gyfer y datganiadau ariannol yn gyffredinol. Rydym wedi gosod perthnasedd perfformiad fel £12.9m (2023: £12.2M), sy’n cynrychioli 70% (2023: 70%) o berthnasedd cyffredinol. Wrth bennu perthnasedd perfformiad, fe wnaethom ystyried nifer o ffactorau, gan gynnwys effeithiolrwydd y rheolaethau mewnol a hanes camddatganiadau, ac fe ddaethom i’r casgliad bod swm tuag at ben uchaf ein hamrediad arferol yn briodol.
Trothwy adrodd	Roeddem wedi cytuno â’r cyfarwyddwyr y byddem yn adrodd iddynt am gamddatganiadau a nodwyd yn ystod ein harchwiliad dros £0.6m (2023: £0.5m) yn ogystal â chamddatganiadau o dan y swm hwnnw a oedd, yn ein barn ni, yn cyfiawnhau adrodd am resymau ansoddol.

Perthnasedd Rhiant-gwmni	
Perthnasedd cyffredinol	£4.3m (2023: £4.4m)
Sut wnaethom ni benderfynu	2% o’r asedau net (2023: 2% o’r asedau net)
Rhesymeg dros ddefnyddio’r meincnod	Prif bwrpas y Rhiant-gwmni yw hybu datblygu economaidd drwy fenthycia a buddsoddi sy’n cael ei yrru gan ei falansau asedau ariannol. Asedau net yw prif ffocws defnyddwyr allweddol y datganiadau ariannol, sef Llywodraeth Cymru yn bennaf.
Perthnasedd perfformiad	Mae perthnasedd perfformiad yn debygol o leihau i lefel briodol o isel y tebygolrwydd fod cyfanswm y camddatganiadau heb eu cywiro a heb eu canfod yn y datganiadau ariannol yn fwy na’r hyn sy’n berthnasol ar gyfer y datganiadau ariannol yn gyffredinol. Rydym wedi gosod perthnasedd perfformiad fel £3.0m (2023: £3.1m), sy’n cynrychioli 70% (2023: 70%) o berthnasedd cyffredinol. Wrth bennu perthnasedd perfformiad, fe wnaethom ystyried nifer o ffactorau, gan gynnwys effeithiolrwydd y rheolaethau mewnol a hanes camddatganiadau, ac fe ddaethom i’r casgliad bod swm tuag at ben uchaf ein hamrediad arferol yn briodol.
Trothwy adrodd	Roeddem wedi cytuno â’r cyfarwyddwyr y byddem yn adrodd iddynt am gamddatganiadau a nodwyd yn ystod ein harchwiliad dros £0.13m (2023: £0.13m) yn ogystal â chamddatganiadau o dan y swm hwnnw a oedd, yn ein barn ni, yn cyfiawnhau adrodd am resymau ansoddol.

Fel rhan o'r gwaith o ddylunio ein harchwiliad, fe wnaethom asesu'r risg o gamddatganiad o bwys yn y datganiadau ariannol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, ac yna fe wnaethom ddylunio a chynnal gweithdrefnau archwilio a oedd yn ymateb i'r risgiau hynny. Yn benodol, roeddem wedi edrych ar ble roedd y cyfarwyddwyr wedi gwneud penderfyniadau goddrychol, fel tybiaethau ar amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol.

Roeddem wedi teilwra cwmpas ein harchwiliad i sicrhau ein bod yn gwneud digon o waith er mwyn gallu rhoi barn ar y datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd. Fe wnaethom ddefnyddio allbynnau ein hasesiad risg, ein dealltwriaeth o'r Grŵp a'r Rhiant-gwmni, eu hamgylchedd, eu rheolaethau a phrosesau busnes critigol, i ystyried ffactorau ansoddol i sicrhau ein bod yn cael digon o sylw ar draws holl eitemau llinell datganiadau ariannol.

Roedd cwmpas ein harchwiliad grŵp yn cynnwys archwiliad o ddatganiadau ariannol y Grŵp a'r Rhiant-gwmni. Ar sail ein hasesiad risg, roedd holl elfennau cyfunol y Grŵp, gan gynnwys y Rhiant-gwmni, yn destun archwiliad cwmpas llawn a gynhaliwyd gan dîm archwilio'r grŵp.

Ar lefel y Rhiant-gwmni, roedd tîm archwilio'r grŵp hefyd wedi profi'r broses gyfuno ac wedi cynnal gweithdrefnau dadansoddi i gadarnhau ein casgliad nad oedd risgiau sylweddol o gamddatganiad o bwys o'r wybodaeth ariannol gyfunol.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol, ac eithrio'r datganiadau ariannol a'n hadroddiad ni fel archwilydd arnynt. Y cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall sydd yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall ac nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny, ac eithrio i'r graddau y datganwyd hynny'n benodol fel arall yn ein hadroddiad.

Ein cyfrifoldeb ni yw darllen yr wybodaeth arall a thrwy wneud hynny, ystyried a oes anghysondeb o bwys rhwng yr wybodaeth arall a'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth rydym ni wedi'i chael yn ystod yr archwiliad,

neu sy'n ymddangos yn gamddatganiad o bwys fel arall. Os byddwn yn canfod anghysonderau o bwys neu gamddatganiadau o bwys tybiedig, mae'n ofynnol i ni bennu a yw hyn yn golygu bod camddatganiad o bwys yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddwn yn dod i'r casgliad, ar sail y gwaith rydym wedi'i wneud, bod yr wybodaeth arall yma wedi cael ei chamddatgan mewn ffordd sydd o bwys, rhaid i ni roi gwybod am y ffaith honno.

Nid oes gennym ddim i'w adrodd i'r perwyl hwn.

Barn ar faterion eraill a bennir gan Ddeddf Cwmnïau 2006

Yn ein barn ni, ar sail y gwaith a wnaed wrth gynnal yr archwiliad:

- mae'r wybodaeth yn yr adroddiad strategol ac yn adroddiad y cyfarwyddwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi ar ei chyfer, yn gydnaws â'r datganiadau ariannol; ac
- mae'r adroddiad strategol ac adroddiad y cyfarwyddwyr wedi cael eu paratoi yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

Materion y mae'n ofynnol i ni roi gwybod amdanynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r Grŵp a'r Rhiant-gwmni a'u hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid ydym wedi canfod camddatganiadau o bwys yn yr adroddiad strategol nac yn adroddiad y cyfarwyddwyr.

Nid oes gennym ddim i'w adrodd yng nghyswllt y materion canlynol lle mae'n ofynnol inni o dan Ddeddf Cwmnïau 2006 roi adroddiad i chi os, yn ein barn ni:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu priodol wedi cael eu cadw gan y Rhiant-gwmni, neu os na ddaeth ffurflenni perthnasol i'n harchwiliad i law gan ganghennau nad ydym wedi ymweld â nhw; neu
- nad yw datganiadau ariannol y Rhiant-gwmni yn cyd-fynd â'r ffurflenni a'r cofnodion cyfrifyddu; neu
- nad yw rhai o daliadau'r cyfarwyddwyr, a nodir yn y gyfraith, wedi cael eu datgelu; neu
- nad ydym wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad.

Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y datganiad o gyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr ar dudalen 96, mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac am y cyfryw reolaeth fewnol y barna'r cyfarwyddwyr ei bod yn angenrheidiol i'w galluogi i baratoi datganiadau ariannol heb gamddatganiad o bwys, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r Grŵp a'r Rhiant-gwmni i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n gysylltiedig â busnes hyfyw a defnyddio sail cyfrifyddu busnes hyfyw onid yw'r cyfarwyddwyr naill ai'n bwriadu diddymu'r Grŵp neu'r Rhiant-gwmni neu roi'r gorau i weithredu, neu nad oes ganddynt unrhyw opsiwn realistig arall heblaw am hynny.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Ein hamcanion ni yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau o bwys, boed y rheini wedi'u gwneud drwy dwyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad yr archwilydd sy'n cynnwys ein barn ni. Mae sicrwydd rhesymol yn golygu lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhaliwyd yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) bob amser yn dod o hyd i gamddatganiad o bwys pan fo hynny'n bodoli. Mae camddatganiadau'n gallu codi o dwyll neu gamgymeriadau ac maen nhw'n cael eu hystyried yn rhai o bwys os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y byddai'n rhesymol disgwyl iddyn nhw ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Nodir isod i ba raddau y mae ein gweithdrefnau'n gallu dod o hyd i afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn enghreifftiau o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rydym yn llunio gweithdrefnau yn unol â'n cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ddod o hyd i

gamddatganiadau o bwys mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Ar sail ein dealltwriaeth o'r Grŵp a'r Rhiant-gwmni a'u diwydiant, roeddem o'r farn y gallai peidio â chydymffurfio â'r cyfreithiau a'r rheoliadau canlynol gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol: rheoliadau atal gwyngalchu arian, gofynion rheoleiddio a goruchwyllo'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol, Deddf Credyd Defnyddwyr a rheoliadau Llywodraeth Cymru.

Er mwyn ein helpu i ganfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn, ac i ganfod ac asesu risgiau camddatganiadau o bwys mewn perthynas â diffyg cydymffurfio, roedd ein gweithdrefnau'n cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Cael dealltwriaeth o'r fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol sy'n berthnasol i'r Grŵp a'r Rhiant-gwmni, y diwydiant y maent yn gweithredu ynddo, a strwythur y Grŵp, gan ystyried risgiau gweithredoedd gan y Grŵp a'r Rhiant-gwmni a oedd yn groes i gyfreithiau a rheoliadau perthnasol, gan gynnwys twyll;
- Cyfathrebu cyfreithiau a rheoliadau a nodwyd i'r tîm ymgysylltu a bod yn effro i unrhyw arwyddion o ddiffyg cydymffurfio drwy gydol ein harchwiliad;
- Holi'r cyfarwyddwyr, rheolwyr a, lle bo'n briodol, y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, a yw'r Grŵp a'r Rhiant-gwmni yn cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, a thrafod eu polisïau a'u gweithdrefnau o ran cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau;
- Canolbwyntio ar feysydd o gyfreithiau a rheoliadau y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol o'n profiad masnachol cyffredinol a'n profiad o'r sector a thrwy drafodaethau â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ac uwch reolwyr, adolygu gohebiaeth reoleiddiol a chyfreithiol, ac adolygu cofnodion cyfarfodydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn ystod y flwyddyn a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol;
- Trafod y cyfreithiau a'r rheoliadau a restrir uchod gyda'r tîm ymgysylltu a bod yn effro i unrhyw arwyddion o ddiffyg cydymffurfio.

Fe wnaethom hefyd ystyried y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny sy'n cael effaith uniongyrchol ar baratoi'r datganiadau ariannol, fel: deddfwriaeth treth, deddfwriaeth pensiwn a Deddf Cwmnïau 2006.

Yn ychwanegol, fe wnaethom werthuso cymhellion a chyfleoedd y cyfarwyddwyr a'r rheolwyr ar gyfer camddefnyddio'r datganiadau ariannol yn dwyllodrus, gan gynnwys y risg y byddai rheolwyr yn diystyru rheolaethau, a phenderfynu bod y prif risgiau'n ymwneud â rheolwyr yn diystyru rheolaethau.

Roedd ein gweithdrefnau yng nghyswllt twyll yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Holi'r cyfarwyddwyr a'r rheolwyr ynghylch a oedd ganddynt wybodaeth am unrhyw wir dwyll, amheuaeth o dwyll neu dwyll honedig;
- Cael dealltwriaeth o'r rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll;
- Trafod risgiau twyll ymysg y tîm ymgysylltu;
- Mynd i'r afael â risgiau twyll drwy i reolwyr ddiystyru rheolaethau drwy gynnal profion ar lyfrau cofnodion; a
- Bod yn amheus o botensial rhagfarn rheolwyr drwy ddyfarniadau a thybiaethau mewn amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol.

Mae cyfyngiadau cynhenid yn y gweithdrefnau archwilio a ddisgrifir uchod, a'r rheolwyr sy'n bennaf gyfrifol dros atal a chanfod afreoleidd-dra gan gynnwys twyll. Yn yr un modd ag unrhyw archwiliad, roedd risg o hyd o beidio â chanfod afreoleidd-dra, gan y gallai'r rhain gynnwys cydgynllwynio, ffugio, hepgor bwriadol, camliwio neu ddiystyru rheolaethau mewnol.

Mae'r risgiau o gamddatganiadau o bwys a gafodd yr effaith fwyaf ar ein harchwiliad yn cael eu trafod yn yr adran "Materion archwilio allweddol" yn yr adroddiad hwn.

Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol i'w weld ar wefan y Cyngor Adroddiad Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n hadroddiad archwilio.

Defnyddio'r adroddiad archwilio

Caiff yr adroddiad hwn ei wneud ar gyfer aelodau'r Cwmni yn unig, fel corff, yn unol â Phennod 3, Rhan 16 o Ddeddf Cwmnïau 2006. Cyflawnwyd ein gwaith archwilio er mwyn i ni allu datgan wrth aelodau'r Cwmni y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan wrthynt mewn adroddiad archwilydd, ac i ddim pwrpas arall. I'r graddau mwyaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn ysgwyddo cyfrifoldeb, ac eithrio i'r Cwmni ac aelodau'r Cwmni fel corff, am ein gwaith archwilio ar gyfer yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.



Pauline Péliissier (Uwch Archwilydd Statudol)

ar gyfer ac ar ran Forvis Mazars LLP
Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilydd Statudol
30 Old Bailey, Llundain
EC4M 7AU

3 Medi 2024





Datganiadau Ariannol



Datganiad incwm cyfunol

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

	Nodyn	2024	2023
		£000	£000
Refeniw llog wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol	5	18,337	14,257
Refeniw llog arall	5	3,811	4,487
Refeniw arall	5	10,005	10,061
Refeniw	5	32,153	28,805
Costau gweithredol:			
Amhariad ar fenthyciadau	6	(18,186)	(16,816)
Costau gweinyddol eraill	6	(32,504)	(29,817)
Cyfanswm treuliau gweithredol		(50,690)	(46,633)
Incwm gweithredol arall:			
Rhyddhau incwm grant ERDF	5	20,015	20,340
Rhyddhau incwm grant arall	5	526	246
Enillion/(colledion) gwerth teg ar asedau ecwiti a rennir	5	34,756	(50,638)
Gwerth teg (colledion) ar gronfeydd heb eu cyfuno	5	-	(30)
Gwerth teg (colledion) ar asedau ariannol eraill	5	(80)	(30,318)
Enillion wedi'u gwireddu o waredu asedau ecwiti a rennir	5	7,939	13,603
Cyfanswm incwm gweithredu arall /(traul)		63,156	(46,797)
ELW GWEITHREDOL/(COLLEDION)	6	44,619	(64,625)
Incwm llog arall	8	41,824	12,891
Costau cyllid	9	(2,972)	(9,352)
(Colledion)/Enillion ar symiau sy'n ddyledus i'r prif gyfranddaliwr sy'n cael eu dal ar werth teg	16	(42,695)	37,036
ELW/(COLLEDION) CYN TRETH		40,776	(24,050)
Treth	10	(2,812)	-
ELW/(COLLEDION) AM Y FLWYDDYN ARIANNOL		37,964	(24,050)
Elw/(Colledion) y gellir ei briodoli i gyfranddalwyr ecwiti		32,555	(22,809)
Elw/(Colledion) y gellir ei briodoli i fuddiannau anllywodaethol	20	5,409	(1,241)
ELW/(COLLEDION) AM Y FLWYDDYN ARIANNOL		37,964	(24,050)

Datganiad cyfunol o incwm cynhwysfawr

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

	Nodyn	2024	2023
		£000	£000
Elw/(Colledion) am y flwyddyn ariannol		37,964	(24,050)
Eitemau na fyddant yn cael eu hailddosbarthu i elw neu golledion:			
Enillion actiwaraid ar gynlluniau pensiwn â buddion wedi'u diffinio	17	6,170	3,030
Incwm cynhwysfawr arall am y flwyddyn, net o dreth		6,170	3,030
Cyfanswm yr incwm/(colledion) cynhwysfawr am y flwyddyn		44,134	(21,020)
Cyfanswm yr incwm/(colledion) cynhwysfawr y gellir ei briodoli i gyfranddaliwr ecwiti		38,725	(19,779)
Cyfanswm yr incwm/(colledion) cynhwysfawr y gellir ei briodoli i fuddiannau nad ydynt yn rheoli	20	5,409	(1,241)
Cyfanswm yr incwm/(colledion) cynhwysfawr am y flwyddyn		44,134	(21,020)

Mae'r holl incwm cynhwysfawr arall am y flwyddyn gyfredol a'r flwyddyn flaenorol yn cael ei briodoli i berchnogion y rhiant.

Datganiad cyfunol o newidiadau mewn ecwiti

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

	Nodyn	Ecwiti cyhoeddus	Cyfalaf cyfranddaliadau	Elw argadwedig	Buddiannau nad ydynt yn rheoli	Cyfanswm
		£000	£000	£000	£000	£000
Balans ar 1 Ebrill 2022		319,455	13	7,800	5,179	332,447
(Colledion) am y flwyddyn ariannol	-	-	-	(22,809)	(1,241)	(24,050)
Enillion actiwaraid ar gynlluniau pensiwn â buddion wedi'u diffinio	17	-	-	3,030	-	3,030
Cyfraniad cyfalaf buddiannau nad ydynt yn rheoli	20	-	-	-	1,920	1,920
Dosbarthiad buddiannau nad ydynt yn rheoli	20	-	-	-	(800)	(800)
Is-gyfanswm	-	-	-	(19,779)	(121)	(19,900)
Balans ar 31 Mawrth 2023	-	319,455	13	(11,979)	5,058	312,547
Elw am y flwyddyn ariannol	-	-	-	32,555	5,409	37,964
Enillion actiwaraid ar gynlluniau pensiwn â buddion wedi'u diffinio	17	-	-	6,170	-	6,170
Cyfraniad cyfalaf buddiannau nad ydynt yn rheoli	20	-	-	-	400	400
Dosbarthiad buddiannau nad ydynt yn rheoli	20	-	-	-	(720)	(720)
Is-gyfanswm	-	-	-	38,725	5,089	43,814
Balans ar 31 Mawrth 2024	-	319,455	13	26,746	10,147	356,361

Mantolen gyfunol

Ar 31 Mawrth 2024

	Nodyn	2024	2023
		£000	£000
Asedau anghyfredol			
Asedau anniriaethol	11	1,265	1,017
Eiddo, offer a chyfarpar	12	2,604	2,968
Asedau ariannol ar werth teg	13	424,205	389,759
Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	14	183,284	153,259
Buddion ymddeol	17	10,640	3,850
		621,998	550,853
Asedau cyfredol			
Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	14	92,033	97,004
Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod	15	1,127,495	1,098,237
		1,219,528	1,195,241
Cyfanswm asedau		1,841,526	1,746,094
Rhwymedigaethau cyfredol			
Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	16	(80,794)	(47,207)
Incwm gohiriedig	18	(986)	(20,936)
Rhwymedigaethau prydles	21	(344)	(279)
		(82,124)	(68,422)
Asedau cyfredol net		1,137,404	1,126,819
Rhwymedigaethau anghyfredol			
Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	16	(1,401,523)	(1,363,499)
Rhwymedigaethau prydles	21	(1,518)	(1,626)
		(1,403,041)	(1,365,125)
Cyfanswm y rhwymedigaethau		(1,485,165)	(1,433,547)
Asedau net		356,361	312,547
Ecwiti			
Ecwiti cyhoeddus		319,455	319,455
Cyfalaf cyfranddaliadau	20	13	13
Elw argadwedig		26,746	(11,979)
Buddiannau nad ydynt yn rheoli	20	10,147	5,058
Cyfanswm ecwiti		356,361	312,547

Cymeradwywyd datganiadau ariannol Banc Datblygu Cymru ccc, rhif
cofrestredig 04055414, gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr ar 3 Medi 2024

Llofnodwyd ar ei ran gan



G Thorley
Cyfarwyddwr

Datganiad llif arian parod cyfunol

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

	Nodyn	2024	2023
		£000	£000
Mewnlif/(all-lif) arian net o weithgareddau gweithredol	22	(38,606)	17,086
Gweithgareddau buddsoddi			
Llog arall a dderbyniwyd	8	41,824	12,891
Prynu asedau sefydlog	11, 12	(680)	(140)
Arian net a dderbyniwyd o weithgareddau buddsoddi		41,144	12,751
Gweithgareddau cyllido			
Costau cyllid	9	(38)	(50)
Prif elfennau taliadau lesddaliad	21	(283)	(334)
Cyfraniad cyfalaf buddiannau nad ydynt yn rheoli		400	1,920
Dosbarthiad buddiannau nad ydynt yn rheoli		(720)	(800)
Incwm grant ERDF a dderbyniwyd	18	591	16,448
Cyllid LIC (wedi'i ad-dalu)	16	(2,740)	(26,790)
Cyllid LIC a dderbyniwyd	16	29,510	4,511
Arian net a dderbyniwyd gan/(a ddefnyddiwyd mewn) gweithgareddau cyllido		26,720	(5,095)
Cynnydd net mewn arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod		29,258	24,742
Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r flwyddyn		1,098,237	1,073,495
Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y flwyddyn		1,127,495	1,098,237

I gael rhagor o fanylion am arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod gweler Nodyn 15.

Nodiadau ar y datganiadau ariannol cyfunol

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

1. Gwybodaeth Gyffredinol

Mae Banc Datblygu Cymru ccc yn gwmni sydd wedi'i ymgorffori yn y Deyrnas Unedig o dan Ddeddf Cwmnïau 2006. Mae natur gweithrediadau'r Grŵp a'i brif weithgareddau yn cael eu hamlinellu yn yr Adroddiad Strategol.

Sail paratoi

Mae'r datganiadau ariannol am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 wedi cael eu paratoi a'u cymeradwyo gan y Cyfarwyddwyr yn unol â'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y Deyrnas Unedig ac yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

Mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi ar sail cost hanesyddol, ac eithrio ailbrisio rhai offerynnau ariannol ar werth teg. Mae'r datganiadau ariannol hyn yn cael eu cyflwyno mewn punnoedd sterling oherwydd dyna arian yr amgylchedd economaidd sylfaenol y mae'r Grŵp yn gweithredu ynddo.

Mae'r polisïau cyfrifyddu materol a fabwysiadwyd wedi cael eu defnyddio'n gyson am yr holl flynyddoedd a gyflwynir, oni nodir yn wahanol.

Busnes hyfyw

Wrth gymeradwyo'r datganiadau ariannol, roedd gan y Cyfarwyddwyr ddisgwyliad rhesymol bod gan y Grŵp adnoddau digonol i barhau mewn bodolaeth weithredol hyd y gellir rhagweld, sef cyfnod o 12 mis o leiaf o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol ac maent wedi dod i'r casgliad nad oes ansicrwydd materol yn ymwneud â busnes hyfyw.

Mae'r Cyfarwyddwyr wedi asesu busnes hyfyw, gan ystyried y perfformiad presennol a rhagolygon y Grŵp. Roedd hyn yn ystyried sefyllfaoedd negyddol yn effeithio ar incwm a chostau yn deillio o ansicrwydd macroeconomaidd parhaus, ac yn benodol effaith yr argyfwng costau byw a'r gwrthdaro yn Wcráin a Gaza ar leihau chwyddiant byd-eang a phrisiau ynni (ond sydd dal yn uchel), a chyfraddau

llog (uchel) gwastad gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar gael hyd at ddyddiad cyhoeddi'r datganiadau ariannol hyn.

Fel rhan o'r asesiad hwn wnaeth y bwrdd ystyried y canlynol:

- Hylifedd y gwahanol gronfeydd y mae'r Grŵp yn eu rheoli i gefnogi cwsmeriaid presennol a newydd drwy gyfnod o straen hir;
- Cyllid arall ar gael i fusnesau yng Nghymru, gogledd ddwyrain Lloegr, gogledd orllewin Lloegr a de orllewin Lloegr drwy'r sectorau cyhoeddus a phreifat;
- Trafodaethau cyllido parhaus gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer cronfeydd ar gyfer y dyfodol;
- Rhagweld modelau ariannol ar gyfer y gwahanol gronfeydd y mae'r Grŵp yn eu rheoli a gofynion ad-dalu cyllidwyr y Grŵp;
- Y gwarged a'r cronfeydd wrth gefn cronedig ar gyfer ei fusnes gweithrediadau;
- Cadernid gweithredol swyddogaethau hanfodol y Grŵp, gan gynnwys ei systemau TG a'r gallu i'r busnes weithredu fel arfer ar sail gweithio hybrid;
- Asesiad o sylfaen cyflenwyr y Grŵp, gan ystyried unrhyw bwyntiau methiant unigol a chanolbwyntio ar gyflenwyr sy'n wynebu straen ariannol. Roedd hyn yn cynnwys ystyried cynlluniau wrth gefn pe bai cyflenwyr yn cael eu hystyried mewn perygl;
- Effaith sefydlogrwydd marchnadoedd ariannol byd-eang ar ddaliadau arian parod y Grŵp yn dilyn digwyddiadau ym mis Mawrth 2023;
- Yr amgylchedd rheoleiddiol a chyfreithiol ac unrhyw risgiau ymddygiad posibl a allai godi.

O ganlyniad i'r asesiad hwn, mae'r Cyfarwyddwyr yn dal i fabwysiadu sail busnes hyfyw cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Nodiadau ar y datganiadau ariannol cyfunol

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

1. Gwybodaeth gyffredinol (parhad)

Safonau IFRS newydd a diwygiedig sydd wedi'u mabwysiadu gan y Grŵp

Ni fabwysiadwyd unrhyw safonau newydd na diwygiedig gan y Grŵp yn ystod y flwyddyn. Ni wnaeth mabwysiadu diwygiadau i'r safonau presennol a'r gwelliannau blynyddol a oedd yn berthnasol yn ystod y flwyddyn gael unrhyw effaith ar bolisiau cyfrifyddu'r grŵp ac nid oedd angen addasiadau ôl-weithredol.

Mae'r Grŵp wedi ystyried yr holl safonau IFRS newydd a diwygiedig sydd wedi cael eu cyhoeddi ond sydd ddim yn weithredol ar ddyddiad awdurdodi'r datganiadau ariannol hyn. Mae'r safonau, y diwygiadau a'r dehongliadau a gyhoeddwyd ac a ddaeth i rym ar neu ar ôl 1 Ionawr 2024 ac y mae disgwyl iddynt gael effaith ar y Grŵp fel a ganlyn:

Mân ddiwygiadau i safonau cyfrifyddu

Mae'r IASB wedi cyhoeddi nifer o fân ddiwygiadau i IFRS (gan gynnwys IAS 1 Cyflwyno Datganiadau Ariannol). Nid oes disgwyl i'r diwygiadau hyn gael effaith fawr ar y Grŵp.

2. Polisiau cyfrifyddu

Sail y cyfuno

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys Banc Datblygu Cymru ccc (y Cwmni) a'i is-gwmnïau, fel y rhestrir yn Nodyn 28 datganiadau ariannol y cwmni.

Mae'r dull prynu o gyfrifyddu yn cael ei ddefnyddio i gyfrif caffael is-gwmnïau. Mae cost caffaeliad yn cael ei fesur ar werth teg y gydnabyddiaeth ynghyd â chostau y mae modd eu priodoli'n uniongyrchol i'r caffaeliad.

Mae cost ychwanegol y caffaeliad dros gyfran y Grŵp o werth teg asedau adnabyddadwy net yr is-gwmni a gaffaelir yn cael ei gofnodi fel ewyllys da. Mae trafodion rhwng cwmnioedd y Grŵp, balansau ac enillion heb eu gwireddu ar drafodion rhwng cwmnïau'r Grŵp yn cael eu dileu; mae colledion heb eu gwireddu hefyd yn cael eu dileu os nad oes modd adfer y costau. Lle bo angen, mae polisiau

cyfrifyddu is-gwmnïau wedi cael eu newid i sicrhau cysondeb â'r polisiau a fabwysiadwyd gan y Grŵp.

Asedau anniriaethol

Mae asedau anniriaethol yn cael eu dangos ar y fantolen ar eu cost hanesyddol, llai amorteiddiad ac amhariad cronedig. Mae'r gost hanesyddol yn cynnwys gwariant y mae modd ei briodoli'n uniongyrchol i gaffael a gosod meddalwedd cyfrifiadurol. Oes ddefnyddiol benodol sydd gan yr ased a bydd yn cael ei amorteiddio ar sail llinell syth dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig o hyd at 7 mlynedd. Mae amorteiddio'n dechrau pan fydd y meddalwedd wedi'i weithredu'n llawn.

Eiddo, offer a chyfarpar

Mae eiddo, offer a chyfarpar yn cael eu dangos ar y fantolen ar eu cost hanesyddol llai dibrisiad ac amhariad cronedig. Mae'r gost hanesyddol yn cynnwys gwariant y mae modd ei briodoli'n uniongyrchol i gaffael a gosod yr eitemau. Dim ond pan fydd yn debygol y bydd buddion economaidd sy'n gysylltiedig â nhw yn llifo i'r Grŵp yn y dyfodol, ac y gellir mesur cost yr eitem yn ddibynadwy, y caiff costau dilynol eu cynnwys yng ngwerth llyfr yr asedau neu eu cydnabod fel ased ar wahân, fel y bo'n briodol. Codir tâl am yr holl waith atgyweirio a chynnal a chadw arall ar y datganiad incwm cyfunol.

Mae dibrisiant yn cael ei ddarparu er mwyn gallu nodi cost gychwynnol pob ased â'i gwerth gweddilliol, ar sail llinell syth dros ei oes ddefnyddiol ddisgwyliedig fel a ganlyn:

Gosodiadau, ffitiadau a chyfarpar - 3 i 5 mlynedd

Mae eiddo'n ymwneud ag asedau hawl-i-ddefnyddio ac mae'n cael ei drafod yn fanylach yn y nodyn polisi cyfrifyddu prydlesu ar dudalen 137.

Caiff gwerthoedd gweddilliol yr asedau a'u hoes ddefnyddiol eu hadolygu a'u haddasu, os yw'n briodol, ar ddyddiad pob mantolen. Pan fo swm cario ymlaen ased yn fwy na'r swm adenilladwy a amcangyfrifir, caiff ei nodi ar unwaith i'w swm adenilladwy.

Nodiadau ar y datganiadau ariannol cyfunol

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

2. Polisiâu cyfrifyddu (parhad)

Eiddo, offer a chyfarpar (parhad)

Mae enillion a cholledion ar warediadau yn cael eu pennu drwy gymharu enillion efo'r gwerth penodol yn y cyfrifon ariannol. Caiff y rhain eu cynnwys yn y datganiad incwm cyfunol.

Buddsoddiadau mewn unigolion cyswllt

Mae aelod cyswllt yn endid y mae'r Grŵp mewn sefyllfa i ddylanwadu'n sylweddol arno, ond ddim ei reoli na'i reoli ar y cyd, drwy gymryd rhan ym mhenderfyniadau polisi ariannol a gweithredol y buddsoddi. Dylanwad sylweddol yw'r pŵer i gymryd rhan ym mhenderfyniadau polisi ariannol a gweithredol y buddsoddi ond heb reoli na chyd-reoli dros y polisiâu hynny. Mae'r rheolwyr yn adolygu amrywiaeth o ffactorau'n rheolaidd i benderfynu a oes dylanwad sylweddol dros fuddsoddi. Ymysg pethau eraill, mae ffactorau allweddol yn cynnwys y buddsoddi yn dibynnu ar gyllid gan y Grŵp; cyfnewid staff rheoli allweddol neu ddarparu arbenigedd technegol; a'r gallu i ddylanwadu'n sylweddol ar benderfyniadau'r Bwrdd buddsoddi drwy bresenoldeb rheolwyr gweithredol neu anweithredol y Grŵp ar y Bwrdd buddsoddi.

Mae'r Grŵp wedi cymryd eithriad cwrmpas sydd ar gael yn IAS 28 Aelodau Cyswllt ar gyfer cyfrifyddu ar gyfer aelodau cyswllt sy'n cael eu dal gan sefydliadau cyfalaf menter, cronfeydd cydfuddiannol, ymddiriedolaethau unedol ac endidau tebyg i'r aelod cyswllt gael ei fesur ar werth teg drwy elw a cholled (FVTPL). Mae risgiau'r Grŵp sy'n deillio o fuddsoddiadau mewn aelodau cyswllt yn debyg i fuddsoddiadau mewn buddsoddiadau ecwiti eraill sydd ddim wedi cael eu dosbarthu fel aelodau cyswllt lle gallai dirywiad sylweddol yng ngwerth y buddsoddiad leihau asedau net y Grŵp. Nid oes unrhyw warantau ariannol wedi cael eu rhoi na chyfyngiadau benthyca wedi cael eu sefydlu gyda chwmnïau buddsoddi.

Mae'r Grŵp yn chwilio am dwf cyfalaf yn hytrach nag elw incwm o'i fuddsoddiadau. Mae'r buddsoddiadau 'cyfalaf menter' yn cael eu dal fel rhan o bortffolio buddsoddi lle mae eu gwerth yn deillio o'u gwerth

marchnadol yn hytrach nag fel cyfrwng y mae Banc Datblygu Cymru yn cyflawni ei fusnes. Nod Banc Datblygu Cymru yw creu twf yng ngwerth ei fuddsoddiadau yn y tymor canolig ac fel arfer mae'n nodi strategaeth neu strategaethau ymadael wrth wneud y buddsoddiad.

Mae'r buddsoddiadau yn fusnesau sydd ddim yn gysylltiedig â busnes Banc Datblygu Cymru. Mae'r buddsoddiadau'n cael eu rheoli ar sail gwerth teg.

Mae buddsoddiadau mewn aelodau cyswllt yn cael eu dynodi fel FVTPL. Mae mesur aelodau cyswllt ar FVTPL yn gyson â strategaeth rheoli risg a buddsoddi'r Grŵp.

Cydnabod refeniw

Mae refeniw yn cynrychioli llog derbyniadwy ar fenthyciadau, ac yn ariannu ffioedd rheoli sydd i gyd yn cael eu cydnabod yn y cyfnod y maent yn codi.

Mae incwm llog yn cael ei gydnabod pan mae'n debygol y bydd y buddion economaidd yn llifo i'r Grŵp a bod modd mesur swm y refeniw yn ddibynadwy.

Mae ffioedd incwm llog a ffioedd trefnu benthykiadau yn cael eu cronni ar sail amser, drwy gyfeirio at y prif swm sy'n weddill ac at y gyfradd llog effeithiol sy'n berthnasol, sef y gyfradd sy'n disgowntio derbyniadau arian parod amcangyfrifedig yn y dyfodol drwy oes ddisgwyliedig yr ased ariannol i swm cario ymlaen net yr ased hwnnw ar gydnabyddiaeth gychwynnol.

Mae ffioedd rheoli'r gronfa yn cael eu cydnabod dros oes y gronfa yn y cyfnod y maent yn codi.

Difidendau

Mae incwm difidend yn cael ei gydnabod pan mae'r hawl i dderbyn taliad yn cael ei sefydlu. Dyma'r dyddiad ex-difidend ar gyfer gwarannau ecwiti rhestredig, ac fel arfer y dyddiad pan mae cyfranddalwyr yn cymeradwyo'r difidend ar gyfer gwarannau ecwiti heb eu rhestru.

Incwm Llog Arall

Mae incwm llog, ac eithrio llog sy'n dderbyniadwy ar fenthyciadau, yn cael ei gydnabod yn y cyfnod y mae'n berthnasol iddo gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol.

Nodiadau ar y datganiadau ariannol cyfunol

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

2. Polisïau cyfrifyddu (parhad)

Incwm grant Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF)

Mae incwm grant sy'n cael ei dderbyn i gefnogi gwariant referniw yn cael ei gydnabod yn y datganiad incwm cyfunol fel y'i defnyddir yn unol â'r amodau sy'n berthnasol yn nogfennau'r cynnig.

Mae grantiau ar gyfer ariannu buddsoddiadau'n rhannol sy'n cael eu derbyn cyn eu talu yn cael eu trin fel incwm gohiriedig. Mae incwm gohiriedig o'r fath yn cael ei amorteiddio i'r datganiad incwm cyfunol pan mae buddsoddiadau'n cael eu gwneud, ac mae'r amodau a nodir yn nogfennau'r cynnig wedi cael eu bodloni. Mae'r incwm sy'n cael ei gymryd yn hafal i lefel y grant sy'n cael ei ddefnyddio i gefnogi buddsoddiadau.

Incwm grant arall

Mae incwm grant tybiannol yn cael ei gofnodi mewn perthynas â chynlluniau sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru lle mae cymorth gwladwriaethol yn cael ei roi i gwsmeriaid drwy fenthyciadau ar gyfraddau is na chyfraddau'r farchnad. Gan fod y Grŵp wedi ymrwymo i roi benthyciadau ar gyfraddau is na chyfraddau'r farchnad, mae incwm grant yn cael ei gydnabod yn unol â'r costau'r grant fel y nodir isod. Mae incwm grant yn cael ei gapio ar y gwahaniaeth rhwng gwerth trafodion y cyllid a gafwyd a gwerth teg cychwynnol y rhwymedigaeth a gofnodwyd. Os yw'r swm hwn yn is na chyfanswm y treuliau grant ar gyfer cynllun, mae incwm grant yn cael ei gofnodi'n gymesur â'r prif fenthyciadau wrth iddynt gael eu rhoi.

Traul grant

Pan mae benthyciadau'n cael eu rhoi ar gyfraddau is na'r farchnad, mae ased y benthyciad yn cael ei gydnabod i ddechrau ar sail gwerth teg sy'n cael ei gyfrifo gan ddefnyddio cyfradd farchnad briodol, mae'r gwahaniaeth rhwng gwerth trafodiad y benthyciadau a'u gwerth teg yn cael ei gydnabod ar unwaith drwy'r datganiad incwm cyfunol fel traul grant.

Offerynnau ariannol

Mae asedau ariannol a rhwymedigaethau

ariannol yn cael eu cydnabod ym mantolen y Grŵp pan mae'r Grŵp yn dod yn rhan o ddarpariaethau contract yr offeryn.

Mae asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol cydnabyddedig yn cael eu cydnabod i ddechrau ar sail gwerth teg. Mae costau trafodion y mae modd eu priodoli'n uniongyrchol i gaffael neu roi asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol (ac eithrio asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol yn FVTPL) yn cael eu hychwanegu neu eu didynnu o werth teg yr asedau ariannol neu'r rhwymedigaethau ariannol, fel y bo'n briodol, ar gydnabyddiaeth gychwynnol. Mae costau trafodion y mae modd eu priodoli'n uniongyrchol i gaffael asedau ariannol neu rhwymedigaethau ariannol yn FVTPL yn cael eu cydnabod ar unwaith drwy'r datganiad incwm cyfunol.

Asedau ariannol

Mae'n ofynnol wedyn i'r holl asedau ariannol cydnabyddedig sydd o fewn cwmpas IFRS 9 gael eu mesur ar gost wedi'i hamorteiddio neu werth teg ar sail model busnes yr endid ar gyfer rheoli'r asedau ariannol a nodweddion llif arian parod contractiol yr asedau ariannol.

Yn benodol:

- mae offerynnau dyled sy'n cael eu dal mewn model busnes sydd â'r amcan o gasglu'r llifoedd arian parod contractiol, ac sydd â llifoedd arian parod contractiol sy'n daliadau cyfalaf a llog yn unig ar y prif swm sy'n weddill (SPPI), yn cael eu mesur wedyn ar gost wedi'i hamorteiddio;
- yna mae'r holl fuddsoddiadau ecwiti yn cael eu mesur yn FVTPL.

Benthyciadau a blaensymiau i gwsmeriaid

At ddibenion y prawf SPPI, y brif egwyddor yw gwerth teg yr ased ariannol ar gydnabyddiaeth gychwynnol. Gall y prif swm hwnnw newid dros oes yr ased ariannol (e.e. os oes ad-daliadau cyfalaf). Mae llog yn cynnwys ystyriaeth o werth amser arian, o risg credyd sy'n gysylltiedig â'r prif swm sy'n weddill yn ystod cyfnod penodol o amser ac o risgiau a chostau benthycia sylfaenol eraill, yn ogystal â maint elw.

Nodiadau ar y datganiadau ariannol cyfunol

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

2. Polisïau cyfrifyddu (parhad)

Offerynnau ariannol (parhad)

*Benthyciadau a blaensymiau
i gwsmeriaid (parhad)*

Mae trefniant benthycia sylfaenol yn arwain at lifoedd arian parod contractiol sy'n daliadau cyfalaf a llog yn unig ar y prif swm sy'n weddill. Pan mae llifoedd arian parod contractiol yn cyflwyno risgiau neu anwadalarwydd sydd ddim yn gysylltiedig â threfniant benthycia sylfaenol fel newidiadau mewn prisiau ecwiti neu brisiau nwyddau, nid yw'r taliadau'n cynnwys cyfalaf a llog yn unig.

Mae asesiad o fodolau busnes ar gyfer rheoli asedau ariannol yn hanfodol i ddosbarthiad asedau ariannol. Mae'r Grŵp yn asesu ei fodolau busnes ar lefel portffolio yn seiliedig ar ei amcanion ar gyfer y portffolio perthnasol a sut mae perfformiad y portffolio yn cael ei reoli a'i adrodd.

Ymrwymadau benthyciadau

Nid oedd gan y Grŵp ymrwymadau benthyciadau ar ddyddiad y fantolen. Mae benthyciadau cychwynnol a benthyciadau dilynol yn cael eu rhoi yn seiliedig ar amodau ar y pwynt y mae'r benthyciad yn cael ei darparu. Bydd y Grŵp bob amser yn cadw'r hawl i beidio â buddsoddi os na chaiff yr amodau y cytunwyd arnynt eu bodloni.

Dull llog effeithiol

Mae incwm yn cael ei gydnabod ar sail llog effeithiol ar gyfer offerynnau dyled ar wahân i'r asedau ariannol hynny sy'n cael eu dosbarthu yn FVTPL. Mae'r dull llog effeithiol yn ddull o gyfrifo cost wedi'i hamorteiddio ased ariannol a dyrannu incwm llog dros y cyfnod perthnasol. Y gyfradd llog effeithiol (EIR) yw'r gyfradd sy'n disgowntio derbyniadau arian parod amcangyfrifedig yn y dyfodol (gan gynnwys yr holl ffioedd ar bwyntiau a dalwyd neu a dderbyniwyd sy'n rhan annatod o'r gyfradd llog effeithiol, costau trafodion a phremiymau neu ddisgowntiau eraill) drwy oes ddisgwyliedig yr ased ariannol, neu, pan mae'n briodol, cyfnod byrrach, i swm cario net yr ased ariannol.

Mae incwm llog yn cael ei gyfrifo drwy osod yr EIR ar swm cario ymlaen gros asedau ariannol heb amhariad ar eu credyd (h.y. ar gost wedi'i hamorteiddio'r ased ariannol cyn addasu ar gyfer unrhyw lwfans colledion credyd disgwyliedig). Ar gyfer asedau ariannol gydag amhariad ar eu credyd, mae'r incwm llog yn cael ei gyfrifo drwy osod yr EIR ar gost wedi'i hamorteiddio yr asedau ariannol gydag amhariad ar eu credyd (h.y. y swm cario gros llai'r lwfans ar gyfer colledion credyd disgwyliedig (ECLs)).

Ar gyfer asedau sydd wedi'u prynu neu wedi dod i fodolaeth ac sydd ag amhariad ar eu credyd, mae'r EIR yn adlewyrchu'r colledion credyd disgwyliedig wrth bennu llifoedd arian yn y dyfodol y mae disgwyl iddynt gael eu derbyn o'r ased ariannol.

Asedau ariannol yn FVTPL

Asedau ariannol yn FVTPL yw:

- asedau â llifoedd arian parod contractiol sydd ddim yn daliadau cyfalaf a llog yn unig;
- asedau sy'n cael eu dal mewn model busnes ar wahân i'r rhai sy'n cael eu dal i gasglu llifoedd arian parod contractiol neu sy'n cael eu dal i gasglu a gwerthu; neu
- asedau a ddynodwyd yn FVTPL gan ddefnyddio'r opsiwn gwerth teg.

Mae'r asedau hyn yn cael eu mesur ar sail gwerth teg, gydag unrhyw enillion/colledion sy'n deillio o ail-fesur yn cael eu cydnabod yn y datganiad incwm cyfunol. Mae gwerth teg yn cael ei bennu yn y dull sy'n cael ei ddisgrifio yn Nodyn 19.

Benthyciadau rhannu ecwiti

Mae llifoedd arian parod contractiol benthyciadau rhannu ecwiti yn gysylltiedig â gwerth yr eiddo sylfaenol ac felly nid ydynt yn daliadau cyfalaf a llog yn unig ar y prif swm sy'n weddill.

Mae benthyciadau rhannu ecwiti yn cael eu dal yn FVTPL ac yn cael eu mesur ar werth teg ar ddyddiad y fantolen. Mae rhagor o fanylion am fesur benthyciadau rhannu ecwiti i'w cael yn Nodyn 3.

Nodiadau ar y datganiadau ariannol cyfunol

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

2. Polisïau cyfrifyddu (parhad)

Offerynnau ariannol (parhad)

Amhariad

Mae'r Grŵp yn asesu, ar sail edrych tua'r dyfodol, y colledion credyd disgwylidig sy'n gysylltiedig â'i asedau offerynnau dyled sy'n cael eu cario ar gost wedi'i hamorteiddio.

Mae IFRS 9 yn amlinellu model tri cham ar gyfer amhariad yn seiliedig ar newidiadau mewn ansawdd credyd ers y gydnabyddiaeth gychwynnol. Ar ôl cael cydnabyddiaeth gychwynnol, mae asedau ariannol yn cael eu categorieiddio fel 'cam 1' ac mae darpariaeth amhariad yn cael ei wneud ar gyfer colledion credyd disgwylidig sy'n deillio o ddigwyddiadau diofyn sy'n cael eu rhagweld yn ystod y 12 mis nesaf (colledion credyd disgwylidig dros 12 mis). Yn dilyn hynny, mae asedau ariannol yn cael eu hystyried ar 'gam 2' pan mae eu risg credyd wedi cynyddu'n sylweddol ers y gydnabyddiaeth gychwynnol, ac ar yr adeg honno ystyrir ei bod yn briodol cydnabod colledion credyd disgwylidig eu hoes.

Mae asedau ariannol yn cael eu cynnwys yng 'ngham 3' pan mae tystiolaeth wrthrychol bod amhariad ar gredyd yr ased, gyda cholledion credyd disgwylidig yn dal i gael eu cyfrifo ar sail oes.

Mae colledion credyd disgwylidig yn amcangyfrif sy'n cael ei bwysoli ar debygolrwydd gwerth presennol colledion credyd.

Mae'r rhain yn cael eu mesur fel gwerth presennol y gwahaniaeth rhwng y llifoedd arian sy'n ddyledus i'r Grŵp o dan y contract a'r llifoedd arian y mae'r Grŵp yn disgwyl eu cael, gan ddiystyru'r llifoedd arian ar EIR yr ased.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Nodyn 4, gan gynnwys manylion am sut mae offerynnau'n cael eu grwpio i asesu'r mewnbynnau cywir ar gyfer y cyfrifiad o golledion credyd disgwylidig.

Cynnydd sylweddol mewn risg credyd (SICR)

Mae'r Grŵp yn monitro'r holl asedau ariannol sy'n destun gofynion amhariad i asesu a fu cynnydd sylweddol mewn risg credyd ers y gydnabyddiaeth gychwynnol. Os bu cynnydd sylweddol mewn risg credyd, bydd y Grŵp yn mesur y lwfans

colled ar sail oes yn hytrach na cholledion credyd disgwylidig dros 12 mis.

Wrth asesu a yw'r risg credyd ar offeryn ariannol wedi cynyddu'n sylweddol ers y gydnabyddiaeth gychwynnol, mae'r Grŵp yn ystyried gwybodaeth feintiol ac ansoddol sy'n rhesymol ac y mae modd ei chefnogi, gan gynnwys profiad hanesyddol a gwybodaeth flaengar sydd ar gael heb gost neu ymdrech ormodol, yn seiliedig ar brofiad hanesyddol y Grŵp ac asesiad credyd arbenigol gan gynnwys gwybodaeth flaengar, a gwybodaeth ranbarthol neu sectoraidd. Gweler Nodyn 4 i gael rhagor o wybodaeth am wybodaeth flaengar.

Amhariad ar gredyd asedau ariannol

Mae amhariad ar gredyd ased ariannol pan mae un neu ragor o ddigwyddiadau sy'n cael effaith niweidiol ar lifoedd arian parod amcangyfrifedig yr ased yn y dyfodol. Mae tystiolaeth o amhariad ar gredyd yn cynnwys data y mae modd ei arsylwi am berfformiad y benthygiwr. Mae'r Grŵp yn defnyddio ei system graddio risg portffolio (graddau A i E) i ganfod asedau ariannol sydd ag amhariad ar gredyd. Mae'r dangosyddion amhariad ar gredyd sy'n cael eu defnyddio gan y Grŵp yn cael eu cyflwyno yn nisgrifyddion graddau'r portffolio ar dudalen 145. Mae asedau â gradd D ac E yn cael eu hystyried yn rhai ag amhariad ar gredyd.

Efallai na fydd yn bosibl nodi un digwyddiad penodol – yn hytrach, gallai effaith gyfunol sawl digwyddiad fod wedi achosi amhariad ar gredyd asedau ariannol. Mae'r Grŵp yn asesu a oes amhariad ar gredyd offerynnau dyled sy'n asedau ariannol sy'n cael eu mesur ar sail cost wedi'i hamorteiddio ar bob dyddiad adrodd.

Diffiniad o ddifffygddaliad

Mae'r diffiniad o ddifffygddaliad yn hanfodol wrth benderfynu ar golledion credyd disgwylidig. Mae'r diffiniad o ddifffygddaliad yn cael ei ddefnyddio i fesur swm colledion credyd disgwylidig ac i benderfynu a yw'r lwfans colled yn seiliedig ar golledion credyd disgwylidig dros 12 mis neu oes, gan fod difffygddaliad yn elfen o'r tebygolrwydd o ddifffygddaliad sy'n effeithio ar fesur colledion credyd disgwylidig a nodi cynnydd sylweddol mewn risg i gredyd.

Nodiadau ar y datganiadau ariannol cyfunol

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

2. Polisïau cyfrifyddu (parhad)

Offerynnau ariannol (parhad)

Diffiniad o ddiffyg daliad (parhad)

Mae diffyg daliad yn digwydd pan mae tystiolaeth bod cwsmer mewn trafferthion ariannol sylweddol a bod y cwsmer yn bodloni meini prawf meintiol ac ansoddol penodol o ran ei allu i wneud taliadau contract pan maent yn ddyledus. Mae hyn yn cynnwys achosion lle:

- mae gan y cwsmer ôl-ddyledion sylweddol heb eu hawdurdodi o ganlyniad i ad-daliadau contract hwyr (gweler Nodyn 4 am ragor o wybodaeth am ôl-ddyledion);
- mae'r cwsmer yn gwneud datganiad o anhawster ariannol sylweddol;
- mae'n ymddangos yn debygol y bydd y cwsmer yn mynd i ddwylo gweinyddwyr, yn methdal, neu fath arall o ailstrwythuro ariannol;
- nad yw'r cwsmer yn debygol o dalu ei rwymedigaethau credyd i'r Grŵp yn llawn am unrhyw reswm arall.

Asedau ariannol sydd wedi'u prynu neu wedi dod i fodolaeth ac sydd ag amhariad ar eu credyd

Mae asedau ariannol sydd wedi'u prynu neu eu deillio ac sydd ag amhariad ar eu credyd yn cael eu trin yn wahanol oherwydd bod amhariad ar gredyd yr ased ar adeg y gydnabyddiaeth gychwynnol. Ar gyfer yr asedau hyn, mae'r Grŵp yn cydnabod yr holl newidiadau mewn colledion credyd disgwylidig ers y gydnabyddiaeth gychwynnol fel lwfans colled, gydag unrhyw newidiadau'n cael eu cydnabod yn y datganiad incwm cyfunol. Mae newid ffafriol ar gyfer asedau o'r fath yn creu enillion amhariad.

Addasu a datgydnabod ased ariannol

Mae addasu ased ariannol yn digwydd o dan IFRS 9 os yw llifoedd arian contract ased ariannol yn cael eu hail-negodi neu eu haddasu fel arall rhwng cydnabyddiaeth gychwynnol ac aeddfedrwydd ased ariannol. Mae addasiad yn effeithio ar swm a/neu amseriad y llifoedd arian parod contract naill ai ar unwaith neu yn y dyfodol. Rhaid i'r newid i delerau gwreiddiol

y contract fod wedi'u rhwymo mewn cyfraith ac yn orfodadwy yn ôl y gyfraith.

Mae'r Grŵp yn ail-negodi ac yn ail-drefnu benthyciadau i gwsmeriaid am nifer o resymau. Y rheswm mwyaf cyffredin yw helpu cwsmeriaid sydd mewn trafferthion ariannol er mwyn manteisio i'r eithaf ar ein casgliadau a lleihau'r risg o ddiffyg daliad. Mae'r telerau diwygiedig yn y rhan fwyaf o achosion yn cynnwys ymestyn aeddfedrwydd y benthyciad neu newidiadau i amseriad llifoedd arian y benthyciad (ad-daliad prifswm a llog). Wrth addasu, mae swm cario ymlaen gros y benthyciad yn cael ei ail-gyfrifo fel gwerth presennol y llifoedd arian contract sydd wedi'u hail-negodi neu eu haddasu, sy'n cael eu disgowntio ar y gyfradd llog effeithiol wreiddiol.

Mae angen gwneud asesiad ar adeg yr addasu i nodi a yw'r addasiad yn gwarantu bod yr ased ariannol yn cael ei ddatgydnabod a bod ased ariannol newydd yn dod i fodolaeth. Mae newid yn cael ei ystyried yn sylweddol os yw'r symudiad yn y gwerth presennol net oherwydd addasiad yn >10%. Yn yr achosion hyn, bydd yr ased ariannol gwreiddiol yn cael ei ddatgydnabod a, lle bo'n briodol, bydd ased ariannol newydd yn dod i fodolaeth ar ddyddiad yr addasiad. Pan fydd benthyciad yn cael ei ddatgydnabod a benthyciad newydd yn dod i fodolaeth, bydd enillion neu golledion sef y gwahaniaeth rhwng gwerth teg y benthyciad newydd ac sy'n cael ei gydnabod a swm cario ymlaen y benthyciad gwreiddiol wedi'i ddatgydnabod (gan gynnwys y lwfans colled cronol) yn cael eu cydnabod yn y datganiad incwm cyfunol. Bydd yr asesiad o'r risg i gredyd yr ased ariannol newydd yn dechrau eto a bydd y colledion credyd disgwylidig yn cael eu cyfrifo dros 12 mis i ddechrau.

Byddai'r Grŵp hefyd yn datgydnabod ased ariannol lle byddai addasu'r ased ariannol hwnnw'n arwain at unrhyw un o'r senarios canlynol:

- diddymu'r hawliau contractiol i'r llifoedd arian o'r asedau, neu
- trosglwyddo'r ased ariannol a holl risgiau a manteision perchnogaeth yr ased i endid arall.

Nodiadau ar y datganiadau ariannol cyfunol

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

2. Polisïau cyfrifyddu (parhad)

Offerynnau ariannol (parhad)

Diddymu

Mae asedau ariannol yn cael eu diddymu pan nad oes gan y Grŵp ddisgwyliadau rhesymol o adennill yr ased (naill ai yn ei gyfanrwydd neu gyfran ohono). Mae hyn yn wir pan fydd y Grŵp yn penderfynu nad oes gan y benthyciwr asedau na ffynonellau talu a allai gynhyrchu llofoedd arian parod digonol i ad-dalu'r symiau sy'n ddarostyngedig i'r diddymiad. Mae diddymiad yn ddigwyddiad datgydnabod. Gall y Grŵp ddefnyddio gweithgareddau gorfodi mewn perthynas ag asedau ariannol sydd wedi'u diddymu. Bydd adenillion sy'n deillio o weithgareddau gorfodi'r Grŵp yn arwain at gydnabod enillion amhariad yn y datganiad incwm cyfunol.

Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod

Mae arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod yn cynnwys arian mewn llaw a chyfrifon cyfredol; nid oes risg sylweddol o ran newidiadau gwerth yn gysylltiedig a nhw yn.

Ecwiti a rhwymedigaethau ariannol

Mae offerynnau ecwiti a dyled yn cael eu dosbarthu fel rhwymedigaethau ariannol neu offerynnau ecwiti yn unol â sylwedd y trefniadau contractiol.

Rhwymedigaethau ariannol

Mae rhwymedigaethau ariannol yn cael eu cydnabod naill ai fel rhwymedigaethau ariannol yn FVTPL neu rwymedigaethau ariannol eraill. Mae rhwymedigaethau ariannol eraill, gan gynnwys benthyciadau, yn cael eu mesur ar sail gwerth teg i ddechrau, heb gynnwys costau trafodion. Mae rhwymedigaethau ariannol eraill yn cael eu mesur ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol.

Offerynnau ecwiti

Mae offerynnau ecwiti yn unrhyw gontract sy'n dangos buddiant gweddilliol yn asedau'r Grŵp ar ôl didynnu ei holl rhwymedigaethau. Mae offerynnau ecwiti sy'n cael eu rhoi gan y Grŵp yn cael eu cofnodi sail yr elw sy'n cael ei dderbyn heb gynnwys costau buddsoddi uniongyrchol.

Ecwiti cyhoeddus

Mae Gweinidogion Cymru, yn gweithredu drwy Lywodraeth Cymru, wedi darparu arian o bryd i'w gilydd at ddibenion buddsoddi. Cafodd rhywfaint o'r cyllid hwn gan Lywodraeth Cymru ei wneud yn wreiddiol fel cyfalaf difidend cyhoeddus ac mae'r gweddill yn cael ei ddosbarthu fel cymorth grant neu gyllid craidd at ddibenion buddsoddi.

Mae'r cyllid hwn sydd ddim yn ad-daladwy ar gyfer buddsoddi yng nghynnaladwyedd tymor hir Banc Datblygu Cymru, ac o fewn trefniadau cyfrifyddu Gweinidog Cymru ei hun, mae'r cyllid yn cael ei ystyried yn fuddsoddiad. Mae ecwiti cyhoeddus ychwanegol yn codi pan fydd y Grŵp yn cael benthyciadau gan Lywodraeth Cymru ar gyfraddau is na chyfraddau'r farchnad fel sy'n cael ei ddisgrifio isod.

Symiau sy'n ddyledus i'r prif gyfranddaliwr sy'n cael eu dal ar gost wedi'i hamorteiddio: Benthyciadau Llywodraeth Cymru (Benthyciadau LIC)

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu arian wrth gefn ar gyfer trafodion ariannol a chyllid cyfalaf craidd i'r Grŵp drwy fenthyciadau di-log. Mae'r benthyciadau hyn yn benodol i bob cronfa sy'n cael ei chreu gyda lefelau ad-dalu sy'n gysylltiedig â pherfformiad y gronfa.

Cydnabyddiaeth gychwynnol

Ar gydnabyddiaeth gychwynnol, mae'r rhwymedigaeth ariannol yn cael ei chydabod ar sail gwerth teg, wedi'i chyfrifo yn unol ag IFRS 13. Os oes rhaid i'r Grŵp roi benthyciadau ar gyfradd is na chyfradd y farchnad a bod incwm grant i'w gofnodi (fel y nodir uchod), mae'r balans hwn wedi'i gynnwys yn yr incwm gohiriedig. Mae'r gwahaniaeth rhwng swm gwerth teg y rhwymedigaeth ynghyd â'r incwm gohiriedig a gofnodwyd a gwerth y trafodiad (cronfeydd a dderbyniwyd) yn cael ei drin fel cyfraniad cyfalaf. Yn unol â chyfraniadau cyfalaf blaenorol, byddwn yn cynnwys hyn o dan ecwiti cyhoeddus o dan ecwiti ar y fantolen gyfunol.

Nodiadau ar y datganiadau ariannol cyfunol

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

2. Polisïau cyfrifyddu (parhad)

Offerynnau ariannol (parhad)

Cydnabyddiaeth gychwynnol (parhad)

Gan nad yw'n bosibl nodi trafodion y farchnad sy'n cynnwys offerynnau ariannol tebyg a defnyddio dull marchnad, mae'r Grŵp yn defnyddio'r dull incwm a thechneg gwerth bresennol sy'n defnyddio'r llifoedd arian parod yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â'r benthyciad wedi'u disgowntio i roi gwerth presennol y llifoedd arian parod hyn a gwerth teg yr atebolrwydd. Mewnbynau allweddol y dechneg hon yw'r llifoedd arian disgwyliedig sy'n gysylltiedig â'r benthyciad a'r gyfradd ddisgownt ar gyfer y llifoedd arian parod hynny. Gweler Nodyn 3 am ragor o wybodaeth.

Triniaeth ddilynol

Mae benthyciadau'n cael eu dal ar gost wedi'i hamorteiddio gyda thâl llog tybiannol yn cael ei gofnodi ym mhob cyfnod i adlewyrchu dirwyn y disgownt cychwynnol i ben gan ddefnyddio EIR pob benthyciad.

Os bydd yr ad-daliadau disgwyliedig yn cael eu diwygio, bydd y Grŵp yn addasu cost wedi'i hamorteiddio atebolrwydd ariannol i adlewyrchu amcangyfrif diwygiedig llifoedd arian parod y contract. Bydd cost wedi'i hamorteiddio'r rhwymedigaeth ariannol yn cael ei hailgyfrifo fel gwerth presennol y llifoedd arian parod hyn gan ddefnyddio EIR gwreiddiol y benthyciad. Bydd unrhyw addasiad yn cael ei gydnabod yn y datganiad incwm cyfunol fel incwm neu draul.

Deilliadau wedi'u sefydlu

Bydd deilliadau wedi'u sefydlu sydd ddim yn perthyn yn agos yn cael eu gwahanu oddi wrth gontractau lletya yn unol ag IFRS 9, pan fydd deilliad ar wahân yn cael ei gofnodi, bydd yn cael ei gadw yn FVTPL.

Symiau sy'n ddyledus i'r prif gyfranddaliwr sy'n cael eu dal ar werth teg

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi darparu arian wrth gefn ar gyfer trafodion ariannol i'r Grŵp i ddarparu benthyciad rhannu ecwiti Cymorth i Brynu – Cymru a

Chymorth i Aros – Cymru, gydag enillion a cholledion ar y portffolio yn cael eu trosglwyddo'n ôl i Lywodraeth Cymru.

Cydnabyddiaeth gychwynnol

Ar gydnabyddiaeth gychwynnol, mae'r rhwymedigaeth ariannol yn cael ei chydabod ar sail gwerth teg, wedi'i chyfrifo yn unol ag IFRS 13. Os oes rhaid i'r Grŵp roi benthyciadau ar gyfradd is na chyfradd y farchnad a bod incwm grant i'w gofnodi (fel y nodir uchod), mae'r balans hwn wedi'i gynnwys yn yr incwm gohiriedig. Mae unrhyw wahaniaeth rhwng swm gwerth teg y rhwymedigaeth ynghyd â'r incwm gohiriedig a gofnodwyd a gwerth y trafodiad (cronfeydd a dderbyniwyd) yn cael ei drin fel incwm gohiriedig.

Triniaeth ddilynol

Gan fod y portffolio benthyciadau rhannu ecwiti yn cael ei ddal yn FVTPL, mae'r Grŵp wedi dynodi'r rhwymedigaethau hyn fel y'u mesurwyd yn FVTPL i ddileu'r anghysondeb a fyddai fel arall yn deillio o gydnabod yr enillion a'r colledion ar wahanol seiliau. Mae enillion neu golledion a ohiriwyd ar gydnabyddiaeth gychwynnol yn cael eu rhyddhau wrth i bortffolio'r benthyciad gael ei wireddu.

Prydlesu

Mae'r Grŵp yn asesu a yw contract yn brydles, neu'n cynnwys prydles, adeg sefydlu'r contract. Mae contract yn les neu'n cynnwys les os yw'r contract yn cyfleu'r hawl i reoli'r defnydd o ased dynodedig am gyfnod yn gyfnewid am ystyriaeth. Mae pob prydles yn ymwneud ag eiddo.

Mae'r Grŵp yn cydnabod ased hawl-i-ddefnyddio ac atebolrwydd prydles gyfatebol mewn perthynas â'r holl drefniadau prydles lle mae'n lesddeiliad, ac eithrio prydlesi tymor byr (sy'n cael eu diffinio fel prydlesi â chyfnod les o 12 mis neu lai) a phrydlesi asedau gwerth isel (fel tabledi a chyfrifiaduron personol, eitemau bach o ddodrefn swyddfa a ffonau). Ar gyfer y prydlesi hynny, mae'r Grŵp yn cydnabod y taliadau prydles fel treuliau gweithredol ar sail llinell syth dros gyfnod y prydles.

Nodiadau ar y datganiadau ariannol cyfunol

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

2. Polisïau cyfrifyddu (parhad)

Prydlesu (parhad)

Mae atebolrwydd y brydles yn cael ei fesur i ddechrau ar sail gwerth presennol y taliadau prydles sy'n cael ei ddiystyru gan ddefnyddio'r gyfradd sydd ymhlyg â'r brydles. Os nad oes modd pennu'r gyfradd hon yn rhwydd, mae'r Grŵp yn defnyddio cyfradd ddisgownt Trysorlys EM ar ddechrau'r brydles. Mae atebolrwydd y brydles yn cael ei gyflwyno fel llinell ar wahân yn y fantolen gyfunol.

Mae'r ased hawl-i'w-ddefnyddio'n cael ei fesur ar yr un gwerth â'r rhwymedigaeth prydles ar ddyddiad y cais cychwynnol wedi'i addasu ar gyfer unrhyw ragdaliadau ac mae'n cael ei ddibrisio dros gyfnod y brydles.

Trafodion partion cysylltiedig

Mae'r Grŵp wedi manteisio ar yr eithriad a roddwyd gan baragraff 25 o IAS 24 Datgeliadau Partion Cysylltiedig ac nid yw wedi datgelu trafodion i'w is-gwmnïau sy'n eiddo'n llwyr iddo.

Treth

Mae'r dreth ar yr elw neu'r colledion am y flwyddyn yn cynnwys treth gyfredol a threth ohiriedig.

Y dreth gyfredol yw'r dreth ddisgwyliedig sy'n daladwy ar yr incwm trethadwy ar gyfer y flwyddyn, gan ddefnyddio cyfraddau treth a ddaeth i rym ar ddyddiad y fantolen, ac unrhyw addasiadau i'r dreth sy'n daladwy mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol.

Mae'r dreth ohiriedig yn cael ei darparu'n llawn ar wahaniaethau dros dro rhwng swm cario ymlaen asedau a rhwymedigaethau yn y datganiadau ariannol, a'r sylfaen dreth. Dim ond i'r graddau y mae'n debygol y bydd elw trethadwy yn y dyfodol ar gael y gellir defnyddio'r gwahaniaethau dros dro yn eu herbyn y mae asedau treth gohiriedig yn cael eu cydnabod. Nid yw rhwymedigaethau ac asedau treth gohiriedig yn cael disgownt.

Mae'r dreth ohiriedig yn cael ei phennu gan ddefnyddio'r cyfraddau treth sydd wedi cael eu deddfu erbyn dyddiad y fantolen ac mae disgwyl iddynt fod yn

berthnasol pan mae'r rhwymedigaeth treth ohiriedig yn cael ei setlo, neu mae'r ased treth gohiriedig yn cael ei wireddu.

Mae treth ohiriedig yn cael ei ddarparu ar wahaniaethau dros dro sy'n codi ar fuddsoddiadau mewn is-gwmnïau ac aelodau cyswllt, ac eithrio pan fydd amseriad gwrthdroi'r gwahaniaeth dros dro yn cael ei reoli gan y Grŵp a'i fod yn debygol na fydd y gwahaniaeth dros dro yn gwrthdroi yn y dyfodol rhagweladwy.

Mae'r dreth yn cael ei chydabod yn y datganiad incwm cyfunol, ac eithrio pan mae'n ymwneud ag eitemau sy'n cael eu cydnabod drwy'r datganiad cyfunol o incwm cynhwysfawr, ac os felly mae'n cael ei gydnabod drwy'r datganiad cyfunol o incwm cynhwysfawr.

Buddion ymddeol

Mae gan y Grŵp gynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio, sydd bellach ar gau i aelodau newydd, sy'n cael ei weinyddu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae'r Grŵp yn cyfrif am ei gyfran o warged neu ddiffyg a chostau gweinyddu'r cynllun hwn.

Mae lefel y cyfraniadau sy'n cael eu gwneud i'r cynllun a chost y cyfraniadau sy'n cael eu cynnwys yn y datganiadau ariannol yn seiliedig ar argymhellion actiwariaid annibynnol.

Mae asedau'r cynllun yn amcangyfrif o gyfran dybiannol y Grŵp o gyfanswm asedau'r gronfa a fesurir ar werth y farchnad ar ddyddiad pob mantolen ac mae'r rhwymedigaethau'n cael eu mesur gan ddefnyddio'r dull uned rhagamcanol, wedi'i ddisgowntio gan ddefnyddio cyfradd bondiau corfforaethol. Mae disgwyl bod cyfran dybiannol asedau'r Grŵp yn cael ei buddsoddi yn yr un gyfran â'r gronfa gyfan yn y gwahanol ddosbarthiadau asedau.

Mae gwarged neu ddiffyg y cynllun pensiwn sy'n deillio o hynny yn cael ei gydnabod ar unwaith yn y fantolen gyfunol, net y dreth ohiriedig lle bo hynny'n berthnasol, ac mae unrhyw enillion a cholledion actiwaraidd canlyniadol yn cael eu cydnabod ar unwaith yn y datganiad cyfunol o incwm cynhwysfawr.

Nodiadau ar y datganiadau ariannol cyfunol

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

2. Polisïau cyfrifyddu (parhad)

Buddion ymddeol (parhad)

Mae'r Grŵp yn cynnig cynllun cyfraniadau diffiniedig sy'n cael ei weinyddu gan Legal and General sy'n agored i'r staff hynny nad ydynt yn aelodau o'r cynllun sy'n cael ei weinyddu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae cyfraniadau'r cyflogwr mewn perthynas â'r cynllun hwn yn cael eu cynnwys o fewn treuliau gweinyddol eraill yn y cyfnod y maent yn ddyledus ynddo.

3. Penderfyniadau cyfrifyddu pwysig a'r prif ffynonellau o ansicrwydd amcangyfrif

Wrth ddefnyddio polisïau cyfrifyddu'r Grŵp, sy'n cael eu disgrifio yn Nodyn 2, mae'n ofynnol i'r Cyfarwyddwyr wneud penderfyniadau, amcangyfrifon a thybiaethau ynglŷn â symiau cario asedau a rhwymedigaethau nad ydynt yn gwbl amlwg o ffynonellau eraill. Mae'r amcangyfrifon a'r thybiaethau cysylltiedig yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill yr ystyrir eu bod yn berthnasol. Gall y gwir ganlyniadau fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn.

Mae amcangyfrifon a rhagdybiaethau sylfaenol yn cael eu hadolygu'n barhaus. Mae cywiriadau i amcangyfrifon cyfrifyddu yn cael eu cydnabod yn y cyfnod pan mae'r amcangyfrif yn cael ei gywiro os yw'r cywiro'n cael effaith ar y cyfnod hwnnw'n unig neu yng nghyfnod y cywiro a chyfnodau diweddarach os yw'r cywiro'n effeithio ar y cyfnod cyfredol a chyfnodau diweddarach.

Penderfyniadau pwysig wrth roi polisïau cyfrifyddu'r Grŵp ar waith

Y canlynol yw'r penderfyniadau pwysig, ar wahân i'r rhai sy'n ymwneud ag amcangyfrifon (sy'n cael eu trafod isod), y mae'r Cyfarwyddwyr wedi'u gwneud wrth roi polisïau cyfrifyddu'r Cwmni ar waith ac y mae'n rhaid iddynt gael yr effaith fwyaf ar y symiau sy'n cael eu cydnabod yn y datganiadau ariannol.

Sail y cyfuno

Mae'r Cyfarwyddwyr yn defnyddio eu crebwyll i asesu a yw'r Grŵp yn

rheoli'r fenter drwy ystyried pŵer y Grŵp i lywodraethu polisïau ariannol a gweithrediadol menter gan ystyried unrhyw hawliau pleidleisio posibl.

Maent hefyd yn ystyried gallu'r Grŵp i ddefnyddio ei bŵer i gyfarwyddo gweithgareddau perthnasol menter a pha mor agored yw'r Grŵp i amrywioldeb yr enillion. Mae eu penderfyniad yn cael effaith sylweddol ar fantolen gyfunol y Grŵp, y datganiad incwm a'r llif arian parod: mae unrhyw fenter sy'n cael ei rheoli yn mynnu bod datganiadau ariannol y fenter yn cael eu cynnwys yn natganiadau ariannol cyfunol y Grŵp ac, os nad yw endid yn cael ei reoli, nid oes angen cyfuno.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'r Cyfarwyddwyr wedi ystyried y berthynas sydd gan y Grŵp â'r naw cronfa sy'n cael eu rheoli gan FW Capital Limited ac yn benodol o ran a yw'r Grŵp yn rheoli'r cronfeydd hynny.

O ran wyth o'r cronfeydd sy'n cael eu rheoli gan FW Capital Limited, mae'r Cyfarwyddwyr yn nodi, er bod FW Capital yn ei rôl fel rheolwr cronfeydd a TVUPB Limited, TVC Loans NPIF GP Limited, North West Loans NPIF GP Limited, North East Property GP Limited, NE Commercial Property (GP) Limited, FWC SWIF Debt GP Limited, FWC IFW Debt GP Limited a FWC NPIFII Debt GP Limited yn eu rolau fel partner cyffredinol i'w cronfeydd cyfatebol oll yn arfer pŵer dros weithgareddau'r cronfeydd cyfatebol nid ydynt yn ddigon agored i amrywiadau enillion o'r cronfeydd i gyrraedd y diffiniad o reoli ac felly maent yn gweithredu fel asiantiaid yn hytrach na phrif gyfranddalwyr y cronfeydd. Felly, nid yw'r cronfeydd wedi cael eu cyfuno yn y datganiadau ariannol hyn.

Mae Partneriaeth Gyfyngedig Cronfa Olyniaeth Rheoli Cymru hefyd yn cael ei rheoli gan FW Capital Limited. Yn dilyn adolygiad manwl o'r berthynas, penderfynodd y Cyfarwyddwyr fod y profion rheoli o dan IFRS 10 yn cael eu bodloni ac felly mae'r canlyniadau ar gyfer y bartneriaeth wedi cael eu cyfuno yn natganiadau ariannol y Grŵp.

Nodiadau ar y datganiadau ariannol cyfunol

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

3. Penderfyniadau cyfrifyddu pwysig a'r prif ffynonellau o ansicrwydd amcangyfrif (parhad)

Treth ohiriedig

Mae gan y Grŵp golledion treth o £109.8m (2023: £123.5m) sydd ar gael i'w gwrthbwyso yn erbyn elw trethadwy yn y dyfodol. Nid yw ased treth ohiriedig wedi cael ei gydnabod ar y sail nad oes digon o sicrwydd ynglŷn â'r dystiolaeth o adennill y colledion treth hyn yn y dyfodol.

Pe bai asedau treth gohiriedig yn cael eu cydnabod yn llawn, byddai hyn yn golygu ased o £27.4m ar 25% o'r golled gros (2023: £30.9m ar 25% o'r golled gros) yn cael ei gydnabod cyn ystyried unrhyw rwymedigaethau posibl.

Benthyciadau Llywodraeth Cymru

O dan IFRS 9, i ddechrau, bydd offerynnau ariannol yn cael eu cofnodi ar sail gwerth teg gydag addasiadau ar gyfer costau trafodion mewn rhai amgylchiadau. Fel sy'n cael ei ddisgrifio yn Nodyn 2, mae'r Grŵp wedi cael benthyciadau di-log gan Lywodraeth Cymru lle nad oes angen ad-dalu prifswm y benthyciad yn llawn mewn rhai achosion, felly nid yw gwerth teg cychwynnol y rhwymedigaeth sy'n cael ei gydnabod yn un fath â gwerth y trafodiad h.y. prifswm y benthyciad.

Mae IFRS 9 yn datgan y dylai'r gwahaniaeth rhwng gwerth y trafodiad a'r gwerth teg fel arfer gael ei gydnabod fel traul neu ostyngiad mewn incwm oni bai ei fod yn gymwys i gael ei gydnabod fel math arall o ased. Fodd bynnag, nid yw IFRS 9 yn delio'n uniongyrchol â sut i drin â benthyciadau rhyng-gwmni sydd ag elfen â chyfradd is na chyfradd y farchnad. Mae IAS 20 yn delio â benthyciadau gan y llywodraeth ar gyfradd llog is na chyfradd y farchnad gyda'r gwahaniaeth yn cael ei drin fel grant gan y llywodraeth, ond nid yw'n mynd i'r afael â sefyllfa lle mae endid y llywodraeth yn barti cysylltiedig.

Er mai bwriad y benthyciadau sy'n cael eu darparu gan Lywodraeth Cymru yw cefnogi eu hamcanion polisi, barn y Rheolwyr mewn perthynas â Fframwaith Cysyniadol

yr IASB ar gyfer Adrodd Ariannol yw mai hanfod y trafodion hyn yw bod cymhorthdal wedi'i roi gan riant gwmni i'w is-gwmni. Dylid cydnabod y cymhorthdal llog hwn fel elfen o ecwiti yn yr is-gwmni h.y. cyfraniad cyfalaf yn natganiadau ariannol y Grŵp.

Pe bai'r cymhorthdal llog wedi cael ei drin fel grant, byddai hyn wedi cael ei gydnabod yn y datganiad incwm cyfunol ar sail a oedd yn adlewyrchu hanfod y grant hwnnw.

Ffynonellau allweddol o ansicrwydd o ran amcangyfrif

Mae'r rhagdybiaethau allweddol o ran y dyfodol, a'r ffynonellau allweddol eraill o ansicrwydd amcangyfrifon ar ddyddiad y fantolen, sy'n cynnwys risg sylweddol o arwain at addasiad sylweddol i symiau cario ymlaen yr asedau a'r rhwymedigaethau yn y flwyddyn ariannol nesaf yn cael eu trafod isod.

Benthyciadau rhannu ecwiti Cymorth i Brynu - Cymru

Mae gwerth teg y llyfr benthyciadau rhannu ecwiti wedi cael ei gyfrifo drwy nodi'r llifoedd arian parod disgwylidig yn y dyfodol a disgowntio'r rhain ar gyfradd briodol.

Mae nifer o fewnbynnau y mae modd eu harsylwi wedi cael eu defnyddio yn y cyfrifiad sydd wedi arwain at enillion o £34.8m (2023: colledion o £50.6m) ar werth teg y llyfr benthyciadau rhannu ecwiti gyda phrisiad diwedd blwyddyn o £355.5m (2023: £325.1m). Mae'r cyfrifiad hwn yn defnyddio nifer o dybiaethau o ran penderfyniadau, yn enwedig y rhagolwg ar gyfer symudiad prisiau tai yn y dyfodol a chyfradd ddisgownt yn seiliedig ar gyfradd heb risg a bondiau tai cymaradwy.

Nodiadau ar y datganiadau ariannol cyfunol

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

3. Penderfyniadau cyfrifyddu pwysig a'r prif ffynonellau o ansicrwydd amcangyfrif (parhad)

Rhagolygon prisiau tai

Mae'r model yn defnyddio data trafodion y mae modd ei arsylwi i amcangyfrif symudiadau mewn prisiau tai rhwng dechrau benthyciad a'r dyddiad mesur. I ragweld symudiadau prisiau tai yn y dyfodol dros uchafswm o 25 mlynedd cyfnod y benthyciad, mae'r model yn defnyddio data rhagolwg mynegai prisiau tai annibynnol ar gyfer Cymru. Mae'r data hwn wedi cael ei addasu ar gyfer gwahaniaethau disgwyliedig rhwng y rhagolwg a symudiad disgwyliedig y llyfr benthyciadau rhannu ecwiti oherwydd nodweddion penodol y portffolio HTBW.

Mae'r senario canolog ar gyfer twf y mynegai prisiau tai yn y dyfodol yn cael ei ddefnyddio wrth gyfrifo gwerth teg ar gyfer datganiadau ariannol 2024. Mae'r rhagolwg yn tybio y bydd y farchnad dai

yn cael glaniad meddal. Mae'r gostyngiad yng nghyfraddau morgeisi ers canol 2023 wedi gwneud rhagolygon y farchnad dai yn llai bregus. Oherwydd prisiau llai heriol, mae gweithgarwch tai wedi codi o lefelau isel iawn y llynedd ac mae'r cywiriadau mewn prisiau wedi'u cwblhau i raddau helaeth. Mae'r diweithdra isel a'r cynnydd graddol mewn cyfraddau llog uwch wedi cadw gwerthiannau gorfodol yn isel ac wedi cyfyngu ar y gostyngiad mewn prisiau o'r pwynt uchaf i'r pwynt isaf. Ond gyda fforddiadwyedd yn dal yn wael, mae adferiad cryf mewn gweithgarwch a phrisiau yn annhebygol. Mae'r rhagolwg yn dangos cynnydd mewn prisiau tai o flwyddyn ariannol BA26 ymlaen.

Mae dadansoddiad o sensitifrwydd y mewnbyn hwn yn dangos amrywiaeth o senarios eraill ar gyfer symudiadau prisiau tai. Mae sensitifrwydd y gwerth teg a fodelwyd i newidiadau yn y mynegai prisiau tai, gyda'r holl dybiaethau eraill yn gyson, yn cael ei ddangos isod.

Senario Sensitifrwydd y Mynegai Prisiau Tai

Senarios	Rhagolwg twf blynyddol y mynegai prisiau tai (5 mlynedd)					Symudiad gwerth teg £m	Amrywiant i senario Canolog £m	Cyfartaledd 5 mlynedd (i)	Mawrth-24 i'r pwynt isaf (ii)
	BA25	BA26	BA27	BA28	BA29				
Cynnydd	1.8%	4.1%	7.0%	4.9%	2.3%	61.6	26.86	4.0%	Amherthnasol
Canolog	-0.9%	0.3%	2.9%	3.0%	2.0%	34.8	-	1.4%	-0.9%
Gostyngiad	-5.5%	-4.4%	-1.2%	1.9%	2.5%	5.0	-29.75	-1.4%	-10.7%
Gostyngiad difrifol	-7.6%	-7.1%	-3.9%	0.9%	2.6%	-11.0	-45.74	-3.1%	-17.5%

- i. Mae'r gyfradd gyfartalog ar gyfer y mynegai prisiau tai yn seiliedig ar y gyfradd twf blynyddol cronus dros gyfnod y rhagolwg
ii. Yn cael ei ddangos fel y gostyngiad cronus mwyaf o 31 Mawrth 2024 dros gyfnod y rhagolwg

Nodiadau ar y datganiadau ariannol cyfunol

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

3. Penderfyniadau cyfrifyddu pwysig a'r prif ffynonellau o ansicrwydd amcangyfrif (parhad)

Ffynonellau allweddol o ansicrwydd amcangyfrifon (parhad)

Benthyciadau rhannu ecwiti Cymorth i Brynu - Cymru (parhad)

Cyfradd Ddisgownt

Mae'r gyfradd ddisgownt o 5.41% (2023: 6.22%), yn seiliedig ar gyfradd heb risg, sy'n cael ei chyfrifo gan ddefnyddio cromlin arenillion giltiau'r DU, a'r risg credyd wedi'i gwasgaru o fondiau tai cymaradwy. Ochr yn ochr â'r mynegai prisiau tai, mae'n fewnbwn sylweddol i'r model prisio.

Un o'r prif ffactorau sy'n sbarduno'r gyfradd ddisgownt briodol yw'r llifoedd arian parod sy'n cael eu rhagweld, yn bennaf o ad-dalu benthyciadau rhannu ecwiti. Mae hyn yn pennu hyd gyfartalog bwysedig y portffolio, sy'n cael ei ddefnyddio i nodi'r pwynt cywir ar y gromlin adenillion ar gyfer giltiau'r DU a'r bondiau tai cymaradwy. Y prif reswm dros y gostyngiad yn y gyfradd ddisgownt o'r flwyddyn flaenorol yw premiwm risg is ar y bondiau tai cymaradwy sydd 1.1 pwynt canran yn is na'r flwyddyn flaenorol. Gwelwyd cynnydd bach yn y gyfradd hen risg sy'n cael ei defnyddio yn y prisiad.

Mae'r rheolwyr yn ystyried bod yr ystod resymol ar gyfer ystyried sensitifrwydd y mewnbwn hwn 100 pwynt sylfaen uwchben neu islaw cyfradd blwyddyn ariannol 2024. Mae dadansoddiad o sensitifrwydd y mewnbwn hwn yn awgrymu nad yw newidiadau i'r gyfradd ddisgownt yn berthnasol i'r gwerth teg pan fyddant yn cael eu hystyried ar eu pen eu hunain. Fodd bynnag, oherwydd y berthynas rhwng y mewnbwn hwn a'r tybiaethau ar gyfer rhagolygon prisiau tai, fel sy'n cael ei amlinellu isod, mae esboniad o sut mae'r gyfradd ddisgownt yn cael ei phennu wedi cael ei ddatgelu.

Y berthynas rhwng mewnbynnau nad oes modd eu harsylwi

Oherwydd y berthynas rhwng newidynnau economaidd gwahanol yn y model gwerth teg, efallai na fydd effeithiau sensitifeddu newidiol unigol yn cynrychioli senarios

amgen realistig. Mae symudiadau yn y mynegai prisiau tai neu'r gyfradd ddisgownt yn annhebygol o ddigwydd ar eu pen eu hunain. Pe bai senario'r mynegai prisiau tai yn fwy pesimistaidd, er enghraifft, gan adlewyrchu'r gostyngiad neu'r gostyngiad difrifol a nodwyd uchod, yna mae disgwyliad realistig y byddai hyn hefyd yn arwain at gynnydd yn y gyfradd ddisgownt gan y byddem yn disgwyl i'r gyfradd heb risg a'r premiwm risg gynyddu. Rydym wedi dangos hyn drwy gyfuno ein senario gostyngiad â chynnydd o 100 pwynt sylfaen yn y gyfradd ddisgownt. Yr effaith gyfunol yw colled o £6.4m ar werth teg, gostyngiad o £41.2m ar yr enillion a nodwyd yn ein senario canolog. Pe bai'r rhagolygon y mynegai prisiau tai yn gwella, byddem yn disgwyl i'r gyfradd heb risg a'r premiwm risg ostwng. Rydym wedi dangos hyn drwy gyfuno ein senario cynnydd ar y cyd â gostyngiad o 100 pwynt sylfaen yn y gyfradd ddisgownt. Yr effaith gyfunol yw cynnydd gwerth teg o £77.5m, cynnydd o £42.7m yn yr enillion a nodwyd.

Mae'r holl fewnbynnau eraill wedi cael eu profi am sensitifrwydd ac nid ydynt yn cael effaith sylweddol ar brisiad y llyfr rhannu ecwiti. Mae gwir enillion a cholledion y portffolio yn cael eu trosglwyddo'n ôl i Lywodraeth Cymru felly mae'r effaith gyffredinol ar y Grŵp yn gyfyngedig.

Mesur gwerth teg buddsoddiadau ecwiti heb eu rhestru

Amcangyfrifwyd gwerth teg buddsoddiadau ecwiti heb eu rhestru gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau gan roi prisiad diwedd blwyddyn o £53.8m (2023: £47.8m)

Wrth amcangyfrif gwerth teg ased ariannol, mae'r Grŵp yn defnyddio data y mae modd ei arsylwi ar y farchnad i'r graddau y mae ar gael. Lle nad oes mewnbynnau lefel 1 o'r fath ar gael, mae'r Grŵp yn defnyddio modelau prisio gan gynnwys modelau prisio a dadansoddi llif arian parod wedi'i ddisgowntio i bennu gwerth teg ei offerynnau ariannol. Mae'r technegau prisio ar gyfer offerynnau ariannol lefel 3 yn cynnwys asesiad rheoli amcangyfrif o faint sy'n dibynnu ar gymhlethdod yr offeryn.

Nodiadau ar y datganiadau ariannol cyfunol

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

3. Penderfyniadau cyfrifyddu pwysig a'r prif ffynonellau o ansicrwydd amcangyfrif (parhad)

Ffynonellau allweddol o ansicrwydd amcangyfrifon (parhad)

Mesur gwerth teg buddsoddiadau ecwiti heb eu rhestru (parhad)

Pan mae'n berthnasol, mae modd defnyddio sawl dull prisio wrth amcangyfrif gwerth teg ased unigol. Mae mewnbynnu o'r fath fel arfer yn benodol i'r cwmni ac felly nid oes modd eu cyfuno at ddibenion dadansoddi sensitifrwydd ar lefel portffolio. Mae rhagor o fanylion am offerynnau ariannol lefel 3 y Grŵp a'r technegau prisio sy'n cael eu defnyddio ar gael yn Nodyn 19.

4. Risg credyd

Risg credyd yw'r risg y bydd cwsmer yn methu â chyflawni ei rwymedigaethau contractiol, gan arwain at golled ariannol i'r Grŵp. Prif weithgarwch cynhyrchu incwm y Grŵp yw rhoi benthyg i gwsmeriaid ac felly mae risg credyd yn brif risg. Mae risg credyd yn codi o fenthyciadau a blaensymiau i gwsmeriaid.

Rheoli risg credyd

Mae tîm Risg a Chydymffurfiaeth y Grŵp yn gyfrifol am reoli risg credyd y Grŵp drwy:

- Sicrhau bod gan y Grŵp arferion risg credyd priodol, gan gynnwys system reoli effeithiol, i bennu lwfansau digonol yn gyson yn unol â pholisïau a gweithdrefnau datganedig y Grŵp, ac IFRS.
- Nodi, asesu a mesur risg credyd ar draws y Grŵp, o offeryn unigol i lefel portffolio.
- Creu polisïau credyd i ddiogelu'r Grŵp yn erbyn risgiau a nodwyd gan gynnwys y gofynion i gael eitemau cyfochrog gan fenthycwyr, i gynnal asesiad credyd parhaus a chadarn o fenthycwyr ac i fonitro pa mor agored y maent yn erbyn terfynau risg mewnol.
- Sefydlu fframwaith rheoli cadarn mewn perthynas â'r strwythur awdurdodi ar gyfer cymeradwyo ac adnewyddu cyfleusterau credyd.

- Datblygu a chynnal gradd risg y Grŵp i gategoreiddio pa mor agored i risg maent yn ôl maint y risg o ddiffygdlu. Mae graddau risg yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.
- Datblygu a chynnal prosesau'r Grŵp ar gyfer mesur colledion credyd disgwylidig gan gynnwys monitro risg credyd, ymgorffori gwybodaeth flaengar a'r dull o fesur colledion credyd disgwylidig.
- Sicrhau bod gan y Grŵp bolisïau a gweithdrefnau ar waith i gynnal a dilysu modelau sy'n cael eu defnyddio i asesu a mesur colledion credyd disgwylidig a hynny'n briodol.
- Sefydlu proses gadarn ar gyfer asesu a mesur risg credyd sy'n rhoi sylfaen gref iddo ar gyfer systemau, adnoddau a data cyffredin i asesu risg credyd ac i gyfrif colledion credyd disgwylidig.
- Darparu cyngor, arweiniad a sgiliau arbenigol i unedau busnes i hyrwyddo arferion gorau ar draws y Grŵp wrth reoli risg credyd.

Fel rhan o'r cynllun gwaith archwilio mewnol tair blynedd, mae archwiliadau'n cael eu cynnal i sicrhau bod y rheolaethau a'r gweithdrefnau sefydledig yn cael eu cynllunio a'u gweithredu'n ddigonol.

Cynnydd sylweddol mewn risg credyd (SICR)

Fel yr eglurwyd yn Nodyn 2, mae'r Grŵp yn monitro'r holl asedau ariannol sy'n destun gofynion amhariad i asesu a fu cynnydd sylweddol mewn risg credyd ers y gydnabyddiaeth gychwynnol. Os bu cynnydd sylweddol mewn risg credyd, bydd y Grŵp yn mesur y lwfans colled ar sail oes yn hytrach na cholledion credyd disgwylidig dros 12 mis.

Nodiadau ar y datganiadau ariannol cyfunol

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

4. Risg credyd (parhad)

Sgoriau risg credyd mewnol

Er mwyn lleihau risg credyd, mae'r Grŵp yn gweithredu system raddio portffolio sy'n categoreiddio pa mor agored i risg mae asedau yn ôl maint y risg o ddifffygdlu. Mae fframwaith graddio'r Grŵp yn cynnwys 5 categori ac mae'n dyrannu gradd briodol i bob ased sy'n adlewyrchu'n realistig y newid mewn risg credyd dros oes y buddsoddiad.

Rhodddwyd y dull hwn ar waith fel rhan o reolaethau'r portffolio er mwyn sicrhau bod strategaethau priodol yn cael eu defnyddio gydag asedau gan ystyried eu hamgylchiadau penodol, ac er mwyn sicrhau bod yr asedau hynny sydd angen darpariaeth benodol yn cael eu nodi. Mae'r dull graddio portffolio wedi'i wreiddio'n dda yn y gwahanol dimau portffolio, gyda nifer o reolaethau ar waith i sicrhau bod graddio'n briodol.

Mae asedau'n cael eu dosbarthu â graddau A i E, gyda graddau A i C yn cynrychioli asedau 'iach' (ond gyda gradd C yn dangos arwyddion o danberfformio a chynnydd sylweddol mewn risg credyd). Gradd D yn 'sâl' gyda thystiolaeth wrthrychol o amhariad, a gradd E yn cario darpariaeth benodol.

Nid yw asedau yn y tîm benthyciad Micro (hyd at £50,000) yn cael gradd portffolio benodol gan nad yw'r Grŵp yn cael digon o wybodaeth reolaidd i raddio'r buddsoddiadau hyn yn gywir. Mae'r achosion hyn felly'n cael eu graddio'n 'MICRO'. Fodd bynnag, mae'r benthyciadau hyn yn cael eu monitro drwy hanes talu a hysbysiadau Equifax ac yn cael graddau D neu E os bydd ffactorau risg yn cael eu nodi. Yn yr un modd, mae asedau yng nghronfa Cynllun Benthyciadau Busnes Covid-19 Cymru yn cael eu graddio'n 'CWBLS' i ddechrau nes bod digon o wybodaeth wedi'i chael i raddio'r buddsoddiadau hyn yn gywir.

Fel arfer byddem yn disgwyl i fuddsoddiadau prif ffrwd ddechrau eu bywyd ar radd B ac fel arfer byddai'r buddsoddiadau hynny sy'n rhagori

ar ddisgwyliadau ar y pwynt mae'r buddsoddiad yn cael ei wneud yn cael gradd A. Rydym yn ystyried bod asedau gradd A, B, MICRO a CWBLS yn risg isel ac yn iach ac yn aros gyda tîm y portffolio. Gyda'i gilydd, maent yn cael eu hystyried yn rhai Cam 1.

Er bod asedau gradd C yn dal i gael eu hystyried yn iach, maent yn dangos cynnydd sylweddol mewn risg credyd ac maent fel arfer yn cael eu rheoli gyda mewnbwn gan y tîm risg. Maent yn cael eu hystyried yn asedau Cam 2.

Mae asedau graddau D ac E yn dangos cynnydd pellach mewn risg credyd gyda thystiolaeth wrthrychol o amhariad ac, felly, maent yn cael eu hystyried yn asedau Cam 3.

Mae'r tabl ar dudalen 145 yn dangos crynodeb o'r disgrifyddion ar gyfer pob gradd portffolio. Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr, ond mae'n dangos y nodweddion y byddai disgwyl i asedau 'nodweddiadol' mewn gradd benodol eu harddangos.

Nodiadau ar y datganiadau ariannol cyfunol

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

4. Risg credyd (parhad)

Sgoriau risg credyd mewnol (parhad)

Dosbarth Ased	Disgrifiyddion Nodweddiadol		
	Cyfrifo colledion credyd disgwyliedig	12-mis	Oes
A – Iach	-Gwybodaeth ariannol o ansawdd da wedi'i chyflwyno'n brydlon. -Perfformiad sydd fwy neu lai'n unol â'r cynllun busnes neu sy'n rhagori arno. -Sefyllfa risg sydd heb godi ers i'r buddsoddiad gael ei wneud. -Taliadau'n cael eu gwneud yn brydlon. -Dim hysbysiadau credyd negyddol.	Ôl-ddyledion <30 diwrnod: Cam 1	Ôl-ddyledion >30 ddiwrnod: Cam 2
B – Iach	-Gwybodaeth ariannol afreolaidd. -Perfformiad sydd fwy neu lai'n unol â'r cynllun busnes -Perfformiad o fewn cyfamodau. -Taliadau'n cael eu gwneud yn brydlon. -Dim hysbysiadau credyd negyddol	Ôl-ddyledion <30 diwrnod: Cam 1	Ôl-ddyledion >30 ddiwrnod: Cam 2
Micro	Nid yw asedau yn y tîm benthyciad Micro (hyd at £50,000) yn cael gradd portffolio benodol gan nad ydym yn cael digon o wybodaeth reolaidd i raddio'r buddsoddiadau hyn yn gywir. Mae'r achosion hyn felly'n cael eu graddio'n 'MICRO'. Fodd bynnag, mae'r benthyciadau hyn yn cael eu monitro drwy hanes talu a hysbysiadau Equifax ac yn cael graddau D neu E os bydd ffactorau risg yn cael eu nodi.	Ôl-ddyledion <30 diwrnod: Cam 1	Ôl-ddyledion >30 ddiwrnod: Cam 2
CWBSL	Nid yw asedau yn y dosbarthiad CWBSL yn cael gradd portffolio benodol i ddechrau gan nad oedd genym ddigon o wybodaeth reolaidd i raddio'r buddsoddiadau hyn yn gywir. Mae'r achosion hyn felly'n cael eu graddio'n 'CWBSL'. Mae'r benthyciadau hyn yn cael graddau A-E ar ôl cael digon o wybodaeth drwy'r wybodaeth reoli a'r hanes talu.	Ôl-ddyledion <30 diwrnod: Cam 1	Ôl-ddyledion >30 ddiwrnod: Cam 2
C – Rhybudd Cynnar	-Gwybodaeth ariannol yn anodd ei chael neu ddim ar gael. -Y busnes yn ymddangos yn hyfyw o hyd ond mae'n anodd asesu'r risg. -Ôl-ddyledion heb eu hawdurdodi wedi'u cyfalafu. -Cais am wyliau ad-dalu awdurdodedig. -Esboniad boddhaol i hysbysiad credyd negyddol. -Tystiolaeth bod taliadau credydwyr yn cael eu hymestyn. -Torri cyfamod am ddau fis yn olynol.	Cam 1 *	Cam 2
D – Sâl	-Tanberfformiad sylweddol. -Y busnes wedi newid cyfeiriad neu strategaeth. -Ôl-ddyledion heb eu hawdurdodi. -Torri cyfamod am fwy na dau fis yn olynol. -Dim cytundeb Amser i Dalu ffurfiol ar waith gyda CThEF. -Cynlluniau talu gyda chredydwyr wedi'u torri.		Cam 3
E – Terfynnol	-Dim adferiad o D. -Tystiolaeth wrthrychol o'r risg o golled yn cyfiawnhau darpariaeth benodol.		Cam 3

*Nid yw rhai benthyciadau busnes Covid-19 sydd wedi'u ddsbarthu fel Gradd C yn dangos dangosyddion cynnydd sylweddol mewn risg credyd ac maent yn aros yng Ngham 1.

Nodiadau ar y datganiadau ariannol cyfunol

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

4. Risg credyd (parhad)

Mesur colledion credyd disgwylidig

Mae'r portffolio benthyciadau a blaensymiau i gwsmeriaid sy'n cael ei ddal ar gost wedi'i hamorteiddio wedi cael ei ddadgyfuno'n gategorïau o fenthyciadau gyda risgiau credyd wedi'u rhannu. Mae chwe chategori o fenthyciadau gyda phroffiliau risg gwahanol wedi cael eu nodi: benthyciadau prif ffrwd, benthyciadau micro, benthyciadau eiddo, benthyciadau achub ac ailstrwythuro, benthyciadau model buddsoddi cydfuddiannol, a benthyciadau busnes Covid-19 Cymru.

Mae'r dadgyfuno'n cael ei ailystyried o bryd i'w gilydd a'i ddiwygio i gyd-fynd â'r proffiliau risg sy'n amlwg yr adeg honno.

Mae cyfraddau colledion disgwylidig yn cael eu cyfrifo ar gyfer pob benthyciad ym mhorthffolio'r Grŵp gyda'r prif fewnbynnau canlynol:

- Tebygolrwydd diffygddalu – mae data'n cael ei gasglu gan arbenigwr credyd allanol sy'n dadansoddi amleddau diffygddalu disgwylidig yn seiliedig ar nodweddion pob cwmni portffolio. Lle nad oes data ar gael ar gyfer cwsmer unigol, mae'r tebygolrwydd diffygddalu cyfartalog yn seiliedig ar gategorï'r benthyciad a'r graddio risg mewnol yn cael ei ddefnyddio.
- Pa mor agored oedd i ddiffygddalu – mae pa mor agored oedd i ddiffygddalu adeg y diffygddalu yn cael ei amcangyfrif gan ddefnyddio data hanesyddol o bortffolio'r Grŵp a symudiadau mewn balansau cyfalaf ar draws pob gorwel diffygddalu sy'n cael ei ystyried.
- Colledion ar ddiffygddalu – mae colledion disgwylidig ar asedau Gradd E yn cael eu defnyddio i amcangyfrif y golled ar ddiffygddalu ar gyfer asedau tebyg sy'n cael eu dal ar raddfeydd uwch.

Ar adeg mesur y colledion credyd disgwylidig, mae benthyciadau'n cael eu crynhoi yn ôl gradd portffolio ac mae'r cyfraddau colled ar gyfer pob gradd portffolio (naill ai 12 mis neu oes, fel y bo'n briodol) ym mhob un o'r chwe chategori yn cael eu cymhwyso

a'r colledion credyd disgwylidig yn cael eu cyfrifo. Mae'r cyfrifiad ar sail llif arian parod wedi'i ddisgowntio lle mae'r llifoedd arian yn cael eu disgowntio gan EIR gwreiddiol y benthyciad.

Mae swm cario ymlaen yr ased ariannol yn cael ei leihau gan y golled amhariad drwy ddefnyddio cyfrif lwfans. Mae adennilliadau dilynol o symiau a ddiddymwyd yn flaenorol yn cael eu credydu yn erbyn y cyfrif lwfans. Mae newidiadau i swm cario ymlaen y cyfrif lwfans yn cael eu cydnabod yn y datganiad incwm cyfunol.

Os, mewn cyfnod dilynol, bydd swm y colledion amhariad yn gostwng a bod y gostyngiad yn gallu cael ei gysylltu'n wrthrychol â digwyddiad a ddigwyddodd ar ôl i'r amhariad gael ei gydnabod, bydd y colledion amhariad a gafodd eu cydnabod yn flaenorol yn cael eu gwrthdroi drwy'r datganiad incwm cyfunol i'r graddau nad yw swm cario ymlaen y buddsoddiad ar y dyddiad y caiff yr amhariad ei wrthdroi yn fwy na'r hyn y byddai'r gost wedi'i hamorteiddio pe na bai'r amhariad wedi cael ei gydnabod.

Ymgorffori gwybodaeth flaengar

Ceir data tebygolrwydd o ddiffygddalu ar gyfer pedair senario macro-economaidd yn y DU (gostyngiad difrifol, gostyngiad, sylfaenol a chynydd), yna mae pwysoliadau cymharol y senarios economaidd blaengar yn cael ei ddefnyddio i gynhyrchu'r allbwn wedi'i bwysoli i'w ddefnyddio yn y model colledion credyd disgwylidig.

Nid yw newidiadau yn y mewnbynnau macro-economaidd yn cael effaith sylweddol ar y ddarpariaeth colledion credyd disgwylidig. Mae ffactorau ychwanegol sy'n gallu dylanwadu ar risg credyd portffolio buddsoddi'r Grŵp, er enghraifft, gallai methiant cyflogwr mawr gael effaith sylweddol ar fusnes yn yr ardal leol a thu hwnt. Mae digwyddiadau o'r fath yn cael eu hystyried fel rhan o asesiad y Pwyllgor Risg o wybodaeth flaengar.

Nodiadau ar y datganiadau ariannol cyfunol

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

4. Risg credyd (parhad)

Cyfrifon hwyr

Mae'r Grŵp yn mesur buddsoddiadau sy'n ddyledus mewn dwy ffordd:

- Ôl-ddyledion net – symiau sy'n hwyr ac sydd heb eu hawdurdodi.
- Ôl-ddyledion gros – symiau sy'n hwyr o'u cymharu ag amserlen wreiddiol y benthyciad, p'un a ydynt wedi'u hawdurdodi ai peidio.

At ddibenion y dull IFRS 9, bydd y cyfrifiad ôl-ddyledion gros yn cael ei ddefnyddio i nodi'r asedau hynny sydd 30 diwrnod yn hwyr. Mae asedau yng Ngham 1 sydd dros 30 diwrnod yn hwyr yn cael eu nodi fel rhai sydd â chynnydd sylweddol mewn risg credyd ac maent yn cael eu symud i Gam 2. Mae cyfnod prawf lle nad yw asedau'n cael eu symud yn ôl i gam 1 nes eu bod wedi bod yn llai na 30 diwrnod yn hwyr am gyfnod o 6 mis.

O fewn IFRS 9 mae trothwy y gellir ei wrthbrofi i asedau sydd dros 90 diwrnod yn hwyr gael eu symud i Gam 3. Bydd asedau yng Nghamau 1 a 2 sydd dros 90 diwrnod yn hwyr eisoes wedi cael eu hadolygu a'u hasesu o fewn ein gweithdrefnau graddio. Efallai fod yr ased wedi cael ei addasu a'i aildrefnu a bod y taliadau nawr yn unol â'r amserlen ddiwygiedig, ond bydd y graddio hefyd wedi cael ei adolygu ac os yw'n briodol a bod tystiolaeth wrthrychol o amhariad bydd wedi cael ei symud i radd D neu E ac felly bydd yng Ngham 3.

Lle mae'r broses adolygu'n dangos nad oes tystiolaeth wrthrychol o amhariad, er gwaethaf ôl-ddyledion gros o fwy na 90 diwrnod, bydd asedau'n aros yng Ngham 2 a bydd y trothwy 90 diwrnod wedi cael ei wrthbrofi.

Cynigwyd gwyliau ad-dalu cyfalaf, am 3 mis i ddechrau, ar draws y portffolio mewn ymateb i effaith y pandemig Covid-19. Er bod y gwyliau hyn yn cael eu hystyried ochr yn ochr â data allweddol arall y mae modd ei arsylwi wrth raddio asedau ac yn yr asesiad o gynnydd sylweddol mewn risg credyd, nid yw rhoi gwyliau ad-dalu Covid-19 yn cael ei ystyried fel dangosydd unigol o gynnydd sylweddol mewn risg credyd. Roedd y meini prawf cymhwysedd yn eang, ac efallai y bydd benthycwyr wedi gofyn am wyliau ad-dalu er mwyn rheoli hylifedd oherwydd amhariad ar lif arian parod yn y tymor byr. Rhoddwyd gwyliau pellach ar ôl y cyfnod cychwynnol o 3 mis yn unol â'n polisïau presennol ac maent yn cael eu hystyried yn sbardun o gynnydd sylweddol mewn risg credyd.

Grwpiau sy'n seiliedig ar nodweddion cyffredin

Pan fydd colledion cyllid disgwyliedig yn cael eu mesur ar sail gyfunol, mae'r offerynnau ariannol yn cael eu grwpio ar sail nodweddion risg sy'n cael eu rhannu, yn benodol:

- Gradd portffolio; a
- Math o fuddsoddiad.

Mae'r grwpiau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod pob grŵp yn cynnwys aelodau sydd yr un mor agored i risg.

Nodiadau ar y datganiadau ariannol cyfunol

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

4. Risg credyd (parhad)

Ansawdd credyd

Dosbarth offeryn ariannol

Mae’r Grŵp yn monitro risg credyd fesul dosbarth o offeryn ariannol. Mae dadansoddiad o grynodiadau risg credyd y Grŵp fesul dosbarth ased ariannol yn cael ei ddarparu yn y tablau canlynol:

Benthyciadau a blaensymiau i gwsmeriaid am gost wedi'i hamorteiddio	2024	2023
	£000	£000
Crynodeiad yn ôl categori:		
Benthyciadau achub ac ailstrwythuro	2,586	2,698
Benthyciadau datblygu eiddo	55,126	49,363
Micro fenthyciadau	14,922	15,710
Benthyciadau busnes Covid-19 Cymru	30,331	44,956
Benthyciadau model buddsoddi cydfuddiannol	18,908	11,757
Benthyciadau prif ffrwd	146,403	117,312
	268,276	241,796
Yn ôl Aeddfedrwydd:		
Benthyciadau i gwsmeriaid sy’n dderbyniadwy mewn llai na blwyddyn	84,992	88,537
Benthyciadau i gwsmeriaid sy’n dderbyniadwy mewn mwy na blwyddyn	183,284	153,259
	268,276	241,796

Nodiadau ar y datganiadau ariannol cyfunol

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

4. Risg credyd (parhad)

Balans yn ol dosbarth, graddfa fewnol a cham

Mae dadansoddiad o ba mor agored yw'r Grŵp i risg credyd yn ôl dosbarth ased ariannol, graddfa fewnol a 'cham' yn cael ei ddarparu yn y tablau canlynol:

Benthyciadau a blaensymiau i gwsmeriaid am gost wedi'i hamorteiddio				2024
				£000
	Cam 1	Cam 2	Cam 3	Cyfanswm
Gradd A-B: Risg isel i weddol	169,046	-	-	169,046
Gradd Micro: Risg isel i weddol	22,304	-	-	22,304
Gradd CWBLS: Risg isel i weddol	9,068	-	-	9,068
Gradd C: Rhybudd cynnar*	1,080	32,319	-	33,399
Gradd A-B: Risg isel i weddol - yn hwyr	-	12,667	-	12,667
Gradd Micro: Risg isel i weddol - yn hwyr	-	5,155	-	5,155
Gradd CWBLS: Risg isel i weddol - yn hwyr	-	1,747	-	1,747
Gradd C: Rhybudd cynnar – yn hwyr	-	6,589	-	6,589
Gradd D: Cynnydd sylweddol mewn risg credyd a thystiolaeth wrthrychol o amhariad	-	-	12,451	12,451
Gradd D: Cynnydd sylweddol mewn risg credyd, tystiolaeth wrthrychol o amhariad ac yn hwyr	-	-	15,834	15,834
Gradd E: Tystiolaeth wrthrychol o amhariad	-	-	42,461	42,461
Cyfanswm swm cario ymlaen gros	201,498	58,477	70,746	330,721
Lwfans colledion	(6,162)	(10,731)	(45,552)	(62,445)
Swm cario ymlaen net	195,336	47,746	25,194	268,276
Cymhareb cwmpas darpariaeth	3.1%	18.4%	64.4%	18.9%

Benthyciadau a blaensymiau i gwsmeriaid am gost wedi'i hamorteiddio (o gymharu â'r flwyddyn flaenorol)				2023
				£000
	Cam 1	Cam 2	Cam 3	Cyfanswm
Gradd A-B: Risg isel i weddol	130,383	-	-	130,383
Gradd Micro: Risg isel i weddol	23,976	-	-	23,976
Gradd CWBLS: Risg isel i weddol	14,037	-	-	14,037
Gradd C: Rhybudd cynnar*	1,992	26,139	-	28,131
Gradd A-B: Risg isel i weddol - yn hwyr	-	7,382	-	7,382
Gradd Micro: Risg isel i weddol - yn hwyr	-	5,313	-	5,313
Gradd CWBLS: Risg isel i weddol - yn hwyr	-	1,760	-	1,760
Gradd C: Rhybudd cynnar – yn hwyr	-	9,719	-	9,719
Gradd D: Cynnydd sylweddol mewn risg credyd a thystiolaeth wrthrychol o amhariad	-	-	12,837	12,837
Gradd D: Cynnydd sylweddol mewn risg credyd, tystiolaeth wrthrychol o amhariad ac yn hwyr	-	-	12,696	12,696
Gradd E: Tystiolaeth wrthrychol o amhariad	-	-	41,272	41,272
Cyfanswm swm cario ymlaen gros	170,388	50,313	66,805	287,506
Lwfans colledion	(4,242)	(7,041)	(34,427)	(45,710)
Swm cario ymlaen net	166,146	43,272	32,378	241,796
Cymhareb cwmpas darpariaeth	2.5%	14.0%	51.5%	15.9%

*Nid yw rhai benthyciadau busnes Covid-19 sydd wedi'u ddsbarthu fel Gradd C yn dangos dangosyddion cynnydd sylweddol mewn risg credyd ac maent yn aros yng Ngham 1.

Nodiadau ar y datganiadau ariannol cyfunol

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

4. Risg credyd (parhad)

Symudiad lwfans colledion yn ystod y flwyddyn

Mae’r tabl isod yn dadansoddi symudiad y lwfans colledion yn ystod y flwyddyn yn ôl dosbarth yr ased:

Benthyciadau a blaensymiau i gwsmeriaid am gost wedi'i hamorteiddio				
				£000
	Cam 1	Cam 2	Cam 3	Cyfanswm
Lwfans colledion ar 1 Ebrill 2023	4,242	7,041	34,427	45,710
Newidiadau yn y lwfans colledion:				
Asedau ariannol newydd a ddaeth i fodolaeth	3,244	-	-	3,244
Trosglwyddiadau i Gam 1	1,264	(947)	(317)	-
Trosglwyddiadau i Gam 2	(763)	1,459	(696)	-
Trosglwyddiadau i Gam 3	(295)	(1,275)	1,570	-
(Gostyngiad)/cynydd o ganlyniad i newidiadau eraill mewn risg credyd	(1,530)	4,453	13,496	16,419
Dileu	-	-	(2,928)	(2,928)
Lwfans colledion ar 31 Mawrth 2024	6,162	10,731	45,552	62,445

Symudiad y swm cario ymlaen yn ystod y flwyddyn

Mae rhagor o wybodaeth am y newidiadau sylweddol yn swm cario ymlaen gros asedau ariannol yn ystod y cyfnod a gyfrannodd at newidiadau yn y lwfans colledion ar gael yn y tabl isod:

Benthyciadau a blaensymiau i gwsmeriaid am gost wedi'i hamorteiddio				
				£000
	Cam 1	Cam 2	Cam 3	Cyfanswm
Swm cario ymlaen gros ar 1 Ebrill 2023	170,388	50,313	66,805	287,506
Newidiadau yn y swm cario ymlaen gros:				
Asedau ariannol newydd a ddaeth i fodolaeth	116,964	-	-	116,964
Trosglwyddiadau i Gam 1	8,023	(6,669)	(1,354)	-
Trosglwyddiadau i Gam 2	(28,015)	31,360	(3,345)	-
Trosglwyddiadau i Gam 3	(7,838)	(8,584)	16,422	-
Dileu	-	-	(2,928)	(2,928)
Newidiadau eraill	(58,024)	(7,943)	(4,854)	(70,821)
Swm cario ymlaen gros ar 31 Mawrth 2024	201,498	58,477	70,746	330,721

Mae newidiadau eraill yn y tabl uchod yn ymwneud yn bennaf ag ad-daliadau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn sydd wedi lleihau’r balansau sy’n weddill ar asedau sy’n dal i gael eu dal ar ddiwedd y flwyddyn.

Y swm contractiol sy’n weddill ar asedau ariannol a gafodd eu dileu yn ystod y cyfnod adrodd ac sy’n dal i fod yn destun gweithgarwch gorfodi yw £dim (2023: £dim).

Asedau ariannol wedi’u haddasu

O ganlyniad i weithgareddau ymwrthod y Grŵp, efallai bod asedau ariannol wedi cael eu haddasu. Nid oes enillion na cholledion addasu net o asedau ariannol lle nad yw’r addasiad wedi arwain at ddatgrydnabod.

Nodiadau ar y datganiadau ariannol cyfunol

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

5. Refeniw ac incwm gweithredol arall

Mae dadansoddiad o refeniw'r Grŵp, sydd i gyd yn codi yn y DU, fel a ganlyn:

	2024	2023
	£000	£000
Refeniw		
Refeniw llog wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol	18,337	14,257
Refeniw llog arall	3,811	4,487
Ffioedd	9,884	10,051
Difidendau	121	10
	32,153	28,805
Incwm gweithredol arall		
Incwm grant Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF)	20,015	20,340
Incwm grant arall	526	246
Enillion/(colledion) gwerth teg ar asedau ecwiti a rennir	34,756	(50,638)
Gwerth teg (colledion) ar gronfeydd heb eu cyfuno	-	(30)
Gwerth teg (colledion) ar asedau ariannol eraill	(80)	(30,318)
Enillion wedi'u gwireddu o waredu asedau ecwiti a rennir	7,939	13,603
Cyfanswm refeniw ac incwm gweithredu arall/(traul)	95,309	(17,992)

6. Elw gweithredol

	2024	2023
	£000	£000
Cyfrifwyd yr elw gweithredol ar ôl codi tâl:		
Amorteiddiad asedau anniriaethol	282	89
Dibrisiad gosodiadau a ffitiadau	446	442
Dibrisiad asedau hawl i ddefnyddio	306	389
Enillion y cyfarwyddwyr a chostau staff (gweler Nodyn 7)	20,674	18,811
Darpariaeth ar gyfer cynllun cymhelliant gohiriedig	537	469
Traul grant mewn perthynas â benthyciad ar gyfradd is na chyfradd y farchnad	265	180
Amhariad ar fenthyciadau	18,186	16,816
Tâl yr archwilydd		
Ffioedd sy'n daladwy i archwilydd y Cwmni am archwilio datganiadau ariannol y Cwmni	199	131
Ffioedd sy'n daladwy i archwilydd y Cwmni am wasanaethau eraill i'r Grŵp: Archwiliad o is-gwmnïau'r Cwmni	369	362
Cyfanswm ffioedd archwilio	568	493
Ffioedd sy'n daladwy am ddarparu gwasanaethau sicrwydd:		
Archwilio asedau cleientiaid	23	22
Adroddiadau'r Grŵp	20	-
Cyfanswm ffioedd sydd ddim yn ymwneud ag archwilio	43	22

Mae ffioedd archwilio datganiadau ariannol y Cwmni yn cynnwys gor-rediad costau o £80k sy'n gysylltiedig ag archwiliad y flwyddyn flaenorol (2023: £dim).

Nodiadau ar y datganiadau ariannol cyfunol

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

7. Gwybodaeth am gyfarwyddwyr a gweithwyr

	2024	2023
	£000	£000
Enillion y Cyfarwyddwyr		
Cyflogau	668	607
Costau Pensiwn	76	53
	744	660

Tâl y cyfarwyddwr uchaf ei gyflog	260	217
-----------------------------------	-----	-----

Roedd un cyfarwyddwr (2023: un) o'r Cwmni a thri chyfarwyddwr (2023: tri) o is-gwmnïau yn aelodau o'r cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio.

	2024	2023
	£000	£000
Costau cyflogres cronrus		
Cyflogau	16,860	15,229
Costau nawdd cymdeithasol	1,818	1,732
Costau Pensiwn	1,996	1,850
	20,674	18,811

	2024	2023
	Nif	Nif
Nifer y bobl sy'n cael eu cyflogi bob mis ar gyfartaledd (heb gynnwys cyfarwyddwyr a gweithwyr asiantaeth dros dro):		
Gweinyddiaeth	64	62
Rheoli Cronfeydd	217	203
	281	265

8. Incwm llog arall

	2024	2023
	£000	£000
Llog banc	41,624	12,851
Enillion net ar asedau'r cynllun pensiwn	200	40
	41,824	12,891

9. Costau cyllid

	2024	2023
	£000	£000
Llog tybiannol ar fenthyciadau LIC	2,934	9,302
Llog ar rwymedigaethau prydles	38	50
	2,972	9,352

Nodiadau ar y datganiadau ariannol cyfunol
Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

10. Treth

	2024	2023
	£000	£000
Y dreth gyfredol		
Tal treth gorfforaeth y DU am y flwyddyn	2,812	-

Mae’r gwahaniaeth rhwng y dreth gyfredol sydd i’w gweld uchod a’r swm sy’n cael ei gyfrifo drwy osod cyfradd safonol treth gorfforaeth y DU ar yr elw/(colledion) cyn treth fel a ganlyn:

	2024	2023
	£000	£000
Elw/(colledion) ar weithgareddau arferol cyn treth	40,776	(24,050)
Treth ar 25% (2023: 19%)	10,194	(4,569)
Ffactorau sy’n effeithio ar y tâl am y flwyddyn		
Treuliau nad oes modd eu didynnu	4,567	1,663
Treth ohiriedig heb ei chydabod	(1,801)	5,825
Cyfranddaliadau partneriaeth	1,016	754
Incwm di-dreth	(11,164)	(3,715)
Enillion trethadwy	-	42
Cyfanswm tal treth	2,812	-

Nid yw ased treth gohiriedig net wedi cael ei gydnabod mewn perthynas â gwahaniaethau amseru sy’n ymwneud â cholledion ariannol heb fod yn fasnachol, treuliau rheoli gormodol, costau pensiwn cronedig ac enillion gwerth teg mewn perthynas â buddsoddiadau mewn aelodau cyswllt a cholledion cyfalaf. Byddai’r ased yn cael ei adennill pe bai digon o elw addas yn y dyfodol i amsugno pob ased o’r fath. Ar 25% o asedau treth gros, y dreth ohiriedig sydd heb gael ei chydabod yn y cyswllt hwn yw £22,112k (2023: asedau treth gohiriedig sydd heb eu cydnabod ar 25% yw £25,203k).

Prif gyfradd y dreth gorfforaeth yw 25% ac mae’r gyfradd hon wedi cael ei defnyddio i gyfrifo treth ohiriedig yn y datganiadau ariannol hyn. (2023: 25% a ddefnyddiwyd i gyfrifo treth ohiriedig).

Nodiadau ar y datganiadau ariannol cyfunol

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

11. Asedau anniriaethol

	2024	2023
	£000	£000
Grŵp a Chwmni		
Meddalwedd		
Cost		
Ar 1 Ebrill	1,143	1,143
Ychwanegiadau	530	-
Ar 31 Mawrth	1,673	1,143
Amorteiddiad cronedig		
Ar 1 Ebrill	126	37
Tâl am y flwyddyn	282	89
Ar 31 Mawrth	408	126
Gwerth net ar bapur		
Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol	1,265	1,017
Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol	1,017	1,106

12. Eiddo, offer a chyfarpar

	Tir ac adeiladau		Gosodiadau, ffitiadau a chyfarpar		Cyfanswm	
Grŵp a Chwmni	2024	2023	2024	2023	2024	2023
	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Cost						
Ar 1 Ebrill	3,268	4,458	2,281	2,254	5,549	6,712
Ychwanegiadau	253	-	135	140	388	140
Gwarediadau	-	(1,190)	(289)	(113)	(289)	(1,303)
Ar 31 Mawrth	3,521	3,268	2,127	2,281	5,648	5,549
Dibrisiant cronedig						
Ar 1 Ebrill	1,353	1,365	1,228	899	2,581	2,264
Tâl am y flwyddyn	306	389	446	442	752	831
Gwarediadau	-	(401)	(289)	(113)	(289)	(514)
Ar 31 Mawrth	1,659	1,353	1,385	1,228	3,044	2,581
Gwerth net ar bapur						
Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol	1,862	1,915	742	1,053	2,604	2,968
Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol	1,915	3,093	1,053	1,355	2,968	4,448

Mae'r holl dir ac adeiladau'n cael eu dosbarthu fel asedau hawl-i-ddefnyddio gyda rhwymedigaeth prydles gyfatebol ac maent yn cael eu dibrisio dros oes y brydles. Mae gwarediadau yn cynrychioli prydles a ildwyd yn ystod y flwyddyn.

Nodiadau ar y datganiadau ariannol cyfunol

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

13. Asedau ariannol ar werth teg

	2024	2023
	£000	£000
Asedau rhannu ecwiti	355,528	325,111
Buddsoddiadau ecwiti	60,586	55,402
Buddsoddiadau mewn cronfeydd heb eu cyfuno	400	400
Nodiadau benthyciad trosiadwy	7,691	8,846
	424,205	389,759

Mae’r holl asedau ariannol ar werth teg yn cael eu mesur yn orfodol ar werth teg drwy elw neu golledion yn unol ag IFRS 9.

Mae benthyciadau rhannu ecwiti yn ymwneud â’r cytundebau hynny yr ymrwymwyd iddynt o dan y cynllun Cymorth i Brynu - Cymru ac mae rhagor o wybodaeth ynglŷn â’r gwerth cario ymlaen i’w gweld yn Nodiadau 3 a 19. Y swm cario ymlaen sy’n amlygu’r risg credyd mwyaf o fenthyciadau rhannu ecwiti yn y cyfnod cyfredol a’r cyfnod blaenorol. Mae gwir enillion a cholledion y portffolio yn cael eu trosglwyddo’n ôl i Lywodraeth Cymru felly mae’r effaith gyffredinol ar y Grŵp yn gyfyngedig.

14. Asedau ariannol eraill

Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	2024	2023
	£000	£000
Asedau cyfredol		
Dyledwyr masnach	212	193
	212	193
Benthyciadau derbyniadwy wedi’u cario ar gost wedi’i hamorteiddio	108,887	111,828
Amhariad	(23,895)	(23,291)
	84,992	88,537
Dyledwyr eraill	5,753	7,266
Rhagdaliadau	1,076	1,008
	92,033	97,004
Asedau anghyfredol		
Benthyciadau derbyniadwy wedi’u cario ar gost wedi’i hamorteiddio	221,834	175,678
Amhariad	(38,550)	(22,419)
	183,284	153,259

Mae’r Grŵp yn ymrwymo i gytundebau i roi benthyciadau i fusnesau yng Nghymru. Mae’r benthyciadau sy’n cael eu rhoi yn gymysgedd o fenthyciadau heb eu gwarantu a benthyciadau wedi’u gwarantu. Mae’r gwarant dros asedau parti i gontract. Y swm cario ymlaen sy’n amlygu’r risg credyd mwyaf o fenthyciadau a dderbyniwyd yn y cyfnod cyfredol a’r cyfnod blaenorol. Mae swm cario ymlaen yr asedau hyn tua’r un faint â’u gwerth teg.

Cyn derbyn unrhyw gwsmer newydd, mae’r Grŵp yn dilyn ei ganllawiau gweithredu buddsoddi i asesu ansawdd credyd y cwsmer posibl a diffinio sut mae’r cwsmer yn cael ei dderbyn. Mae’r gallu i adennill benthyciadau a roddwyd yn cael ei adolygu bob mis.

Mae’r benthyciadau derbyniadwy a ddatgelwyd uchod yn cynnwys symiau sy’n hwyr ar y dyddiad adrodd ond nad yw’r Grŵp wedi cydnabod lwfans ar gyfer symiau derbyniadwy amheus oherwydd na fu newid sylweddol mewn ansawdd credyd ac mae’r symiau (sy’n cynnwys llog a gronnwyd ar ôl i’r swm derbyniadwy fod yn hwyr) yn parhau i gael eu hystyried yn rhai y mae modd eu hadennill.

Nodiadau ar y datganiadau ariannol cyfunol

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

15. Arian parod a’r hyn sy’n gyfwerth ag arian parod

Mae arian parod a’r hyn sy’n gyfwerth ag arian parod yn cynnwys arian parod, adneuron banc tymor byr gyda chyfnod rhybudd o 3 mis neu lai ac adneuron cyfnod penodol y mae modd eu hadhawlio o fewn y 3 mis nesaf. Mae swm cario ymlaen yr asedau hyn tua’r un faint â’u gwerth teg.

	2024	2023
	£000	£000
Arian parod yn y banc ac mewn llaw	122,139	339,671
Adneuron Tymor Byr	855,356	758,566
Adneuron Cyfnod Penodol	150,000	-
Arian a chyfwerth ag arian	1,127,495	1,098,237

Mae’r risg credyd ar gronfeydd hylif yn gyfyngedig oherwydd mae’r rhan fwyaf o’r cronfeydd hylifol yn nwylo prif fancwyr y Grŵp - Barclays Bank plc, Lloyds Bank plc, NatWest plc, Handelsbanken, HSBC plc, Santander UK plc a Chymdeithas Adeiladu Nationwide (pob un yn fanc sydd â statws credyd uchel wedi’i neilltuo gan asiantaethau graddio credyd rhyngwladol) - ac mae gofal yn cael ei gymryd i sicrhau nad oes crynodiad sylweddol o risg credyd gydag un endid penodol.

16. Rhwymedigaethau ariannol eraill

Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	2024	2023
	£000	£000
Rhwymedigaethau cyfredol		
Symiau masnach taladwy a chroniadau	6,026	8,232
Trethi a nawdd cymdeithasol	5,414	2,566
Credydwyrr eraill	2,602	1,627
Symiau sy’n ddyledus i’r prif gyfranddaliwr sy’n cael eu dal ar gost wedi’i hamorteiddio	63,922	32,342
Symiau sy’n ddyledus i’r prif gyfranddaliwr sy’n cael eu dal ar werth teg	2,830	2,440
	80,794	47,207
Rhwymedigaethau anghyfredol		
Symiau sy’n ddyledus i’r prif gyfranddaliwr sy’n cael eu dal ar gost wedi’i hamorteiddio	678,875	703,447
Symiau sy’n ddyledus i’r prif gyfranddaliwr sy’n cael eu dal ar werth teg	722,039	659,766
Credydwyrr eraill	609	286
	1,401,523	1,363,499

Nid oes symiau masnach taladwy yn hwyr a bydd y symiau masnach taladwy a chredydwyrr eraill yn cael eu setlo o fewn y cyfnod credyd sy’n cael ei gynnig gan y parti i gcontract.

O fewn y symiau presennol sy’n ddyledus i brif gyfranddalwyr sy’n cael eu dal ar gost wedi’i hamorteiddio, mae £29,614k (2023: £32,342k) yn ad-daladwy ar alw. Mae’r balans hwn yn cael ei anwybyddu wrth gysoni newidiadau mewn symiau sy’n ddyledus i brif gyfranddaliwr a’r dadansoddiad aeddfedrwydd isod sy’n ymwneud â rhwymedigaethau cyllido.

Mae’r holl symiau eraill sy’n ddyledus i’r prif gyfranddaliwr yn ymwneud ag arian wrth gefn ar gyfer trafodion ariannol a chyllid cyfalaf craidd ac maent yn ad-daladwy erbyn 31 Mawrth 2049. Nid yw’r benthyciadau hyn wedi’u gwarantu ac nid ydynt yn dwyn llog.

Mae gwerth teg y rhwymedigaethau cyllido i’w weld yn y tabl isod. Mae’r Cyfarwyddwyr o’r farn bod swm cario ymlaen yr holl rwymedigaethau ariannol eraill yn frasamcan o’r gwir werth.

Nodiadau ar y datganiadau ariannol cyfunol

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

16. Rhwymedigaethau ariannol eraill (parhad)

Cysoni newidiadau mewn symiau sy’n ddyledus i’r prif gyfranddaliwr sydd yn rhwymedigaethau cyllido:

	Symiau sy’n cael eu dal ar gost wedi’i hamorteiddio	Symiau sy’n cael eu dal ar werth teg	2024	Symiau sy’n cael eu dal ar gost wedi’i hamorteiddio	Symiau sy’n cael eu dal ar werth teg	2023
	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Balans ar 1 Ebrill	703,447	662,206	1,365,653	714,334	701,332	1,415,666
Cyllid LIC wedi’i ad-dalu	(300)	(2,440)	(2,740)	(24,700)	(2,090)	(26,790)
Cyllid LIC a dderbyniwyd	7,102	22,408	29,510	4,511	-	4,511
Llog a godwyd	2,934	-	2,934	9,302	-	9,302
Newidiadau FV	-	42,695	42,695	-	(37,036)	(37,036)
Ecwiti cyhoeddus	-	-	-	-	-	-
Is-gyfanswm	9,736	62,663	72,399	(10,887)	(39,126)	(50,013)
Balans 31 Mawrth	713,183	724,869	1,438,052	703,447	662,206	1,365,653
Gwerth Teg ar 31 Mawrth	555,180	724,869	1,280,049	612,045	662,206	1,274,251

DADANSODDIAD O AEDDFEDRWYDD:

	Symiau sy’n cael eu dal ar gost wedi’i hamorteiddio	Symiau sy’n cael eu dal ar werth teg	2024	Symiau sy’n cael eu dal ar gost wedi’i hamorteiddio	Symiau sy’n cael eu dal ar werth teg	2023
	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Yn ddyledus mewn llai na blwyddyn	34,307	2,830	37,137	-	2,440	2,440
Yn ddyledus rhwng 1 a 5 mlynedd	190,714	22,260	212,974	222,543	16,570	239,113
Yn ddyledus ar ôl 5 mlynedd	488,162	699,779	1,187,941	480,904	643,196	1,124,100
	713,183	724,869	1,438,052	703,447	662,206	1,365,653

Nodiadau ar y datganiadau ariannol cyfunol

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

17. Cynlluniau buddion ymddeol

Grŵp a Chwmni

Mae Grŵp Banc Datblygu Cymru yn gweithredu cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig a chynllun pensiwn buddion diffiniedig.

Cynllun cyfraniadau diffiniedig

Mae cynllun cyfraniadau diffiniedig yn drefniant pensiwn lle mae'r buddion yn gysylltiedig â'r cyfraniadau a wnaed a pherfformiad buddsoddiadau dewisol pob unigolyn.

Mae cyfraniadau'n cael eu talu i gronfa sy'n cael ei gweinyddu'n annibynnol. Rydym yn cyflogi gwasanaethau trydydd parti annibynnol i adrodd i ni bob blwyddyn ar berfformiad y gronfa a hefyd a yw'r gronfa fuddsoddi ddiofyn yn parhau i fod yn addas i'r diben.

Mae cyfanswm y gost sy'n cael ei chofnodi ar gyfer incwm, sef £1,087k (2023: £938k) yn cynrychioli'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun hwn gan y Grŵp, ar gyfraddau a nodwyd yn rheolau'r cynlluniau. Ar 31 Mawrth 2024, nid oedd dim cyfraniadau (2023: £dim) yn ddyledus mewn perthynas â'r cyfnod adrodd presennol nad oeddent wedi cael eu talu i'r cynlluniau.

Cynllun buddion diffiniedig

Mae cynllun buddion diffiniedig yn drefniant pensiwn lle mae aelodau sy'n cymryd rhan yn cael budd pensiwn ar ôl ymddeol sy'n cael ei bennu gan reolau'r cynllun yn dibynnu ar ffactorau fel oedran, hyd gwasanaeth a thâl

pensiynadwy. Nid yw'n dibynnu'n llwyr ar gyfraniadau'r Grŵp neu'r aelodau.

Mae cynllun buddion diffiniedig y Grŵp yn rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, sy'n gynllun a ariennir gan sawl cyflogwr sy'n darparu pensiynau a buddion cysylltiedig ar sail cyfartaledd gyrfa. Cafodd y cynllun hwn ei gau i newydd-ddyfodiaid ar 28 Chwefror 2010. Mae asedau'r cynllun yn cael eu dal ar wahân i asedau'r Grŵp ac maent yn cael eu gweinyddu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae buddion ymddeol ychwanegol yn cael eu rhoi yn unol â Rheoliadau Llywodraeth Leol (lawndal am Ymddeoliad Cynamserol) 1982 ac mae'r buddion hyn yn cael eu rhoi ar sail talu wrth ddefnyddio.

Nid yw'r Grŵp yn ymwybodol o unrhyw risgiau penodol y mae'r cynllun yn agored iddynt. Mae manylion y dyraniad asedau wedi'u nodi isod.

Pe bai'r Grŵp yn tynnu'n ôl o'r cynllun, byddai'r gwarged neu'r diffyg sy'n deillio o hynny'n cael ei ddyrannu i'r Grŵp.

Mae'r Cwmni a'r is-gwmni DBW FM Limited ill dau yn cymryd rhan yng Nghynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac mae datgeliadau mewn perthynas â chynlluniau pensiwn buddion diffiniedig y Cwmni a DBW FM Limited yn ofynnol o dan ddarpariaethau IAS 19 Buddion Ymddeol, ac mae'r rhain wedi'u nodi isod.

Gwarged cynllun pensiwn cyfunol Grŵp Banc Datblygu Cymru net treth ohriedig:

	2024	2023
	£000	£000
Banc Datblygu Cymru ccc	3,940	1,800
DBW FM Limited	6,700	2,050
Gwarged net	10,640	3,850

Nodiadau ar y datganiadau ariannol cyfunol

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

17. Cynlluniau buddion ymddeol (parhad)

Cynhaliwyd y prisiad actiwaraidd tair blynedd diwethaf ar 31 Mawrth 2022 gan actiwari cymwysedig gan ddefnyddio rhagdybiaethau diwygiedig sy’n gyson â gofynion IAS 19. Dyma’r prif dybiaethau a ddefnyddiwyd ar gyfer prisiad actiwaraidd cynlluniau pensiwn Banc Datblygu Cymru ccc a DBW FM Limited:

Rhadgybiaethau allweddol	2024		2023	
	Banc Datblygu Cymru ccc	DBW FM Ltd	Banc Datblygu Cymru ccc	DBW FM Ltd
Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau	3.85%	3.85%	3.95%	3.85%
Cyfradd y cynnydd mewn pensiynau sy'n cael eu talu	2.6%	2.6%	2.7%	2.6%
Cyfradd y cynnydd mewn pensiynau gohiriedig	2.6%	2.7%	2.7%	2.6%
Cyfradd ddisgownt	4.8%	4.7%	4.7%	4.6%
Rhadgybiaeth chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr	2.6%	2.6%	2.7%	2.6%

Mae’r rhagdybiaethau marwoldeb yn seiliedig ar y marwolaethau a brofwyd yn ddiweddar ymysg aelodau’r Gronfa ac yn caniatáu ar gyfer gwelliannau sydd i’w ddisgwyl yn y dyfodol o ran marwoldeb. Mae disgwyliadau oes enghreifftiol yn 65 oed sy’n deillio o’r rhagdybiaethau marwoldeb hyn i’w gweld isod:

Rhadgybiaethau marwoldeb	31 Mawrth 2024	31 Mawrth 2023	31 Mawrth 2024	31 Mawrth 2023
	Dynion		Menywod	
Aelod 65 oed ar y dyddiad cyfrifyddu	21.0	21.6	23.8	24.2
Aelod 45 oed ar y dyddiad cyfrifyddu	22.3	22.9	25.2	25.7

Roedd dyraniad yr asedau yn y cynlluniau ar ddyddiad y fantolen ar gyfer holl Gronfa Bensiwn Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf fel a ganlyn:

Dyrannu asedau	Rhaniad asedau	Rhaniad asedau
	2024	2023
	%	%
Ecwitis wedi’u Dyfynnu	64.0	68.1
Eiddo	6.5	7.8
Bondiau’r Llywodraeth	12.2	10.5
Bondiau corfforaethol	15.6	12.4
Arian parod	0.4	0.7
Arall	1.3	0.5
Cyfanswm gwerth marchnadol	100.0	100.0

Nodiadau ar y datganiadau ariannol cyfunol

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

17. Cynlluniau buddion ymddeol (parhad)

Cysoni'r statws wedi'i ariannu â'r fantolen	Banc Datblygu Cymru ccc		DBW FM Ltd	
	2024	2023	2024	2023
	£000	£000	£000	£000
Gwerth teg asedau	13,010	11,700	24,390	21,360
Gwerth presennol yr ymrwymiad o ran y buddion diffiniedig sy'n cael eu hariannu	(7,720)	(7,740)	(15,380)	(14,760)
Ased heb ei gydnabod	(1,350)	(2,160)	(2,310)	(4,550)
Gwarged net	3,940	1,800	6,700	2,050

Symiau sy'n cael eu cydnabod yn y datganiad incwm	Banc Datblygu Cymru ccc		DBW FM Ltd	
	2024	2023	2024	2023
	£000	£000	£000	£000
Costau gweithredu				
Cost gwasanaeth cyfredol	100	230	380	810
Cost gwasanaeth blaenorol	-	-	-	-
Cyfanswm ffi gweithredu	100	230	380	810
Cost cyllido				
Llog ar fuddion net diffiniedig (ased)	(90)	(10)	(110)	(30)
Costau pensiwn wedi'u nodi yn yr elw a'r colledion	10	220	270	780

Symiau a gydnabyddir mewn incwm cynhwysfawr arall	Banc Datblygu Cymru ccc		DBW FM Ltd	
	2024	2023	2024	2023
	£000	£000	£000	£000
Enillion/(colledion) o ran asedau yn ystod y cyfnod	760	(1,030)	1,430	(2,020)
Enillion o ran rhwymedigaethau yn ystod y cyfnod	310	3,510	310	7,910
Addasiad mewn perthynas ag ased heb ei gydnabod	910	(810)	2,450	(4,530)
Cyfanswm enillion actwaraidd	1,980	1,670	4,190	1,360

Nodiadau ar y datganiadau ariannol cyfunol

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

17. Cynlluniau buddion ymddeol (parhad)

Newidiadau i werth presennol y rhwymedigaeth buddion diffiniedig	Banc Datblygu Cymru ccc		DBW FM Ltd	
	2024	2023	2024	2023
	£000	£000	£000	£000
Rhwymedigaeth buddion diffiniedig agoriadol	7,740	10,910	14,760	21,340
Cost gwasanaeth cyfredol	100	230	380	810
Costau llog rhwymedigaeth buddion diffiniedig	360	290	680	580
Cyfraniadau gan gyfranogwyr	40	50	230	220
(Enillion) actiwaraidd ar rwymedigaethau	(310)	(3,510)	(310)	(7,910)
Buddion net a dalwyd	(210)	(230)	(360)	(280)
Rhwymedigaeth buddion wedi’u diffinio ar y diwedd	7,720	7,740	15,380	14,760

Newidiadau yng ngwerth teg asedau	Banc Datblygu Cymru ccc		DBW FM Ltd	
	2024	2023	2024	2023
	£000	£000	£000	£000
Gwerth teg agoriadol yr asedau	11,700	12,340	21,360	22,050
Incwm llog ar asedau	550	330	1,000	610
Ail-gyfrifo enillion/(colledion) ar asedau	760	(1,030)	1,430	(2,020)
Cyfraniadau gan gyflogwyr	170	240	730	780
Cyfraniadau gan gyfranogwyr	40	50	230	220
Buddion net a dalwyd	(210)	(230)	(360)	(280)
Gwerth teg cau’r asedau	13,010	11,700	24,390	21,360

Nodiadau ar y datganiadau ariannol cyfunol

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

18. Incwm gohiriedig

Grŵp	ERDF	Arall	2024	2023
	£000	£000	£000	£000
Balans ar 1 Ebrill	20,015	921	20,936	25,074
Grant a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn	-	591	591	16,448
Grant a ryddhawyd i'r datganiad incwm yn ystod y flwyddyn	(20,015)	(526)	(20,541)	(20,586)
Balans ar 31 Mawrth	-	986	986	20,936

Cwmni	ERDF	Arall	2024	2023
	£000	£000	£000	£000
Balans ar 1 Ebrill	20,015	638	20,653	25,074
Grant a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn	-	-	-	15,919
Grant a ryddhawyd i'r datganiad incwm yn ystod y flwyddyn	(20,015)	-	(20,015)	(20,340)
Balans ar 31 Mawrth	-	638	638	20,653

Mae'r refeniw gohiriedig ERDF uchod yn ymwneud â grantiau a dderbyniwyd gan Fanc Datblygu Cymru ccc gan ERDF a Gweinidogion Cymru y mae Banc Datblygu Cymru ccc wedi'u trosglwyddo i'w is-gwmni - DBW Investments (14) Cyfyngedig - i'w buddsoddi o fewn meini prawf y grantiau. Mae'r credydwy'r yn cydnabod rhwymedigaeth Banc Datblygu Cymru ccc i ad-dalu i'r ERDF a Gweinidogion Cymru unrhyw grant a dderbyniwyd sydd heb gael ei fuddsoddi'n briodol o fewn y terfyn amser a bennwyd. Mae'r credydwy'r yn cael eu paru yn ôl dyledwyr cyfatebol sy'n ddyledus gan DBW Investments (14) Cyfyngedig ar gyfer yr incwm grant sydd heb ei fuddsoddi. Mae'r credydwy'r a'r dyledwyr yn cael eu lleihau pan mae DBW Investments (14) Cyfyngedig yn gwneud buddsoddiad cymwys.

Mae refeniw gohiriedig arall yn ymwneud ag incwm grant mewn perthynas â'r Cynllun Cymorth i Lesddeiliaid (Grŵp a Chwmni) a'r Cynllun Cymorth i Aros – Cymru (Grŵp).

19. Offerynnau ariannol

Polisiau cyfrifyddu arwyddocaol

Mae manylion y polisiau a'r dulliau cyfrifyddu arwyddocaol a fabwysiadwyd, gan gynnwys y meini prawf ar gyfer cydnabod, sail y mesur a'r sail ar gyfer cydnabod incwm a threuliau, mewn perthynas â phob dosbarth o ased ariannol, rhwymedigaeth ariannol ac offeryn ecwiti yn cael eu datgelu yn Nodyn 2 y datganiadau ariannol.

Categoriâu o offerynnau ariannol

Mae offerynnau ariannol y Grŵp yn cynnwys buddsoddiadau mewn busnesau ar ffurf benthyciadau neu ecwiti, offerynnau ariannol deilliadol, symiau masnach derbyniadwy a symiau taladwy sy'n deillio o'i weithrediadau. Pwrrpas yr offerynnau yw codi arian ar gyfer y Grŵp, a buddsoddi mewn busnesau yng Nghymru.

Nid yw'r Grŵp yn masnachu nac yn ymrwymo i offerynnau ariannol, gan gynnwys offerynnau ariannol deilliadol, at ddibenion hapfasnachol.

Mae'r nodyn polisi cyfrifyddu yn disgrifio sut mae'r dosbarthiadau o offerynnau ariannol yn cael eu mesur, a sut mae incwm a threuliau, gan gynnwys enillion a cholledion gwerth teg, yn cael eu cydnabod. Mae'r tabl canlynol yn dadansoddi'r asedau a'r rhwymedigaethau ariannol yn y fantolen yn ôl y dosbarth o offeryn ariannol y maent wedi'u neilltuo iddo ac yn ôl y sail fesur.

Nodiadau ar y datganiadau ariannol cyfunol

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

19. Offerynnau ariannol (parhad)

Gwerth cario ymlaen ar 31 Mawrth 2024	Nodyn	Asedau ariannol a rhwymedigaethau ar gost wedi'i hamorteiddio	Asedau ariannol a rhwymedigaethau a ddynodwyd ar FVTPL	Cyfanswm
		£000	£000	£000
Asedau				
Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod		1,127,495	-	1,127,495
Asedau ariannol:				
Wedi'u mesur ar bris y farchnad	i	-	6,804	6,804
Wedi'u mesur ar werth teg gan ddefnyddio dulliau eraill	ii	-	61,873	61,873
Benthyciadau i gwsmeriaid	iii	268,276	-	268,276
Benthyciadau rhannu ecwiti	v	-	355,528	355,528
Symiau derbyniadwy eraill	iii	7,041	-	7,041
Cyfanswm asedau ariannol		1,402,812	424,205	1,827,017
Asedau nad ydynt yn ariannol				14,509
Cyfanswm asedau				1,841,526
		£000	£000	£000
Rhwymedigaethau				
Symiau sy'n ddyledus i'r prif gyfranddaliwr ar gost wedi'i hamorteiddio	iv	742,797	-	742,797
Symiau sy'n ddyledus i'r prif gyfranddaliwr ar werth teg	v	-	724,869	724,869
Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	iv	16,513	-	16,513
Cyfanswm rhwymedigaethau ariannol		759,310	724,869	1,484,179
Rhwymedigaethau nad ydynt yn ariannol				986
Cronfeydd wrth gefn				356,361
Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn a'r rhwymedigaethau				1,841,526

Yn ystod y flwyddyn bresennol, nid oedd unrhyw asedau o fewn Lefel 2 yr hierarchaeth gwerth teg (2023 - £dim), ac nid oedd unrhyw drosoglwyddiadau rhwng Lefel 1 a Lefel 2 yr hierarchaeth gwerth teg.

Nodiadau ar y datganiadau ariannol cyfunol

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

19. Offerynnau ariannol (parhad)

Gwerth cario ymlaen ar 31 Mawrth 2023	Nodyn	Asedau ariannol a rhwymedigaethau ar gost wedi'i hamorteiddio	Asedau ariannol a rhwymedigaethau a ddynodwyd ar FVTPL	Cyfanswm
		£000	£000	£000
Asedau				
Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod		1,098,237	-	1,098,237
Asedau ariannol:				
Wedi'u mesur ar bris y farchnad	i	-	7,628	7,628
Wedi'u mesur ar werth teg gan ddefnyddio dulliau eraill	ii	-	57,020	57,020
Benthyciadau i gwsmeriaid	iii	241,796	-	241,796
Benthyciadau rhannu ecwiti	v	-	325,111	325,111
Symiau derbyniadwy eraill	iii	8,468	-	8,468
Cyfanswm asedau ariannol		1,348,501	389,759	1,738,260
Asedau nad ydynt yn ariannol				7,834
Cyfanswm asedau				1,746,094
Rhwymedigaethau				
Symiau sy'n ddyledus i'r prif gyfranddaliwr ar gost wedi'i hamorteiddio	iv	735,789	-	735,789
Symiau sy'n ddyledus i'r prif gyfranddaliwr ar werth teg	v	-	662,206	662,206
Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	iv	14,616	-	14,616
Cyfanswm rhwymedigaethau ariannol		750,405	662,206	1,412,611
Rhwymedigaethau nad ydynt yn ariannol				20,936
Cronfeydd wrth gefn				312,547
Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn a'r rhwymedigaethau				1,746,094

Nodiadau ar y datganiadau ariannol cyfunol

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

19. Offerynnau ariannol (parhad)

Mae'r dulliau a'r rhagdybiaethau canlynol wedi cael eu defnyddio i bennu gwerthoedd teg.

Nodiadau:

i) Gwerth teg buddsoddiadau mewn gwarannau a ddyfynnwyd mewn marchnad weithredol yw pris y farchnad ar ddyddiad y fantolen (hierarchaeth lefel 1 fel mae'n cael ei ddiffinio isod).

ii) *Cronfeydd heb eu cyfuno - £400k (2023: £400k)*

Buddsoddiadau mewn Partneriaethau Cyfyngedig a sefydlwyd i ddal cronfeydd buddsoddi amrywiol yw buddsoddiadau mewn cronfeydd heb eu cyfuno. Mae'r gwerth teg hwn yn deillio o'r symiau y mae'r Grŵp yn disgwyl eu cael pan fydd pob cronfa yn dod i ben yn unol â'r cytundebau Partneriaeth Gyfyngedig priodol (hierarchiaeth lefel 3 fel mae'n cael ei ddiffinio isod).

Nodiadau benthyciad trosiadwy - £7,691k (2023: £8,846k)

Mae nodiadau benthyciadau trosiadwy yn cael eu categorïddio fel offerynnau hybrid gan fod y nodwedd trosi ecwiti yn cynrychioli deilliad wedi'i wreiddio. Mae offerynnau hybrid, gan gynnwys elfennau deilliadol, yn gofyn am fodolau prisio cymhleth i bennu gwerth yr offeryn.

Yn gyffredinol, mae'r gwerth teg ar y dechrau yn hafal i bris y trafodiad, mae modelau prisio dilynol yn ystyried y ddyled sy'n weddill, yr opsiwn trosi (nad yw wedi'i arfer eto) a'r gwerth ecwiti posibl yn y dyfodol (hierarchiaeth lefel 3 fel mae'n cael ei ddiffinio isod).

Buddsoddiadau ecwiti heb eu rhestru - £53,782k (2023: £47,774k)

Mae buddsoddiadau ecwiti heb eu rhestru yn cael eu prisio gan ddefnyddio technegau gwahanol yn unol â pholisi prisio'r Grŵp a Chanllawiau Cyfalaf Menter ac Ecwiti Preifat Rhyngwladol.

Yn dibynnu ar amgylchiadau'r buddsoddiad, mae prisiadau ecwiti heb

eu rhestru yn seiliedig ar luosrifau, llifoedd arian parod wedi'u disgowntio, gwerthoedd asedau net neu bris digwyddiad, a all fod naill ai'n bris rownd gyllido ddiweddar, cynnig i brynu'r buddsoddiad neu'r gost yn achos buddsoddiad uniongyrchol newydd.

- Mae nifer o luosrifau'n cael eu defnyddio i brisio'r portffolio gan gynnwys refeniw, enillion cyn llog a threth ac enillion cyn llog, treth, dibrisiant ac amorteiddiad. Mae'r lluosrif penodol a ddewiswyd yn briodol ar gyfer y math o fusnes sy'n cael ei brisio ac mae'n deillio o gyfeirio at y lluosrif presennol sy'n seiliedig ar y farchnad (hierarchaeth lefel 3 fel mae'n cael ei ddiffinio isod).

Mewnbynnau arwyddocaol nad oes modd eu harsylwi:

Lluosrif enillion, lluosrif refeniw, addasiadau sy'n cael eu gwneud i luosrifau ar gyfer ffactorau fel maint y cwmni ac ansawdd ei enillion, ac addasiadau sy'n cael eu gwneud i fewnbynnau ariannol e.e. enillion y mae modd eu cynnal. Mae prisiadau'n sensitif i bob un o'r mewnbynnau hyn, er enghraifft byddai gostyngiad/cynnydd yn y lluosrif enillion sy'n cael ei ddefnyddio yn arwain at ostyngiad/cynnydd sylweddol yng ngwerth teg yr eitemau.

- Mae prisiadau llifoedd arian parod wedi'u disgowntio yn defnyddio llifoedd arian parod amcangyfrifedig yn y dyfodol, fel arfer yn seiliedig ar ragolygon rheoli, wedi'u disgowntio gan ddefnyddio cyfraddau sy'n briodol i'r buddsoddiad penodol, (hierarchiaeth lefel 3 fel mae'n cael ei ddiffinio isod).

Mewnbynnau arwyddocaol nad oes modd eu harsylwi:

Cyfradd ddisgownt wedi'i addasu ar gyfer risg, rhagolygon llif arian parod. Mae prisiadau'n sensitif i bob un o'r mewnbynnau hyn.

Nodiadau ar y datganiadau ariannol cyfunol

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

19. Offerynnau ariannol (parhad)

- Mae pris digwyddiad diweddar fel rownd ariannu, cynnig neu gost buddsoddiad yn rhoi mewnbynnau y mae modd eu harsylwi i brisiad buddsoddiad unigol. Fodd bynnag, mae'n ofynnol bod Cyfarwyddwyr yn asesu a yw'r digwyddiad yn ddangosydd dibynadwy o werth teg. Yn dilyn hynny, rhaid i'r Cyfarwyddwyr ailasesu a yw hyn yn parhau i fod yn wir ar ddiwedd pob blwyddyn, ac mae'r naill a'r llall yn arwain at fewnbynnau nad oes modd eu harsylwi yn y fethodoleg brisio (hierarchaeth lefel 3 fel mae'n cael ei ddiffinio isod).

Mewnbynnau arwyddocaol nad oes modd eu harsylwi: Gwybodaeth sy'n benodol i fuddsoddiad, gan gynnwys y prisiad ymhlyg a strwythur cyfalaf y trafodiad. Mae prisiadau'n sensitif i'r asesiad o b'un ai yw digwyddiad yn cael ei ystyried yn ddangosydd dibynadwy o werth teg.

- Mae gwerthoedd asedau net yn cael eu haddasu i ystyried gwahaniaethau yng ngwerth teg asedau net sylfaenol i'w gwerthoedd cario ymlaen (hierarchaeth lefel 3 fel mae'n cael ei ddiffinio isod).

Mewnbynnau arwyddocaol nad oes modd eu harsylwi: Gwerthoedd ased net sylfaenol ac addasiadau a'r werthoedd cario ymlaen. Mae prisiadau yn sensitif i addasiadau i'r gwerth cario ymlaen.

Mae'r tabl isod yn crynhoi mesuriadau gwerth teg buddsoddiadau ecwiti heb eu rhestru:

	2024	2023
	£000	£000
Lluosrifau	24,739	10,517
Llifoedd arian parod wedi'u disgowntio	-	1,056
Pris digwyddiad diweddar	24,647	34,438
Gwerth ased net	4,396	1,763
Balans ar 31 Mawrth	53,782	47,774

- iii) Mae benthyciadau i gwsmeriaid a symiau derbyniadwy eraill yn cael eu mesur gan ddefnyddio sail cost wedi'i hamorteiddio a'u cyfrifo gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol.
- iv) Mae gwerth teg symiau sy'n ddyledus i'n prif gyfranddaliwr, trydydd partïon eraill, cyfalaf cyfranddaliadau ac ecwiti cyhoeddus yn cyfateb yn fras i'w swm cario ar ddyddiad y fantolen.
- v) Mae gwerth teg y llyfr benthyciadau Help i Brynu - Cymru wedi cael ei gyfrifo drwy nodi'r llifoedd arian parod disgwyledig yn y dyfodol a disgowntio'r rhain ar gyfradd gyllido briodol (hierarchaeth lefel 3 fel mae'n cael ei ddiffinio isod). Gweler Nodyn 3 am ragor o wybodaeth.

Mae hierarchaeth y Grŵp ar gyfer mesur datgeliadau gwerth teg fel a ganlyn:

- Lefel Hierarchaeth ar gyfer datgeliadau gwerth teg
1. Prisiau wedi'u dyfynnu (heb eu haddasu) mewn marchnadoedd gweithredol ar gyfer asedau neu rwymedigaethau union yr un fath.
 2. Mewnbynnau ar wahân i'r prisiau a ddyfynnwyd sydd wedi'u cynnwys o fewn lefel 1 y mae modd eu harsylwi ar gyfer yr ased neu'r rhwymedigaeth naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.
 3. Mewnbynnau ar gyfer yr ased neu'r rhwymedigaeth sydd ddim yn seiliedig ar ddata'r farchnad y mae modd eu harsylwi. Mae buddsoddiadau mewn gwarannau heb eu dyfynnu yn cael eu prasio gan ddefnyddio technegau prasio amrywiol sy'n gofyn am benderfyniadau rheoli arwyddocaol wrth bennu tybiaethau priodol, gan gynnwys lluosrifau enillion a llifoedd arian parod amcangyfrifedig yn y dyfodol gan ddefnyddio prisiad diweddar o'r busnes ar gyfer cylch cyllido, neu ddefnyddio cynnig diweddar gan ddarpar brynwr.

Nodiadau ar y datganiadau ariannol cyfunol

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

19. Offerynnau ariannol (parhad)

Cysoni mesuriadau lefel 3 asedau ariannol	FVTPL		FVTPL	
	Llyfr benthyciadau rhannu ecwiti		Asedau ariannol eraill	
	2024	2023	2024	2023
	£000	£000	£000	£000
Balans 1 Ebrill	325,111	405,674	57,020	63,902
Ychwanegiadau	25,875	20,128	9,117	15,921
Gwarediadau	(30,214)	(50,053)	(5,406)	(2,681)
Ailbrisiadau	34,756	(50,638)	1,142	(20,122)
Balans 31 Mawrth	355,528	325,111	61,873	57,020

Risg y farchnad

Mae gweithgareddau'r Grŵp yn ei wneud yn agored yn bennaf i risgiau ariannol newidiadau mewn risgiau credyd. Gweler Nodyn 4 am ragor o wybodaeth.

Risg Cyfraddau Llog

Mae portffolio benthyciadau'r Grŵp yn cynnwys benthyciadau cyfradd sefydlog sy'n cael eu hariannu'n bennaf drwy fenthyciadau ecwiti a benthyciadau di-log gan y prif gyfranddaliwr, ac nid yw'r benthyciadau hyn yn agored iawn i risg cyfradd llog.

Byddai newidiadau mewn cyfraddau llog yn effeithio ar brisiad y llyfr benthyciadau rhannu ecwiti, ond mae effaith ddigolledu ar werth y symiau sy'n ddyledus i'r prif gyfranddaliwr ar werth teg ac nid oes risg net i'r Grŵp. Ni fyddai newidiadau ym mhrisiad asedau ariannol eraill sy'n cael eu dal ar werth teg yn amrywio'n sylweddol oherwydd newidiadau mewn cyfraddau llog.

Risgiau pris eraill

Mae buddsoddiadau ecwiti rhestredig a heb eu rhestru'r Grŵp yn agored i risg pris y farchnad sy'n deillio o ansicrwydd ynglŷn â gwerthoedd y gwarannau buddsoddi yn y dyfodol.

Mae'r buddsoddiadau rhestredig sydd wedi'u cynnwys uchod yn cynrychioli buddsoddiadau mewn gwarannau ecwiti a ddyfynnwyd. Nid yw'r risg pris mewn perthynas â'r asedau hyn yn arwyddocaol ar hyn o bryd o ran sefyllfa ariannol a chanlyniadau cyffredinol y Grŵp.

Mae buddsoddiadau mewn cwmnïau heb eu dyfynnu, yn ôl eu natur, fel arfer yn golygu mwy o risg na buddsoddiadau mewn cwmnïau a ddyfynnwyd, er bod modd lliniaru'r risg i ryw raddau drwy amrywio'r portffolio. Byddai gostyngiad cyffredinol o 25% ym mhrisiad y buddsoddiadau heb eu dyfynnu ar 31 Mawrth 2024 yn lleihau gwerth y portffolio ecwiti o £13,446k (2023: £11,944k) a byddai newid cyfatebol yn y cyfeiriad arall yn cynyddu gwerth y portffolio ecwiti o'r un swm.

Rheoli risg hylifedd

Bwrdd y Cyfarwyddwyr sy'n bennaf gyfrifol am reoli risg hylifedd, sydd wedi llunio fframwaith rheoli risg hylifedd priodol ar gyfer rheoli cyllid tymor byr, tymor canolig a thymor hir y Grŵp a gofynion rheoli hylifedd. Mae'r Grŵp yn rheoli risg hylifedd drwy gynnal cronfeydd a chyfleusterau bancio digonol drwy fonitro llifoedd arian parod a rhagolygon yn barhaus a chyfateb proffiliau aeddfedrwydd asedau a rhwymedigaethau ariannol.

Mae'r rhan fwyaf o'r rhwymedigaethau ariannol yn symiau sy'n ddyledus i'r prif gyfranddaliwr ac maent yn ymwneud ag arian wrth gefn ar gyfer trafodion ariannol a chyllid cyfalaf craidd. Mae'r balansau cyfredol mewn perthynas ag arian wrth gefn ar gyfer trafodion ariannol a chyllid cyfalaf craidd yn ad-daladwy erbyn 31 Mawrth 2048. Nid yw'r benthyciadau hyn wedi'u gwarantu ac nid ydynt yn dwyn llog. Gweler Nodyn 16 am ragor o wybodaeth.

Nodiadau ar y datganiadau ariannol cyfunol

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

19. Offerynnau ariannol (parhad)

Risg cyfnewid arian tramor

Nid yw'r Grŵp yn agored i risg cyfnewid arian tramor gan fod y Grŵp yn buddsoddi'n bennaf yn ei arian gweithredol, sef punnoedd sterling.

Rheoli risg cyfalaf

Amcan y Grŵp wrth reoli cyfalaf yw diogelu ei allu i barhau fel busnes gweithredol fel ei fod yn gallu parhau i gyflawni ei rwymedigaethau ariannol wrth iddynt ddod yn ddyledus. Mae strwythur cyfalaf y Grŵp yn cynnwys dyled, arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod ac ecwiti mae modd ei briodoli'n uniongyrchol i ddeiliaid ecwiti'r rhiant, sy'n cynnwys cyfalaf a roddwyd, ecwiti cyhoeddus, cronfeydd wrth gefn, buddiannau anllywodraethol ac enillion sy'n cael eu cadw fel y maent yn cael eu datgelu yn y datganiad o newidiadau mewn ecwiti.

20. Cyfalaf a chronfeydd wrth gefn

Grŵp a Chwmni		
Cyfalaf cyfranddaliadau wedi'i alw	2024	2023
	£000	£000
Wedi'i awdurdodi a'i ddyrannu		
50,000 o gyfranddaliadau cyffredin gwerth £1 yr un	50	50
Wedi'i alw, ei ddyrannu a'i dalu'n rhannol		
50,000 o gyfranddaliadau cyffredin, 25c wedi'u talu'n rhannol	13	13

Mae gan y Cwmni un dosbarth o gyfranddaliadau cyffredin gwerth £1 sy'n cario dim hawl i incwm sefydlog. Mae gan bob cyfranddaliad yr un hawliau o ran pleidleisio a didendau.

Buddiannau nad ydynt yn rheoli		
Y symudiadau yn ystod y flwyddyn oedd:	2024	2023
	£000	£000
Balans ar ddechrau'r flwyddyn	5,058	5,179
Cyfraniad cyfalaf buddiannau nad ydynt yn rheoli	400	1,920
Dosbarthu	(720)	(800)
Cyfran o'r elw/(colledion) am y flwyddyn	5,409	(1,241)
Balans ar ddiwedd y flwyddyn	10,147	5,058

Mae'r buddiant anllywodraethol yn cynrychioli'r buddsoddiad a wnaed gan Gronfa Bensiwn Clwyd ym Mhartneriaeth Gyfyngedig Rheoli Olyniaeth (Cymru) a'r elw mae modd ei briodoli iddynt ar y buddsoddiad hwnnw.

Nodiadau ar y datganiadau ariannol cyfunol

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

21. Prydlesi

Grŵp a Chwmni

Asedau hawl-i-ddefnyddio	2024	2023
	£000	£000
Swm cario ymlaen net	1,863	1,914
Traul dibrisiant y flwyddyn	306	389

Symiau sy'n cael eu cydnabod yn yr elw a'r colledion	2024	2023
	£000	£000
Treuliau'n ymwneud â phrydlesi gwerth isel	104	88
Traul dibrisiant ar asedau hawl-i-ddefnyddio	306	389
Traul llog ar rhwymedigaethau prydles	38	50
Traul yn ymwneud â phrydlesi tymor byr	85	79

Rhwymedigaethau prydles	2024	2023
	£000	£000
Symiau i'w setlo o fewn 12 mis (rhwymedigaethau cyfredol)	344	279
Symiau i'w setlo ar ôl 12 mis	1,518	1,626
	1,862	1,905

Cysoni rhwymedigaethau prydles	2024	2023
	£000	£000
Ar 1 Ebrill	1,905	3,029
Ychwanegiadau	238	-
Llog	38	50
Taliadau	(319)	(384)
Gwarediadau	-	(790)
Ar 31 Mawrth	1,862	1,905

Dadansoddiad o aeddfedrwydd	2024	2023
	£000	£000
Ddim yn hwyrach na blwyddyn	344	279
Yn hwyrach na blwyddyn a heb fod yn hwyrach na phum mlynedd	1,401	1,196
Yn hwyrach na phum mlynedd	117	430
	1,862	1,905

Tymor cyfartalog prydlesi yw 5.3 o flynyddoedd (2023: 6.4 o flynyddoedd).

Cyfanswm y llif arian parod mewn perthynas â thaliadau prydles yn ystod y flwyddyn gyfredol oedd £519k (2023: £548k).

Nodiadau ar y datganiadau ariannol cyfunol

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

22. Nodiadau ar y datganiad llif arian parod cyfunol

Asedau hawl defnyddio	2024	2023
	£000	£000
Elw/(Colledion) cyn treth am y flwyddyn	40,776	(24,050)
Addasiadau ar gyfer:		
Costau pensiwn â buddion wedi'u diffinio	(620)	(20)
Incwm Llog Arall	(41,824)	(12,891)
Costau cyllid	2,972	9,352
Dibrisiant eiddo, offer a chyfarpar	752	831
Amorteiddiad asedau anniriaethol	282	89
Darpariaeth cynllun cymhelliant gohiriedig	537	469
Amhariad	18,186	16,816
(Colledion)/enillion gwerth teg ar asedau	(34,676)	80,986
Colledion/(enillion) gwerth teg ar rwymedigaethau	42,695	(37,036)
Treth gorfforaeth	(2,812)	-
Gwrthdroi refeniw incwm gohiriedig	(20,541)	(20,586)
Llifoedd arian parod gweithredu cyn newidiadau i asedau gweithredu net	5,727	13,960
(Cynnydd) mewn symiau derbyniadwy	(43,237)	(16,119)
(Gostyngiad)/Cynnydd mewn symiau taladwy	1,326	1,039
Gostyngiad mewn asedau ariannol ar werth teg	230	18,206
Arian parod a gynhyrchwyd yn ystod gweithrediadau	(38,606)	17,086

Nodiadau ar y datganiadau ariannol cyfunol

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

23. Trafodion partïon cysylltiedig

Grŵp a Cwmni

Mae'r trafodion rhwng y Cwmni a'i Gyfarwyddwyr (gan gynnwys Cyfarwyddwyr Anweithredol), sef staff rheoli allweddol y Grŵp, yn cael eu datgelu yn Nodyn 7.

Mae'r Grŵp a'r Cwmni wedi manteisio ar yr eithriad a roddwyd gan baragraff 25 o IAS 24 Datgeliadau Partïon Cysylltiedig ac nid ydynt wedi datgelu'r holl drafodion gyda'i brif gyfranddaliwr, sef Llywodraeth Cymru. Mae trafodion nodweddiadol yn cael eu datgelu yn Nodyn 16.

Trafodion gydag is-gwmnïau

Yn unol â'r esemptiad a roddwyd gan baragraff 8 (j) o FRS 101 Fframwaith

Datgelu Gostyngol nid yw'r Cwmni wedi datgelu trafodion gyda chwmnïau eraill y Grŵp, lle mae 100% o'r hawliau pleidleisio yn cael eu rheoli gan y Grŵp. Mae trafodion rhwng y Cwmni a'i is-gwmnïau wedi cael eu dileu wrth gyfuno.

Roedd y trafodion rhwng y Grŵp a'i is-gwmnïau, nad ydynt yn eiddo i 100%, yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

Codwyd cyfanswm o £375k o ffioedd rheoli'r gronfa (2023: £375k), mae'r ffioedd hyn yn cael eu codi ar brisiau arferol y Grŵp.

Trafodion gydag aelodau cyswllt

Mae'r rheolwyr wedi nodi 1 aelod cyswllt ar 31 Mawrth 2024 (2023: dim), roedd y trafodion rhwng y Grŵp a'i aelod cyswllt yn ystod y flwyddyn flaenorol fel a ganlyn:

Gwerthiant gwasanaethau		Llog a godwyd		Benthyciadau i bartïon cysylltiedig		Darpariaeth colledion ar falansau sy'n weddill	
2024	2023	2024	2023	2024	2023	2024	2023
£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
15	-	8	-	159	-	4	-

Roedd y draul a gafodd ei chydnabod yn ystod y cyfnod mewn perthynas â'r ddarpariaeth ar gyfer symiau sy'n ddyledus gan bartïon cyswllt yn £4k (2023: £dim).

Gwerthwyd gwasanaethau a chodwyd llog ar fenthyciadau i bartïon cyswllt ar brisiau arferol y Grŵp. Roedd y symiau oedd yn weddill heb eu gwarantu ac i'w setlo mewn arian parod. Nid oedd unrhyw warantau wedi cael eu rhoi na'u derbyn.

24. Parti rheolaethol sylfaenol

Y rhiant a'r parti rheolaethol sylfaenol a'r grŵp lleiaf a'r mwyaf y mae canlyniadau Banc Datblygu Cymru ccc yn cael eu cynnwys yw Gweinidogion Cymru. Mae modd cael datganiadau ariannol cyfunol Gweinidogion Cymru o'i gyfeiriad cofrestredig, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ. Mae modd cael datganiadau ariannol Banc Datblygu Cymru ccc o'i gyfeiriad cofrestredig, Uned J, Pentref Busnes Iâl, Ellice Way, Wrecsam, LL13 7YL.

Mae Banc Datblygu Cymru ccc yn ystyried Gweinidogion Cymru, yn gweithredu drwy Lywodraeth Cymru, fel y rhiant-gwmni sylfaenol a'r parti rheolaethol sylfaenol.

Mantolen y cwmni

Ar 31 Mawrth 2024

	Nodyn	2024	2023
		£000	£000
Asedau anghyfredol			
Asedau anniriaethol	11	1,265	1,017
Eiddo, offer a chyfarpar	12	2,604	2,968
Buddsoddiadau	28	927,433	942,009
		931,302	945,994
Asedau cyfredol			
Dyledwyr: yn ddyledus o fewn blwyddyn	29	2,478	1,100
Arian parod yn y banc ac mewn llaw		1,077	1,640
		3,555	2,740
Cyfanswm asedau		934,857	948,734
Rhwymedigaethau cyfredol			
Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	30	(37,693)	(2,392)
Incwm gohiriedig	18	(638)	(20,653)
Rhwymedigaethau prydles	21	(344)	(279)
		(38,675)	(23,324)
Rhwymedigaethau cyfredol net		(35,120)	(20,584)
Rhwymedigaethau anghyfredol			
Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	31	(681,765)	(706,335)
Rhwymedigaethau prydles	21	(1,518)	(1,626)
		(683,283)	(707,961)
Cyfanswm y rhwymedigaethau		(721,958)	(731,285)
Asedau net ac eithrio rhwymedigaethau pensiwn		212,899	217,449
Gwarged pensiwn	17	3,940	1,800
Asedau net		216,839	219,249
Cyfalaf a chronfeydd wrth gefn			
Ecwiti cyhoeddus		319,455	319,455
Cyfalaf cyfranddaliadau wedi'i alw	20	13	13
Cyfrif elw a cholled		(102,629)	(100,219)
Cronfeydd cyfranddalwyr		216,839	219,249

Fe wnaeth y Cwmni adrodd colled o £4,390k ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 (2023: colled o £62,092k).

Cymeradwywyd datganiadau ariannol Banc Datblygu Cymru ccc, rhif cofrestredig 04055414, gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr ar 3 Medi 2024.

Llofnodwyd ar ei ran gan



G Thorley, Cyfarwyddwr

Datganiad y Cwmni o newidiadau mewn ecwiti

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

	Nodyn	Ecwiti cyhoeddus	Cyfalaf cyfranddaliadau	Elw argadwedig	Cyfanswm
			£000	£000	£000
Balans ar 1 Ebrill 2022		319,455	13	(39,797)	279,671
(Colledion) am y flwyddyn ariannol		-	-	(62,092)	(62,092)
Enillion actiwaraidd ar gynlluniau pensiwn â buddion wedi'u diffinio	17	-	-	1,670	1,670
Isgyfanswm		-	-	(60,422)	(60,422)
Balans ar 31 Mawrth 2023		319,455	13	(100,219)	219,249
(Colledion) am y flwyddyn ariannol		-	-	(4,390)	(4,390)
Enillion actiwaraidd ar gynlluniau pensiwn â buddion wedi'u diffinio	17	-	-	1,980	1,980
Isgyfanswm		-	-	(2,410)	(2,410)
Balans ar 31 Mawrth 2024		319,455	13	(102,629)	216,839

Nodiadau ar ddatganiadau ariannol y Cwmni

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

25. Polisiâu cyfrifyddu

Sail y cyfrifyddu

Mae datganiadau ariannol ar wahân y Cwmni yn cael eu cyflwyno fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Cwmnïau 2006 ac maent wedi cael eu paratoi yn unol â chyfraith a Safonau Cyfrifyddu perthnasol y Deyrnas Unedig. Maent wedi cael eu paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol, ac eithrio ailbrisio rhai offerynnau ariannol ar werth teg.

Mae Banc Datblygu Cymru ccc yn gwmni sydd wedi'i ymgorffori yn y Deyrnas Unedig o dan Ddeddf Cwmnïau 2006.

Cwmni preifat cyfyngedig drwy gyfranddaliadau yw hwn sydd wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr. Mae cyfeiriad y swyddfa gofrestredig ar dudalen 2.

Mae'r Cwmni yn bodloni'r diffiniad o endid cymhwysol o dan FRS 100 (Safon Adrodd Ariannol 100) a gyhoeddir gan y Cyngor Adrodd Ariannol ac mae'n paratoi ei ddatganiadau ariannol yn unol â Fframwaith Datgelu Gostyngol FRS 101 (Safon Adrodd Ariannol 101).

Fel sy'n cael ei ganiatáu gan FRS 101, mae'r Cwmni wedi manteisio ar yr esemptiadau rhag datgelu sydd ar gael o dan y safon honno mewn perthynas ag offerynnau ariannol, rheoli cyfalaf, cyflwyno datganiad llif arian, safonau nad ydynt ar waith eto a rhai trafodion partïon cysylltiedig.

Ceir crynodeb o'r prif bolisiâu cyfrifyddu isod. Mae'r rhain wedi cael eu defnyddio'n gyson drwy gydol y flwyddyn ac yn ystod y flwyddyn flaenorol.

Busnes hyfyw

Wrth gymeradwyo'r datganiadau ariannol, roedd gan y Cyfarwyddwyr ddisgwyliad rhesymol bod gan y Cwmni adnoddau digonol i barhau mewn bodolaeth weithredol hyd y gellir rhagweld, sef cyfnod o 12 mis o leiaf o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol ac maent wedi dod i'r casgliad nad oes ansicrwydd materol yn ymwneud â busnes

hyfyw. Yn unol â hynny, maent yn dal i fabwysiadu sail busnes hyfyw cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol. Mae rhagor o fanylion ynghylch ystyriaethau'r Cyfarwyddwyr mewn perthynas â busnes hyfyw ar gael yn Nodyn 1.

Asedau anniriaethol

Mae asedau anniriaethol yn cael eu dangos ar y fantolen ar eu cost hanesyddol llai amorteiddiad ac amhariad cronedig. Mae'r gost hanesyddol yn cynnwys gwariant y mae modd ei briodoli'n uniongyrchol i gaffael a gosod meddalwedd cyfrifiadurol. Oes ddefnyddiol benodol sydd gan yr ased a bydd yn cael ei hamorteiddio ar sail llinell syth dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig o hyd at 7 mlynedd. Mae amorteiddio'n dechrau pan fydd y meddalwedd wedi'i weithredu'n llawn.

Eiddo, offer a chyfarpar

Mae eiddo, offer a chyfarpar yn cael eu dangos ar y fantolen ar eu cost hanesyddol llai dibrisiad ac amhariad cronedig. Mae'r gost hanesyddol yn cynnwys gwariant y mae modd ei briodoli'n uniongyrchol i gaffael a gosod yr eitemau. Dim ond pan fydd yn debygol y bydd buddion economaidd sy'n gysylltiedig â nhw yn llifo i'r Cwmni yn y dyfodol, ac y gellir mesur cost yr eitem yn ddibynadwy, y caiff costau dilynol eu cynnwys yng ngwerth llyfr yr asedau neu eu cydnabod fel ased ar wahân, fel y bo'n briodol. Codir tâl am yr holl waith atgyweirio a chynnal a chadw arall ar y cyfrif elw a cholledion.

Mae dibrisiant yn cael ei ddarparu er mwyn gallu nodi cost gychwynnol pob ased â'i gwerth gweddilliol, ar sail llinell syth dros ei oes ddefnyddiol ddisgwyliedig fel a ganlyn:

Gosodiadau, ffitiadau a chyfarpar
3 i 5 mlynedd

Mae eiddo'n ymwneud ag asedau hawl i ddefnyddio ac mae'n cael ei drafod yn fanylach yn y nodyn polisi cyfrifyddu prydlesu ar dudalen 137.

Nodiadau ar ddatganiadau ariannol y Cwmni

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

25. Polisiâu cyfrifyddu (parhad)

Eiddo, offer a chyfarpar (parhad)

Caiff gwerthoedd gweddilliol yr asedau a'u hoes ddefnyddiol eu hadolygu a'u haddasu, os yw'n briodol, ar ddyddiad pob mantolen. Pan fo swm cario ymlaen ased yn fwy na'r swm adenilladwy a amcangyfrifir, caiff ei nodi ar unwaith i'w swm adenilladwy. Mae enillion a cholledion ar warediadau yn cael eu pennu drwy gymharu enillion â symiau cario ymlaen. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y cyfrif elw a cholledion.

Cydnabod refeniw

Mae refeniw yn cynrychioli ffioedd cronfeydd daliadau sy'n dderbyniadwy gan gwmnïau grŵp. Mae ffioedd o'r fath yn cael eu cydnabod yn y cyfnod y maent yn codi.

Incwm grant Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF)

Mae incwm grant sy'n cael ei dderbyn i gefnogi gwariant refeniw yn cael ei gydnabod yn y cyfrif elw a cholledion fel y'i defnyddir yn unol â'r amodau sy'n berthnasol yn nogfennau'r cynnig.

Mae grantiau ar gyfer ariannu buddsoddiadau'n rhannol sy'n cael eu derbyn cyn eu talu yn cael eu trin fel incwm gohiriedig. Mae incwm gohiriedig o'r fath yn cael ei amorteiddio i'r datganiad incwm pan mae buddsoddiadau'n cael eu gwneud, ac mae'r amodau a nodir yn nogfennau'r cynnig wedi cael eu bodloni. Mae'r incwm sy'n cael ei gymryd yn hafal i lefel y grant sy'n cael ei ddefnyddio i gefnogi buddsoddiadau.

Treth

Mae'r dreth gyfredol yn cael ei darparu ar symiau y mae disgwyl iddynt gael eu talu (neu eu hadennill) gan ddefnyddio'r cyfreithiau a'r cyfraddau treth sydd wedi cael eu deddfu neu eu gweithredu ar ddyddiad y fantolen.

Mae'r dreth ohiriedig yn cael ei darparu'n llawn ar wahaniaethau amseru sy'n arwain

at rwymedigaeth ar ddyddiad y fantolen i dalu mwy o dreth, neu hawl i dalu llai o dreth, ar ddyddiad yn y dyfodol, ar gyfraddau y mae disgwyl iddynt fod yn berthnasol pan fyddant yn crisialu ar sail y cyfreithiau a'r cyfraddau treth cyfredol. Mae gwahaniaethau amseru yn deillio o gynnwys eitemau incwm a gwariant mewn cyfrifiadau treth mewn cyfnodau gwahanol i'r rhai y maent wedi'u cynnwys ynddynt yn y datganiadau ariannol. Nid yw'r dreth ohiriedig yn cael ei darparu ar wahaniaethau amseru sy'n deillio o ailbrisio asedau sefydlog lle nad oes ymrwymiad i werthu'r ased, nac ar enillion is-gwmnïau ac aelodau cyswllt sydd heb eu trosglwyddo lle nad oes ymrwymiad i drosglwyddo'r enillion hyn.

Mae asedau treth gohiriedig yn cael eu cydnabod i'r graddau ei fod yn fwy tebygol na pheidio y byddant yn cael eu hadennill. Nid yw rhwymedigaethau ac asedau treth gohiriedig yn cael disgownt.

Ecwiti cyhoeddus

Mae Gweinidogion Cymru, yn gweithredu drwy Lywodraeth Cymru, wedi darparu arian o bryd i'w gilydd at ddibenion buddsoddi. Cafodd rhywfaint o'r cyllid hwn gan Lywodraeth Cymru ei wneud yn wreiddiol fel cyfalaf difidend cyhoeddus ac mae'r gweddill yn cael ei ddosbarthu fel cymorth grant neu gyllid craidd at ddibenion buddsoddi.

Mae'r cyllid hwn sydd ddim yn ad-daladwy ar gyfer buddsoddi yng nghynnaladwyedd tymor hir Banc Datblygu Cymru ac o fewn trefniadau cyfrifyddu Gweinidog Cymru ei hun, mae'r cyllid yn cael ei ystyried yn fuddsoddiad. Mae ecwiti cyhoeddus ychwanegol yn codi pan fydd y Cwmni yn cael benthyciadau gan Lywodraeth Cymru ar gyfraddau is na chyfraddau'r farchnad fel sy'n cael ei ddisgrifio isod.

Nodiadau ar ddatganiadau ariannol y Cwmni

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

25. Polisiau cyfrifyddu (parhad)

Symiau sy'n ddyledus i'r prif gyfranddaliwr sy'n cael eu dal ar gost wedi'i hamorteiddio:

Benthyciadau Llywodraeth Cymru (Benthyciadau LIC)

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi darparu arian wrth gefn ar gyfer trafodion ariannol a chyllid cyfalaf craidd i'r Cwmni drwy fenthyciadau di-log. Mae'r benthyciadau hyn yn benodol i bob un sy'n cael ei greu gyda lefelau ad-dalu sy'n gysylltiedig â pherfformiad y gronfa.

Cydnabyddiaeth gychwynnol

Ar gydnabyddiaeth gychwynnol, mae'r rhwymedigaeth ariannol yn cael ei chydabod ar sail gwerth teg, wedi'i chyfrifo yn unol ag IFRS 13. Os oes rhaid i'r Grŵp roi benthyciadau ar gyfradd is na chyfradd y farchnad a bod incwm grant i'w gofnodi, mae'r balans hwn wedi'i gynnwys yn yr incwm gohiriedig. Mae'r gwahaniaeth rhwng swm gwerth teg y rhwymedigaeth ynghyd â'r incwm gohiriedig a gofnodwyd a gwerth y trafodiad (cronfeydd a dderbyniwyd) yn cael ei drin fel cyfraniad cyfalaf. Yn unol â chyfraniadau cyfalaf blaenorol, byddwn yn cynnwys hyn o dan ecwiti cyhoeddus o dan ecwiti ar y fantolen gyfunol.

Gan nad yw'n bosibl nodi trafodion y farchnad sy'n cynnwys offerynnau ariannol tebyg a defnyddio dull marchnad, mae'r Cwmni'n defnyddio'r dull incwm a thechneg gwerth bresennol sy'n defnyddio'r llifoedd arian parod yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â'r benthyciad wedi'u disgowntio i roi gwerth presennol y llifoedd arian parod hyn a gwerth teg yr atebolrwydd. Mewnbynau allweddol y dechneg hon yw'r llifoedd arian parod disgwylidig sy'n gysylltiedig â'r benthyciad a'r gyfradd ddisgownt ar gyfer y llifoedd arian parod hynny. Gweler Nodyn 3 am ragor o wybodaeth.

Triniaeth ddilynol

Mae benthyciadau'n cael eu dal ar gost wedi'i hamorteiddio gyda thâl llog tybiannol yn cael ei gofnodi ym mhob

cyfnod i adlewyrchu dirwyn y disgownt cychwynnol i ben gan ddefnyddio EIR pob benthyciad.

Os bydd yr ad-daliadau disgwylidig yn cael eu diwygio, bydd y Cwmni'n addasu cost wedi'i hamorteiddio atebolrwydd ariannol i adlewyrchu amcangyfrif diwygiedig llifoedd arian parod y contract. Bydd cost wedi'i hamorteiddio'r rhwymedigaeth ariannol yn cael ei hailgyfrifo fel gwerth presennol y llifoedd arian parod hyn gan ddefnyddio EIR gwreiddiol y benthyciad. Bydd unrhyw addasiad yn cael ei gydnabod fel incwm neu draul.

Buddsoddiadau mewn is-gwmnïau

Mae buddsoddiadau ecwiti mewn is-gwmnïau'n cael eu trin fel asedau sefydlog ac maent yn cael eu datgan yn y fantolen ar gost, llai unrhyw ddarpariaeth ar gyfer amhariad. Mae cyfraniadau cyfalaf i is-gwmnïau mewn perthynas â benthyciadau cyfradd is na chyfradd y farchnad yn cael eu hadlewyrchu yng nghost buddsoddi'r is-gwmni cysylltiedig.

Benthyciadau i is-gwmnïau

Mae benthyciadau sy'n cael eu derbyn gan Lywodraeth Cymru, fel sy'n cael eu disgrifio uchod, yn cael eu trosglwyddo wedyn i is-gwmnïau i'w buddsoddi gan y cronfeydd perthnasol.

Cydnabyddiaeth gychwynnol

Ar gydnabyddiaeth gychwynnol, mae'r ased ariannol yn cael ei gydnabod ar sail gwerth teg, wedi'i chyfrifo yn unol ag IFRS 13, gyda'r gwahaniaeth rhwng gwerth teg a gwerth y trafodiad (cronfeydd a dderbyniwyd) yn cael ei drin fel buddsoddiad mewn is-gwmni.

Triniaeth ddilynol

Mae'r Cwmni'n asesu dosbarthiad a mesur ased ariannol ar sail nodweddion llif arian parod contractiol yr ased a model busnes y Cwmni ar gyfer rheoli'r ased. Er mwyn i ased gael ei ddosbarthu a'i fesur ar gost wedi'i hamorteiddio dylai ei delerau contractiol arwain at lifoedd arian parod sy'n daliadau cyfalaf a llog yn unig ar y prif swm sy'n weddill.

Nodiadau ar ddatganiadau ariannol y Cwmni

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

25. Polisiâu cyfrifyddu (parhad)

Triniaeth ddilynol (parhad)

Gan fod yr ad-daliad ar y benthyciadau'n gysylltiedig â pherfformiad y cronfeydd sylfaenol, maent yn methu'r prawf taliadau cyfalaf a llog yn unig ac, o'r herwydd, maent yn cael eu dal yn FVTPL. Ar ddiwedd pob blwyddyn, caiff y llifoedd arian parod disgwyltiedig sy'n gysylltiedig â'r benthyciad a'r gyfradd ddisgownt a osodwyd at y llifoedd arian parod hynny, yn cael eu hailasesu gydag unrhyw newidiadau mewn gwerth teg yn cael eu rhoi ar y datganiad incwm.

Buddion ymddeol

Mae gan y Cwmni gynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio, sydd bellach ar gau i aelodau newydd, sy'n cael ei weinyddu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae'r Cwmni'n cyfrif am ei gyfran o warged neu ddiffyg a chostau gweinyddu'r cynllun hwn.

Mae lefel y cyfraniadau sy'n cael eu gwneud i'r cynllun a chost y cyfraniadau sy'n cael eu cynnwys yn y datganiadau ariannol yn seiliedig ar argymhellion actiwariaid annibynnol.

Mae asedau'r cynllun yn amcangyfrif o gyfran dybiannol y Cwmni o gyfanswm asedau'r gronfa a fesurir ar werth y farchnad ar ddyddiad pob mantolen ac mae'r rhwymedigaethau'n cael eu mesur gan ddefnyddio'r dull uned rhagamcanol, wedi'i ddisgowntio gan ddefnyddio cyfradd bondiau corfforaethol. Mae disgwyl bod cyfran dybiannol asedau'r Cwmni'n cael ei buddsoddi yn yr un gyfran â'r gronfa gyfan yn y gwahanol ddosbarthiadau asedau. Mae gwarged neu ddiffyg y cynllun pensiwn sy'n deillio o hynny yn cael ei gydnabod ar unwaith ar y fantolen, net y dreth ohriedig lle bo hynny'n berthnasol, ac mae unrhyw enillion a cholledion actiwaraidd canlyniadol yn cael eu cydnabod ar unwaith yn y datganiad o incwm cynhwysfawr.

Mae'r Cwmni'n cynnig cynllun cyfraniadau diffiniedig sy'n cael ei weinyddu gan Legal and General sy'n agored i'r staff hynny nad ydynt yn aelodau o'r cynllun sy'n cael ei weinyddu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae cyfraniadau'r cyflogwr mewn perthynas â'r cynllun hwn yn cael eu cynnwys o fewn treuliau gweinyddol eraill.

Trafodion partïon cysylltiedig

Mae'r Cwmni wedi manteisio ar yr eithriad a roddwyd gan baragraff 25 o IAS 24 Datgeliadau Partïon Cysylltiedig ac nid yw wedi datgelu trafodion i'w is-gwmnïau sy'n eiddo'n llwyr iddo.

Penderfyniadau cyfrifyddu pwysig a'r prif ffynonellau o ansicrwydd amcangyfrif

Wrth ddefnyddio polisiâu cyfrifyddu'r Cwmni, sy'n cael eu disgrifio uchod, mae'n ofynnol i'r Cyfarwyddwyr wneud penderfyniadau, amcangyfrifon a thybiaethau ynglŷn â symiau cario asedau a rhwymedigaethau nad ydynt yn gwbl amlwg o ffynonellau eraill. Mae'r amcangyfrifon a'r thybiaethau cysylltiedig yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill yr ystyrir eu bod yn berthnasol. Gall y gwir ganlyniadau fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn.

Adolygir amcangyfrifon a rhagdybiaethau sylfaenol yn barhaus.

Mae cywiriadau i amcangyfrifon cyfrifyddu yn cael eu cydnabod yn y cyfnod pan mae'r amcangyfrif yn cael ei gywiro os yw'r cywiro'n cael effaith ar y cyfnod hwnnw'n unig neu yng nghyfnod y cywiro a chyfnodau diweddarach os yw'r cywiro'n effeithio ar y cyfnod cyfredol a chyfnodau diweddarach.

Nodiadau ar ddatganiadau ariannol y Cwmni

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

25. Polisiâu cyfrifyddu (parhad)

Penderfyniadau pwysig wrth roi polisiâu cyfrifyddu'r Cwmni ar waith

Benthyciadau Llywodraeth Cymru

O dan IFRS 9, i ddechrau, dylai offerynnau ariannol gael eu cofnodi ar sail gwerth teg gydag addasiadau ar gyfer costau trafodion mewn rhai amgylchiadau.

Fel sy'n cael ei ddisgrifio uchod, mae'r Cwmni wedi cael benthyciadau di-log gan Lywodraeth Cymru lle nad oes angen ad-dalu prifswm y benthyciad yn llawn mewn rhai achosion, felly nid yw gwerth teg cychwynnol y rhwymedigaeth sy'n cael ei gydnabod yn un fath â gwerth y trafodiad h.y. prifswm y benthyciad.

Mae IFRS 9 yn datgan y dylai'r gwahaniaeth rhwng gwerth y trafodiad a'r gwerth teg fel arfer gael ei gydnabod fel traul neu ostyngiad mewn incwm oni bai ei fod yn gymwys i gael ei gydnabod fel math arall o ased. Fodd bynnag, nid yw IFRS 9 yn delio'n uniongyrchol â sut i drin â benthyciadau rhyng-gwmni sydd ag elfen â chyfradd is na chyfradd y farchnad. Mae IAS 20 yn delio â benthyciadau gan y llywodraeth ar gyfraddau llog is na chyfradd y farchnad gyda'r gwahaniaeth yn cael ei drin fel grant gan y llywodraeth, ond nid yw'n mynd i'r afael â sefyllfa lle mae endid y llywodraeth yn barti cysylltiedig.

Er mai bwriad y benthyciadau sy'n cael eu darparu gan Lywodraeth Cymru yw cefnogi eu hamcanion polisi, barn y Rheolwyr, gan gyfeirio at Fframwaith Cysyniadol yr IASB ar gyfer Adrodd Ariannol yw mai hanfod y trafodion hyn yw bod cymhorthdal wedi'i roi gan riant gwmni i'w is-gwmni. Dylid cydnabod y cymhorthdal llog hwn fel elfen o ecwiti yn yr is-gwmni h.y. cyfraniad cyfalaf yn natganiadau ariannol y Cwmni.

Ffynonellau allweddol o ansicrwydd amcangyfrifon

Nid oes rhagdybiaethau allweddol o ran y dyfodol, a'r ffynonellau allweddol eraill o ansicrwydd amcangyfrifon ar ddyddiad y fantolen, sy'n cynnwys risg sylweddol o arwain at addasiad sylweddol i symiau cario ymlaen yr asedau a'r rhwymedigaethau yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Nodiadau ar ddatganiadau ariannol y Cwmni

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

26. Gwybodaeth am gyfarwyddwyr a gweithwyr

Enillion y Cyfarwyddwyr	2024	2023
	£000	£000
Enillion	668	607
Costau Pensiwn	76	53
	744	660
Tâl y cyfarwyddwr uchaf ei gyflog	260	217

Roedd un cyfarwyddwr y Cwmni yn aelod o'r cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio (2023: un).

Costau cyflogres cronus	2024	2023
	£000	£000
Cyflogau	3,726	3,579
Costau nawdd cymdeithasol	382	395
Costau Pensiwn	455	449
	4,563	4,423

Costau cyflogres cronus	2024	2023
	Nifer	Nifer
Nifer y bobl sy'n cael eu cyflogi bob mis ar gyfartaledd (heb gynnwys cyfarwyddwyr) - gweinyddwyr	64	62

27. Canlyniad am y flwyddyn

Fel sy'n cael ei ganiatáu gan adran 408 o Ddeddf Cwmnïau 2006, nid yw cyfrif elw a cholledion y rhiant-gwmni yn cael ei gyflwyno fel rhan o'r datganiadau ariannol hyn. Colledion y rhiant-gwmni ar gyfer

y flwyddyn ariannol oedd £4,390k (2023: colled o £62,092k). Tâl yr archwilydd am wasanaethau archwilio i'r Cwmni oedd £199k (2023: £131k), yn cynnwys gor-rediad costau o £80k sy'n gysylltiedig ag archwiliad y flwyddyn flaenorol (2023: £dim).

Nodiadau ar ddatganiadau ariannol y Cwmni

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

28. Buddsoddiadau

	Cyfranddaliadau mewn mentrau is-gwmnïau	Buddsoddiadau eraill mewn is- gwmnïau	Benthyciadau i fentrau is-gwmnïau (Cost wedi'i hamorteiddio)	Benthyciadau i fentrau is-gwmnïau (Gwerth teg)	Cyfanswm
	£000	£000	£000	£000	£000
Cost/Gwerth teg					
Ar 1 Ebrill	155	305,123	317,560	319,171	942,009
Ychwanegiadau	-	-	-	7,102	7,102
Incwm Llog	-	-	6,002	-	6,002
Enillion/(colledion) gwerth teg	-	-	-	(7,365)	(7,365)
Gwarediadau/ad-dalu	-	-	(20,315)	-	(20,315)
Ar 31 Mawrth	155	305,123	303,247	318,908	927,433
Amhariad					
Ar 1 Ebrill	-	-	-	-	-
Ar 31 Mawrth	-	-	-	-	-
Gwerth net ar bapur					
Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol	155	305,123	303,247	318,908	927,433
Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol	155	305,123	317,560	319,171	942,009

O dan delerau benthyciadau i is-gwmnïau sy'n cael eu dal ar gost wedi'i hamorteiddio, mae ad-daliadau contractiol yn gysylltiedig â pherfformiad buddsoddiadau sylfaenol y gronfa.

O ganlyniad mae llifoedd arian parod contractiol y benthyciadau yn hafal i'r derbyniadau amcangyfrifedig ac nid oes unrhyw golledion credyd yn cael eu rhagweld ar y benthyciadau hyn.

Nodiadau ar ddatganiadau ariannol y Cwmni

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

28. Buddsoddiadau (parhad)

Mae buddsoddiadau’r Cwmni mewn cwmnïau grŵp, pob un â’r Deyrnas Unedig fel eu prif fan busnes, yn ymwneud â’r canlynol:

Is-gwmnïau Uniongyrchol	Daliad
DBW Holdings Limited	£1 cyfranddaliadau cyffredin
DBW Services Limited	£1 cyfranddaliadau cyffredin
DBW Managers Limited	£1 cyfranddaliadau cyffredin
Is-gwmnïau Anuniongyrchol	
DBW FM Limited	£1 cyfranddaliadau cyffredin
DBW Investments (2) Limited	£1 cyfranddaliadau cyffredin
DBW Investments (3) Limited	£1 cyfranddaliadau cyffredin
DBW Investments (4) Limited	£1 cyfranddaliadau cyffredin
DBW Investments (5) Limited	£1 cyfranddaliadau cyffredin
DBW Investments (6) Limited	£1 cyfranddaliadau cyffredin
DBW Investments (8) Limited	£1 cyfranddaliadau cyffredin
DBW Investments (9) Limited	£1 cyfranddaliadau cyffredin
DBW Investments (10) Limited	£1 cyfranddaliadau cyffredin
DBW Investments (11) Limited	£1 cyfranddaliadau cyffredin
DBW Investments (12) Limited	£1 cyfranddaliadau cyffredin
DBW Investments (14) Limited	£1 cyfranddaliadau cyffredin
Management Succession Fund (GP) Limited	£1 cyfranddaliadau cyffredin
Help To Buy (Wales) Limited	£1 cyfranddaliadau cyffredin
Angels Invest Wales Limited	£1 cyfranddaliadau cyffredin
Economic Intelligence Wales Limited	£1 cyfranddaliadau cyffredin
FW Capital Limited	£1 cyfranddaliadau cyffredin
TVUPB Limited	£1 cyfranddaliadau cyffredin
FW Development Capital (North West) GP Limited	£1 cyfranddaliadau cyffredin
FWC CIP Limited (formerly North West Loans Limited)	£1 cyfranddaliadau cyffredin
TVC Loans NPIF GP Limited	£1 cyfranddaliadau cyffredin
North West Loans NPIF GP Limited	£1 cyfranddaliadau cyffredin
FWC Loans (North West) Limited	£1 cyfranddaliadau cyffredin
FWC Loans (TVC) Limited	£1 cyfranddaliadau cyffredin
North East Property GP Limited	£2 cyfranddaliadau cyffredin
DBW Investments (MIMS) Limited	£1 cyfranddaliadau cyffredin
Management Succession (Wales) Limited Partnership	Gweler isod
NE Commercial Property GP Limited	£1 cyfranddaliadau cyffredin
FWC SWIF DEBT GP Limited	£1 cyfranddaliadau cyffredin
FWC IFW DEBT GP Limited	£1 cyfranddaliadau cyffredin
FWC TFIF GP Limited	£1 cyfranddaliadau cyffredin
FWC NPIFII DEBT GP Limited	£1 cyfranddaliadau cyffredin

Swyddfa gofrestredig yr is-gwmnïau sydd wedi’u nodi uchod yw Uned J, Pentref Busnes lân, Ellice Way, Wrecsam, LL13 7YL.

Mae gweithgareddau’r is-gwmnïau’n cynnwys darparu gwasanaethau ariannol i fusnesau, gweithgareddau rheoli cronfeydd a darparu benthyciadau rhannu ecwiti i unigolion.

Mae’r holl fuddsoddiadau mewn is-gwmnïau yn eiddo 100% yn y flwyddyn

gyfredol a’r flwyddyn flaenorol ac eithrio’r daliad ym Management Succession (Wales) Limited Partnership (‘WMSF LP’). Roedd y buddiant anllywodraethol yn WMSF LP wedi cyfrannu 40% o’r cyfalaf a fuddsoddwyd yn y gronfa, gyda’u llog effeithiol yn seiliedig ar berfformiad y gronfa a bydd yn amrywio rhwng 32% a 40% gan gyfeirio at asedau net y gronfa.

Nodiadau ar ddatganiadau ariannol y Cwmni

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

28. Buddsoddiadau (parhad)

Gwybodaeth ariannol wedi'i chrynhoi mewn perthynas â WMSF LP:

	2024	2023
	£000	£000
Trosiant	965	794
Elw/(colledion) gweithredol	12,869	(3,103)
Elw/(Colledion) y gellir ei briodoli i fuddiannau anllywodaethol	5,409	(1,241)
Asedau sefydlog	17,052	3,141
Asedau cyfredol	3,302	1,293
Credydwyr: symiau a ddaw'n ddyledus o fewn blwyddyn	(35)	(133)
Asedau net	25,370	12,647
Buddiant anllywodraethol cronrus	10,147	5,058

Daliadau sylweddol mewn mentrau sydd ddim yn is-gwmnïau

Ar 31 Mawrth 2024, roedd gan y Grŵp gyfranddaliadau oedd yn cyfateb i 20% neu fwy o'r dosbarth perthnasol o gyfalaf cyfranddaliadau yn y mentrau canlynol, pob un ohonynt wedi'u hymgorffori yn y Deyrnas Unedig.

Mae'r ffigurau hyn yn cynrychioli % daliad y Grŵp o'r dosbarth cyfranddaliadau perthnasol ac nid y cyfranddaliadau cyffredinol yn y cwmni. Nid yw'r Grŵp yn rheoli unrhyw un o'r mentrau hyn ac felly nid ydynt yn is-gwmnïau.

Enw'r cwmni	Dosbarth y cyfranddaliad	% daliad
1st Choice Auto Body Group UK Ltd	Braint Arferol	100
Afferent Medical Solutions Ltd	Braint Arferol	100
Agam International Ltd	Braint Arferol	100
Agxio Ltd	A Arferol	100
Alesi Surgical Ltd	Braint A	58
Antiverse Ltd	A Arferol	51
Avantis Marine Ltd	A Arferol	100
Bikmo Ltd	Braint Arferol	50
Board Secure Ltd	Braint Arferol	100
Bond Digital Health Ltd	Braint	100
Bytemine Technologies Ltd	Braint Arferol	100
Calon Cardio-Technology Ltd	B Braint Arferol	33
Cansense Ltd	A Arferol	33
Carebeans Ltd	A Arferol	50
Ceryx Medical Ltd	A Arferol	26
CloudIQ Ltd	Cyfes A Braint Cyfes A2 Braint Cyfes A3 Braint	36 41 27
Coltrun Ltd	Braint Arferol	100
Combine AI Ltd	Braint Arferol	100
Conversant Technologies Limited	A Arferol	70
Corryn Biotechnologies Ltd	Cyfranddaliadau Braint	100
Cotton Mouton Diagnostics Ltd	Braint Arferol	23
Credit Canary Limited	A Arferol	42
Cufflink.IO Ltd	Braint Arferol	100

Nodiadau ar ddatganiadau ariannol y Cwmni

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

28. Buddsoddiadau (parhad)

Daliadau sylweddol mewn mentrau sydd ddim yn is-gwmnïau (parhad)

Enw'r cwmni	Dosbarth y cyfranddaliad	% daliad
Curapel (Scotland) Ltd	Braint Arferol	100
D N Interiors Ltd	Braint Arferol	100
Deer Technology Ltd	A Arferol	100
Delio Ltd	C Arferol	100
Deploy Tech Ltd	Braint Arferol	87
Diamond Cat Ltd	Braint Arferol	100
Digital Asset Services Ltd	Hedyn Braint	55
Driverly Company	Braint Arferol	50
Drone Evolution Ltd	Arferol	21
Excelerate Technology Ltd	Arferol B	100
Finalrentals Ltd	A Arferol	50
Finboot Ltd	Braint Arferol	77
Flintshire Schools Holdings Ltd	B Arferol	100
FLS Holdco Ltd	Braint	100
Frontgrid Ltd	Braint Arferol	87.5
Glucose Republic Ltd	Braint Arferol	100
Halo Therapeutics Ltd	Braint A Arferol	76
Hatch Homes Accelerator Ltd	Braint Arferol	100
Health and Her Ltd	Braint	100
Hexigone Inhibitors Limited	Arferol	21
Humankind Ventures Ltd	Braint Arferol	63
I.Q.Endoscopes Ltd	A Braint A1 Braint	50 29
Infinite Renewables Wales Ltd	Braint Arferol	100
Jellagen Pty Ltd	Braint Arferol	100
JIVA.AI Ltd	Braint	42
Jottnar Ltd	C Arferol	100
Journalink Ltd	C Arferol	88
Just Love Food Company Holdings Ltd	Braint A Arferol	100
Kubos Semiconductors Ltd	Braint Arferol	66
KW Group (2022) Ltd	Braint Arferol	100
Laser Wire Solutions Ltd	Braint Arferol	75
Learnium Ltd	Braint Arferol	50
Llusern Scientific Ltd	A1	100
Loyalty Logistix Holdings Ltd	Braint Arferol	100
Near Me Now Ltd	Arferol	20
Nemesis Bioscience Ltd	A Braint	38
Nolan UPVC (Holdings) Ltd	Arferol	25
Nutrivend Ltd	A Braint Arferol	100
Opengenius Ltd	A Braint Arferol	100

Nodiadau ar ddatganiadau ariannol y Cwmni

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

28. Buddsoddiadau (parhad)

Daliadau sylweddol mewn mentrau sydd ddim yn is-gwmnïau (parhad)

Enw'r cwmni	Dosbarth y cyfranddaliad	% daliad
Operati Ltd	A Arferol	35
Orange Banana Software Ltd	Braint	50
Ortharize Ltd	Braint	100
Outlook Hold Ltd	C Arferol	100
Pathfinder Systems Ltd	A Arferol	25
Perpetual V2G Systems Ltd	Arferol	26
	A Arferol	51
RCT 1 Holdings Ltd	B Arferol	100
Reacta Biotech Ltd	Arferol	32
Reel Label Solutions (Holdings) Ltd	Braint Arferol	100
Riva Industries Ltd	Arferol	33
Route Konnect Ltd	Braint Arferol	50
Salus Healthcare Group Limited	A Arferol	100
Signum-Health Ltd	Braint Arferol	100
Smart Storm Ltd	Braint Arferol	58
Snowdrop Independent Living Ltd	B Arferol	100
Space Forge Ltd	Braint Arferol	100
Spacebands Ltd	Braint	64
Spotnails (Holdings) Ltd	Braint Arferol	100
Stockomendation Ltd	Braint Arferol	100
Stone Bear Capital Ltd	Braint Arferol	100
Sunscape Systems Ltd	Arferol	23
Talent Intuition Ltd	Braint Arferol	100
Talkative Ltd	Braint Arferol	45
Tazio Online Media Ltd	B Arferol	28
Thalia Design Automation Ltd	A Arferol	67
	C Arferol	67
Tourhub Ltd	A Arferol	54
Trameto Ltd	Braint Arferol	50
Trecento Diagnostics Ltd	Braint Arferol	100
Universal Synergistic Holdings Ltd	Braint Arferol	100
UPVC (Electrical and Plumbing) Ltd	Braint Arferol	100
Wagonex Ltd	Braint Arferol	32
WEPCO Ltd	A Arferol	100
WP Realisations 2022 Ltd	Braint Arferol	45
X4 Software Ltd	A Arferol	100
Yard Associates Ltd	Braint Arferol	100
Zeal Innovation Ltd	Braint Arferol	100

Nodiadau ar ddatganiadau ariannol y Cwmni

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

28. Buddsoddiadau (parhad)

Endidau strwythuredig

Mae endidau strwythuredig yn cynnwys endidau sydd wedi’u dylunio fel nad hawliau pleidleisio neu hawliau tebyg yw’r ffactor pennaf wrth benderfynu pwy sy’n rheoli’r endid, er enghraifft pan mae’r gweithgareddau perthnasol yn cael eu cyfeirio drwy berthynas gontractiol. Gan fod y Grŵp yn cyfeirio gweithgareddau buddsoddi’r cronfeydd heb eu cyfuno sy’n cael eu rheoli gan FW Capital Limited, drwy ei drefniadau rheoli buddsoddiadau a chytundebau eraill â nhw, mae’n eu hystyried yn endidau strwythuredig.

Mae’r cronfeydd hyn, a sefydlwyd fel Partneriaethau Cyfyngedig, yn darparu cymorth buddsoddi i Fusnesau Bach a Chanolig mewn rhai ardaloedd yng Nghymru a Lloegr. Mae’r Grŵp yn derbyn incwm ffioedd rheoli’r gronfa mewn perthynas â’r gwasanaethau sy’n cael eu darparu i’r cronfeydd. Nid yw’r Grŵp yn noddi’r endidau hyn ac nid oes ganddo fwrriad na rhwymedigaeth gontractiol i ad-dalu unrhyw dreuliau o’r cronfeydd yn y dyfodol. Mae’r Grŵp wedi cyfrannu swm bychan o gyfalaf at y cronfeydd, drwy FW Capital Limited, gyda’r rhan fwyaf o’r cyfalaf yn cael ei fuddsoddi gan fuddsoddwyr allanol.

Dyma fuddiannau’r Grŵp yn y cronfeydd hyn ar 31 Mawrth:

	2024	2023
	£000	£000
Buddsoddiadau mewn cronfeydd heb eu cyfuno	400	400
Dyledwyr eraill	237	315
	637	715

Mae pa mor agored yw’r Grŵp i golledion sy’n gysylltiedig â’r cronfeydd yn cael ei gynrychioli gan gyfanswm ei fuddsoddiad mewn unedau cronfa a symiau sy’n ddyledus o gronfeydd, fel sy’n cael eu dangos uchod.

29. Asedau ariannol eraill

	2024	2023
	£000	£000
Dyledwyr sy’n ddyledus o fewn blwyddyn:		
Dyledwyr masnach	18	27
Swm dyledus gan fentrau grŵp	1,685	-
Dyledwyr eraill	79	151
Rhagdaliadau ac Incwm Cronedig	696	922
	2,478	1,100

Nodiadau ar ddatganiadau ariannol y Cwmni
Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

30. Rhwymedigaethau ariannol cyfredol eraill

Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	2024	2023
	£000	£000
Credydwyr masnach	599	823
Trethi a nawdd cymdeithasol	1,670	396
Credydwyr eraill	87	31
Croniadau	1,030	1,142
Swm sy'n ddyledus i'r prif gyfranddaliwr	34,307	-
	37,693	2,392

31. Rhwymedigaethau ariannol anghyfredol eraill

	2024	2023
	£000	£000
Symiau dyledus i ymrwymadau grŵp	2,889	2,889
Swm sy'n ddyledus i'r prif gyfranddaliwr	678,876	703,446
	681,765	706,335

Mae'r symiau sy'n ddyledus i'r prif gyfranddaliwr yn ymwneud ag arian wrth gefn ar gyfer trafodion ariannol a chyllid cyfalaf craidd ac maent yn ad-daladwy erbyn 31 Mawrth 2049. Nid yw'r benthyciadau hyn wedi'u gwarantu ac nid ydynt yn dwyn llog.

Nid oes symiau masnach taladwy yn hwyr a bydd y symiau masnach taladwy a chredydwyr eraill yn cael eu setlo o fewn y cyfnod credyd sy'n cael ei gynnig gan y parti i gontract.

Atodiad A

Nid yw'r tablau canlynol yn rhan o'r datganiadau ariannol wedi'u harchwilio.

I gael esboniad pellach o'r tablau, cyfeiriwch at Adroddiad y Prif Swydddog Ariannol ar dudalen 15.

Tabl A: Dadansoddiad lefel uchel o ddatganiad incwm cyfunol cyn-treth 2024 a 2023

2024				
	Gwasanaethau	Cronfeydd	Addasiad cyfuno	Grŵp (yn ôl y datganiadau ariannol)
	£m	£m	£m	£m
Refeniw	49.0	88.4	-42.9	94.5
Costau gweithredu	-42.8	-32.6	42.9	-32.5
Darpariaethau a wnaed	-	-18.2	-	-18.2
Newidiadau mewn gwerth teg	-	-0.1	-	-0.1
Tâl llog tybiannol ar fenthyciadau LIC	-	-2.9	-	-2.9
Treth	-1.3	-1.5	-	-2.8
Elw ar ôl treth	4.9	33.1	0	38.0
2023				
	Gwasanaethau	Cronfeydd	Addasiad cyfuno	Grŵp (yn ôl y datganiadau ariannol)
	£m	£m	£m	£m
Refeniw	41.4	56.9	(36.1)	62.2
Costau gweithredu	(37.9)	(27.9)	36.1	(29.7)
Darpariaethau a wnaed	-	(16.8)	-	(16.8)
Newidiadau mewn gwerth teg	-	(30.5)	-	(30.5)
Tâl llog tybiannol ar fenthyciadau LIC	-	(9.3)	-	(9.3)
Treth	-	-	-	-
Elw ar ôl treth	3.5	(27.6)	-	(24.1)

Mae'r drydedd golofn yn y tabl uchod yn dangos yr addasiadau cyfrifyddu cyfunol a wnaed. Pan fyddwn yn cyflwyno datganiadau ariannol grŵp, mae angen i ni eu haddasu er mwyn dileu unrhyw fasnachu rhwng is-gwmnïau grŵp. Mae dileu ffigurau oherwydd masnachu rhwng is-gwmnïau yn arfer cyfrifyddu safonol. Mae'r addasiad hwn yn anweledig yn ein datganiadau

ariannol grŵp a gyflwynwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, ond rydym wedi'i gynnwys yma i ddangos sut mae ein busnes gwasanaethau yn rhyngweithio â'n busnes cronfeydd. Mae'r addasiad hwn yn tynnu £42.9 miliwn (2023: £36.1 miliwn) o gyfrifon refeniw busnes ein gwasanaethau ac o gyfrifon costau busnes ein gwasanaethau a'n cronfeydd.

Mae'r cyfanswm refeniw yng Ngholofn 4 Tabl A yn cysoni'n ôl â'r datganiad incwm cyfunol ar dudalen 125 fel a ganlyn:

	2024	2023
	£m	£m
Mae'r holl eitemau refeniw isod ar wyneb y datganiad incwm cyfunol		
Refeniw	32.2	29.1
Rhyddhau incwm grant ERDF ac incwm grant arall	20.5	20.3
Incwm llog arall	41.8	12.8
Cyfanswm refeniw yn ôl Tabl A	94.5	62.2

Mae'r cyfanswm costau ac elw ar ôl treth yng Ngholofn 4 Tabl A yn clymu'n ôl yn uniongyrchol i gyfanswm y treuliau

gweinyddol a'r elw sydd i'w gweld yn y datganiad incwm cyfunol ar dudalen 125.

Tabl B: Dadansoddiad o ddatganiad incwm cyn-treth gwasanaethau 2024 a 2023


	2024	2023	Cyfeiriad datganiadau ariannol
	£m	£m	
Incwm rheoli cronfeydd	49.0	41.4	Nodyn (i) ar ôl Tabl C isod
Cyfanswm refeniw	49.0	41.4	Tabl (A)
Costau staff	(20.6)	(18.7)	Tudalen 152 Nodyn 7
Costau eraill	(22.2)	(19.2)	Nodyn (ii) ar ôl Tabl C isod
Cyfanswm y costau	(42.8)	(37.9)	Tabl (A)
Treth	(1.3)	-	Tabl (A)
Elw ar ôl treth	4.9	3.5	Tabl (A)

Tabl C: Dadansoddiad o ddatganiad incwm cyn-treth cronfeydd 2024 a 2023

	2024	2023	Cyfeiriad datganiadau ariannol
	£m	£m	
Ffioedd a dderbyniwyd	3.8	5.0	Nodyn (i) isod
Difidendau ac incwm llog	19.2	14.6	
Llog tybiannol ar fenthyciadau CWBLS	3.1	4.2	
Cyfanswm difidendau ac incwm llog	22.3	18.8	Tudalen 151 Nodyn 5 Refeniw, llai llog
Rhyddhau grant ERDF	20.0	20.3	Tudalen 151 Nodyn 5
Rhyddhau incwm grant arall	0.5	0	Tudalen 151 Nodyn 5
Llog banc a dderbyniwyd	41.8	12.8	Tudalen 152 Nodyn 8
HTB-W Newidiadau gwerth teg: - Enillion wedi'u gwireddu ar ôl gwaredu - Enillion/(colledion) heb eu gwireddu yn ystod y flwyddyn - Gostyngiad yn y swm sy'n ddyledus i'r prif gyfranddaliwr	7.9 34.8 (42.7)	13.6 (50.6) 37.0	Datganiad Incwm Cyfunol Tudalen 125
Newid gwerth teg HTB-W net sydd i'w weld yn y datganiad incwm cyfunol	0	0	
Cyfanswm incwm net	88.4	56.9	Tabl (A)
Darpariaethau /(ffioedd wedi'u codi)	(18.2)	(16.8)	Datganiad Incwm Cyfunol Tudalen 125
Gwerth teg arall /(colledion)	(0.1)	(30.4)	Datganiad Incwm Cyfunol Tudalen 125
Gwerth teg cronfa anghyfunol (colledion)	0	(0.1)	Datganiad Incwm Cyfunol Tudalen 125
Ffioedd rheoli cronfeydd a dalwyd	(30.8)	(26.0)	Nodyn (ii) isod
Costau eraill	(1.8)	(1.9)	Nodyn (ii) isod
Llog tybiannol ar fenthyciadau WG	(2.9)	(9.3)	Datganiad Incwm Cyfunol Tudalen 125
Cyfanswm y costau	(53.8)	(84.5)	Tabl (A)
Treth	(1.5)	0	Tabl (A)
Elw/(colledion) ar ôl treth	33.1	(27.6)	Tabl (A)

Nodyn (i) – Y ffioedd sydd i'w gweld yn Nodyn 5 Tudalen 151 datganiadau ariannol Grŵp Banc Datblygu Cymru yw swm incwm rheoli'r gronfa yn Nhabl B llai'r addasiad cyfuno ynghyd â ffioedd y cronfeydd yn Nhabl C.

Nodyn(ii) – Y treuliau gweinyddol eraill sydd i'w gweld yn y datganiad incwm cyfunol ar dudalen 125 datganiadau ariannol Grŵp Banc Datblygu Cymru yw swm y costau staff a chostau eraill yn Nhabl B ynghyd â ffioedd rheoli'r gronfa a chostau eraill yn Nhabl C, llai'r addasiad cyfuno.



bancdatblygu.cymru

developmentbank.wales

Banc Datblygu Cymru Ccc (Development Bank of Wales plc) yw cwmni daliannol Grŵp sy'n masnachu fel Banc Datblygu Cymru. Mae'r Grŵp yn cynnwys nifer o is-gwmnïau sydd wedi'u cofrestru gydag enwau, gan gynnwys llythrennau cyntaf Banc Datblygu Cymru, DBW. Mae Banc Datblygu Cymru Ccc yn gwmni cyllid datblygu sy'n eiddo'n llwyr i Weinidogion Cymru ac nid yw'n cael ei awdurdodi na'i reoleiddio gan yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus (PRA) na'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA). Mae gan Fanc Datblygu Cymru dri is-gwmni sy'n cael eu hawdurdodi a'u rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol. Sylwch nad yw Banc Datblygu Cymru ccc nac unrhyw un o'i is-gwmnïau yn sefydliadau bancio nac yn gweithredu fel rhai. Mae hyn yn golygu nad oes yr un o endidau'r grŵp yn gallu derbyn adneuron gan y cyhoedd. Mae siart strwythur cyfreithiol cyflawn ar gyfer Banc Datblygu Cymru ar gael ar developmentbank.wales/cy.